

Cofnod y Trafodion

The Record of Proceedings

22/01/2013

Cynnwys Contents

[Cwestiynau i'r Prif Weinidog](#)

[Questions to the First Minister](#)

[Datganiad a Chyhoeddad Busnes](#)

[Business Statement and Announcement](#)

[Datganiad: Y Wybodaeth Ddiweddaraf am Ddarparu Gwasanaethau Addysg yng Nghymru yn y Dyfodol](#)

[Statement: Update on the Future Delivery of Education Services in Wales](#)

[Datganiad: Y Wybodaeth Ddiweddaraf am Ardaloedd Menter](#)

[Statement: Update on Enterprise Zones](#)

[Cynnig i Atal Rheol Sefydlog Rhifau 11.16, 12.20\(i\) a 27.7](#)

[Motion to Suspend Standing Order Nos. 11.16, 12.20\(i\) and 27.7](#)

[Cynnig i Gymeradwyo Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor \(Gofynion Rhagnodedig a Chynllun Diofyn\) \(Cymru\) \(Diwygio\) 2013 a Chynnig i gymeradwyo Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor \(Darpariaethau Trosiannol\) \(Cymru\) 2013](#)

[Motion to Approve the Council Tax Reduction Schemes \(Prescribed Requirements and Default Scheme\) \(Wales\) \(Amendment\) Regulations 2013 and](#)

[Motion to Approve the Council Tax Reduction Schemes \(Transitional Provisions\) \(Wales\) Regulations 2013](#)

[Cynllun Cychod Pysgota \(Dyfeisiau Olrhain Drwy Loeren a Darlledu Data Gweithgareddau Pysgota yn Electronig\) \(Cymru\) 2012](#)

[The Fishing Boats \(Satellite-Tracking Devices and Electronic Transmission of Fishing Activities Data\) \(Wales\) Scheme 2012](#)

[Dadl Cyfnod 3 o dan Reol Sefydlog Rhif 26.44 ar y Bil Sgorio Hylendid Bwyd \(Cymru\)](#)

[Stage 3 Standing Order No. 26.44 debate on the Food Hygiene Rating \(Wales\) Bill](#)

[Cynnig Cyfnod 4 o dan Reol Sefydlog Rhif 26.47 i Gymeradwyo'r Bil Sgorio Hylendid Bwyd \(Cymru\)](#)

[Stage 4 Standing Order No. 26.47 Motion to Approve the Food Hygiene Rating \(Wales\) Bill](#)

[Adroddiad Blynnyddol y Comisiynydd Pobl Hŷn](#)

[The Commissioner for Older People Annual Report](#)

Cyfarfu'r Cynulliad am 1.30 p.m. gyda'r Llywydd
(Rosemary Butler) yn y Gadair.

*The Assembly met at 1.30 p.m. with the Presiding Officer
(Rosemary Butler) in the Chair.*

13:30 **Y Llywydd / The Presiding Officer**

The National Assembly for Wales is now in session.

[Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Questions to the First Minister

Welsh Students

13:30 **Simon Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

1. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am y gostyngiad yn nifer y myfyrwyr yng Nghymru sy'n gwneud cais am brifysgolion a'r effaith ar bolisi Llywodraeth Cymru ar gyfer cyllido myfyrwyr. OAQ(4)0862(FM)

1. Will the First Minister make a statement on the reduction in the number of Welsh students applying to universities and the effect on the Welsh Government's policy as regards funding students. OAQ(4)0862(FM)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:30 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

Fel y mae'r Gweinidog Addysg a Sgiliau wedi dweud sawl gwaith, nid yw'r ffigurau cynnar wastad yn dangos beth yw'r ffigur ar ddiwedd y dydd o ran faint sydd wedi rhoi cais mewn am le mewn prifysgol.

As the Minister for Education and Skills has said a number of times, the early application figures do not always show what the final figures will be in terms of how many will have applied for a university place.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:30

Simon Thomas [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Diolch am yr ateb hwnnw, Brif Weinidog. Fodd bynnag, mae tueddiad yn dechrau ei amlygu ei hunan yn awr, er nad yw'r ffigurau cynnar mor ddibynadwy â hynny. Dros y ddwy flynedd ddiwethaf, bu gostyngiad yn nifer y myfyrwyr sy'n ceisio am le mewn prifysgolion, a gostyngiad yn benodol yn nifer y myfyrwyr o Loegr sy'n astudio yng Nghymru. Oherwydd hyn, mae Plaid Cymru yn ymgynghori ar bolisi amgen ar gyfer cyllido myfyrwyr. Tan pryd y byddwch chi'n cadw eich polisi presennol?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Thank you for that answer, First Minister. However, there is a trend starting to identify itself now, although the early figures may not be that reliable. Over the past two years, there has been a reduction in the number of students applying for university places, and a reduction specifically in the number of English students studying in Wales. As a result, Plaid Cymru is consulting on an alternative policy for student funding. Until when will you retain your current policy?

13:31

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

Y nod yw cadw'r polisi trwy gydol oes y Llywodraeth hon. Bydd etholiad ar ôl hynny, ac mae'n dibynnu beth yw barn pobl Cymru bryd hynny.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

The aim is to retain the policy for the lifetime of this Government. There will then be an election, and it will depend what the views of the people of Wales are at that time.

13:31

Jenny Rathbone [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

My concern is about the drop-off in the number of international students that universities are reporting as a result of the virulent anti-immigration agenda that is coming from the UK Government. This is having a serious impact on the numbers of students that are coming from places such as India and Malaysia, who are just saying, 'Well, we will go elsewhere; we're obviously not welcome in Wales—or the UK generally'. What can we do to counter that very damaging business case of the Welsh universities?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Fy mhryder i yw'r gostyngiad i nifer y myfyrwyr rhyngwladol a nodir gan brifysgolion o ganlyniad i agenda gwrth-fewnfudo ffyrnig Llywodraeth y DU. Mae hyn yn cael effaith ddifrifol ar niferoedd y myfyrwyr sy'n dod o leoedd fel India a Malaysia, sy'n dweud, 'Wel, Mi awn ni i rywle arall felly; mae'n amlwg nad oes croeso i ni yng Nghymru—na'r DU yn gyffredinol'. Beth allwn ni ei wneud i wrthwynebu'r achos busnes hynod niweidiol i brifysgolion Cymru?

13:32

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

There is no doubt that the perception of the UK in other countries is that it is not welcoming, particularly with regard to students. I have heard this many times, particularly in India; students are now going either to the US or to Australia, where they perceive there to be a better welcome. That is a drain of talent, as far as the UK is concerned, that might have been coming here. It is forecast that more overseas students will be coming to Wales over the course of the next few years. However, whether that forecast comes to fruition depends on the mood music that comes from the UK Government, but it is not helpful at the moment.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Nid oes amheuaeth mai'r dybiaeth am y DU mewn gwledydd eraill yw nad yw'n groesawgar, yn enwedig o ran myfyrwyr. Rwyf wedi clywed hyn droeon, yn enwedig yn India; mae myfyrwyr bellach yn mynd naill ai i'r Unol Daleithiau neu i Awstralia, lle maent yn tybio bod mwy o groeso. Mae hynny'n golled o dalent o safbwyt y DU, a allai fod wedi bod yn dod yma. Rhagwelir y bydd mwy o fyfyrwyr tramor yn dod i Gymru yn ystod y blynnyddoedd nesaf. Fodd bynnag, mae pa un a wireddir y rhagolwg hwnnw yn dibynnu ar y neges sy'n dod oddi wrth Lywodraeth y DU, ond nid yw hynny o gymorth ar hyn o bryd.

13:32

Angela Burns [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

When this £3.6 billion policy was originally announced, it was clear—looking at every university's intake of pupils from the European Union, Wales and England—that, for a number of them, their financial success would be predicated on their being able to maintain their level of English students. Given that this is now dropping, what will your special delivery unit be doing in relation to ensuring that there is real cross-collaboration between education and finance, to ensure that this is not a policy that rips the guts out of the finances of Wales?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Pan gyhoeddwyd y polisi £3.6 biliwn hwn yn wreiddiol, roedd yn eglur—o edrych ar faint o ddisgyblion yr oedd pob prifysgol yn eu derbyn o'r Undeb Ewropeaidd, Cymru a Lloegr—y byddai llwyddiant ariannol nifer ohonynt yn seiliedig ar eu gallu i gynnal eu lefel o fyfyrwyr o Loegr. O ystyried bod hyn yn gostwng erbyn hyn, beth fydd eich uned ddosbarthu arbennig yn ei wneud i sicrhau y ceir traws-gydweithredu go iawn rhwng meysydd addysg a chyllid, er mwyn sicrhau nad yw hwn yn bolisi sy'n tynnur perfedd allan o gyllid Cymru?

13:33

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)*Y Prif Weinidog / The First Minister*

I believe that it is the Royal Mail that has a special delivery unit. [Laughter.] In terms of what she says, the reality is that the policy remains robust and the final figures are not yet there for us to see. The Member should be more courageous, and she should say to the people of Wales that she wants to treble student tuition fees. Say it. Go into the election in 2016 saying that you want to treble student tuition fees—that is your challenge.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

Rwyf yn credu mai'r Post Brenhinol sydd ag uned ddosbarthu arbennig. [Chwerthin.] O ran yr hyn y mae hi'n ei ddweud, y gwirionedd yw bod y polisi'n dal i fod yn gadarn ac nid yw'r ffigurau terfynol ar gael i ni eu gweld eto. Dylai'r Aelod fod yn fwy dewr, a dylai hi ddweud wrth bobl Cymru ei bod eisiau i ffioedd dysgu myfyrwyr dreblu. Dywedwch hynny. Ewch i mewn i'r etholiad yn 2016 yn dweud eich bod am dreblu ffioedd dysgu myfyrwyr—dyna yw eich her.

13:33

Aled Roberts [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Brif Weinidog, y llynedd, newidiwyd y cylluniau ffioedd ar gyfer prifysgolion unigol. Mae Cyngor Cyllico Addysg Uwch Cymru wedi agor ymgynghoriad pellach ar 15 Ionawr, sy'n cau ar 26 Chwefror. A fu unrhyw drafodaethau rhwng y Llywodraeth a HEFCW ynglŷn â diffyg cyllid o ran HEFCW ar gyfer y flwyddyn sy'n dod?

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

First Minister, last year, the fees schemes for individual universities were changed. The Higher Education Funding Council for Wales started a further consultation on 15 January, which closes on 26 February. Have there been any discussions between the Government and HEFCW regarding a deficiency in the funding as regards HEFCW for the ensuing year?

13:34

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Na, nid oes unrhyw ddiffygion wedi cael eu dangos hyd yma. Yr ydym yn gobeithio, fel y digwyddodd y llynedd, y bydd nifer y myfyrwyr yn codi o ran y rhai sy'n derbyn lle mewn prifysgolion yng Nghymru. Digwyddodd hynny y llynedd, er bod y ffigurau wedi bod lawr yn ystod mis Ionawr.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

No; no deficits have been identified to date. We hope that, as was the case last year, the number of students will increase in terms of those accepting university places in Wales. That is what occurred last year, although the figures have been down in January.

13:34

David Rees [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

First Minister, in previous answers to questions to the Minister for Education and Skills, the Minister has indicated that funding for part-time students has been deferred for further consideration. Can you assure me that this reduction in full-time student applications will not delay the reduction of fee support for part-time students here in Wales?

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

Brif Weinidog, mewn atebion blaenorol i gwestiynau i'r Gweinidog Addysg a Sgiliau, mae'r Gweinidog wedi nodi bod cyllid ar gyfer myfyrwyr rhan-amser wedi cael ei ohirio i'w ystyried ymhellach. A allwch chi fy sicrhau na fydd y gostyngiad hwn yn nifer y ceisiadau i fod yn fyfyrwyr llawn amser yn oedi'r gostyngiad i gymorth ffioedd ar gyfer myfyrwyr rhan-amser yma yng Nghymru?

13:34

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)*Y Prif Weinidog / The First Minister*

I can say to the Member that part-time students are able to apply for a means-tested fee grant, a means-tested course grant, and other means-tested targeted support in the form of childcare grants, adult dependants' grants and the parents' learning allowance. Those are still available to part-time students during the course of the assessment.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

Gallaf ddweud wrth yr Aelod bod myfyrwyr rhan-amser yn gallu gwneud cais am grant ffi ar sail prawf modd, grant cwrs ar sail prawf modd, a chymorth arall wedi'i darged ar sail prawf modd ar ffurf grantiau gofal plant, grantiau oedolion dibynnol a'r lwfans dysgu i rieni. Mae'r rhain yn dal i fod ar gael i fyfyrwyr rhan-amser yn ystod yr asesiad.

Cynhyrchu Bwyd yn Gynaliadwy**Sustainable Food Production**

13:35

William Powell [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

2. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am gynhyrchu bwyd yn gynaliadwy ledled Cymru. OAQ(4)0865(FM)

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

2. Will the First Minister make a statement on sustainable food production across Wales. OAQ(4)0865(FM)

13:35

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

We very much support sustainable food production. We know that food production makes a contribution, not just economically, but to the social sustainability of many of our communities.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Rydym yn sicr yn cefnogi cynhyrchu bwyd cynaliadwy. Rydym yn gwybod bod cynhyrchu bwyd yn gwneud cyfraniad, nid o safbwyt economaidd yn unig, ond at gynaliadwyedd cymdeithasol llawer o'n cymunedau.

13:35

William Powell [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I would like to thank the First Minister very much for that answer. In recent weeks, I have been contacted by several farmers who are interested in creating a sustainable Welsh-branded strawberry for the British market. Such an endeavour would require inevitably the use of polytunnels on a significant scale—in some cases, above 15 ha. However, in scoping these plans, the farmers concerned have experienced considerable difficulty in getting consistent planning advice from several Welsh local authorities. In that context, what steps are you prepared to take to ensure that greater clarity and consistency is available to such people looking forward to developing such an enterprise?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Hoffwn ddiolch yn fawr iawn i'r Prif Weinidog am yr ateb yna. Yn ystod yr wythnosau diwethaf, mae sawl ffermwyr wedi cysylltu â mi, sydd â diddordeb mewn creu mefus cynaliadwy â brand Cymreig ar gyfer y farchnad Brydeinig. Mae'n anochel y byddai menter o'r fath yn golygu defnyddio twnelau polythen ar raddfa sylweddol—dros 15 hectar mewn rhai achosion. Fodd bynnag, wrth gwmpasu'r cynlluniau hyn, mae'r ffermwyr dan sylw wedi cael cryn anhawster yn cael cyngor cynllunio cyson gan sawl awdurdod lleol yng Nghymru. Yn y cyd-destun hwn, pa gamau yr ydych chi'n barod i'w cymryd i sicrhau bod mwy o eglurder a chysondeb ar gael i bobl o'r fath sy'n edrych ymlaen at ddatblygu menter o'r fath?

13:36

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

It is not an isolated incident that the Member refers to. He will be aware that the planning Bill will begin its progress during the course of this year and these are issues that we want to address. I have heard on many occasions that the planning system is not responsive enough, and sometimes not consistent enough, to deal with planning applications. That is why, during the course of the planning Bill, we want to make sure that we have a more responsive and swifter planning system.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Nid yw'r digwyddiad y mae'r Aelod yn cyfeirio ato yn unigryw. Bydd yn ymwybodol y bydd datblygiad y Bil cynllunio yn cychwyn yn ystod y flwyddyn hon ac mae'r rhain yn faterion yr ydym yn dymuno mynd i'r afael â hwy. Rwyf wedi clywed ar sawl achlysur nad yw'r system gynllunio yn ddigon ymatebol, ac weithiau nad yw'n ddigon cyson, i ymdrin â cheisiadau cynllunio. Dyna pam, yn ystod datblygiad y Bil cynllunio, ein bod am sicrhau bod gennym system gynllunio fwy ymatebol a chyflymach.

13:36

Kenneth Skates [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

First Minister, the cost of food has risen by 32% in the last five years, placing enormous pressure on school budgets. In the last month, Wrexham Council has estimated that it has overspent by £100,000. First Minister, will you join me for a school canteen visit next time you are in north Wales, so that we can discuss with teachers, pupils and suppliers what work the Welsh Government can do to look at the financial sustainability of our school catering services?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Brif Weinidog, mae cost bwyd wedi cynyddu 32% yn ystod y pum mlynedd diwethaf, gan roi pwysau enfawr ar gyllidebau ysgolion. Yn ystod y mis diwethaf, mae Cyngor Wrecsam wedi amcangyfrif ei fod wedi gorwario o £100,000. Brif Weinidog, a wnewch chi ymuno â mi ar ymweliad â frentur ysgol y tro nesaf y byddwch yng ngogledd Cymru, fel y gallwn drafod gydag athrawon, disgylion a chyflenwyr pa waith y gall Llywodraeth Cymru ei wneud i ystyried cynaliadwyedd gwasanaethau arlywo ein hysgolion?

13:37

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

I can say, for example, that the Healthy Eating in Schools (Wales) Measure 2009 gives a legislative foundation to the approach that we are taking forward in 'Appetite for Life'. The relevant provisions in the Measure are to be commenced later this year. The standards set out in 'Appetite for Life' are important and the regulations surrounding food and drink provided in schools will be introduced this year, and that will have an effect in terms of ensuring that children get a nutritious school meal.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Gallaf ddweud, er enghraifft, bod Mesur Bwyta'n lach mewn Ysgolion (Cymru) 2009 yn rhoi sail ddeddfwriaethol i'r dull yr ydym yn ei ddefnyddio ar gyfer 'Blas am Oes'. Bydd y darpariaethau perthnasol yn y Mesur yn cychwyn yn ddiweddarach eleni. Mae'r safonau a nodir yn 'Blas am Oes' yn bwysig a bydd y rheoliadau sy'n ymwned â bwyd a diod a ddarperir mewn ysgolion yn cael eu cyflwyno eleni, a bydd hynny'n cael effaith o ran sicrhau bod plant yn cael pryd bwyd maethlon yn yr ysgol.

13:37

Paul Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Brif Weinidog, un o'ch blaenoriaethau yn eich rhaglen llywodraethu yw cefnogi'r diwydiant cynhyrchu bwyd drwy ddatblygu, hyrwyddo a marchnata bwyd o Gymru. Roedd eich Llywodraeth wedi addo cyhoeddi dogfen strategol y llynedd i ganolbwytio ar hynny. O gofio pwysigrwydd y diwydiant i economi Cymru, a allwch ddweud wrthym pryd fydd eich Llywodraeth mewn sefyllfa i gyhoeddi ei dogfen strategol, fel y gallwn weld beth yw blaenoriaethau eich Llywodraeth ar gyfer bwyd a diod?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

First Minister, one of your priorities in your programme for government is to support the food production industry by developing, promoting and marketing food from Wales. Your Government promised to publish a strategy document last year to focus on that. Bearing in mind the importance of the industry to the Welsh economy, can you tell us when your Government will be in a position to publish its strategy document, so that we can see what the priorities of your Government are for food and drink?

13:38

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

Wrth gwrs, rydym wedi cefnogi bwyd cynaliadwy dros y blynnyddoedd. Mae'r sector yn flaenoriaeth i'r Adran Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth. Mae'r diwydiant yn cael help mewn sawl ffordd, gan gynnwys cefnogaeth gyda chyfalaf, datblygu cynyrrch newydd ac ymchwil. Mae sawl math o gefnogaeth yn cael ei rhoi i'r sector bwyd yng Nghymru. Rydym wedi gweld y sector yn tyfu'n gryf iawn dros y blynnyddoedd diwethaf.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Of course, we have supported sustainable food over the years. This is a priority sector for the Department for Business, Enterprise, Technology and Science. There are a number of ways in which the industry is assisted, including capital support, support for the development of new products and research. There are many aspects of support provided to the food sector in Wales. We have seen that sector developing strongly over the past few years.

13:38

Yr Arglwydd / Lord Elis-Thomas [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Bydd y Prif Weinidog yn ymwybodol, o'r cyfnod yn ystod ei yrfa lwyddiannus yng ngwleidyddiaeth Cymru fel Gweinidog amaeth, bod cynhyrchu bwyd cynaliadwy yng Nghymru yn ddibynnol ar farchnad gig oen ddiogel. Felly, a all y Prif Weinidog ddweud beth mae ei Lywodraeth yn gwneud nawr i ddelio gyda'r argywng yn y farchnad gig oen a'r gosyngiad arfaethedig mewn incwm i amaethwyr, ac yn arbennig i ddelio gyda'r hyn sy'n digwydd yn Ynys Môn ac mewn llefydd eraill, ynglŷn â'r gallu i gynhyrchu a phrosesu bwyd yng Nghymru, yn enwedig cig coch, oherwydd pwysigrwydd hynny i'r economi?

The First Minister will be very much aware, given his successful tenure in Welsh politics as a Minister for agriculture, that sustainable food production in Wales is dependent upon a secure lamb market. So, can the First Minister tell us what his Government is doing to deal with the crisis in the lamb market and the prospective decline in the income of farmers, and especially to deal with what is happening on Anglesey and in other locations in terms of the ability to produce and process food in Wales, particularly red meat, because of the importance of that to our economy?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:39

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

Diolch i'r Aelod am ei ddatganiad ynglŷn â fy ngyrfa ym myd amaeth. Mae'r mater hwn yn ein pryderu ni, a ffermwyr, yn fawr iawn. Bydd y Gweinidog yn gwneud datganiad ynglŷn â hyn yfory.

I thank the Member for his comment about my career in agriculture. This matter concerns us, and farmers, very much. The Minister will be making a statement on this tomorrow.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:39

Antoinette Sandbach [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

First Minister, last Thursday I was delighted to host the National Federation of Women's Institutes' Great Food debate here in the Assembly to discuss the global implications of food security. Will you join me in welcoming the contribution that the WI is making to this important area of public policy? Can you confirm what new targets you will be setting this year to increase the proportion of Welsh food and drink that is procured by the public sector in Wales, as this figure was just 23% when it was last measured?

Brif Weinidog, roeddwn yn falch iawn o gynnal trafodaeth Fawr ar Fwyd Ffederasiwn Cenedlaethol Sefydliadau'r Merched yma yn y Cynulliad ddydd lau diwethaf, i drafod goblygiadau byd-eang diogelwch bwyd. A wnewch chi ymuno â mi i goresawu'r cyfraniad y mae Sefydliad y Merched yn ei wneud at y maes polisi cyhoeddus pwysig hwn? A allwch chi gadarnhau pa dargedau newydd y byddwch yn eu gosod eleni i gynyddu'r gyfran o fwyd a diod o Gymru sy'n cael ei gaffael gan y sector cyhoeddus yng Nghymru, gan mai dim ond 23% oedd y ffigur hwn pan y'i mesurwyd ddiwethaf?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Setting targets would be illegal under European law; we cannot do that because of issues regarding state aid. We can, of course, have aspirations. If you look, for example, at procurement in the public sector you will see that it has increased remarkably over the past few years, mainly because of the assistance that we have given to companies to enable them to supply the larger public sector contracts—Welsh beef in hospitals being one such example. I very much welcome the WI's contribution to the debate. I have been part of those debates in years gone by in various different parts of Wales, and I know that the WI takes a very vigorous, active and positive role in support of Welsh sustainable food production.

Byddai gosod targedau yn anghyfreithlon dan gyfraith Ewrop; ni allwn wneud hynny oherwydd materion yn ymwneud â chymorth gwladwriaethol. Gallwn gael dyheadau, wrth gwrs. Os edrychwr chi ar gaffael yn y sector cyhoeddus, er enghraift, byddwr yn gweld ei fod wedi cynyddu'n rhyfeddol dros y blynnyddoedd diwethaf, yn bennaf oherwydd y cymorth yr ydym wedi ei roi i gwmniau i'w galluogi i gyflenwi'r contractau sector cyhoeddus mwy—ac mae cig eidion o Gymru mewn ysbtyai yn un enghraift o'r fath. Rwyf yn croesawu cyfraniad Sefydliad y Merched at y drafodaeth yn fawr. Rwyf wedi bod yn rhan o'r trafodaethau hynny mewn gwahanol rannau o Gymru yn y gorffennol, a gwn fod Sefydliad y Merched yn cyflawni swyddogaeth rymus, ymarferol a chadarnhaol iawn i gefnogi cynhyrchu bwyd cynaliadwy yng Nghymru.

Cwestiynau Heb Rybudd gan Arweinwyr y Pleidiau**Andrew R.T. Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)*Arweinydd yr Wrthblaid / The Leader of the Opposition*

First Minister, we have had pretty inclement weather over the last couple of days, and although it has not been on the same scale as some of the blizzards and horrendous weather that we have had in previous years, it has placed tremendous demands on our public services. As a Government, you are in a unique position to be able to see some of the problems that public services face, such as the health service and education. What update can you give the Chamber today? Will you commend some of our key public sector workers in many of our hospitals, for example, who have stayed overnight so that they could be there to look after patients? What sort of consequences there will be, going forward, from the information that you have been provided with by the partner bodies that supply these services?

Questions Without Notice from the Party Leaders**Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)*Y Prif Weinidog / The First Minister*

The information that we have is that the emergency services coped very well with what happened last Friday. The roads were cleared reasonably quickly, although part of the M4 between Bridgend and Pyle was closed for a while. However, given the volume of the snow, the fact that the roads were cleared as quickly as they were is testament to the hard work of so many people. A substantial amount of grit that has been kept in various supply depots by Welsh local authorities has been used. The ambulances seem to have coped with the weather, and the railway services were back to normal by Friday evening. Given the past experiences that we have had with snow, I think that it is right to say that we have coped with this snowfall in a far better way than perhaps has happened in many years gone by.

Y wybodaeth sydd gennym yw bod y gwasanaethau brys wedi ymdopi'n dda iawn â'r hyn a ddigwyddodd ddydd Gwener diwethaf. Cliriwyd y ffyrdd yn weddol gyflym, er bod rhan o'r M4 rhwng Pen-y-bont ar Ogwr a'r Pil ar gau am gyfnod. Fodd bynnag, o ystyried faint o eira a gafwyd, mae'r ffaith y cliriwyd y ffyrdd mor gyflym yn glod i waith caled cymaint o bobl. Defnyddiwyd swm sylwedol o raeau a gadwyd mewn depoys cyflenwi amrywiol gan awdurdodau lleol Cymru. Mae'n ymddangos bod yr ambiwlansys wedi ymdopi â'r tywydd, ac roedd y gwasanaethau rheilffordd wedi dychwelyd at yr amserlen arferol erbyn nos Wener. O ystyried y profiadau yr ydym wedi eu cael gydag eira yn y gorffennol, rwyf yn credu ei bod yn gywir dweud ein bod wedi ymdopi â'r eira hwn mewn ffordd llawer gwell na'r hyn sydd wedi digwydd mewn sawl blwyddyn yn y gorffennol, efallai.

13:42

Andrew R.T. Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

One of the consequences of the weather is the effect on the economy, and I notice that the 'Wales on Sunday' said that, to date, the cold snap had cost the Welsh economy £50 million. That could be an arbitrary figure, but there is a considerable knock-on effect, as anyone will tell you as they went around at the weekend with shops, pubs and restaurants closed. Many of those small microbusinesses are struggling at the moment and require assistance that would allow them to carry on trading and to grow their businesses. Do you agree that it is today and going forward that we need to put greater measures of support in place for small and medium-sized businesses in Wales to rebuild our economy, so that it is more competitive with the rest of the United Kingdom, and to create more jobs within the economy?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:43

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

I know that businesses were affected; I saw some of them closed on Saturday and Sunday, as the leader of the opposition rightly says. I do not think that it is possible to help businesses over a particular weather incident, but, in general, he asks what we are doing in general to support SMEs: we have the small business rate relief scheme, which his party has welcomed; we have the Wales SME growth fund; we have loans for microbusinesses; and, through the planning Bill, we are looking at ways of simplifying the planning system as far as SMEs are concerned.

Un o ganlyniadau'r tywydd yw'r effaith ar yr economi, a sylwais fod y 'Wales on Sunday' yn dweud bod y tywydd oer wedi costio £50 miliwn i economi Cymru hyd yma. Efallai bod hwn yn ffigur mympwyol, ond ceir sgil-effaith sylweddol, fel y bydd unrhyw un yn ei ddweud wrthych wrth iddynt fynd o gwmpas ar y penwythnos, pan oedd siopau, tafarnai a bwytai ar gau. Mae llawer o'r microfusnesau bach hynny yn ei chael hi'n anodd ar hyn o bryd ac maent angen cymorth a fyddai'n eu galluogi i barhau i fasnachu ac i dyfu eu busnesau. A ydych yn cytuno mai heddiw ac wrth symud ymlaen y mae angen i ni sefydlu mwy o fesurau cymorth ar gyfer busnesau bach a chanolig eu maint yng Nghymru i ailadeiladu ein heconomi, fel ei fod yn fwy cystadleuol gyda gweddill y Deyrnas Unedig, ac i greu mwy o swyddi o fewn yr economi?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:43

Andrew R.T. Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I agree that a weather incident on its own does not need that level of support for businesses, but we are in a particularly challenging economic climate. Yesterday, we launched our invest in Wales strategy that would offer immediate support to businesses across Wales by providing a lending system that would allow small and medium-sized businesses in Wales to seek that financing on a very localised basis, so that there would be local decision-making in relation to their businesses. I commend this document to you, First Minister, and I would encourage your Government to look at it because it is a worked-up document that could deliver solutions to some of the lending problems that many small and medium-sized businesses face in Wales, which is holding them back so that they are not able to create jobs and prosperity in their local economies.

Rwyf yn gwybod bod busnesau wedi cael eu heffeithio; gwelais rai ohonynt ar gau ddydd Sadwrn a dydd Sul, fel y mae arweinydd yr wrthblaid yn ei nodi'n gywir. Nid wyf yn credu ei bod yn bosibl helpu busnesau yn sgil digwyddiad tywydd penodol, ond, yn gyffredinol, mae'n gofyn beth yr ydym yn ei wneud i gefnogi BBaChau yn gyffredinol: mae'r cynllun rhyddhad ardrethi i fusnesau bach ar gael gennym, y mae ei blaid ef wedi ei groesawu; mae'r gronfa twf BBaChau Cymru gennym; mae gennym fenthyciadau i ficrofusnesau; a, thrwy'r Bil cynllunio, rydym yn ystyried ffyrdd o symleiddio'r system gynllunio cyn belled ag y mae BBaChau yn y cwestiwn.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Rwyf yn cytuno nad yw un digwyddiad tywydd ar ei ben ei hun yn gofyn am y lefel honno o gymorth i fusnesau, ond rydym mewn hinsawdd economaidd arbennig o heriol. Ddoe, lansiwyd ein strategaeth Buddsoddi yng Nghymru a fyddai'n cynnig cymorth uniongyrchol i fusnesau ledled Cymru trwy ddarparu system fenthyc a fyddai'n caniatáu i fusnesau bach a chanolig eu maint yng Nghymru chwilio am y cyllid hwnnw ar sail leol iawn, fel y byddai penderfyniadau'n ymwnaed â'u busnesau yn cael eu gwneud yn lleol. Cymeradwyaf y ddogfen hon i chi, Brif Weinidog, a byddwn yn annog eich Llywodraeth i'w darllen, gan ei bod yn ddogfen weithio i fyny a allai ddarparu atebion i rai o'r problemau benthyca y mae llawer o fusnesau bach a chanolig eu maint yn eu hwynebu yng Nghymru, sy'n eu dal yn ôl fel na allant greu swyddi a ffyniant yn eu heconomiau lleol.

I would argue that Finance Wales is doing this. I noted the press release that was sent out by his party—I always note these press releases—which suggested that Finance Wales gives grants out. It does not give grants out—it provides commercially repayable loans; I need to make that absolutely clear. However, he raises the point of what can be done to assist businesses to get access to finance. He will be aware that there is a review being carried out at the moment by a member of his party, Professor Dylan Jones-Evans, who is looking at the effect of lack of finance, particularly on the high street and on small businesses, and we await the results of that work with great interest.

Byddwn yn dadlau bod Cyllid Cymru yn gwneud hyn. Nodais y datganiad i'r wasg a anfonwyd allan gan ei blaidd—rwyf yn nodi'r datganiadau hyn i'r wasg bob amser—a oedd yn awgrymu bod Cyllid Cymru yn dosbarthu grantiau. Nid yw'n dosbarthu grantiau—mae'n darparu benthyciadau masnachol ad-daladwy; mae angen i mi wneud hynny'n gwbl eglur. Fodd bynnag, mae'n codi'r pwyt am yr hyn y gellir ei wneud i gynorthwyo busnesau i gael mynediad at gyllid. Bydd yn ymwybodol bod adolygiad yn cael ei gynnwl ar hyn o bryd gan aelod o'i blaidd, yr Athro Dylan Jones-Evans, sy'n ystyried effaith diffyg cyllid, yn enwedig ar y stryd fawr ac ar fusnesau bach, ac rydym yn aros am ganlyniadau'r gwaith hwnnw gyda diddordeb mawr.

13:45

13:45

First Minister, you were challenged last week on health reorganisation, and once again you gave a non-committal answer, which said that centralisation was in the hands of the local health boards. Last Friday, Betsi Cadwaladr University Local Health Board announced that north Wales would have no tier 3 neonatal care, and that families would be expected to go across the border to Arrowe Park Hospital. Given your previous condemnation of the privatised and fragmented English health service, can you tell us whether you agree with that proposal?

Brif Weinidog, cawsoch eich herio ar ad-drefnu maes iechyd yr wythnos ddiwethaf ac, unwaith eto, rhoesoch ateb gofalus, a ddywedodd mai'r byrddau iechyd lleol sy'n gyfrifol am ganoli. Ddydd Gwener diwethaf, cyhoeddodd Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr na fyddai gan ogledd Cymru unrhyw ofal newyddenedigol haen 3, ac y byddai disgwl i deuluoedd groesi'r ffin i Ysbyty Arrowe Park. O ystyried eich condemnasiad blaenorol o wasanaeth iechyd Lloegr, sydd wedi'i breifateiddio ac yn dameidiog, a allwch chi ddweud wrthym pa un a ydych chi'n cytuno â'r cynnig hwnnw?

13:46

I want to see a safe and sustainable health service. I have no doubt that the party opposite wishes to see that as well, but, as I explained last week, and as her colleague full well knows, having been in Government, if the community health council decides to refer the proposals to the Minister, the final decision would have to be taken by Welsh Government Ministers. On that basis, it is not possible to express a view at this stage, as it would undoubtedly be used in any judicial review. Therefore, as much as I would like to express a view, the reality is that that cannot be done at this stage. However, of course, as a Government, we will express a view in due course.

Rwyf am weld gwasanaeth iechyd diogel a chynaliadwy. Nid oes gennyl unrhyw amheuaeth bod y blaidd gyferbyn yn dymuno gweld hynny hefyd, ond, fel yr eglurais yr wythnos diwethaf, ac fel y mae ei chydweithiwr yn gwybod yn iawn, ar ôl bod yn y Llywodraeth, os bydd y cyngor iechyd cymuned yn penderfynu atgyfeirio'r cynigion at y Gweinidog, byddai'n rhaid i'r penderfyniad terfynol gael ei wneud gan Weinidogion Llywodraeth Cymru. Ar y sail honno, nid yw'n bosibl mynegi barn ar hyn o bryd, gan y byddai'n sicr yn cael ei ddefnyddio mewn unrhyw adolygiad barnwrol. Felly, cymaint ag yr hoffwn fynegi barn, y gwirionedd yw na ellir gwneud hynny ar hyn o bryd. Fodd bynnag, fel Llywodraeth, wrth gwrs, byddwn yn mynegi barn maes o law.

13:46

Leanne Wood [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

First Minister, your Government continues to make the case for the centralisation of health services. During questions to the First Minister last week, I made reference to a study by the University of Sheffield that shows that there is a 1% increase in the chance of death for every additional 10 km travelled in an emergency. Today, mountain passes are closed, roads are blocked and there are delays due to the weather. Our health service and ambulances must be able to cope whatever bad weather we get. How can your Government ensure that ambulance services operate properly in all weather? Will you agree to oppose centralisation that puts lives at risk, especially in adverse weather conditions?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Brif Weinidog, mae eich Llywodraeth yn parhau i gefnogi'r achos dros ganoli gwasanaethau iechyd. Yn ystod cwestiynau i'r Prif Weinidog yr wythnos diwethaf, cyfeiriais at astudiaeth gan Brifysgol Sheffield sy'n dangos bod cynnydd o 1% o ran y posibilrwydd o farwolaeth yn ystod pob 10 cilomedr ychwanegol a deithir mewn argyfwng. Heddiw, mae bylchau drwy'r mynyddoedd wedi cau, ceir rhwystrau ar ffyrdd a cheir oediadau oherwydd y tywydd. Mae'n rhaid i'n gwasanaeth iechyd a'n hambwlansys allu ymdopi beth bynnag fo'r tywydd gwael a gawn. Sut all eich Llywodraeth sicrhau bod gwasanaethau ambiwlans yn gweithredu'n briodol ym mhob tywydd? A wnewch chi gytuno i wrthwynebu canoli sy'n peryglu bywydau, yn enwedig mewn tywydd garw?

13:27

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

No Government would support any scheme that would put lives at risk. However, the argument that I would use with the leader of Plaid Cymru is this: if there is no change in the health service, lives will be put at risk. The reality is that it is important to be within a reasonable distance of medical services, but you have to make sure that the people who are providing those medical services are properly qualified in the first place. That means that there will inevitably be some conditions for which treatments have to be delivered in centres of excellence and expertise. We already do that with burns and neurosurgery. It has to be done that way. You have to have people who are experienced and practised in what they are doing to deliver the best outcomes for patients. Of course, there is a debate to be had as to how that is achieved and what the balance should be between local delivery and specialised delivery, and that debate will, no doubt, take place over the next few months.

Ni fyddai yr un Llywodraeth yn cefnogi unrhyw gynllun a fyddai'n peryglu bywydau. Fodd bynnag, y ddadl y byddwn yn ei defnyddio gydag arweinydd Plaid Cymru yw hon: os nad oes unrhyw newid i'r gwasanaeth iechyd, bydd bywydau yn cael eu peryglu. Y gwir amdani yw ei bod yn bwysig bod o fewn pellter rhesymol i wasanaethau meddygol, ond mae'n rhaid i chi sicrhau bod y cymwysterau cywir gan y bobl sy'n darparu'r gwasanaethau meddygol hynny yn y lle cyntaf. Mae hynny'n golygu ei bod yn anochel y bydd rhai cyflyrau y mae'n rhaid darparu triniaethau ar eu cyfer mewn canolfannau rhagoriaeth ac arbenigedd. Rydym yn gwneud hynny gyda llosgiadau a niwrolawdriniaeth eisoes. Mae'n rhaid gwneud pethau yn y ffordd honno. Mae'n rhaid i chi gael pobl sy'n brofiadol ac sydd wedi arfer â'r hyn y maent yn ei wneud i gyflawni'r canlyniadau gorau i gleifion. Wrth gwrs, gellir dadlau am sut y cyflawnir hynny a beth ddyllai'r cydbwysedd fod rhwng darpariaeth leol a darpariaeth arbenigol ac, yn ddiau, caiff y ddadl honno ei chynnal dros y misoedd nesaf.

13:48

Leanne Wood [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The guidance and policies that are followed by local health boards are drawn up by your Government. Your Government is in charge of the direction of health policy in Wales. First Minister, you are the Government. You are responsible. When will you take responsibility for this, instead of hiding away from it?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Mae'r canllawiau a'r polisiau sy'n cael eu dilyn gan fyrrdau iechyd lleol yn cael eu llunio gan eich Llywodraeth chi. Eich Llywodraeth chi sy'n gyfrifol am gyfeiriad polisi iechyd yng Nghymru. Brif Weinidog, chi yw'r Llywodraeth. Chi sy'n gyfrifol. Pryd wnewch chi gymryd cyfrifoldeb am hyn, yn hytrach na chuddio oddi wrtho?

13:48

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

We are responsible. We say that we need a safe and sustainable health service. What she seems to be saying is that she would ignore the views of doctors, and, if doctors say that a particular service is not safe, that does not matter, what matters is the provision of service locally, even if that cannot be done at a practical level or cannot be done safely. Now, I do not think that that is her argument, but that is the impression that she gives. What we want to do is to make sure that services are safe. That is it: end of story. I do not want to see situations in Wales like those that happened 15 or 20 years ago, when people died because they were operated on by people who were not properly qualified. I saw it often enough in my previous incarnation as a lawyer. I never want to see those days return. That has not happened for a long time in Wales. The system is certainly better now. However, we want to make sure that the system continues to be safe and sustainable, and continues to deliver for the people of Wales. There will be a debate, and there will be concern about what the balance should be between the provision of a local service and the provision of a specialised service. However, what I want to see is that debate take place rationally, so that we can deliver a health service that I believe we all want to see.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Rydym ni'n gyfrifol. Rydym yn dweud bod angen gwasanaeth iechyd diogel a chynaliadwy arnom. Mae'n ymddangos ei bod hi'n dweud y byddai'n anwybyddu barn meddygon, ac, os bydd meddygon yn dweud nad yw gwasanaeth penodol yn ddiogel, nad oes ots am hynny, yr hyn sy'n bwysig yw darparu gwasanaeth yn lleol, hyd yn oed os na ellir gwneud hynny ar lefel ymarferol neu na ellir ei wneud yn ddiogel. Nawr, nid wyf i'n credu mai dyna yw ei dadl, ond dyna'r argraff y mae'n ei rhoi. Yr hyn rydym am ei wneud yw sicrhau bod gwasanaethau yn ddiogel. Dyna'r cwbl: diwedd y gân. Nid wyf am weld sefyllfaoedd yng Nghymru fel y rhai a ddigwyddodd 15 neu 20 mlynedd yn ôl, pan roedd pobl yn marw oherwydd iddynt dderbyn llawdriniaeth gan bobl nad oedd y cymwysterau priodol ganddynt. Gwelais hyn yn ddigon aml yn fy mywyd blaenorol fel cyfreithiwr. Nid wyf byth am weld y diwrnodau hynny'n dychwelyd. Nid yw hynny wedi digwydd yng Nghymru ers amser maith. Mae'r system yn sicr yn well nawr. Fodd bynnag, rydym am sicrhau bod y system yn parhau i fod yn ddiogel a chynaliadwy, ac yn parhau i gyflawni ar gyfer pobl Cymru. Bydd dadl yn digwydd, a bydd pryder o ran y cydbwysedd rhwng y ddarpariaeth o wasanaeth lleol a'r ddarpariaeth o wasanaeth arbenigol. Fodd bynnag, hoffwn weld y ddadl honno'n cael ei chynnal mewn modd rhesymol, fel y gallwn ddarparu gwasanaeth iechyd yr wyf yn credu y mae pob un ohonom eisiau ei weld.

13:49

Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

We now move to questions from the leader of the Welsh Liberal Democrats, Kirsty Williams.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Symudwn nawr at gwestiynau gan arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, Kirsty Williams.

13:49

Kirsty Williams [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru / The Leader of the Welsh Liberal Democrats

First Minister, by how much will the Glastir budget be underspent this financial year?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Brif Weinidog, o faint y bydd cyllideb Glastir wedi cael ei thanwario yn ystod y flwyddyn ariannol hon?

13:49

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

That is something that we will know by the end of the financial year.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Mae hynny'n rhywbeth y byddwn yn ei wybod erbyn diwedd y flwyddyn ariannol.

13:49

Kirsty Williams [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I am sure, First Minister, that your officials are busily working away on those figures, given that it is only eight weeks away. Those who have some knowledge of the industry suspect that there will be a substantial underspend. Every member state of the EU has some kind of financial support for farming in less-favoured areas. England, Scotland and Northern Ireland all have dedicated schemes of support for less-favoured areas. As you well know, 80% of Welsh agricultural land is in a less-favoured area, yet today your Deputy Minister has said that he has not seen any evidence that an LFA scheme is the panacea that some people suggest for the current difficulties in the industry. What does your Deputy Minister know that every other EU Minister does not?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Rwyf yn siŵr, Brif Weinidog, fod eich swyddogion yn gweithio'n ddylaf ar y ffigurau hynny, o ystyried ei fod wyth wythnos yn unig i ffwrdd. Mae'r rhai sy'n gwybod rhywfaint am y diwydiant yn amau y bydd tanwario sylweddol. Mae gan bob aelod-wladwriaeth o'r UE ryw fath o gymorth ariannol ar gyfer ffermio mewn ardaloedd llai ffafriol. Mae gan Loegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon gynlluniau cymorth pwrrpasol ar gyfer ardaloedd llai ffafriol. Fel y gwyddoch yn iawn, mae 80% o dir amaethyddol Cymru mewn ardaloedd llai ffafriol, ac eto mae eich Dirprwy Weinidog wedi dweud heddiw nad yw wedi gweld unrhyw dystiolaeth mai cynllun ALFF yw'r ateb i bob problem y mae rhai pobl yn ei awgrymu o ran yr anawsterau presennol yn y diwydiant. Beth mae eich Dirprwy Weinidog yn ei wybod nad yw holl Weinidogion eraill yr UE yn ei wybod?

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)*Y Prif Weinidog / The First Minister*

The Member seems to suggest that there can be a return to Tir Mynydd, but there cannot be a return to Tir Mynydd as the regulations have long changed. That is something that we recognise and it is something, in fairness—although I know that she will argue that it is a different scheme—that the previous Minister for rural affairs knew as well. There is simply no going back to a scheme that used to be in place. We will always argue for schemes that assist upland farmers. I know through my experience of dealing with the Department for Environment, Food and Rural Affairs that it is not interested in upland farms. It never has been, in reality. Its idea of farming is of large farms producing large arable crops. That has been the case for years. It has always taken a dim view of the upland. That has been the case, in terms of dealing with officials, regardless of which party is in power in DEFRA. We take a very different view. Our view is that upland farms are important for the socioeconomic sustainability and the fabric of our rural areas. That is what we will always bear in mind when introducing schemes. However, I ask the leader of the Welsh Liberal Democrats to understand that we cannot go back to the way things were because the rules have changed at a European level.

Mae'n ymddangos bod yr Aelod yn awgrymu y gellid dychwelyd i Dir Mynydd, ond ni ellir dychwelyd i Dir Mynydd gan fod y rheoliadau wedi newid ers cryn amser. Mae hynny'n rhywbeth yr ydym yn ei gydnabod ac mae'n rhywbeth, er tegwch—er y gwn y bydd hi'n dadlau ei fod yn wahanol gynllun—yr oedd y Gweinidog blaenorol dros faterion gwledig yn ei wybod hefyd. Yn syml, ni ellir dychwelyd i gynllun a oedd ar waith yn y gorffennol. Byddwn bob amser yn dadlau dros gynlluniau sy'n helpu ffermwyr yr ucheldir. Rwyf yn gwybod trwy fy mhrofiad o ymdrin ag Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig nad oes ganddi ddiddordeb yn ffermydd yr ucheldir. Ni fu ganddi ddiddordeb ynddynt erioed, mewn gwirionedd. Ei syniad o ffermio yw ffermydd mawr sy'n cynhyrchu cnydau âr mawr. Dyna fu'r achos ers nifer o flynyddoedd. Mae wedi edrych ar yr ucheldir yn anffafriol erioed. Dyna fu'r achos, o ran ymdrin â swyddogion, waeth pa blaid sydd mewn grym yn DEFRA. Mae ein safbwyt ni'n wahanol iawn. Ein barn ni yw bod ffermydd yr ucheldir yn bwysig ar gyfer cynaliadwyedd economaidd-gymdeithasol a ffabrig ein hardaloedd gwledig. Dyna beth y byddwn yn ei gadw mewn cof wrth gyflwyno cynlluniau bob amser. Fodd bynnag, gofynnaf i arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru ddeall na allwn ddychwelyd i'r ffordd yr oedd pethau o'r blaen gan fod y rheolau wedi newid ar lefel Ewropeidd.

Kirsty Williams [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

First Minister, every other EU state has an LFA scheme. If Scotland, Northern Ireland and England can find an LFA scheme that works, the question is: why can you not do so? The National Farmers Union has said that the industry faces a perfect storm and that hill sheep incomes are down 56% compared to a year ago. Given your comments and your understanding of the importance of agriculture to the social interaction of life in rural areas, will you commit today, First Minister, that any underspend from the Glastir programme will be used specifically to support farming in our most challenging areas?

Brif Weinidog, mae gan bob gwaldwriaeth arall yn yr UE gynllun ALFF. Os gall yr Alban, Gogledd Iwerddon a Lloegr ddod o hyd i gynllun ALFF sy'n gweithio, y cwestiwn yw: pam na allwch chi wneud hynny? Mae Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr wedi dweud bod y diwydiant yn wynebu storm berffaith a bod incwm o ddefaid ar y bryniau wedi gostwng 56% o'i gymharu â blwyddyn yn ôl. O ystyried eich sylwadau a'ch dealltwriaeth o bwysigrwydd amaethyddiaeth i ryngweithio cymdeithasol bywyd mewn ardaloedd gwledig, a wnewch chi ymrwymo heddiw, Brif Weinidog, y bydd unrhyw danwariant o'r rhaglen Glastir yn cael ei ddefnyddio'n benodol i gefnogi ffermio yn ein hardaloedd mwyaf heriol?

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)*Y Prif Weinidog / The First Minister*

That is something that we will, of course, consider as we look at underspends. However, I cannot accept the suggestion of the leader of the Welsh Liberal Democrats that, somehow, the LFA in Wales is something that Governments have progressively ignored; she knows full well that that is not the case. If you were to speak to farmers in Wales and ask them whether they would rather be in Wales or England, I know what the answer would be, not least because they get paid on time in Wales, which in England for a long time was not the case. That much is true.

Mae hynny'n rhywbeth y byddwn yn ei ystyried, wrth gwrs, pan fyddwn yn ystyried achosion o danwario. Fodd bynnag, ni allaf dderbyn awgrym arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru bod yr ALFF yng Nghymru, rywsut, yn rhywbeth y mae Llywodraethau wedi ei anwybyddu'n barhaol; mae hi'n gwybod yn iawn nad yw hynny'n wir. Pe byddech yn siarad â ffermwyr yng Nghymru ac yn gofyn iddynt pa un a fyddai'n well ganddynt fod yng Nghymru neu yn Lloegr, rwyf yn gwybod beth fyddai'r ateb, ac yn bennaf oherwydd eu bod yn cael eu talu'n brydlon yng Nghymru, ac nid dyma oedd yr achos yn Lloegr am gyfnod hir. Mae hynny o leiaf yn wir.

We will continue to provide the right level of support for our farmers in Wales. You should also bear in mind that we have the historic basis that we have used over the past decade to pay farmers their rural payments. That was not done in England; well, it was done on three different bases, if I remember correctly. Therefore, we have stuck with farmers in Wales to make sure that the payment system is the most appropriate system for the Welsh farming industry.

Byddwn yn parhau i ddarparu'r lefel gywir o gymorth i'n ffermwyr yng Nghymru. Dylech gofio hefyd bod gennym y sail hanesyddol yr ydym wedi ei defnyddio dros y degawd diwethaf i dalu taliadau gwledig y ffermwyr iddynt. Ni wnaed hynny yn Lloegr; wel, fe'i gwnaed ar dair sail wahanol, os cofiaf yn iawn. Felly, rydym wedi bod yn deyrngar i ffermwyr yng Nghymru er mwyn sicrhau mai'r system dalu yw'r system fwyaf priodol ar gyfer diwydiant ffermio Cymru.

Band Eang

13:53

Elin Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

3. *Pa gynnydd y mae Llywodraeth Cymru wedi'i wneud i gyflwyno band eang y genhedaeth nesaf yng Nghymru.*
OAQ(4)0857(FM)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:53

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

Mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig wedi rhoi'r gymeradwyaeth derfynol ar gyfer cymorth gwladwriaethol i raglen Cymru. Mae hyn yn golygu bod modd dechrau gweithio i ddarparu band eang y genhedaeth nesaf ym mhob cwr o Gymru. Bydd rhagor o wybodaeth a briff technegol ar gael yn fuan.

Broadband

13:53

Elin Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Mae gan Ofcom fap sy'n nodi'r siroedd mwyaf difreintiedig o ran argaeledd band lydan, ac mae Ceredigion yn un o'r siroedd hynny. Wythnos diwethaf, bu i chi fel Llywodraeth gyhoeddi eich bod yn bwriadu anwybyddu rhai o'r siroedd hynny a rhoi blaenoriaeth buddsoddi i rai siroedd sydd â gwell band lydan o lawer. Rydych wedi gofyn i BT i roi blaenoriaeth band lydan i siroedd gyda pharthau menter, sy'n golygu bod fy etholaeth i dan anfantais ddwbl gan nad oes ganddo barth menter ac mae ganddo fand lydan gwarthus o ran argaeledd. A ydych yn fwriadol, fel Llywodraeth, yn hyrwyddo polisi economaidd dau ddosbarth?

The final state aid approval for the Wales programme has been received from the United Kingdom Government. This means that work can begin to provide next generation broadband the length and breadth of Wales. More information and a technical briefing will be available shortly.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:54

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

Dim o gwbl. Deallaf fod yr Aelod am sefyll i fyny dros ei hetholaeth. Rwyf wedi trafod y pwnc hwn gyda Gweinidogion a gofynnaf iddi roi ei sylwadau i'r Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth, bydd yn eithaf bodlon i edrych ar y sylwadau hynny i weld yr hyn a all gael ei wneud dros Geredigion.

Ofcom has a map that shows the most deprived counties with regard to the availability of broadband, and Ceredigion is one of those areas. Last week, you as a Government announced that you intend to ignore some of those counties and give investment priority to counties that have much better broadband provision. You have asked BT to give priority to counties with enterprise zones, which means that my constituency is placed at a double disadvantage, as it has no enterprise zone and appalling broadband availability. Are you intentionally, as a Government, promoting a double tier economic policy?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Not at all. I understand that the Member wishes to stand up for her constituency. I have discussed this with Ministers and I ask her to present her comments to the Minister for Business, Enterprise, Technology and Science, who will be quite willing to consider them to see what could be done for Ceredigion.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:54

Russell George [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I welcome the start of the Superfast Cymru project. The First Minister will be aware that there is still a proportion of the population who will not be in a position to access the benefits of this project because of their rurality. Communities in my own constituency have required alternative broadband solutions and have been reliant on the broadband support scheme to assist them to procure those solutions from locally-based companies, one of which is eXwavia Ltd, based near Welshpool. As the scheme will be coming to an end at the end of this financial year, what measures will your Government be implementing to ensure that those who require alternative solutions have access to resources that will assist them to do that?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Rwyf yn croesawu cychwyn prosiect Cyflymu Cymru. Bydd y Prif Weinidog yn ymwybodol bod cyfran o'r boblogaeth o hyd na fydd mewn sefyllfa i elwa ar fanteision y prosiect hwn oherwydd eu bod yng nghefn gwlad. Mae cymunedau yn fy etholaeth fy hun wedi bod angen atebion band eang amgen ac wedi bod yn ddibynnol ar y cynllun cymorth band eang i'w cynorthwyo i gaffael yr atebion hynny gan gwmniau lleol, ac un ohonynt yw eXwavia Cyf, ger y Trallwng. Gan y bydd y cynllun yn dod i ben ar ddiwedd y flwyddyn ariannol hon, pa fesurau fydd eich Llywodraeth yn eu rhoi ar waith i sicrhau bod y rhai sydd angen atebion amgen yn cael mynediad at adnoddau a fydd yn eu cynorthwyo i wneud hynny?

13:55

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

The Member is right. Around 4% of the population will not benefit as a result of this scheme. Work is under way to identify an appropriate mechanism to address availability for the hard-to-reach premises and further information will be available in the spring.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Mae'r Aelod yn iawn. Ni fydd tua 4% o'r boblogaeth yn elwa o ganlyniad i'r cynllun hwn. Mae gwaith ar y gweill i ganfod dull priodol o sicrhau bod band eang ar gael i'r cartrefi sy'n anodd eu cyrraedd a bydd rhagor o wybodaeth ar gael yn y gwanwyn.

Addysg Uwch Cymru

Welsh Higher Education

13:55

Peter Black [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

4. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ei bolisi yng nghyswilt Addysg Uwch Cymru. OAQ(4)0854(FM)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

4. Will the First Minister make a statement on his policy with regards to Welsh Higher Education. OAQ(4)0854(FM)

13:56

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

Yes. We have made good progress towards strengthening the structure, delivery and quality of higher education, so that it becomes more financially sustainable, more competitive and responsive to the challenges it faces.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Gwnaf. Rydym wedi gwneud cynnydd da tuag at gryfhau strwythur, darpariaeth ac ansawdd addysg uwch, fel ei fod yn fwy cynaliadwy yn ariannol, yn fwy cystadleul ac yn ymatebol i'r heriau y mae'n eu hwynebu.

13:56

Peter Black [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you for that answer, First Minister. Although I support the current Welsh Government's policy on tuition fees, you will be aware of the evidence given to the Finance Committee by Cardiff University, which said that, in the first year of that policy, about £10 million of teaching grant has, effectively, come out of Wales and into English higher education institutions, simply because of the imbalance between the number of students coming to Wales and those studying in English universities. Have you made a study as to the impact on Welsh universities of that loss of income and are you considering any compensation to those universities?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Diolch i chi am yr ateb yna, Brif Weinidog. Er fy mod yn cefnogi polisi ffioedd dysgu cyfredol Llywodraeth Cymru, byddwch yn ymwybodol o'r dystiolaeth a roddwyd i'r Pwyllgor Cyllid gan Brifysgol Caerdydd, a ddywedodd, yn ystod blwyddyn gyntaf y polisi hwnnw, bod gwerth tua £10 miliwn o grantiau addysgu, i bob pwrras, wedi dod allan o Gymru ac i mewn i sefydliadau addysg uwch yn Lloegr, dim ond oherwydd yr anghydwysedd rhwng nifer y myfyrwyr sy'n dod i Gymru a'r rhai sy'n astudio mewn prifysgolion yn Lloegr. A ydych chi wedi cynnal astudiaeth o effaith y colli incwm hwnnw ar brifysgolion Cymru ac a ydych chi'n ystyried unrhyw iawndal i'r prifysgolion hynny?

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)*Y Prif Weinidog / The First Minister*

No, because that income would be lost anyway. If it is suggested that it is because of Welsh students choosing to study in England, then that would be the case regardless of any system that you put in place. There will be some Welsh students who will choose to study in England anyway. Some of them will want to study in Oxford or Cambridge or will want to study subjects that are not available in Wales, such as veterinary science. We want our students to be able to have the experience of studying those subjects. The alternative is to pay the grant only to Welsh students who choose to stay in Wales. No doubt that would have consequences in terms of finances, but it would also mean that it would reduce the range of options available to Welsh students and that is not what the grant is designed to do.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

Nac ydw, gan y byddai'r incwm hwnnw yn cael ei golli beth bynnag. Os yw'n cael ei awgrymu bod hyn gan fod myfyrwyr o Gymru yn dewis astudio yn Lloegr, yna byddai hynny'n digwydd waeth beth fo'r system y byddech yn ei sefydlu. Bydd rhai myfyrwyr o Gymru a fydd yn dewis astudio yn Lloegr beth bynnag. Bydd rhai ohonynt yn awyddus i astudio yn Rhydychen neu Gaergrawnt neu byddant yn dymuno astudio pynciau nad ydynt ar gael yng Nghymru, fel gwyddoniaeth filfeddygol. Rydym eisiau i'n myfyrwyr allu cael y profiad o astudio'r pynciau hynny. Y dewis arall yw talu'r grant i fyfyrwyr o Gymru sy'n dewis aros yng Nghymru yn unig. Nid oes amheuaeth y byddai hynny'n arwain at ganlyniadau o ran cyllid, ond byddai hefyd yn golygu y byddai'n lleihau'r amrywiaeth o ddewisiadau sydd ar gael i fyfyrwyr o Gymru, ac nid dyna y mae'r grant wedi ei gynllunio i'w wneud.

Nick Ramsay [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

First Minister, I am sure that you aware that the 'Western Mail' has today carried an article casting doubt on just how transparent your Government and the Minister for Education and Skills have been regarding the progress of the merger of Newport, Glamorgan and Cardiff Metropolitan universities. Many young people in my constituency are looking to attend one of these institutions. Can you reassure them that the merger of these institutions will not harm education provision in that area of higher education in Wales, but will in fact strengthen provision, as I am sure you would like it to do?

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

Brif Weinidog, rwy'n siŵr eich bod yn ymwybodol bod y 'Western Mail' wedi cyhoeddi erthygl heddiw sy'n cyflwyno amheuon o ran yn union pa mor dryloyw y mae eich Llywodraeth a'r Gweinidog Addysg a Sgiliau wedi bod o ran datblygiad y broses o uno prifysgolion Casnewydd, Morgannwg a Phrifysgol Fethropolitan Caerdydd. Mae llawer o bobl ifanc yn fy etholaeth yn dymuno mynd i un o'r sefydliadau hyn. Allwch chi eu sicrhau na fydd uno'r sefydliadau hyn yn niweidio'r ddarpariaeth o addysg yn y maes addysg uwch hwnnw yng Nghymru, ond y bydd, mewn gwirionedd, yn cryfhau'r ddarpariaeth, fel yr wyf yn siŵr y byddech yn hoffi iddo ei wneud?

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)*Y Prif Weinidog / The First Minister*

It will undoubtedly strengthen provision. Glamorgan and Newport universities wish to merge. We know that Cardiff Metropolitan has a different viewpoint; that has been made public on a number of occasions and that is a great shame as far as we are concerned. Nevertheless, the new institution will be far stronger in terms of being able to deliver a range and breadth of courses to students, as well as becoming more attractive to students from elsewhere.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

Bydd yn sicr yn cryfhau'r ddarpariaeth. Mae prifysgolion Morgannwg a Chasnewydd eisiau uno. Rydym yn gwybod bod gan Brifysgol Fethropolitan Caerdydd wahanol safbwyt; mae hynny wedi ei wneud yn gyhoeddus ar sawl achlysur ac mae hynny'n drueni mawr yn ein barn ni. Serch hynny, bydd y sefydliad newydd yn llawer cryfach o ran gallu darparu amrywiaeth a nifer o gyrsiau i fyfyrwyr, yn ogystal â bod yn fwy deniadol i fyfyrwyr o fannau eraill.

Lindsay Whittle [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

First Minister, what measures is the Welsh Government taking to encourage Welsh universities, particularly their science and technology departments, to work more closely with industry in order to help boost the economy and create employment opportunities?

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

Brif Weinidog, pa gamau y mae Llywodraeth Cymru'n eu cymryd i annog prifysgolion Cymru, a'u hadrannau gwyddoniaeth a thechnoleg yn arbennig, i weithio'n agosach gyda diwydiant er mwyn helpu i roi hwyl i'r economi a chreu cyfleoedd am gyfleoedd?

13:58

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)*Y Prif Weinidog / The First Minister*

I think that that is happening. There has certainly been a change over the past five years. Cardiff University works very closely with industry, as does Glamorgan University, and has developed a number of joint projects with industry. Swansea University is building a new engineering department, which is based, partially, on the need to service the companies and firms that are around it. We see good work being done in Wales's other universities as well. A decade ago, it would have been fair to say that universities were not maximising the opportunities that they had to work with businesses, or at least not all of them were doing that. That has certainly changed over the past few years.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

Credaf fod hynny'n digwydd. Mae'n sicr y bu newid dros y pum mlynedd diwethaf. Mae Prifysgol Caerdydd yn gweithio'n agos iawn gyda diwydiant, fel y mae Prifysgol Morgannwg, ac mae wedi datblygu nifer o brosiectau ar y cyd â diwydiant. Mae Prifysgol Abertawe yn adeiladu adran beirianeg newydd, sydd wedi'i seilio, yn rhannol, ar yr angen i wasanaethu'r cwmniau sydd yn ei chyffiniau.

Rydym yn gweld gwaith da yn cael ei wneud ym mhrrifysgolion eraill Cymru hefyd. Ddegawd yn ôl, byddai wedi bod yn deg dweud nad oedd prifysgolion yn manteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd yr oedd ganddyt i weithio gyda busnesau, neu nid oedd pob un ohonynt yn gwneud hynny o leiaf. Mae hynny'n sicr wedi newid yn ystod y blynnyddoedd diwethaf.

Pobl Agored i Niwed yn Nhor-faen

13:59

Lynne Neagle [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

5. A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i gefnogi'r bobl fwyaf agored i niwed yn Nhor-faen. OAQ(4)0867(FM)

Vulnerable People in Torfaen
[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

5. Will the First Minister outline what steps the Welsh Government is taking to support the most vulnerable people in Torfaen. OAQ(4)0867(FM)

13:59

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Yes. The programme for government sets out the range of actions that we are taking to help all people in Wales, including, of course, in Torfaen.

Gwnaf. Mae'r rhaglen ar gyfer llywodraethu yn nodi'r amrywiaeth o gamau yr ydym yn eu cymryd i helpu holl bobl Cymru, gan gynnwys pobl Torfaen, wrth gwrs.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

13:59

Lynne Neagle [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

First Minister, I recently circulated to Assembly Members a series of very distressing case studies collected in my constituency by Bron Afon Community Housing Ltd, which has been interviewing households who are to be hit by the bedroom tax in April. It is clear that this will have a tremendous impact on some of the most vulnerable households in Torfaen and across Wales, leaving families and households to make impossible choices to try to meet the shortfall in rent. First Minister, will you commit the Welsh Government to doing everything that it can to mitigate the impact of this change, so that it provides a clear national lead on this issue, including working to ensure that every local authority is using discretionary housing payments effectively and that social landlords exercise the maximum possible discretion when dealing with tenants who fall into arrears?

Brif Weinidog, dosbarthais gyfres o astudiaethau achos i Aelodau'r Cynulliad yn ddiweddar a oedd yn perni pryer mawr, ac a gasglwyd yn fy etholaeth i gan Bron Afon Community Housing Cyf, sydd wedi bod yn cyfweld cartrefi a fydd yn cael eu heffeithio gan y dreth ystafell wely ym mis Ebrill. Mae'n amlwg y bydd hyn yn cael effaith aruthrol ar rai o'r cartrefi mwyaf agored i niwed yn Nhor-faen a ledled Cymru, gan adael teuluoedd a chartrefi i wneud dewisiadau amhosibl er mwyn ceisio ymateb i'r diffyg rhent. Brif Weinidog, a wnewch chi ymrwymo Llywodraeth Cymru i wneud popeth o fewn ei gallu i liniaru effaith y newid hwn, fel ei fod yn darparu arweiniad cenedlaethol eglur ar y mater hwn, gan gynnwys gweithio i sicrhau bod pob awdurdod lleol yn defnyddio taliadau tai dewisol yn effeithiol a bod landlordiaid cymdeithasol yn arfer y disgrifiwn mwyaf posibl wrth ymdrin â thenantiaid sy'n mynd i ddyled?

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

14:00

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Yes. I commend the Member for the work that she has done in this area; I know that she has done a great deal of research and has been a strong advocate for those who will be affected by this change.

Gwnaf. Cymeradwyaf yr Aelod am y gwaith y mae hi wedi ei wneud yn y maes hwn; rwyf yn gwybod ei bod wedi gwneud llawer iawn o waith ymchwil ac wedi bod yn eiriolwr cryf dros y rhai a fydd yn cael eu heffeithio gan y newid hwn.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

The difficulty is that if you start to penalise people because their houses are—as it is said—too big, it means that grandparents cannot have grandchildren to stay with them and that families are not able to stay together. For example, when there is a break-up in a relationship in a family, children will not go to live with grandparents for a temporary period of time; they will be fostered elsewhere. All these things are designed to wreck family life in so many ways and it will mean that many people will find themselves in arrears and forced out of homes in which they have lived for many years. We believe that that is utterly wrong.

Yr anhawster yw os byddwch yn dechrau cosbi pobl oherwydd bod eu tai—fel y dywedir—yn rhy fawr, mae'n golygu na all wyrion fynd i aros gyda neiniau a theidau ac na all teuluoedd aros gyda'i gilydd. Er enghraifft, pan fydd perthynas yn chwalu mewn teulu, ni fydd plant yn mynd i fyw gyda neiniau a theidau am gyfnod dros dro; byddant yn cael eu maethu yn rhwle arall. Nod yr holl bethau hyn yw dinistrio bywyd teuluol mewn cymaint o ffyrrd, ac mae'n golygu y bydd llawer o bobl yn mynd i ddylled ac yn cael eu gorfodi iadael cartrefi y maent wedi byw yn ddynt ers blynnyddoedd lawer. Rydym yn credu bod hynny'n holol annerbyniol.

14:01

Mohammad Asghar [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

First Minister, older people in Torfaen and elsewhere are specifically targeted by some forms of criminal activity, such as distraction burglaries and scams. Age Cymru's Rule Out Abuse campaign has revealed under-reporting of this abuse and that more must be done to tackle these crimes against older people. Will the First Minister commit his Government to working with the police and crime commissioners to raise awareness of distraction burglaries and scams among older people and ensure that they are tackled effectively in Wales?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Brif Weinidog, mae pobl hŷn yn Nhôr-faen ac mewn mannau eraill yn cael eu targedu'n benodol gan rai mathau o weithgarwch troseddol, fel bwrgleriaethau tynnu sylw a thwyll. Mae ymgrych Rule Out Abuse Age Cymru wedi datgelu diffyg gohebu ar y gamdriniaeth hon a bod yn rhaid gwneud mwy i fynd i'r afael â'r troseddau hyn yn erbyn pobl hŷn. A wnaiff y Prif Weinidog ymrwymo ei Lywodraeth i weithio gyda'r comisiynwyr heddlu a throseddu i godi ymwybyddiaeth o fwrgleriaethau tynnu sylw a thwyll ymhliith pobl hŷn a sicrhau y cymerir camau i fynd i'r afael â hwy yn effeithiol yng Nghymru?

14:01

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

I heard the Member's first words as 'all the people in Torfaen'—

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Clywais eiriau cyntaf yr Aelod fel 'holl bobl Torfaen'—

14:02

Mohammad Asghar [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I said 'older people'.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

'Pobl hŷn' ddywedais i.

14:02

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

Right. The Member is quite right to raise this because we know that there are people who go around performing scams and the classic one is to say to somebody, 'Your chimney is falling down; I can fix it for you' and then quote a ridiculous amount of money. In fairness to the police, they regularly remind people of the need to be exceptionally wary of people who come to the doorstep; whether they are selling something or offering services for work that does not, in fact, need to be done. That is a criminal offence and I would urge people to report such activity in their areas. There are many older, vulnerable people who might be saved from the predations of these people if other community members reported these activities in good time.

lawn. Mae'r Aelod yn gwbl gywir i godi hyn gan ein bod yn gwybod y ceir pobl sy'n mynd o gwmpas yn cyflawni sgamiau a'r hen glasur yw dweud wrth rywun, 'Mae eich simnai yn disgyn i lawr; gallaf i ei drwsio i chi' ac yna nodi swm enfawr o arian am wneud y gwaith. Er tegwch i'r heddlu, maent yn atgoffa pobl yn gysylltiedig o'r adeg i fod yn eithriadol o wyliadwrus o bobl sy'n dod i garreg y drws; pa un a ydynt yn gwerthu rhywbeth neu'n cynnig gwasanaethau ar gyfer gwaith nad oes angen ei wneud mewn gwirionedd. Mae hon yn drosedd a byddwn yn annog pobl i hysbysu am weithgarwch o'r fath yn eu hardaloedd. Ceir llawer o bobl hŷn sy'n agored i niwed y gellid eu hachub rhag rheibiau'r bobl hŷn pe bai aelodau eraill o'r gymuned yn hysbysu am y gweithgareddau hyn mewn da bryd.

14:02

Jocelyn Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

First Minister, who decided that if a room is upstairs, it is a bedroom? I asked your Minister for Housing, Regeneration and Heritage last week if he would think about that and use any powers that he might have to re-designate, because I am sure that some of the cases that Lynne Neagle circulated that I have seen today would point out that some of those upstairs rooms are not, in fact, bedrooms. He did not know whether you had the powers; do you know?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Brif Weinidog, pwy benderfynodd bod ystafell sydd i fyny'r grisiau yn ystafell wely? Gofynnais i'ch Gweinidog Tai, Adfywio a Threftadaeth yr wythnos diwethaf a fyddai'n ystyried hynny ac yn defnyddio unrhyw bwerau a allai fod ganddo i ail-ddynodi, gan fy mod yn siŵr y byddai'r rhai o'r achosion a ddosbarthwyd gan Lynne Neagle i mi eu gweld heddiw yn nodi nad yw rhai o'r ystafelloedd hynny i fyny'r grisiau yn ystafelloedd gwely mewn gwirionedd. Nid oedd ef yn gwybod pa un a oedd y pwerau gennych; ydych chi'n gwybod?

14:03

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

This is what we are currently looking at to see whether we can be flexible. A constituent came to see me about precisely the same issue last week; somebody who had a disabled child whose bedroom is downstairs. Bedrooms do not have to be upstairs. How do you then designate what a bedroom is? Again, it is an example of something that has been brought in in haste by the UK Government without proper thought being given to the consequences. How do you define what a bedroom is? These are things that we are looking at to see whether we can find a way to be more flexible in Wales.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Dyma'r hyn yr ydym yn ei ystyried ar hyn o bryd i weld a llawn fod yn hyblyg. Daeth etholwr i'm gweld am union yr un mater yr wythnos diwethaf; rhywun a oedd â phlentyн anabl y mae ei ystafell wely i lawr y grisiau. Nid oes rhaid i ystafelloedd gwely fod i fyny'r grisiau. Sut ydych chi'n dynodi beth yw ystafell wely wedyn? Unwaith eto, mae'n engrai ffot o rywbed a gyflwynwyd ar frys gan Lywodraeth y DU heb roi ystyriaeth briodol i'r canlyniadau. Sut ydych chi'n diffinio beth yw ystafell wely? Mae'r rhain yn bethau yr ydym yn eu hystyried i weld a llawn ddod o hyd i ffordd i fod yn fwy hyblyg yng Nghymru.

Alfred Russel Wallace

14:03

Joyce Watson [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

6. A oes gan Lywodraeth Cymru unrhyw gynnlluniau i goffáu bywyd a gwaith Alfred Russel Wallace eleni. OAQ(4)0868(FM)

Alfred Russel Wallace

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

6. Does the Welsh Government have any plans to commemorate the life and work of Alfred Russel Wallace this year. OAQ(4)0868(FM)

14:04

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

We, as a Government, do not have plans to mark the hundredth anniversary of Wallace's death, but I know that the National Science Academy is funding Theatr na nÓg's performance for schools on Wallace's life and work.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Nid oes gennym ni, fel Llywodraeth, gynnlluniau i nodi canmlwyddiant marwolaeth Wallace, ond gwn fod yr Academi Wyddoniaeth Genedlaethol yn ariannu perfformiad Theatr na nÓg i ysgolion ar fywyd a gwaith Wallace.

14:04

Joyce Watson [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you for that answer, First Minister. This week the Natural History Museum launched the Wallace100 project. It is fantastic that this man from Usk is finally getting the recognition that his immense achievements deserve. The focus of the anniversary is the planned unveiling of a life-sized bronze statue at the Natural History Museum in November. I contacted the fundraising campaign, and it has so far raised £20,000 of the £50,000 needed. However, unfortunately, it has to close on 31 January to give the artist enough time to make the sculpture. Will the First Minister join me today in celebrating one of Wales's greatest sons? I am hoping to raise awareness of the fundraising drive in its final week to spread the message, so that Alfred Russel Wallace is commemorated in style.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Diolch i chi am yr ateb yna, Brif Weinidog. Lansiodd yr Amgueddfa Astudiaeth Natur brosiect Wallace100 yr wythnos hon. Mae'n wych bod y gŵr hwn o Frynbuga yn derbyn y gydnabyddiaeth y mae ei lwyddiannau aruthrol yn eu haeddu o'r diwedd. Canolbwyt y pen-blwydd yw dadorchuddio arfaethedig cerflun efydd maint llawn yn yr Amgueddfa Astudiaeth Natur ym mis Tachwedd. Cysylltai'r ymgyrch codi arian, ac mae wedi codi £20,000 o'r £50,000 sydd ei angen hyd yn hyn. Yn anffodus, fodd bynnag, mae'n rhaid ei gau ar 31 Ionawr i roi digon o amser i'r artist wneud y cerflun. A wnaiff y Prif Weinidog ymuno â mi heddiw i ddathlu un o feibion pwysicaf Cymru? Rwyf yn gobethio codi ymwybyddiaeth o'r ymgyrch codi arian yn ystod ei wythnos olaf i ledaenu'r neges, fel y caiff Alfred Russel Wallace ei goffáu mewn steil.

14:05

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

Yes. I am happy to provide support to what the Member has said. I note the voluble support that the Member for Monmouth gave to somebody who would have been one of his constituents had there been devolution in those days. It is important that we are able to celebrate the work of people who are Welsh-born and have made such a great contribution to science.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Gwnaf. Rwyf yn hapus i gefnogi'r hyn y mae'r Aelod wedi ei ddweud. Rwyf yn nodi'r gefnogaeth huawdl a roddwyd gan yr Aelod dros Fynwy i rywun a fyddai wedi bod yn un o'i etholwyr pe bai datganoli yn y dyddiau hynny. Mae'n bwysig ein bod yn gallu dathlu gwaith pobl a anwyd yng Nghymru ac sydd wedi gwneud cymaint o gyfraniad at fydd gwyddoniaeth.

14:05

William Graham [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I am grateful to the First Minister for his remarks. May I remark also that Alfred Russel Wallace, during the time that he lived in Wales, contributed to the street map for Llandrindod Wells, laying out the streets there, and designed the Mechanics' Institute in Neath? Therefore, he is already a man of Wales. Within his context of the nineteenth-century, he was a major thinker and philosopher, and should be recorded. I am grateful to the Member for raising the matter, and I hope that your Government will give it active and consistent support.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:05

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

I refer the Member to the answer that I gave earlier, but I am grateful to him for pointing out further what Russel Wallace did in terms of his contribution to Wales, as well as to science generally.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:06

Alun Ffred Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Mae'n dristwch bod Wallace yn cael cyn lleied o sylw yn y flwyddyn bwysig hon, gan iddo fod yn wyddonydd o'r radd flaenaf. Faint o ddisgyblion Cymru a gredwch, Brif Weinidog, sy'n gwybod am enw Wallace a'r hyn a gyflawnodd? Beth mae hynny yn ei ddweud wrthym am ein trefn addysg yng Nghymru?

14:06

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

Yr ateb genost yw ychydig iawn; nid yw'r rhan fwyaf o blant yng Nghymru wedi clywed am Wallace. Dyna pam mae'n bwysig inni sicrhau bod pobl yn clywed amdano a'i waith yn ystod y canmlwyddiant hwn. Dyna pam mae Theatr na NÓg yn mynd ar daith o gwmpas ysgolion mewn rhannau o Gymru, a hynny er mwyn sicrhau bod plant yn gwybod mwy am Wallace a'i waith.

Manteision Economaidd i Ranbarth Bae Abertawe

14:07

Mike Hedges [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

7. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am y manteision economaidd a ddaeth i ranbarth Bae Abertawe oherwydd dyrchafiad Dinas Abertawe i Uwchgyngahrain Lloegr. OAQ(4)0855(FM)

14:07

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

It is a substantial benefit. We know that a recent report, undertaken by Cardiff University, ironically, estimated that Swansea City Association Football Club delivers nearly £60 million of economic benefits and 420 jobs to the region. We know that that will continue to next year, because I have no doubt that it will be firmly in the Premier League next year.

Rwyf yn ddiolchgar i'r Prif Weinidog am ei sylwadau. A gaf i ddweud hefyd bod Alfred Russel Wallace, yn ystod yr amser yr oedd yn byw yng Nghymru, wedi cyfrannu at y map o strydoedd Llandrindod, sy'n dangos cynllun y strydoedd, ac wedi cynllunio Sefydliad y Peirianyddion yng Nghastell-neidd? Felly, mae'n un o wyr Cymru eisoes. Yn ei gyd-destun yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg, roedd yn feddyliwr ac athronydd pwysig, a dylid ei gofnodi. Rwyf yn ddiolchgar i'r Aelod am godi'r mater, ac rwyf yn gobeithio y bydd eich Llywodraeth yn rhoi ei chefnogaeth ymarferol a chyson.

Cyfeiriaf yr Aelod at yr ateb a roddais yn gynharach, ond rwyf yn ddiolchgar iddo am dynnu sylw pellach at yr hyn a wnaed gan Russel Wallace o ran ei gyfraniad i Gymru, yn ogystal ag i wyddoniaeth yn gyffredinol.

It is a matter of regret that Wallace is receiving so little attention in this important year, given that he was a scientist of first rank. How many pupils in Wales, do you believe, First Minister, know about Wallace and what he achieved? What does that tell us about our education system in Wales?

The honest answer is very few; most children in Wales have never heard of Wallace. That is why it is important that we ensure that people are informed of him and his work during this centenary year. That is why Theatr na NÓg is taking a tour around schools in parts of Wales, in order to ensure that children learn more about Wallace and his work.

Economic Benefits to the Swansea Bay Region

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

7. Will the First Minister make a statement on the economic benefits brought to the Swansea Bay region thanks to Swansea City's promotion to the Premier League. OAQ(4)0855(FM)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Mae'n fudd sylweddol. Rydym yn gwybod bod adroddiad diweddar, a gynhalwyd gan Brifysgol Caerdydd, yn eironig, wedi amcangyfrif bod Clwb Pêl-droed Dinas Abertawe yn dod â gwerth bron i £60 miliwn o fuddion economaidd a 420 o swyddi i'r rhanbarth. Rydym yn gwybod y bydd hynny'n parhau i'r flwyddyn nesaf, gan nad oes gennyl unrhyw amheuaeth bod y clwb yn sicr o'i le yn Uwchgyngahrain Lloegr y flwyddyn nesaf.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:07

Mike Hedges [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

It will possibly be in Europe as well. Do you agree that the Swans' success has shown that football can be a major economic driver in areas such as Swansea? Can you ensure that the Department for Business, Enterprise, Technology and Science and other departments treat football clubs as key businesses in their community and not just as sporting clubs? I am sure that you will join me in wishing Swansea every success tomorrow night against Chelsea.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Mae'n bosibl y bydd yn Ewrop hefyd. A ydych chi'n cytuno bod llwyddiant yr Elyrch wedi dangos y gall pêl-droed fod yn sbardun economaidd o bwys mewn ardaloedd fel Abertawe? A allwch chi sicrhau bod yr Adran Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth ac adrannau eraill yn trin clybiau pêl-droed fel busnesau allweddol yn eu cymunedau ac nid fel clybiau chwaraeon yn unig? Rwyf yn siŵr y byddwch yn ymuno â mi i ddymuno pob llwyddiant i Abertawe yn erbyn Chelsea nos yfory.

14:08

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

Yes, I will. It has a two-goal advantage to defend. We know that sport can generate substantial amounts of money in the economy. The Millennium Stadium does it in Cardiff, and I hope that the Swans are joined by Cardiff City Football Club in the Premier League next year. The Member is less than vocal in his support for that, I notice, but those of us who live halfway between Cardiff and Swansea and, therefore, can sit on the fence, will be more than happy to see that. We know that what happens is that substantial numbers of people come into a city, they spend money when they are there and people come and stay in hotels, which provides a boost to the hotel industry and to the catering industry. Therefore, there is no doubt that sport at the highest level is sport, of course, but, more than that, it is a key economic driver.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Gwnaf, mi wnaf. Mae gan Abertawe fantais o ddwy gôl i'w hamddiffyn. Rydym yn gwybod y gall chwaraeon gynhyrchu symiau sylweddol o arian yn yr economi. Mae Stadiwm y Mileniwm yn ei wneud yng Nghaerdydd, a gobeithiaf y bydd Clwb Pêl-droed Dinas Caerdydd yn ymuno â'r Elyrch yn Uwch-gyngahrail Lloegr y flwyddyn nesaf. Mae'r Aelod yn amharod i leisio ei gefnogaeth i hynny, rwy'n sylwi, ond bydd y rheini o'n plith sy'n byw hanner ffordd rhwng Caerdydd ac Abertawe ac yn gallu eistedd ar y ffens felly, yn fwy na hapus i weld hynny. Rydym yn gwybod mai'r hyn sy'n digwydd yw bod nifer sylweddol o bobl yn dod i mewn i ddinas, maent yn gwario arian pan fyddant yno ac mae pobl yn dod i aros mewn gwestai, sy'n rhoi hwbs i'r diwydiant gwestai ac i'r diwydiant arlwyd. Nid oes amheuaeth felly bod chwaraeon ar y lefel uchaf yn chwaraeon, wrth gwrs, ond, yn fwy na hynny, mae hefyd yn sbardun economaidd allweddol.

14:00

Byron Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

As a lifelong supporter of Swansea football club, I share the pride of the people of South Wales West in the team, which is thriving in the Premier League. Following on from Mike Hedges's question, what has your Government done to ensure that we maximise the economic advantages of having Swansea City in the Premier League? Clearly, the Swans can play a role in marketing Wales on a strategic level. What specific plans does your Government have to capitalise on this?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Fel cefnogwr o glwb pêl-droed Abertawe trwy gydol fy oes, rwyf yn rhannu balchder pobl de-orllewin Cymru yn y tîm, sy'n ffynnu yn Uwch-gyngahrail Lloegr. Yn dilyn ymlaen o gwestiwn Mike Hedges, beth mae eich Llywodraeth wedi ei wneud i sicrhau ein bod yn gwneud y mwyaf o fanteision economaidd y ffaith bod Abertawe yn Uwch-gyngahrail Lloegr? Yn amlwg, gall yr Elyrch chwarae rhan i farchnata Cymru ar lefel strategol. Pa gynlluniau penodol sydd gan eich Llywodraeth i fanteisio ar hyn?

14:09

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

The Member will know, if he visits the stadium, that we have placed a substantial amount of advertising there, encouraging people to visit Wales. On top of that, we have funded a series of promotional adverts with Sky during Swansea's matches. As people see advertisements in the stadium when the games are televised, we know that that will have an impact on their behaviour in the future.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Bydd yr Aelod yn gwybod, os yw'n yn ymweld â'r stadiwm, ein bod yn hysbysebu'n sylweddol yno, yn annog pobl i ymweld â Chymru. Yn ogystal â hynny, rydym wedi ariannu cyfres o hysbysebion hyrwyddo gyda Sky yn ystod gemau Abertawe. Wrth i bobl weld hysbysebion yn y stadiwm pan fydd y gemau'n cael eu darlleu ar y teledu, rydym yn gwybod y bydd hynny'n cael effaith ar eu hymddygiad yn y dyfodol.

14:09

Bethan Jenkins [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Mae'n bwysig ein bod yn llongyfarch tîm pêl-droed Abertawe ar yr hwbs mae'n ei roi i'r economi leol. Fodd bynnag, mae nifer fawr o swyddi wedi cael eu colli yn Abertawe: Visteon, Unilever a Remploy, yn ogystal â'r hyn sydd wedi bod yn digwydd gyda'r toriadau gan y Llywodraeth Brydeinig a llywodraeth leol. Felly, pa gamau pellach gall Llywodraeth Cymru eu cymryd, y tu hwnt i'r camau sy'n cael eu cymryd ar hyn o bryd, er mwyn hybu'r economi fwyfwy?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

It is important that we should congratulate the Swansea City football team and the boost that it provides to the local economy. However, many jobs have been lost in Swansea: Visteon, Unilever and Remploy, as well as the impacts of UK Government and local government cuts. Therefore, what further actions can the Welsh Government take, beyond the steps that are being taken at present, to promote the economy?

14:10

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

Credaf fod economi Abertawe wedi cael hwb mawr. Mae'r lle wedi newid yn gyfan gwbl dros y ddegawd ddiwethaf. Cyfeiriaf yn benodol at ddatblygiad SA1 a'r datblygiadau sydd wedi digwydd yng nganholf y ddinas, sef yr ardal lle y lleolwyd siop David Evans yn flaenorol, yn Sgwâr y Castell. Hefyd, mae llawer o waith wedi cael ei wneud i ddenu mwy o dwristiaid i Abertawe, ac mae'r tîm pêl-droed yn rhan bwysig o sicrhau bod hynny'n digwydd.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I believe that there has been a great boost to the economy of Swansea. The place has been transformed over the past decade. I particularly refer to the SA1 development and the developments in the city centre, where the David Evans store used to be situated, in Castle Square. Also, a great deal of work has been done to attracting more tourists to Swansea, and the football team is an important part of ensuring that that happens.

Gwella Bywydau Trigolion Canol De Cymru

14:10

Andrew R.T. Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

8. Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cyflwyno i wella bywydau trigolion Canol De Cymru.
OAQ(4)0860(FM)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Improving the Lives of the Residents of South Wales Central

14:10

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

They are outlined in our programme for government.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Fe'u hamlinellir yn ein rhaglen ar gyfer llywodraethu.

14:10

Andrew R.T. Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you for that detailed answer, First Minister. Cardiff Council—both the current administration and the previous one—has talked at extensive length about the convention centre that it wishes to build in Cardiff. The Welsh Government is heavily involved with the enterprise zone in Cardiff, and I think that it has allocated £30 million towards the central business district concept. Is my understanding correct that the Welsh Government has an interest in getting a convention centre built in Cardiff, and if that is the case, how is the Welsh Government looking to take this forward in conjunction with Cardiff Council? At the moment, this does not seem to be moving forward at all.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Diolch i chi am yr ateb manwl yna, Brif Weinidog. Mae Cyngor Caerdydd—y weinyddiaeth bresennol a'r un flaenorol—wedi trafod yn helaeth y ganolfan gynadledd a y mae'n dymuno ei hadeiladu yng Nghaerdydd. Mae Llywodraeth Cymru yn ymwneud yn helaeth â'r ardal fenter yng Nghaerdydd, ac rwyf yn credu ei bod wedi neilltuo £30 miliwn i gysyniad yr ardal fusnes ganolog. A yw fy nealltwriaeth yn gywir bod gan Lywodraeth Cymru ddiddordeb mewn adeiladu canolfan gynadledd a yng Nghaerdydd, ac os yw hynny'n wir, sut y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu datblygu hyn ar y cyd â Chyngor Caerdydd? Nid yw'n ymddangos bod hyn yn symud ymlaen o gwbl ar hyn o bryd.

14:11

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

I do not know whether the Member means a financial interest or a policy interest. In terms of policy interest, we certainly have an interest in attracting a convention centre to south Wales. There have been a number of discussions with Cardiff Council, in terms of trying to find a way to enhance the city and provide more facilities for the city in the future. I cannot go into detail on the nature of those discussions at this moment in time. However, the Member is right to say that a convention centre would certainly help to transform the economy of south Wales.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Nid wyf yn gwybod a yw'r Aelod yn golygu diddordeb ariannol neu ddiddordeb polisi. O ran diddordeb polisi, yn sicr mae gennym ddiddordeb mewn denu canolfan gynadledd a i dde Cymru. Cynhalwyd nifer o drafodaethau gyda Chyngor Caerdydd, o ran ceisio dod o hyd i ffordd o wella'r ddinas a darparu mwy o gyfleusterau i'r ddinas yn y dyfodol. Ni allaf fanylu ar natur y trafodaethau hynny ar hyn o bryd. Fodd bynnag, mae'r Aelod yn gywir wrth ddweud y byddai canolfan gynadledd a yn sicr yn helpu i weddnewid economi de Cymru.

14:12

Mick Antoniw [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

First Minister, there are some 2,000 agricultural workers in the South Wales Central region who benefit from coverage from the Agricultural Wages Board. The House of Lords has just blocked the related legislation, although there will, no doubt, be attempts to bring it forward. It appears that, according to the Government's own impact assessment, over the next decade, £26 million or so will be taken out of the pockets of Welsh agricultural workers and put into the pockets of employers. First Minister, in light of the decision by the House of Lords, what is the Government's position, and what consideration is being given to the economic impact on those working in the agriculture industry and in agriculture generally of the measures being taken by the Tory and Lib Dem Government?

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

Brif Weinidog, ceir tua 2,000 o weithwyr amaethyddol yn rhanbarth Canol De Cymru sy'n cael budd o sylw gan y Bwrdd Cyflogau Amaethyddol. Mae Tŷ'r Arglwyddi newydd atal y ddeddfwriaeth gysylltiedig, er nad oes amheuaeth y bydd ymdrechion i'w dwyn ymlaen. Mae'n ymddangos, yn ôl asesiad y Llywodraeth ei hun o effaith, y bydd tua £26 miliwn yn cael eu cymryd allan o bocedi gweithwyr amaethyddol Cymru a'i roi ym mhocedi cyflogwyr dros y degawd nesaf. Brif Weinidog, yng ngoleuni'r penderfyniad gan Dŷ'r Arglwyddi, beth yw safbwyt y Llywodraeth, a pha ystyriaeth sy'n cael ei rhoi i effaith economaidd y mesurau sy'n cael eu cyflwyno gan Lywodraeth y Toriaid a'r Democratiaid Rhyddfrydol ar y rhai sy'n gweithio yn y diwydiant amaethyddiaeth ac ar fyd amaethyddiaeth yn gyffredinol?

14:12

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

We do not agree with the abolition of the Agricultural Wages Board. However, should that proceed, we will then see what we can do in Wales to protect agricultural workers in what we believe is a devolved area.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

Nid ydym yn cytuno â diddymu'r Bwrdd Cyflogau Amaethyddol. Fodd bynnag, os bydd hynny'n digwydd, byddwn yn ystyried wedyn beth y gallwn ei wneud yng Nghymru i amddiffyn gweithwyr amaethyddol mewn maes sydd wedi'i ddatganoli yn ein barn ni.

14:13

Leanne Wood [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

First Minister, we are only a few months away from the introduction of the bedroom tax, which is going to affect 40,000 working-age people, many of whom live in my region, South Wales Central. In monetary terms, the bedroom tax, according to the Welsh Local Government Association, is going to take around £26 million from the pockets of the people in Wales who have the least. You did not answer the question put to you earlier by my colleague Jocelyn Davies, the former Deputy Minister for Housing and Regeneration. She asked you whether or not you had powers to counter this. First Minister, the new financial year is almost upon us. Will you agree, as a matter of urgency, to convene a group of experts and people who are affected by the bedroom tax to consider the impact of all of the cuts, cumulatively, with a view to proposing an alternative social protection plan for Wales?

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

Brif Weinidog, dim ond ychydig fisoeedd ydym ni i ffwrdd o gyflwyniad y dreth ystafell wely, sy'n mynd i effeithio ar 40,000 o bobl o oedran gweithio, ac mae llawer ohonynt yn byw yn fy rhanbarth i, Canol De Cymru. O safbwyt ariannol, dywed Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru y bydd y dreth ystafell wely yn cymryd tua £26 miliwn o bocedi'r bobl yng Nghymru sydd â'r lleiaf o arian. Nid ydych wedi ateb y cwestiwn a ofynnwyd i chi yn gynharach gan fy nghydweithiwr Jocelyn Davies, y cyn-Ddirprwy Weinidog dros Dai ac Adfywio. Gofynnodd i chi a oes gennych bwerau i atal hyn ai peidio. Brif Weinidog, mae'r flwyddyn ariannol newydd ar fin cychwyn. A wnewch chi gytuno, fel mater o frys, i gynnll grŵp o arbenigwyr a phobl sy'n cael eu heffeithio gan y dreth ystafell wely i ystyried effaith yr holl doriadau, gyda'i gilydd, gyda'r nod o gynnig cynllun diogelwch cymdeithasol amgen i Gymru?

14:14

Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Order. This is a very long question.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

Trefn. Mae hwn yn gwestiwn hir iawn.

14:14

Leanne Wood [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Doing nothing, and waiting for the bedroom tax to kick in cannot be an option, can it, First Minister?

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

Ni all gwneud dim, a disgwy i'r dreth ystafell wely ddod i ryd fod yn opsiwn, does bosibl, Brif Weinidog?

14:14

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)*Y Prif Weinidog / The First Minister*

The leader of Plaid is always behind the curve on this. She knows full well that we have commissioned research already on the impact of welfare reform. Stage 1 has already been published, as she will know. Stage 2 is on the verge of being published as well. She asked what has been done. I can say that we have invested money to help local authorities mitigate the impact of the housing benefit reforms, as far as possible, and we are looking at a programme of further work aimed at trying to enable people to deal with the effects of the tax as well. However, she knows full well that the work for which she asks has already been started and carried out.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

Mae arweinydd Plaid Cymru ar ei hôl hi bob amser ar hyn. Mae'n gwylod yn iawn ein bod eisoes wedi comisiynu gwaith ymchwil ar effaith diwygio lles. Cyhoeddwyd Cam 1 eisoes, fel y bydd yn gwylod. Mae Cam 2 ar fin cael ei gyhoeddi hefyd. Gofynnodd beth sydd wedi cael ei wneud. Gallaf ddweud ein bod wedi buddsoddi arian i helpu awdurdodau lleol liniaru effaith y diwygiadau i fudd-dal tai, cyn bodedd â phosibl, ac rydym yn ystyried rhaglen o waith pellach sydd â'r nod o geisio galluogi pobl i ymdopi ag effeithiau'r dreth hefyd. Fodd bynnag, mae'n gwylod yn iawn fod y gwaith y mae hi'n gofyn amdano wedi ei gychwyn a'i gynnal eisoes.

14:14

Eluned Parrott [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

First Minister, I wish to return to the subject of the convention centre. You will be aware that another part of the plans is to potentially demolish Cardiff County Hall here in Cardiff bay and the city council is looking again at locations in the heart of your enterprise zone in Cardiff. Would you like to confirm that the purpose of the enterprise zone is to create new private sector jobs, and would you join me in urging Cardiff Council not to waste tens of millions of pounds on building something that it already has?

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

Brif Weinidog, hoffwn ddychwelyd at bwnc y ganolfan gynadledda. Byddwch yn ymwybodol mai rhan arall o'r cynlluniau yw'r posibilrwydd o ddymchwel Neuadd Sir Caerdydd yma ym mae Caerdydd ac mae cyngor y ddinas yn edrych eto ar leoliadau yng nghanol eich parth menter yng Nghaerdydd. A hoffech chi gadarnhau mai diben y parth menter yw creu swyddi sector preifat newydd, ac a fyddch chi'n ymuno â mi i annog Cyngor Caerdydd i beidio â gwastraffu degau o filiynau o bunnoedd ar adeiladu rhywbeth sydd ganddo eisoes?

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)*Y Prif Weinidog / The First Minister*

The purpose of the enterprise zone is, obviously, to create new private sector jobs, and that is our aim as a Government.

Diben y parth menter, yn amlwg, yw creu swyddi sector preifat newydd, a dyna yw ein nod fel Llywodraeth.

Sector Addysg Uwch Cymru**Welsh Higher Education Sector**

14:15

Angela Burns [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

9. A oes gan y Prif Weinidog unrhyw bryderon yngylch enw da Sector Addysg Uwch Cymru. OAQ(4)0859(FM)

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

9. Does the First Minister have any concerns with regards to the reputation of the Welsh Higher Education sector. OAQ(4)0859(FM)

14:15

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)*Y Prif Weinidog / The First Minister*

No.

Nac oes.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

14:15

Angela Burns [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I find that absolutely shocking, First Minister. As the leader of our nation I would expect you to be supporting our universities, which are currently operating in a more than febrile climate. Yet again, in today's 'Western Mail' there is another article about the transparency within the sector. We have the erosion of autonomy, we have the constant dragging out of information via freedom of information requests by opposition parties and by the media, we have news of the reviews in north-east and south-east Wales, we have funding issues and concerns, we have a drop in applications, we have furore over requirements—

Rwyf yn credu bod hynny'n gwbl syfrdanol, Brif Weinidog. Fel arweinydd ein cenedl, byddwn yn disgwl i chi fod yn cefnogi ein prifysgolion, sy'n gweithredu mewn hinsawdd arbennig o anodd ar hyn o bryd. Unwaith eto, ceir erthygl arall yn y 'Western Mail' heddiw am dryloywder o fewn y sector. Mae ymrreolaeth yn cael ei erydu, mae gwybodaeth yn cael ei llusgo allan yn gyson trwy geisiadau rhyddid gwybodaeth gan wrthbleidiau a chan y cyfryngau, rydym yn clywed newyddion am yr adolygiadau yng ngogledd-ddwyrain a de-ddwyrain Cymru, mae gennym broblemau a phryderon ariannu, bu gostyngiad yn nifer y ceisiadau, mae gennym helynt yngylch gofynion—

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

14:16

Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Order. Are you coming to the question?

Trefn. A ydych am ofyn y cwestiwn?

14:16

Angela Burns [Bywgraffiad](#) [Biography](#)Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

As the First Minister, I would have expected you to come out with some kind of statement to steady the ship to make sure that our higher education institutions get the respect that they deserve and to steady all of these concerns that people are rightly bringing up because of the lack of transparency identified by my colleague, Nick Ramsay, earlier?

Gan mai chi yw'r Prif Weinidog, byddwn wedi disgwyl i chi wneud rhyw fath o ddatganiad i sefydlogi'r llong er mwyn sicrhau bod ein sefydliadau addysg uwch yn cael y parch y maent yn ei haeddu ac i dawelu'r holl bryderon hyn y mae pobl yn eu codi, a hynny'n gywir, oherwydd y diffyg tryloywder a nodwyd gan fy nghydweithiwr, Nick Ramsay, yn gynharach?

14:16

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)*Y Prif Weinidog / The First Minister*

I find it amusing that the Member refers to a story in the 'Western Mail' that her party put there in the first place, suggesting that the 'Western Mail' somehow got this idea from someone else. The reality is that the Welsh higher education sector is going from strength to strength. It does not need the Conservatives to do it down all the time, which is what they are trying to do. If you look at the strengths in Cardiff, Swansea, Aberystwyth and Bangor universities, and all universities across Wales, you will find—as we already know—that they are going from strength to strength. Unless she can produce evidence that, somehow, our universities are in decline, which I doubt very much, I cannot accept her comments. If she is suggesting that the Welsh university sector is in some way a basket case, shame on her. She should actually be ensuring that we support Wales's universities. If she has any evidence to suggest that, somehow, they are not performing as they should then let her produce that evidence.

Mae'n fy niddanu bod yr Aelod yn cyfeirio at stori yn y 'Western Mail' a roddwyd yno gan ei phlaid hi yn y lle cyntaf, gan awgrymu bod y 'Western Mail' wedi cael y syniad hwn mewn rhyw fodd gan rywun arall. Y gwirionedd yw bod y sector addysg uwch yng Nghymru yn mynd o nerth i nerth. Nid oes arno angen i'r Ceidwadwyr ei ddilorni drwy'r amser, a dyna maent yn ceisio ei wneud. Os edrychwch chi ar y cryfderau ym mhrrifsgolion Caerdydd, Abertawe, Aberystwyth a Bangor, a phob prifysgol ledled Cymru, byddwch yn canfod—fel rydym yn gwybod eisoes—eu bod yn mynd o nerth i nerth. Oni bai ei bod yn gallu dangos dystiolaeth bod ein prifysgolion yn dirywio rhywsut, ac rwyf yn amau hynny'n fawr iawn, ni allaf dderbyn ei sylwadau. Os yw hi'n awgrymu bod sector prifysgolion Cymru mewn rhyw ffordd yn anobeithiol, mae'n gywilydd arni. Mewn gwirionedd, dylai fod yn sicrhau ein bod yn cefnogi prifysgolion Cymru. Os oes ganddi unrhyw dystiolaeth i awgrymu nad ydynt yn perfformio fel y dylent mewn rhyw ffordd, yna gadewch iddi ddangos y dystiolaeth honno.

14:17

David Rees [Bywgraffiad](#) [Biography](#)Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

First Minister, two weeks ago members of the Enterprise and Business Committee, chaired by the Member for Monmouth, visited Cardiff University and had the opportunity to see some of the world-class research being undertaken there. That followed a visit to the Glyndŵr University, where we saw the work being done there in research areas. Do you agree that the reputation of Welsh higher education is enhanced by the research work undertaken? This was highlighted only last week when Cardiff University was awarded a further £1 million from the European Union for its groundbreaking Seren project.

Brif Weinidog, bythefnos yn ôl, ymwelodd aelodau'r Pwyllgor Menter a Busnes, a gadeirir gan yr Aelod dros Fynwy, â Phrifysgol Caerdydd a chawsant gyfle i weld rhywfaint o'r gwaith ymchwil, sydd ymhlið y gorau yn y byd, a wneir yno. Roedd hynny'n dilyn ymweliad â Phrifysgol Glyndŵr, lle y gwelsom y gwaith sy'n cael ei wneud mewn meysydd ymchwil yno. A ydych chi'n cytuno bod enw da addysg uwch Cymru yn cael ei wella gan y gwaith ymchwil a wneir? Amlygywyd hyn dim ond yr wythnos diwethaf pan ddyfarnwyd £1 miliwn ychwanegol i Brifysgol Caerdydd gan yr Undeb Ewropeaidd ar gyfer ei brosiect Seren arloesol.

14:17

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)*Y Prif Weinidog / The First Minister*

That is another example of Welsh universities doing well, which is something that the party opposite just cannot bring itself to recognise because it is obsessed with the idea that the tuition fee policy is doing down Welsh universities. It just cannot see the wood for the trees. I am delighted at the world-class research that we have in Wales, such as the world-class research into wound-healing, renal disease and academic anaesthesia. These are a few examples among many other good examples of Welsh universities leading the way. We will continue to support our universities, and that means making sure that they also have a ready market abroad in a way that the party opposite simply will not.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

Mae hon yn enghraift arall o brifysgolion Cymru yn gwneud yn dda, sy'n rhwzbeth na all y blaid gyferbyn ddioddef ei gydnabod gan fod gandi obsesiwn gyda'r syniad fod y polisi ffioedd dysgu yn niweidio prifysgolion Cymru. Mae'n methu â gweld hanfod y mater. Rwyf yn hynod falch o'r gwaith ymchwil sydd ymhllith y gorau yn y byd sydd gennym yng Nghymru, megis y gwaith ymchwil o'r radd flaenaf i wella clwyfau, clefyd arenol ac anesthesia academaidd. Dim ond rhai enghrefftiau yw'r rhain, ymhllith llawer o enghrefftiau da eraill o brifysgolion Cymru yn arwain y ffordd. Byddwn yn parhau i gefnogi ein prifysgolion, ac mae hynny'n golygu sicrhau bod ganddynt farchnad barod dramor hefyd, mewn modd na wnaiff y blaid gyferbyn ei wneud.

14:18

Simon Thomas [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Os caf i fynd lawr y canol rhwng David Rees ac Angela Burns gan awgrymu, ynglŷn â mater ymchwil, fod tanberfformio pendant gan brifysgolion Cymru. Nid ydym eto yn derbyn y ganran y dylem ei chael gan y cynghorau ymchwil Prydeinig. Rydych chi wedi cydhabod hynny drwy wneud hyn yn ddyletswydd i'r prif wyddonydd. [Torri ar draws.] Os hoffai'r darpar Brif Weinidog gymryd eich lle chi nawr, efallai yr hoffai fynd at y podiwm.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

Perhaps I could place myself between David Rees and Angela Burns and suggest, on the issue of research, there is a definite underperformance by Welsh universities. We are not yet receiving the percentage that we should receive from the UK research councils. You have acknowledged that by placing that duty on the chief scientist. [Interruption.] If the First Minister in waiting wants to take your place now, perhaps he would like to take the podium.

Rydych chi wedi rhoi'r ddyletswydd i'r prif wyddonydd. Allwch chi ddweud sut mae'r gwaith hwnnw'n mynd, ac a oes cynnydd sylwedol wedi bod yn y ganran a gawn gan y cynghorau ymchwil Prydeinig?

You have placed the duty on the chief scientist. Can you tell us how that work is progressing, and has there been a considerable increase in the percentage that we receive from the UK research councils?

14:19

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Bydd yr Aelod yn gwybod am gynllun Sêr Cymru, sef cynllun a fydd yn denu pobl sy'n ymchwilwr o'r radd flaenaf i Gymru. Cafodd y cynllun ei lansio ganol y llynedd, os cofiaf yn iawn. Mae Cymru yn cael ei ystyried, drwy waith y prif wyddonydd, fel y lle i ddod iddo i wneud gwaith ymchwil. Un peth sy'n wir yw bod yn rhaid inni sicrhau bod prifysgolion Cymru yn gwella'r ffordd y maent yn ennill arian ymchwil. Mae hon yn sialens nid yn unig i ni fel Llywodraeth, ond i'r prif wyddonydd, a derbyniodd y sialens honno dros y misoedd diwethaf.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

The Member will know, of course, about the Sêr Cymru programme, which will attract people into Wales who are of the highest calibre in terms of research. It was launched in the middle of last year, if I remember rightly. Wales is considered, through the work of the chief scientist, as the place to come to carry out research work. What is true is that we must ensure that Welsh universities improve the way in which they attract research funding. That is a challenge not just for the Government, but for the chief scientist, which he has accepted over the past few months.

Budd-dal y Dreth Gyngor**Council Tax Benefit**

14:20

Alun Ffred Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

10. A wnaiffy Prif Weinidog ddatganiad am bolisi Llywodraeth Cymru ar fudd-dal y dreth gyngor.
OAQ(4)0856(FM)

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

10. Will the First Minister make a statement on the Welsh Government's policy on council tax benefit.
OAQ(4)0856(FM)

14:20

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Fel y mae'r Aelod yn gwybod, roedd datganiad yr wythnos diwethaf ynglŷn â'r ffordd ymlaen

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

As the Member will know, a statement was made last week on the way forward.

14:20

Alun Ffred Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Roedd gan Lywodraeth Cymru bolisi a orfodwyd drwy'r lle hwn ar 19 Rhagfyr, os cofiaf yn iawn. Fis yn ddiweddarach, mae gennych chi bolisi arall, a gynigiwyd gan Blaid Cymru ryw naw mis yn ôl. Beth ddigwyddodd rhwng 19 Rhagfyr a heddiw a wnaeth i chi newid eich meddwl yn y mater hwn? Ai cywilydd ydoedd, ynteu a oedd rheswm arall?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:20

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

Pe bai hynny'n rhywbedd mawr i Blaid Cymru, buasai wedi bod yn rhan o'r trafod a gafwyd ynglŷn â'r gyllideb, ond nid oedd sôn amdano ar y pryd. Unwaith eto, rydych yn hwyr i'r parti.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Rydym yn gallu gwneud hwn gan ein bod ni'n dod at ddiweddyr a flwyddyn ariannol ac, fel sy'n arferol ar yr adeg hon o'r flwyddyn, mae arian a all fod ar gael am nad yw'r gwariant wedi bod yr un peth mewn rhannau o'r gyllideb. Felly, gyda'r arian hwnnw ar gael, y peth iawn i'w wneud oedd hyn. Os yw hyn yn golygu ein bod yn cael ein beirniadu, dyna fel y mae. Yn fy marn i, gan fod yr arian hwnnw yn awr ar gael, y peth call ac iawn yw gwneud yn iawn â phobl Cymru a sicrhau nad ydynt yn cael eu bwrw gan y toriadau a gyflwynwyd gan y Torïaid a'r Rhyddfrydwyr.

The Welsh Government had a policy, which was forced through this place on 19 December, if I remember rightly. A month later, you have a different policy, which was proposed by Plaid Cymru—The Party of Wales some nine months ago. What occurred between December 19 and today to make you change your mind on this issue? Was it a matter of shame, or was there another reason?

14:21

Janet Finch-Saunders [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you for your response to Alun Ffred Jones. I am really glad that he has brought this matter up, because we, too, welcome this magnificent u-turn. However, I would question why you did not think of giving your support and bridging the gap much earlier. You had indicative figures in May. You also had many millions of pounds in the autumn statement from the UK Government that could have helped residents throughout Wales. The way that this has been handled—

We have been able to do this because we are approaching the end of the financial year and, as is customary at this time of year, funding can become available because of underspends in certain budgets. Therefore, given that the funding became available, the proper thing to do was to do this. If that means that we are going to be criticised, wel so be it. In my opinion, as the funding is now available, the right and proper thing to do is to do what is right for the people of Wales and to ensure that they are not hit by the cuts imposed by the Tories and Liberal Democrats.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Diolch i chi am eich ymateb i Alun Ffred Jones. Rwyf yn wirioneddol falch ei fod wedi codi'r mater hwn, gan ein bod ninnau hefyd yn croesawu'r tro pedol ardderchog hwn. Fodd bynnag, byddwn yn cwestiynu pam na wnaethoch chi ystyried rhoi eich cefnogaeth a phontio'r bwlc yn llawer cynt. Roedd gennych ffigurau dangosol ym mis Mai. Cawsoch filiynau lawer o bunnoedd yn natganiad yr hydref gan Lywodraeth y DU hefyd, a allai fod wedi helpu trigolion ledled Cymru. Mae'r ffodd y mae hyn wedi cael ei drin—

14:22

Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Order. Are you coming to a question?

Trefn. A ydych ar fin gofyn cwestiwn?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:22

Janet Finch-Saunders [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Yes.

Ydw.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:22

Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Well, can you come to question now, please?

Wel, allwch chi ofyn y cwestiwn nawr, os gwelwch yn dda?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:22

Janet Finch-Saunders [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The way that this has been handled has been shambolic. One question that I would like to put to the First Minister, however, is this: is it not about time that you considered the interests of the people of Wales and stopped this petty political posturing—[Laughter.] No? Also—

Mae'r ffodd y mae hyn wedi cael ei drin wedi bod yn draed moch. Un cwestiwn yr hoffwn ei ofyn i'r Prif Weinidog, fodd bynnag, yw hyn: onid yw'n hen bryd i chi ystyried buddiannau pobl Cymru ac atal yr ystumio gwleidyddol dibwys yma— [Chwerthin.] Nac yw? Hefyd—

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:22

Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Order. Was that the question?

Trefn. Ai hwnna oedd y cwestiwn?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:22	Janet Finch-Saunders Bywgraffiad Biography	No; I had not finished.	Na; nid wyf wedi gorffen.	Senedd.tv Fideo Video
14:22	Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography	Well, can you come to the question, please?	Wel, allwch chi ofyn y cwestiwn, os gwelwch yn dda?	Senedd.tv Fideo Video
14:22	Janet Finch-Saunders Bywgraffiad Biography	I would also ask the First Minister if he would ensure that that kind of embarrassment is not brought upon the National Assembly for Wales again. Also—	Byddwn hefyd yn gofyn i'r Prif Weinidog a fyddai'n sicrhau na fydd y math hwnnw o embaras yn cael ei ddwyn ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru eto. Hefyd—	Senedd.tv Fideo Video
14:22	Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography	Order. I am sorry; you have already asked three questions.	Trefn. Mae'n ddrwg gennyd, rydych wedi gofyn tri chwestiwn eisoes.	Senedd.tv Fideo Video
14:22	Janet Finch-Saunders Bywgraffiad Biography	Okay.	lawn.	Senedd.tv Fideo Video
14:23	Carwyn Jones Bywgraffiad Biography <i>Y Prif Weinidog / The First Minister</i>	The house built on sand and the argument built on sand. The first thing she does not seem to understand is that this applies in the next financial year, not this financial year. People have not lost out in this financial year. She does not seem to have understood that; she seems to think that people have lost money now, but that is not the case.	Y tŷ a adeiladwyd ar dywod a'r ddadl a adeiladwyd ar dywod. Y peth cyntaf y mae'n ymddangos nad yw'n ei ddeall yw mai yn y flwyddyn ariannol nesaf y mae hyn yn berthnasol, nid y flwyddyn ariannol hon. Nid yw pobl wedi bod ar eu colled yn y flwyddyn ariannol hon. Nid yw'n ymddangos ei bod wedi deall hynny; mae'n ymddangos ei bod yn meddwl bod pobl wedi colli arian nawr, ond nid dyna'r achos.	Senedd.tv Fideo Video
		Secondly, she conveniently fails to mention that this is something that was passed to us. We did not ask for it, and we had 90% of the budget. The budget was top-sliced by £20 million, and the party opposite said absolutely nothing to defend the people of Wales against this. They sat there parroting the same lines every single week that are passed to them by London. What have we done? Yes, we have put in the money to make up the difference—we have put in as much money as the Scottish Government. What they have done there is to make local authorities pay nearly half the money; it is not being provided by the Scottish Government. The money is now available to us as a result of underspends in-year, and it is the right thing to do. It is the right thing to do for the people of Wales, the right thing to do for vulnerable people, and the right thing to do to defend the people of Wales against the Tories and Lib Dems and their cuts.	Yn ail, ac yn gyfleus, nid yw'n sôn mai rhywbeth a drosglwyddwyd i ni yw hyn. Nid wnaethom ofyn amdano, a chawsom 90% o'r gyllideb. Cafodd y gyllideb ei frigdori o £20 miliwn, ac ni ddywedodd y blaid gyferbyn affliw o ddim i amddiffyn pobl Cymru yn erbyn hyn. Maen nhw'n eistedd yno'n ailadrodd yr un geriau sy'n cael eu trosglwyddo iddynt gan Lundain bob un wythnos. Beth ydym ni wedi'i wneud? Ydym, rydym wedi rhoi arian i mewn ar gyfer y gwahaniaeth—rydym wedi rhoi cymaint o arian i mewn â Llywodraeth yr Alban. Yr hyn y maen nhw wedi ei wneud yno yw gwneud i awdurdodau lleol dalu bron i hanner yr arian; nid yw'n cael ei ddarparu gan Lywodraeth yr Alban. Mae'r arian ar gael i ni bellach o ganlyniad i danwario yn ystod y flwyddyn, a dyma'r peth iawn i'w wneud. Dyma'r peth iawn i'w wneud ar gyfer pobl Cymru, y peth iawn i'w wneud ar gyfer pobl sy'n agored i niwed, a'r peth iawn i'w wneud i amddiffyn pobl Cymru rhag y Torïaid a'r Democratiaid Rhyddfrydol a'u toriadau.	Senedd.tv Fideo Video

Todi yng Nghymru

14:24	Jocelyn Davies Bywgraffiad Biography	11. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am gamau gweithredu Llywodraeth Cymru i liniaru tlodi yng Nghymru. OAQ(4)0858(FM)	11. Will the First Minister make a statement on Welsh Government action to alleviate poverty in Wales. OAQ(4)0858(FM)	Senedd.tv Fideo Video
-------	---	---	--	--

Poverty in Wales

14:24

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Tackling poverty remains a high priority for us as a Government and we will publish the tackling poverty action plan in the summer, demonstrating how we intend to improve the lives of people living in poverty.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

Mae mynd i'r afael â thlodi yn parhau i fod yn flaenoriaeth uchel i ni fel Llywodraeth a byddwn yn cyhoeddi cynllun gweithredu ar gyfer mynd i'r afael â thlodi yn yr haf, gan ddangos sut yr ydym yn bwriadu gwella bywydau pobl sy'n byw mewn tlodi.

14:24

Jocelyn Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you, First Minister. We know that in economic hard times, people sometimes turn to illegal moneylenders. Can you update me on the work of the Wales illegal lending unit, and how many loan sharks has that unit pursued?

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

Diolch i chi, Brif Weinidog. Rydym yn gwybod bod pobl weithiau'n troi at fenthycwyr arian anghyfreithlon mewn cyfnodau economaidd anodd. A allwch chi roi'r wybodaeth ddiweddaraf i mi am waith uned benthyca anghyfreithlon Cymru, a faint o fenthycwyr arian didrwydded y mae'r uned honno wedi mynd i'r afael â hwy?

14:24

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)*Y Prif Weinidog / The First Minister*

The unit exists, of course, in order to provide people with advice, to avoid going to loan sharks. We rely on the police to prosecute loan sharks where the evidence exists. We have provided assistance to people in the form of financial advice and credit unions—credit union coverage is now widespread across Wales.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

Mae'r uned yn bodoli, wrth gwrs, i roi cyngor i bobl, er mwyn osgoi mynd at fenthycwyr arian didrwydded. Rydym yn dibynnu ar yr heddlu i erlyn benthyca anghyfreithlon didrwydded lle mae'r dystiolaeth yn bodoli. Rydym wedi darparu cymorth i bobl ar ffurf cyngor ariannol ac undebau credyd—mae unedau credyd yn gyffredin ledled Cymru bellach.

Gofynnodd hi faint o fenthycwyr arian didrwydded sydd wedi cael eu harestio. Mater i'r heddlu yw hyunny, ond byddwn yn gwneud yr hyn a allwn i sicrhau nad yw pobl yn mynd at fenthycwyr arian didrwydded yn y lle cyntaf. Mae'n llawer gwell peidio â gwneud hyunny nag ymwnued â benthyca anghyfreithlon didrwydded ac yna gorfol mynd i'r llys, o bosibl, i roi dystiolaeth yn eu herbry.

14:25

Rebecca Evans [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

First Minister, one of the best ways to help people out of poverty is to help them into work. Given the fact that Jobs Growth Wales has been such a success and has exceeded many expectations, what plans do you have to take that scheme from strength to strength?

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

Brif Weinidog, un o'r ffyrdd gorau o helpu pobl allan o dldi yw eu helpu i mewn i waith. O ystyried y ffaith bod Twf Swyddi Cymru wedi bod yn gymaint o lwyddiant, ac wedi rhagori ar ddisgwyliadau llawer, pa gynlluniau sydd gennych i sicrhau bod y cynllun hwnnw yn mynd o nerth i nerth?

14:25

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)*Y Prif Weinidog / The First Minister*

More than 3,000 young people are now in work as a result of that scheme. Many more have been offered a chance to be part of it. The Leader of the Opposition groaned when he heard you say Jobs Growth Wales, but he does not care very much about young people—we know that anyway. He clearly does not think that it is important to help young people into apprenticeships and training, and his party have no plans to do so. The UK Government ran a similar scheme and it was a complete disaster because so few young people ended up in jobs. It was our first priority as a Government to introduce Jobs Growth Wales. We did it and there are young people now in work as a result of that. That is one among many of our proudest achievements.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

Mae mwy na 3,000 o bobl ifanc mewn gwaith o ganlyniad i'r cynllun hwnnw bellach. Mae llawer mwy wedi cael cynnig cyfle i fod yn rhan ohono. Griddfanodd Arweinydd yr Wrthblaid pan glywedd e chi'n dweud Twf Swyddi Cymru, ond nid yw'n poeni llawer am bobl ifanc—gwyddom hyunny beth bynnag. Mae'n amlwg nad yw'n credu ei bod yn bwysig helpu pobl ifanc i gael prentisiaethau a hyfforddiant, ac nid oes gan ei blaif ef unrhyw gynlluniua i wneud hyunny. Cynhalwyd cynllun tebyg gan Lywodraeth y DU ac roedd yn drychineb llwyr oherwydd i gyn lleied o bobl ifanc gael swyddi yn y pen draw. Ein blaenoriaeth gyntaf ni fel Llywodraeth oedd cyflwyno Twf Swyddi Cymru. Gwnaethpwyd hyunny gennym ac mae pobl ifanc mewn gwaith bellach o ganlyniad i hyunny. Mae hwn yn un o blith llawer o lwyddiannau yr ydym fwyaf balch ohonynt.

14:26

Byron Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I will go back to a previous question, which is very much related to this.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:26

Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I am glad of that. [Laughter.]

Hoffwn ddychwelyd at gwestiwn blaenorol, sy'n sicr yn gysylltiedig â hyn.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:26

Byron Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

So am I. Given the embarrassing response to the recent council tax regulations, by first claiming that the regulations were delayed because of Treasury figures, despite pretty much every other part of the UK managing it in a timely fashion, now that you have found the £22 million to fill the funding gap—which must be welcomed—do you not accept that that confusion will have had a dramatic effect on those affected? Do you and your Ministers fully understand the implications of your decisions on the most vulnerable to ensure that this approach does not cause additional hardship through your indecision?

A finnau hefyd. O ystyried yr ymateb chwerthinllyd i'r rheoliadau treth gyngor diweddar, trwy honni'n gyntaf y gohiriwyd y rheoliadau oherwydd ffigurau'r Trysorlys, er gwaethaf y faith bod bron pob rhan arall o'r DU wedi llwyddo i'w cyflwyno'n brydlon, nawr eich bod wedi dod o hyd i'r £22 miliwn i lenwi'r bwllch cylido—y mae'n rhaid ei groesawu-onid ydych yn derbyn y bydd y dryswch hnwnw wedi cael effaith sylweddol ar y rhai yr effeithiwyd arnynt? A ydych chi a'ch Gweinidogion yn deall yn llawn gobbygiadau eich penderfyniadau ar y rhai sydd fwyaf agored i niwed er mwyn sicrhau nad yw'r dull hwn yn achosi caledi ychwanegol oherwydd eich methiant i wneud penderfyniad?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:27

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

If he really cared about the most vulnerable, he would have stood up to his own party and told them to fund the council tax benefit fully, rather than top-slicing it by 10%. I am afraid that the words that he uses in the Chamber carry no weight at all. We have to make up for a funding shortfall imposed by his party and his Prime Minister. We do not like the idea of having to make up for what the UK Government should be doing but, unlike the UK Government, we will not let the people of Wales down.

Pe byddai ef wir yn poeni am y rhai sydd fwyaf agored i niwed, byddai wedi gwirthsefyll ei blaid ei hun a dweud wrthyn nhw i ariannu'r budd-dal treth gyngor yn llawn, yn hytrach na'i frigdori o 10%. Rwy'n ofni nad yw'r geiriau y mae'n eu defnyddio yn y Siambra yn cario unrhyw sylwedd o gwbl. Mae'n rhaid i ni wneud iawn am y diffyg ariannol a achoswyd gan ei blaid ef a'i Brif Weinidog ef. Nid ydym yn hoffi'r syniad o orfod gwneud iawn am yr hyn y dylai Llywodraeth y DU fod yn ei wneud ond, yn wahanol i Llywodraeth y DU, niwnawn siomi pobl Cymru.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Twf Economaidd yng Ngogledd Cymru

14:27

Antoinette Sandbach [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

12. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am gynlluniau Llywodraeth Cymru ar gyfer twf economaidd yng Ngogledd Cymru. OAQ(4)0863(FM)

Economic Growth in North Wales

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:27

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

Yes, our priorities are set out in the programme for government, including such schemes as providing strong support for the development of Wylfa B.

12. Will the First Minister make a statement on the Welsh Government's plans for economic growth in North Wales. OAQ(4)0863(FM)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:28

Antoinette Sandbach [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Given that the strengths of the north Wales economy in tourism, energy and the aerospace sectors, for example, are different to those in other areas of Wales, do you accept the value of a regional approach to Government-backed finance, as outlined in the Welsh Conservatives' 'Invest Wales' policy document? Do you recognise that this regional approach would be far better able to deliver credit to small businesses?

Gwnaf, mae ein blaenoriaethau wedi'u nodi yn y rhaglen ar gyfer Llywodraethu, gan gynnwys cynlluniau fel darparu cefnogaeth gref i ddatblygu Wylfa B.

O ystyried bod cryfderau economi gogledd Cymru yn y sectorau twristiaeth, ynni ac awyrofod, er enghraift, yn wahanol i'r rhai mewn rhannau eraill o Gymru, a ydych chi'n derbyn gwerth dull rhanbarthol o ymdrin â chyllid a gefnogir gan y Llywodraeth, fel yr amlinellir yn nogfen bolisi 'Buddsoddi Cymru' Ceidwadwyr Cymru? A ydych chi'n cydnabod y byddai'r dull rhanbarthol hwn yn gallu darparu credyd i fusnesau bach yn llawer gwell?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Given that nobody has the slightest idea how it would work, it is difficult to give an opinion on it. If, as was suggested, it would work by offering loans to businesses where Finance Wales did not offer loans, it sounds to me as if it is a scheme to offer the riskiest loans imaginable. You have a banker on your front bench who will understand the risks better than anybody else, but the reality is that there needs to be an integrated approach to finance across Wales. We believe that Finance Wales is doing that and we know that there is great potential in the economy of north Wales, which is why we have given such strong support to companies such as Airbus and others in Deeside; it is why we have an enterprise zone in Trawsfynydd; and it is why we have given such strong support to the opening of Wylfa B as a new reactor. That shows that the Welsh Government is standing up for Wales.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

O gofio nad oes gan unrhyw un y syniad lleiaf am sut y byddai'n gweithio, mae'n anodd rhoi barn arno. Os, fel yr awgrymwyd, y byddai'n gweithio trwy gynnig benthyciadau i fusnesau lle na chynigwyd benthyciadau gan Gyllid Cymru, mae'n swnio i mi fel pe bai'n gynllun i gynnig y benthyciadau mwyaf peryglus y gellid eu dychmygu. Mae gennych fancwr ar eich mainc flaen a fydd yn deall y risgau yn well nag unrhyw un arall, ond y gwir amdani yw bod angen dull integredig o ymdrin â chyllid ledled Cymru. Rydym yn credu bod Cyllid Cymru yn gwneud hynny ac rydym yn gwybod bod potensial mawr yn economi gogledd Cymru, a dyna pam yr ydym wedi rhoi cefnogaeth mor gref i gwmniau fel Airbus ac eraill yng Nglannau Dyfrdwy; dyna pam mae gennym barth menter yn Nhrawsfynydd; a dyna pam yr ydym wedi rhoi cefnogaeth mor gref i agor Wylfa B fel adweithydd newydd. Mae hynny'n dangos bod Llywodraeth Cymru yn sefyll dros Gymru.

Ieuan Wyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

A yw'r Prif Weinidog yn derbyn mai'r unig ffordd y gallwn gryfhau economi gogledd Cymru, fel gweddill Cymru, yw drwy ychwanegu gwerth at yr economi? Un ffordd o wneud hynny yw drwy wella'r ffordd yr ydym yn sicrhau y cawn ni werth o ymchwil a datblygu yn benodol. A yw'r Prif Weinidog, felly, yn croesawu'r ffaith bod parc gwyddoniaeth yn mynd i gael ei sefydlu yng ngogledd-orllewin Cymru a fydd yn ein helpu ni yn y maes hwn? A yw hefyd yn croesawu'r cynnydd a wnaed eisoes i sefydlu'r parc hwnnw?

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

Does the First Minister accept that the only in which we can strengthen the economy of north Wales, along with the rest of Wales, is by adding value to the economy? One way of doing that would be to improve the way in which we secure value from research and development in particular. Does the First Minister therefore welcome the fact that a science park is to be established in north-west Wales that will assist us in this field? Does he also welcome the progress made to date in the establishment of the park?

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Wrth gwrs, roedd hyn yn rhan o'r cytundeb felly rwy'n cytuno â'r hyn y mae'r Aelod yn ei ddweud. Bydd y parc yn help mawr i sicrhau nid yn unig ymchwil ond, yn y pen draw, swyddi i'r ardal honno o Gymru.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

Of course, this was part of the agreement, and I support the Member's comments. The park will be of great assistance in ensuring not only research, but, ultimately, jobs for this part of Wales.

Datganiad a Chyhoeddiad Busnes
[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)
Jane Hutt [Bywgraffiad](#) [Biography](#)*Y Gweinidog Cyllid ac Arweinydd y Tŷ / The Minister for Finance and Leader of the House*

I have three changes to report to this week's business. Later today, the Minister for Local Government and Communities will move a motion to suspend the relevant Standing Orders, so that the Assembly can debate the Council Tax Reduction Schemes (Prescribed Requirements and Default Scheme) (Wales) (Amendment) Regulations 2013, and the Council Tax Reduction Schemes (Transitional Provisions) (Wales) Regulations 2013. Furthermore, I have extended the time that has been allocated to the Stage 3 debate on the Food Hygiene Rating (Wales) Bill, from 60 minutes to 90 minutes. Finally, I have reduced the time that has been allocated to tomorrow's Counsel General's oral Assembly questions from 45 minutes to 15 minutes. Business for the next three weeks is as shown in the business statement and announcement, which can be found among the agenda papers that are available to Members electronically.

Business Statement and Announcement

Mae gen i dri newid i fuses yr wythnos hon i'w hysbysu. Yn ddiweddarach heddiw, bydd y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau yn gwneud cynnig i atal y Rheolau Sefydlog perthnasol, fel y gall y Cynulliad drafod Rheoliadau Cylluriau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (Gofynion Rhagnodedig a Chynllun Diofyn) (Cymru) (Diwygio) 2013, a Rheoliadau Cylluriau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (Darpariaethau Trosiannol) (Cymru) 2013. Hefyd, rwyf wedi ymestyn yr amser a neilltuwyd i'r drafodaeth Cam 3 ar y Bil Hylendid Bwyd (Cymru), o 60 munud i 90 munud. Yn olaf, rwyf wedi lleihau'r amser a neilltuwyd i gwestiynau llafar y Cynulliad i'r Cwnsler Cyffredinol yfory o 45 munud i 15 munud. Mae'r busnes ar gyfer y tair wythnos nesaf fel y'i dangosir yn y datganiad a chyhoeddiad busnes, sydd ar gael ymhlið papurau'r agenda sydd ar gael i Aelodau yn electronig.

Suzy Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, I would like to request an urgent oral statement by the Minister for Housing, Regeneration and Heritage so that he can explain fully the contents of his written statement on the future of the Royal Commission on the Ancient and Historical Monuments of Wales. It will not have escaped Members' attention that the written statement was issued on Thursday, the day after the Minister's scheduled appearance to answer ballot questions in the Chamber, five days before this Plenary session, and over a month before he is scheduled to appear before us again. In his written statement, the Minister for heritage confirms that he is considering the future of the royal commission, and, in doing so, is rejecting any way forward other than the one that he is choosing. While he is entitled to make any decision that he chooses, we as Assembly Members have the right to know why he has done so. Therefore, I would be grateful if you could make arrangements for him to come back to the Chamber to answer questions on this issue well before 20 February.

Weinidog, hoffwn ofyn am ddatganiad llafar brys gan y Gweinidog Tai, Adfywio a Threftadaeth er mwyn iddo allu esbonio'n llawn cynnwys ei ddatganiad ysgrifenedig ar ddyfodol y Comisiwn Brenhinol ar Henebion Hynafol a Hanesyddol Cymru. Ni fydd wedi dianc sylw'r Aelodau bod y datganiad ysgrifenedig wedi'i gyhoeddi ddydd iau, y diwrnod ar ôl y diwrnod yr oedd y Gweinidog i fod i ymddangos i ateb cwestiynau pleidleisio yn y Siambra, pum diwrnod cyn y Cyfarfod Llawn hwn, a dros fis cyn y disgwyli'r iddo ymddangos ger ein bron eto. Yn ei ddatganiad ysgrifenedig, mae'r Gweinidog treftadaeth yn cadarnhau ei fod yn ystyried dyfodol y comisiwn brenhinol, ac, wrth wneud hynny, yn gwrrhod unrhyw ffordd arall ymlaen ac eithrio'r un y mae ef yn ei dewis. Er bod ganddo hawl i wneud unrhyw benderfyniad y mae'n dymuno ei wneud, mae gennym ni fel Aelodau'r Cynulliad hawl i gael gwybod pam y mae wedi gwneud hynny. Felly, byddwn yn ddiolchgar pe gallech wneud trefniadau iddo ddychwelyd i'r Siambra i ateb cwestiynau ar y mater hwn ymhell cyn 20 Chwefror.

Jane Hutt [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The Member can be assured that a working group, which has been drawn from the Welsh Government and the commission, has been engaged in the review process throughout 2012. Furthermore, the matter has been explained in the Communities, Equality and Local Government Committee. The development of a full business case now will allow any proposals to change the organisational models for the functions of the royal commission and Cadw to be thoroughly tested prior to any future decision being taken, as set out in the written statement.

Gall yr Aelod fod yn sicr bod gweithgor, a ffurfiwyd o Lywodraeth Cymru a'r comisiwn, wedi bod yn cymryd rhan yn y broses adolygu trwy gydol 2012. Hefyd, esboniwyd y mater yn y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol. Bydd datblygu achos busnes llawn nawr yn caniatáu i unrhyw gynigion i newid y modelau sefydliadol ar gyfer swyddogaethau'r comisiwn brenhinol a Cadw i gael eu profi'n drylwyr cyn gwneud unrhyw benderfyniad yn y dyfodol, fel y nodir yn y datganiad ysgrifenedig.

Julie Morgan [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The issue of a convention centre was raised a few times during today's questions to the First Minister. Would it be possible to have a debate to discuss the maximum amount of regeneration that could be obtained by having an international convention centre, possibly combined with an indoor arena? I know that this is something that the Welsh Government, and the local authorities, support. It would be fantastic to have such a thing in this area. However, I also noted that it proposed the demolition of Cardiff County Hall, which I remember being at the opening of, and that was intended to regenerate the area. Therefore, could we have the opportunity to debate this?

Codwyd y mater o ganolfan gynadledda sawl gwaith yn ystod cwestiynau heddiw i'r Prif Weinidog. A fyddai'n bosibl cael trafodaeth ar faint o adfywio fyddai'n bosibl trwy gael canolfan gynadledda ryngwladol, wedi'i chyfuno ag arena dan do o bosibl? Gwn fod hyn yn rhywbeth y mae Llywodraeth Cymru, a'r awdurdodau lleol yn ei gefnogi. Byddai'n wych cael rhywbeth o'r fath yn yr ardal hon. Fodd bynnag, nodais hefyd fod cynnig i ddymchwel Neuadd Sir Caerdydd, yr wyf yn cofio bod yno pan y'i hagorwyd, a bwriad hynny oedd adfywio'r ardal. Felly, a gawn ni gyfle i draffod hyn?

Jane Hutt [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Over the years, there have been a number of proposals for the development of a Cardiff convention centre. This is primarily a matter for Cardiff Council. The Minister for Business, Enterprise, Technology and Science is this afternoon updating Members on developments in our enterprise zone areas, including Cardiff Central, as well as your constituency of Cardiff North.

Bu nifer o gynigion ar gyfer datblygu canolfan gynadledda yng Nghaerdydd dros y blynnyddoedd. Mater i Gyngor Caerdydd yw hyn yn bennaf. Bydd y Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i Aelodau y prynhawn yma ar ddatblygiadau yn ein hardaloedd parth menter, gan gynnwys Canol Caerdydd, yn ogystal â'ch etholaeth chi yng Ngogledd Caerdydd.

William Powell [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I would like to ask the Minister to bring forward a statement in Government time regarding the handling of the situation around the assets of Canolfan Cywain. I asked for this matter to be tabled as an urgent question today, but that was declined. As colleagues will know, Canolfan Cywain was awarded some £2 million in funding, from a number of Government funding sources, including the Welsh European Funding Office, the Snowdonia National Park Authority, Gwynedd Council, and the Arts Council for Wales. It has been mothballed now for over a year, and has recently had the assets transferred to the Rhiwlas estate. This has effectively led to a loss to the public purse of some £2 million, which is a matter of real concern across Wales. Will the Minister ask her colleagues to bring forward such a statement on the potential for recovering some of the money that has been lost to the public purse in this unfortunate episode?

Hoffwn ofyn i'r Gweinidog gyflwyno datganiad yn amser y Llywodraeth yng Nghymru sut yr ymdriniwyd â'r sefyllfa yn ymneud ag asedau Canolfan Cywain. Gofynnais i'r mater hwn gael ei gyflwyno fel cwestiwn brys heddiw, ond gwrthodwyd hynny. Fel y bydd fy nghydweithwyr yn gwybod, dyfarnwyd tua £2 filiwn o gyllid i Ganolfan Cywain, o nifer o ffynonellau cyllid y Llywodraeth, gan gynnwys Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru, Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri, Cyngor Gwynedd, a Chyngor Celfyddydau Cymru. Fe'i rhoddwyd o'r neilltu bellach ers dros flwyddyn, a throsglwyddwyd yr asedau i ystâd Rhiwlas yn ddiweddar. Mae hyn wedi arwain mewn gwirionedd at golled i'r pwrs cyhoeddus o tua £2 filiwn, sy'n fater o bryder gwirioneddol ledled Cymru. A wnaiff y Gweinidog ofyn i'w chydweithwyr gyflwyno datganiad o'r fath ar y posibilrwydd o adfer rhywfaint o'r arian a gollwyd o'r pwrs cyhoeddus yn ystod y digwyddiad anffodus hwn?

Jane Hutt [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

As William Powell has acknowledged, the closure of Canolfan Cywain did not occur recently. The centre was mothballed in September 2011, and, as he says, the lease and the centre's assets were transferred to the owners of the land in October last year. The only aspect of this issue that is new is the fact that the BBC is covering it, and that there has been a call for a Wales Audit Office investigation, I understand, from the Chair of the Public Accounts Committee.

Fel y mae William Powell wedi ei gydnabod, ni chaewyd Canolfan Cywain yn ddiweddar. Rhoddwyd y ganolfan o'r neilltu ym mis Medi 2011, ac, fel y dywed, trosglwyddwyd y brydles ac asedau'r ganolfan i berchnogion y tir ym mis Hydref y llynedd. Yr unig agwedd ar y mater hwn sy'n newydd yw'r ffaith bod y BBC yn rhoi sylw iddo, ac y bu galw am ymchwiliad gan Swyddfa Archwilio Cymru, rwy'n deall, gan Gadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus.

Antoinette Sandbach [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, you will be aware of the deep disquiet and unease around Betsi Cadwaladr's announcements on Friday, particularly of the closure of the neonatal level 3 facilities at Ysbyty Glan Clwyd and Wrexham Maelor Hospital. During that meeting, it was disclosed that Jill Galvani, the director of nursing who had been present at many of the public consultation meetings, had a conflict of interest that had not been declared at those meetings. She has now moved to the unit in Arrowe Park Hospital, where the level 3 neonatal care will be transferred. Given the flawed nature of the consultation process and the fact that she might personally benefit financially from that decision, could we perhaps have a statement from the Minister regarding those concerns about the consultation process?

Weinidog, byddwch yn ymwybodol o'r pryer a'r anfodlonrwydd dwys am gyhoeddiadau Betsi Cadwaladr ddydd Gwener, yn enwedig o ran cau'r cyfleusterau newyddenedigol lefel 3 yn Ysbyty Glan Clwyd ac Ysbyty Maelor Wrecsam. Datgelwyd yn ystod y cyfarfod hwnnw bod gwrthdaro buddianau yn berthnasol i Jill Galvani, y cyfarwyddwr nyrso a oedd yn bresennol mewn nifer o'r cyfarfodydd ymgynghori cyhoeddus, ac na ddatganwyd yn y cyfarfodydd hynny. Mae hi wedi symud i'r uned yn Ysbyty Arrowe Park bellach, lle bydd y gofal newyddenedigol lefel 3 yn cael ei drosglwyddo. O ystyried natur ddiffygol y broses ymgynghori a'r ffaith y gallai hi elwa'n ariannol yn bersonol o'r penderfyniad hwnnw, a fyddai'n bosibl i ni gael datganiad gan y Gweinidog yng Nghymru y pryeron hynny am y broses ymgynghori?

Jane Hutt [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I would like to put the record straight for the Member. The health board has taken advice from professional groups, the royal colleges, and, importantly, patient representatives on this very serious matter, and it did confirm its proposals for neonatal services in north Wales on 18 January. The process now is that the community health council has a period of six weeks to consider the proposals and, if appropriate, refer them to the Minister for Health and Social Services for a decision. The Minister's role is clearly set out in the guidance for engagement and consultation on changes to health services. That is what Members will need to be clearly aware of.

Hoffwn roi'r stori go iawn i'r Aelod. Mae'r bwrdd iechyd wedi derbyn cyngor gan grwpiau professynol, y coleau brenhinol, ac, yn bwysig, cynrychiolwyr cleifion ar y mater difrifol iawn hwn, a chadarnhaodd ei gynigion ar gyfer gwasanaethau newyddenedigol yng ngogledd Cymru ar 18 Ionawr. Y broses nawr yw bod gan y cyngor iechyd cymuned gyfnod o chwe wythnos i ystyried y cynigion ac, os yw'n briodol, eu hatgyfeirio i'r Gweinidog lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i wneud penderfyniad. Nodir swyddogaeth y Gweinidog yn eglur yn y canllawiau ar gyfer ymgysylltu ac ymgynghori ar newidiadau i wasanaethau iechyd. Dyna'r hyn y bydd angen i'r Aelodau fod yn gwbl ymwybodol ohono.

14:36

Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Nothing that has been said here this afternoon that is outwith Standing Orders, but I would ask Members to be very careful with any statement that they make in the Chamber.

Nid yw unrhyw beth sydd wedi cael ei ddweud yma y prynhawn yma y tu allan i'r Rheolau Sefydlog, ond byddwn yn gofyn i'r Aelodau fod yn ofalus iawn o ran unrhyw ddatganiad y maent yn ei wneud yn y Siambwr.

14:37

Mike Hedges [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Last week, as the Minister for Finance, you made a statement on capital allowances, which I very much welcomed. Would it be possible for you to make a statement on the creation of a Welsh treasury, which was one of the matters that you raised during that statement?

Yr wythnos diwethaf, fel y Gweinidog Cyllid, gwnaethoch ddatganiad ar lwfansau cyfalaf, yr oedden yn ei groesawu'n fawr. A fyddai'n bosibl i chi wneud datganiad ar greu trysorlys Cymru, a oedd yn un o'r materion a godwyd gennych yn ystod y datganiad hwnnw?

14:37

Jane Hutt [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I thank Mike Hedges for that question. Of course, as I said last week, and as we all acknowledge, the Silk commission recommended that the Welsh Government should establish a new Welsh treasury function to manage the new tax and borrowing powers for Wales. That will require the Welsh Government to develop capacity and expertise to manage these new fiscal powers, but we will be building on the Treasury functions that we have already developed, including recent progress in terms of innovative funding models and a much more strategic approach to capital investment through the Wales infrastructure investment plan. I would be very happy to bring a statement on this to the Assembly in due course.

Diolch i Mike Hedges am y cwestiwn yna. Wrth gwrs, fel y dywedais yr wythnos diwethaf, ac fel y mae pob un ohonom yn ei gydnabod, argymhellodd comisiwn Silk y dylai Llywodraeth Cymru sefydlu swyddogaeth trysorlys i reoli pwerau treth a benthyca newydd Cymru. Bydd hynny'n ei gwneud yn ofynnol i Lywodraeth Cymru ddatblygu gallu ac arbenigedd i reoli'r pwerau cyllidol newydd hyn, ond byddwn yn adeiladu ar y swyddogaethau Trysorlys yr ydym wedi eu datblygu eisoes, gan gynnwys cynnydd diweddar o ran modelau ariannu arloesol a dull llawer mwya strategol o fuddsoddi cyfalaf trwy gynllun buddsoddi yn seilwaith Cymru. Byddwn yn hapus iawn i gyflwyno datganiad ar hyn i'r Cynulliad maes o law.

14:38

Andrew R.T. Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Leader of the House, in November the Welsh Conservatives tabled a debate, which passed with Government support, about winter pressures. In that debate, there was a call for a cross-departmental strategy to identify winter pressures and report on how public services are delivering. Are you in a position to update us on when the Government might be bringing forward such a strategy, or indeed to give a statement that would indicate when that strategy might be coming into existence?

Arweinydd y Tŷ, cynigiodd Geidwadwyr Cymru drafodaeth ym mis Tachwedd, a dderbyniwyd gyda chefnogaeth y Llywodraeth, ar bwysau yn ystod y gaeaf. Yn y drafodaeth honno, roedd galw am strategaeth drawsadrannol i nodi pwysau yn ystod y gaeaf ac i adrodd ar sut y mae gwasanaethau cyhoeddus yn perfformio. A ydych chi mewn sefyllfa i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i ni o ran pryd y bydd y Llywodraeth yn cyflwyno strategaeth o'r fath, neu yn wir i roi datganiad a fyddai'n nodi pryd y bydd y strategaeth honno yn dod i fodolaeth?

Secondly, you and I attended a function on Saturday where the work of Creative Rural Communities in the Vale of Glamorgan was praised, but across Wales there are groups that depend on funding from the rural development plan. Given that budget negotiations in Europe indicate that a lot of these budgets could be pushed back for 12 months, is it possible to have a statement from the Deputy Minister on how these organisations will continue to be funded in the interim, and indeed what likely successor funding streams would be available to such organisations, given the success that we have all seen in our own communities in relation to projects such as Creative Rural Communities?

Yn ail, fe aethoch chi a minnau i ddigwyddiad ddydd Sadwrn lle y canmolwyd gwaith Cymunedau Gwledig Creadigol ym Mro Morganwg, ond, ledled Cymru, ceir grwpiau sy'n dibynnu ar gyllid gan y cynllun datblygu gwledig. O ystyried bod y trafodaethau ar gyllideb yn Ewrop yn dangos y gellid oedi llawer o'r cylidebau hyn am 12 mis, a yw'n bosibl cael datganiad gan y Dirprwy Weinidog ar sut y bydd y sefydliadau hyn yn parhau i gael eu hariannu yn y cyfamser, ac yn wir pa ffrydau ariannu i'w olynu fyddai ar gael i sefydliadau o'r fath, o ystyried y llwyddiant y mae pob un ohonom wedi ei weld yn ein cymunedau ein hunain o ran prosiectau fel Cymunedau Gwledig Creadigol?

Jane Hutt [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I thank Andrew R.T. Davies for those two questions. Of course, the Minister for Local Government and Communities takes a strategic lead in relation to addressing pressures across Government, particularly concerning not just health and transport, but also schools. Indeed, there is a Welsh Government response in terms of our strategic action. That has already been commented on, and you started your questions to the First Minister as leader of the Welsh Conservatives earlier today by making that point. You acknowledged the work that has been done by our public services and indeed many volunteers and carers over the past week. You will be glad to hear that there will be a statement by the Minister on 29 January on future prospects in terms of those rural development plans that I know we hold dear, in terms of our commitment as a Welsh Government and, indeed, EU funding.

Mark Isherwood [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I call just for one statement, if I may, on the progress of single status—the harmonisation of equal pay and conditions in Wales. This follows a report before Christmas in the media, by the BBC, that Welsh council leaders say that, to date, 16 Welsh councils have substantially settled claims. However, a number of authorities, like Conwy and Flintshire, have not settled yet. Flintshire is assessing the scale and cost of any potential equal-pay-claim-led liability for historic inequity pay. This is against a backdrop, as the Minister will be aware, of a growing number of legal judgments in favour of equal pay claimants against local authorities. Flintshire residents have e-mailed me, and no doubt other AMs and MPs, expressing frustration that, yet again, single status has been put back and there has been a refusal to evaluate their jobs on pay and grading scales. Flintshire has already had to put back its original scheme because of inconsistencies in findings, despite that scheme having followed Denbighshire having identified and addressed similar inconsistencies.

Diolch i Andrew R.T. Davies am y ddau gwestiwn yna. Wrth gwrs, y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau sy'n arwain yn strategol o ran mynd i'r afael â phwysau ar draws y Llywodraeth, yn enwedig yn ymwned ag iechyd a thrafnidiaeth, yn ogystal ag ysgolion. Yn wir, ceir ymateb gan Lywodraeth Cymru o ran ein camau strategol. Mae hynny wedi denu sylwadau eisoes, a dechreuwyd eich cwestiynau i'r Prif Weinidog fel arweinydd Ceidwadwyr Cymru yn gynharach heddiw drwy wneud y pwnt hnwnw. Cydnabuwyd gennych y gwaith sydd wedi cael ei wneud gan ein gwasanaethau cyhoeddus a llawer o wirfoddolwyr a gofawlwr yn wir dros yr wythnos ddiwethaf. Byddwch yn falch o glywed y bydd datganiad gan y Gweinidog ar 29 Ionawr ar ragolygon y dyfodol o ran y cynlluniau datblygu gwledig hynny yr wyf yn gwybod sy'n agos at ein calonnau, o ran ein hymrwymiad fel Llywodraeth Cymru ac, yn wir, arian yr UE.

Jane Hutt [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I am not sure what the question was from the Member for North Wales. However, I welcome your support for equal pay and the support you clearly have for the implementation of our specific equality duties under the Equality Act 2010. Unfortunately, your Government in London is seeking to review that Act to never tackle the gender pay gap by implementing those duties. So, I welcome the conversion from that side of the Chamber to this important policy.

Rwyf yn galw am un datganiad, os caf, ar gynnydd statws sengl—cysoni cyflog ac amodau cyfartal yng Nghymru. Mae hyn yn dilyn adroddiad yn y cyfryngau cyn y Nadolig, gan y BBC, bod arweinwyr cyngorau Cymru yn dweud bod 16 o gyngorau Cymru wedi setlo hawliauau sylweddol hyd yn hyn. Fodd bynnag, mae nifer o awdurdodau, fel Conwy a Sir y Fflint, nad ydynt wedi setlo eto. Mae Sir y Fflint yn asesu graddfa a chost unrhyw rwymedigaeth posibl a arweinir gan hawliauau cyflog cyfartal oherwydd cyflogau annheg yn y gorffennol. Mae hyn yn erbyn cefndir, fel yr wyf yn siŵr y bydd y Gweinidog yn ymwybodol, nifer cynyddol o ddyfarniadau cyfreithiol o blaid y rhai sy'n hawlio cyflog cyfartal gan awdurdodau lleol. Mae trigolion Sir y Fflint wedi anfon e-byst ataf, ac at ACau ac ASau eraill yn sicr, yn mynegi rhwystredigaeth bod statws sengl wedi cael ei ohirio unwaith eto, ac y gwrthodwyd gwerthuso eu swyddi ar raddfeydd cyflog a graddio. Bu'n rhaid i Sir y Fflint ohirio ei gynllun gweiddiol eisoes, oherwydd anghysonderau yn y canfyddiadau, er bod y cynllun hnwnw wedi dilyn Sir Ddinbych sydd wedi nodi a mynd i'r afael ag anghysondebau tebyg.

Darren Millar [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, I wonder whether we can have a statement from the Government on its strategy to combat the rising toll of suicide in Wales. A recent report suggested that suicide rates in Wales has gone up 30% over the past 12 months—a significant increase compared to other parts of the United Kingdom. I would appreciate a ministerial statement on this issue.

Nid wyf yn siŵr beth oedd y cwestiwn gan yr Aelod dros Ogledd Cymru. Fodd bynnag, croesawaf eich cefnogaeth i gyflog cyfartal a'r gefnogaeth y mae'n amlwg sydd gennych i weithrediad ein dyletswyddau cydraddoldeb penodol dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Yn anffodus, mae eich Llywodraeth chi yn Llundain yn bwriadu adolygu'r Ddeddf honno i beidio â mynd i'r afael â'r bwld cyflog byth trwy roi'r dyletswyddau hynny ar waith. Felly, rwyf yn croesawu'r dröedigaeth ynglŷn â'r polisi pwysig hwn o'r ochr yna o'r Siambrau.

Weinidog, roeddwn i'n meddwl tybed a allwn ni gael datganiad gan y Llywodraeth ar ei strategaeth i fynd i'r afael â'r nifer gynyddol o achosion o hunanladdiad yng Nghymru. Awgrymodd adroddiad diweddar fod cyfraddau hunanladdiad yng Nghymru wedi cynyddu 30% dros y 12 mis diwethaf—cynydd sylweddol o'i gymharu â rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig. Byddwn yn gwerthfawrogi datganiad gweinidogol ar y mater hwn.

I also wonder whether we can have a statement from the Government on the next steps for the reorganisation of health services in Wales, now that decisions have been made by health boards in north and west Wales. I recognise that we have a debate on the public involvement in those decisions tomorrow, and I look forward to that. However, there are many concerns that have not yet been addressed by health boards in both regions and it is important to understand what the role of the Minister might be in addressing those public concerns in the short to medium term.

Roeddwn i'n meddwl hefyd tybed a allwn ni gael datganiad gan y Llywodraeth ar y camau nesaf ar gyfer ad-drefnu gwasanaethau iechyd yng Nghymru, nawr bod penderfyniadau wedi cael eu gwneud gan fyrrdau iechyd yng ngogledd a gorllewin Cymru. Rwyf yn cydhabod bod gennym drafodaeth ar gyfranogiad y cyhoedd yn y penderfyniadau hynny yfory, ac edrychaf ymlaen at hynny. Fodd bynnag, ceir llawer o bryderon nad yw byrddau iechyd yn y ddau ranbarth wedi mynd i'r afael â hwy eto ac mae'n bwysig deall beth fyddai swyddogaeth y Gweinidog wrth fynd i'r afael â'r pryderon cyhoeddus hynny yn y tymor byr i'r tymor canolig.

14:43

Jane Hutt [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I will discuss with Ministers the appropriate response to the statistical update on suicides in Wales. On your second point, I do not think that there is anything more to say beyond my response to a question earlier today. I urge Members to look at the guidance for engagement and consultation on changes to health services.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Byddaf yn trafod yr ymateb priodol i'r diweddarriad ystadegol ar achosion o hunanladdiad yng Nghymru gyda Gweinidogion. Ynglŷn â'ch ail bwynt, nid wyf yn credu bod unrhyw beth arall i'w ddweud y tu hwnt i'm hymateb i gwestiwn yn gynharach heddiw. Anogaf yr Aelodau i edrych ar y canllawiau ar gyfer ymgysylltu ac ymgynghori ar newidiadau i wasanaethau iechyd.

The Deputy Presiding Officer (David Melding) took the Chair at 2:43 p.m.

14:43

Datganiad: Y Wybodaeth Ddiweddaraf am Ddarparu Gwasanaethau Addysg yng Nghymru yn y Dyfodol

Skills

On 20 November, I made an oral statement announcing that I was bringing forward the in-depth review of the delivery of education services, as recommended by the independent task and finish group on the structure of education services in Wales in 2011, chaired by Viv Thomas. I subsequently notified Members in a written statement that I have appointed Robert Hill to undertake the review. Robert has wide experience of public services and education policy and practice.

As I said on 20 November, my decision to bring forward the review was triggered by the outcome of Estyn inspection reports on local authorities. Since the introduction of the Estyn common inspection framework, we have five local authorities categorised as good, five as adequate and in Estyn monitoring, and five in a formal Estyn category, three of which are in special measures: Blaenau Gwent, Anglesey and now Pembrokeshire. Estyn's follow-up report on Pembrokeshire was published just before Christmas, and found the current performance, and the prospect for improvement, in education services to be unsatisfactory. The Minister for Local Government and Communities and I issued a written statement to Members following the publication of the Estyn and Wales Audit Office reports, explaining how we intended to operate in the short term, and confirmed that the ministerial board would remain in place with the relevant direction until the end of March.

Statement: Update on the Future Delivery of Education Services in Wales

Leighton Andrews [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Gweinidog Addysg a Sgiliau / The Minister for Education and

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Ar 20 Tachwedd, gwnes ddatganiad llafar i gyhoeddi fy mod yn dwyn ymlaen yr adolygiad manwl o ddarpariaeth gwasanaethau addysg, fel yr argymhellodd y grŵp gorchwyl a gorffen annibynnol ar strwythur gwasanaethau addysg yng Nghymru yn 2011, dan gadeiryddiaeth Viv Thomas. Yna, rhoddais wybod i Aelodau mewn datganiad ysgrifenedig fy mod wedi penodi Robert Hill i gynnal yr adolygiad. Mae gan Robert brofiad eang o bolisi ac ymarfer ym meysydd gwasanaethau cyhoeddus ac addysg.

Fel y dywedais ar 20 Tachwedd, cafodd fy mhenderfyniad i ddwyn yr adolygiad yn ei flaen ei sbarduno gan ganlyniad adroddiadau arolygu Estyn ar awdurdodau lleol. Ers cyflwyno fframwaith cyffredin arolygiadau Estyn, mae gennym bum awdurdod lleol yn y categori da, pump yn y categori digonol ac yn cael eu monitro gan Estyn, a phump mewn categori ffurfiol gan Estyn, a thri o'r rheini'n destun mesurau arbennig: Blaenau Gwent, Ynys Môn ac nawr Sir Benfro. Cyhoeddwyd adroddiad dilynlol Estyn ar Sir Benfro ychydig cyn y Nadolig, a chanfu fod y perfformiad presennol ym maes gwasanaethau addysg, a'r rhagolygon y bydd yn gwella, yn anfoddfaol. Cyhoeddodd y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau a minnau ddatganiad ysgrifenedig i Aelodau wedi i adroddiadau Estyn a Swyddfa Archwilio Cymru gael eu cyhoeddi, i esbonio sut yr oeddem yn bwriadu gweithredu yn y tymor byr, ac i gadarnhau y byddai'r bwrdd gweinidogol yn aros yn ei le gyda'r cyfeiriad perthnasol tan ddiwedd mis Mawrth.

The review to be carried out by Mr Hill will address what can be done at school, local authority, regional and national levels and the options for delivery with a focus on improving school performance, raising standards and improving learner outcomes at all ages, better support and challenge to schools to improve standards, developing and strengthening the leadership of schools and the quality of teaching and learning, ensuring value for money and effective use of resources, and bringing about coherence and strong links between all areas of the education system, including post-16 provision and the wider children's services agenda.

The review will ensure that school improvement is at the core of service delivery, with a focus on outcomes for learners and on what high-quality, effective service delivery looks like. It will be based on evidence, looking at best practice on system reform from around the world. It will recognise the need to achieve organisational coherence in the delivery of services within and between organisations, with strong governance and clear lines of accountability, including democratic accountability for outcomes. It will develop the capacity of the school system to support its own improvement, consider the links to post-16 provision and delivery, align with broader cross-Government strategy in respect of public services, build on the current direction of travel through the consortia, and consider the implementation implications of any changes.

In particular, the review will, at the school level, propose models of school leadership, governance and funding that will contribute to improved educational standards, identify strategies that are most likely to improve the quality of teaching and learning in schools in Wales, and examine funding models which promote ownership of the school improvement journey.

In relation to school improvement services, it will propose options for the delivery of effective school improvement that are in the best interests of learners and the urgent need to raise standards in Wales, while also having regard to the legal, democratic and financial implications.

At the local authority level, it will consider whether, and, if so, how best, wider education functions can be delivered separately and viably from school improvement roles. It will consider whether local authorities should continue to exercise all of the education responsibilities that they currently hold and it will consider whether existing local authority structures can deliver effective strategic and operational services in education.

At the regional consortia level, it will consider whether the current responsibilities of regional consortia should be extended to cover other areas, whether the regional consortia should become agencies of Government, and it will examine other potential regional delivery models and footprints.

Bydd yr adolygiad a gynhelir gan Mr Hill yn ymdrin â'r hyn y gellir ei wneud mewn ysgolion, mewn awdurdodau lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol, ac â'r opsiynau ar gyfer cyflawni gyda ffocws ar wella perfformiad ysgolion, codi safonau a gwella canlyniadau dysgwyr o bob oedran, cynnig gwell cefnogaeth a her i ysgolion i wella safonau, datblygu a chryfhau arweinyddiaeth ysgolion ac ansawdd yr addysgu a'r dysgu, sicrhau gwerth am arian a defnydd effeithiol o adnoddau, a dod â chydlyniad a chysylltiadau cryf rhwng pob rhan o'r system addysg, gan gynnwys darpariaeth ôl-16 ac agenda ehangach gwasanaethau plant.

Bydd yr adolygiad yn sicrhau bod gwelliannau i ysgolion yn ganolog i'r broses o ddarparu gwasanaethau, gyda ffocws ar ganlyniadau i ddysgwyr ac ar ddiffinio sut beth yw darparu gwasanaethau effeithiol o ansawdd uchel. Bydd yn seiliedig ar dystiolaeth, ac yn edrych ar yr arferion gorau o ran diwygio systemau o bob cwr o'r byd. Bydd yn cydnabod bod angen sicrhau cydlyniad sefydliadol wrth ddarparu gwasanaethau, o fewn sefydliadau a rhymgddynt, gyda threfniadau llywodraethu cryf a llinellau atebolrwydd clir, gan gynnwys atebolrwydd democraidd ar gyfer canlyniadau. Bydd yn datblygu gallu'r system ysgolion i gefnogi ei gwelliant ei hun, yn ystyried y cysylltiadau â darpariaeth a chyflenwad ôl-16, yn cyd-fynd â strategaeth ehangach ar draws y Llywodraeth ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus, yn adeiladu ar y sefyllfa sydd ohoni drwy'r consortia, ac yn ystyried goblygiadau unrhyw newidiadau, o ran gweithredu.

Yn benodol, bydd yr adolygiad, ar lefel ysgolion, yn cynnig modelau ar gyfer arweinyddiaeth, llywodraethu ac ariannu ysgolion a fydd yn cyfrannu at wella safonau addysgol, yn nodi'r strategaethau sydd fwyaf tebygol o wella ansawdd addysgu a dysgu yn ysgolion Cymru, ac yn archwilio modelau ariannu sy'n hybu perchenogaeth o'r broses i wella ysgolion.

O ran gwasanaethau gwella ysgolion, bydd yn cynnig opsiynau ar gyfer cyflawni gwelliannau effeithiol i ysgolion sydd er pennaf les dysgwyr ac yn ymateb i'r angen brys i godi safonau yng Nghymru, gan ystyried hefyd y goblygiadau cyfreithiol, democraidd ac ariannol.

Ar lefel awdurdodau lleol, bydd yn ystyried a fyddai'n ddichonadwy cyflawni swyddogaethau addysg ehangach ar wahân i swyddogaethau gwella ysgolion, a phe baïn ddichonadwy, beth fyddai'r ffordd orau o wneud hynny. Bydd yn ystyried a ddylai awdurdodau lleol barhau i gyflawni'r holl gyfrifoldebau addysg sydd ganddynt ar hyn o bryd a bydd yn ystyried a all strwythurau presennol awdurdodau lleol ddarparu gwasanaethau strategol a gweithredol effeithiol ym maes addysg.

Ar lefel consortia rhanbarthol, bydd yn ystyried a ddylid ymestyn cyfrifoldebau presennol consortia rhanbarthol i gynnwys meysydd eraill, ac a ddylid gwneud y consortia rhanbarthol yn asiantaethau i'r Llywodraeth. Bydd yn archwilio modelau a phatrymau rhanbarthol posibl eraill.

At a national Government level, it will examine current funding models of local authorities and schools, propose options on the role of Government in terms of delivery, accountability and intervention in response to underperformance, and consider whether there should be a national education service.

I will be looking for Mr Hill to provide us with in-depth research, analysis and comment on the current delivery of education services and structures, and to present us with a range of options, not recommendations, for the future delivery of education functions and services and the impact on local authorities. In conducting this review, Robert Hill will be engaging with stakeholders from across the education sector in Wales, as well as seeking views through various media from all those who wish to contribute.

I have asked that this review be completed and submitted for consideration to us by the end of March 2013. The range of options will then be published as a consultation document, and we will engage in a formal consultation process to develop a consensus of opinion over the future direction.

Members will be aware that I asked Glyn Mathias to chair a group looking at the role of governors. I have agreed with Mr Mathias that his review needs to take account of Mr Hill's review, and develop its thinking in the light of that and over a longer timescale. Mr Hill will consult with this group on its progress to ensure we capture its findings to date.

This review is fundamental to the success of our education system. I have said repeatedly that I would not have invented 22 local education authorities, and that the fragmentation of education authorities in the mid-1990s was one of the contributing factors for the downturn in performance a decade later, as effective challenge and support were lost in many parts of the system and time, energy and resource were dissipated. This is the opportunity to get things right.

Ar lefel Llywodraeth genedlaethol, bydd yn archwilio modelau ariannu presennol yr awdurdodau lleol a'r ysgolion, yn cynnig opsiynau ar gyfer swyddogaeth y Llywodraeth o ran darpariaeth, atebolwydd ac ymyrryd mewn ymateb i danberfformiad, ac yn ystyried a ddylid cael gwasanaeth addysg cenedlaethol.

Gobeithiaf y gall Mr Hill ddarparu gwaith ymchwil manwl, dadansoddiadau a sylwadau ynglŷn â'r dull presennol o ddarparu gwasanaethau a strwythurau addysg, a chyflwyno ystod o ddewisadiau inni, nid argymhellion, ar gyfer cyflawni swyddogaethau a darparu gwasanaethau addysg yn y dyfodol, ac effaith y dewisiadau hynny ar awdurdodau lleol. Wrth gynnal yr adolygiad hwn, bydd Robert Hill yn ymgysylltu â rhanddeiliaid o bob rhan o'r sector addysg yng Nghymru, ac yn gofyn am farn pawb sy'n dymuno cyfrannu drwy gyfryngau amrywiol.

Rwyf wedi gofyn i'r adolygiad hwn gael ei gwblhau a'i gyflwyno inni i'w ystyried erbyn diwedd mis Mawrth 2013. Yna, caiff yr amrywiaeth a opsiynau eu cyhoeddi ar ffurf dogfen ymgynghori, a byddwn yn cymryd rhan mewn proses ymgynghori ffurfiol i ddatblygu consensws barn ynghyllch y cyfeiriad yn y dyfodol.

Bydd yr Aelodau'n ymwybodol fy mod wedi gofyn i Glyn Mathias gadeirio grŵp yn edrych ar swyddogaeth llywodraethwyr. Rwyf wedi cytuno â Mr Mathias bod angen i'w adolygiad ystyried adolygiad Mr Hill, a datblygu ei syniadau yng ngoleuni hynny a thros gyfnod hwy. Bydd Mr Hill yn ymgynghori â'r grŵp hwn ynglŷn â'r hyn a gyflawnwyd er mwyn sicrhau ein bod yn canfod eu canfyddiadau hyd yn hyn.

Mae'r adolygiad hwn yn hanfodol i lwyddiant ein system addysg. Rwyf wedi dweud dro ar ôl tro na fyddwn i wedi dyfeisio 22 awdurdod addysg lleol, ac mai darnio awdurdodau addysg yng nghanol y 1990au oedd un o'r ffactorau sydd wedi cyfrannu at y dirywiad mewn perfformiad ddegawd yn ddiweddarach, gan fod her a chefnogaeth effeithiol wedi'u colli mewn sawl rhan o'r system, ac amser, egni ac adnoddau wedi'u gwastraffu. Dyma'r cyfreith i wneud pethau'n iawn.

Weinidog, diolch i chi am eich datganiad heddiw, a chroesawaf gwmpas yr adolygiad yr ydych wedi'i ddisgrifio. Ni fyddai neb yma nac yn y sector addysg ehangach yn anghytuno â'rffaith bod angen inni godi safonau a gwella canlyniadau dysgwyr ar draws pob oedran. Mae eich uchelgais yn taro tant gyda phawb ohonom.

14:29

Angela Burns [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, I thank you for your statement today, and I welcome the scope of the review that you have detailed. No-one here or in the wider education sector would disagree with the fact that we need to raise standards and improve learner outcomes across all ages. The ambition that you have is one that chimes with all of us.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I am also very pleased to see that you have asked for the review to look at specific levels, and you detailed the school level and school improvement services at the local authority level. I welcome this, because I hope that there will be adequate time and contribution given to two subjects dear to my heart. One is the direct funding of schools, and seeing whether there is any part that that has to play in improving outcomes. The other is looking at an eight to 14 pathway, because we have talked a lot in this Chamber in the past about the losses of our pupils in moving from primary to secondary education, and about how there is a lot of revision, with pupils who have done very well in primary education stepping back again. I am keen that we have a considered debate about what happens to our children during the time between entering into their formal examination period and after they have left the foundation phase. I would welcome that, and I hope that it will play a part in your review.

I still have concerns about the whole regional consortia area, because we have had a couple of debates here, and in the debate that was tabled by the opposition parties you said that the regional consortia were working well. A week later, I think, you described them as being very patchy. I did pick up on an important sentence in your statement. You said that the review will consider whether the regional consortia should become agencies of the Government. I do not know the answer to that, and I will certainly not prejudge it. However, I urge that we have consensus and that we take local government with us, no matter what the outcomes of this review may be, and that we do not end up with local government feeling that some of its responsibilities and local democratic functions are being removed from it, and that there is some plot to—let me rephrase that; I am very keen to ensure that this is not seen to be levering in a change in the structure of local authorities. I do not think that education deserves to be used that way. I am sure that it will not be, but I think that we have to allay fears and ensure that local government comes with you on this.

I welcome absolutely your commitment to ensure that this is a consultation that everybody can take part in eventually. I have only one quarrel, which is with regard to your last paragraph. It is absolute nonsense to blame the changes in the 1990s for the situation that Wales is in at present. Yourself excepted, we have had a succession of fairly feeble Ministers for education, and we have had contradictory and divisive policies. It has been 15 years, and if the plans of the mid 1990s were so crucial in making education in Wales take so many steps back, then it should have been tackled sooner rather than later. It is 15 years on.

Rwyf hefyd yn falch iawn o weld eich bod wedi gofyn am i'r adolygiad edrych ar lefelau penodol. Crybwyllywd lefel ysgolion a gwasanaethau gwella ysgolion ar lefel awdurdodau lleol gennych. Rwyf yn croesawu hyn, oherwydd y gobeithiaf y rhoddir digon o amser a chyfraniad i ddau bwnc sy'n agos at fy nghalon. Un yw ariannu ysgolion yn uniongyrchol, ac ystyried a oes gan hynny unrhyw ran i'w chwarae o ran gwella canlyniadau. Y llall yw edrych ar lwybr wyth i 14. Rydym wedi siarad llawer yn y Siambwr hon yn y gorffennol am golledion ein disgylion wrth symud o addysg gynradd i addysg uwchradd, ac am sut y ceir llawer o adolygu, a disgylion sydd wedi gwneud yn dda iawn mewn addysg gynradd yn cymryd cam yn ôl. Rwyf yn awyddus i ni gael dadl ystyrlon am yr hyn sy'n digwydd i'n plant yn ystod y cyfnod rhwng cyrraedd eu cyfnod arholiadau ffurfiol ac ar ôl gadael y cyfnod sylfaen. Byddwn yn croesawu hynny, a gobeithiaf y bydd yn cael sylw yn eich adolygiad.

Mae gennyf bryderon o hyd ynglŷn â'r consortia rhanbarthol yn gyffredinol. Rydym wedi cael un neu ddwy o ddadleuon yma, ac yn y ddadl a gyflwynwyd gan y gwrthbleidiau, dywedoch chi fod y consortia rhanbarthol yn gweithio'n dda. Wythnos yn ddiweddarach, rwy'n credu, dywedoch eu bod yn anghyson iawn. Sylwais ar frawddeg bwysig yn eich datganiad, sef y bydd yr adolygiad yn ystyried pa un a ddylai'r consortia rhanbarthol ddod yn asiantaethau i'r Llywodraeth. Nid wyl yn gwybod yr ateb i hynny, ac yn sicr nid wyl am ragfarnu'r mater. Fodd bynnag, rwyf yn annog ein bod yn canfod consensws ac yn mynd â llywodraeth leol gyda ni, waeth beth fydd canlyniadau'r adolygiad hwn, fel na fydd llywodraeth leol yn y pen draw'n teimlo bod rhai o'u cyrifoldebau a'u swyddogaethau democraidd lleol yn cael eu cymryd oddi wrthynt, a bod rhyw gynllwyn—gadewch i mi aralleirio hynny; rwyf yn awyddus iawn i sicrhau nad yw hyn yn ymddangos fel ffordd o gyflwyno newid i strwythur awdurdodau lleol. Nid wyl yn credu bod addysg yn haeddu cael ei defnyddio yn y modd hwnnw. Rwyf yn siŵr na ddigwydd hynny, ond credaf fod rhaid inni dawelu ofnau a sicrhau bod llywodraeth leol yn dod gyda chi yn hyn o beth.

Croesawaf yn llwyr eich ymrwymiad i sicrhau bod hwn yn ymgynghoriad y gall pawb gymryd rhan ynddo yn y pen draw. Dim ond un bai a welaf, a hwnnw yn eich paragraff olaf. Gwiriondeb llwyr yw beio'r newidiadau yn y 1990au am y sefyllfa y mae Cymru yn ddi ar hyn o bryd. Ac eithrio chi eich hun, rydym wedi cael cyfres o Weinidogion addysg gweddol wan, ac rydym wedi cael polisiau anghyson a chynhennus. Mae wedi bod yn 15 mlynedd, ac os oedd cynlluniau canol y 1990au mor bwysig o ran perî i addysg yng Nghymru gymryd cymaint o gamau yn ôl, dylai rhywun fod wedi rhoi sylw i'r mater ynghynt. Mae 15 mlynedd wedi mynd heibio.

Apart from the slightly sour note at the end, which I will return to, I welcome much of what the Member said, and I am glad that she welcomes the scope of what we are doing and the ambition. I said in the original statement in November that we would certainly be considering issues such as the direct funding of schools. In respect of the issue of the curriculum between the ages of eight and 14, I have already instituted a review of key stage 2, and there will be a seminar during February to look precisely at that. We have already ourselves undertaken a number of areas of work in relation to the transition from primary to secondary education. We recognise that as an issue, and we look to greater integration and co-ordination between secondary and primary schools, and to local authorities to lead on that.

In respect of regional consortia, progress is patchy. If we look at the consortia in Wales, there has been excellent progress in south-east Wales, in the consortium there. I am less impressed with the consortium in north Wales. As to whether they should be agencies of Government, clearly that is something that can be teased out in the review. If we can get consensus around whatever changes are proposed, it would obviously be my preferred option, being the consensus politician that I am. However, I have to say, if local government wishes to retain its responsibilities and to develop them, it has to deliver. There has been plenty of local democracy in the system over the last 20 years, but, I am afraid, precious little local accountability until recently, and we are now seeing that happen more directly.

I have to say to her that the changes that took place in the mid-1990s, when we went overnight from eight to 22 local education authorities, dissipated expertise and undermined the quality of support services to schools. That is widely shared as a view in Wales, not least among headteachers.

I will defend absolutely the work done by my predecessors as Ministers for education in the Chamber. They have done an immense amount in a number of ways not only to ensure that we have in Wales a curriculum that is envied across the border, with developments such as the foundation phase, the Welsh baccalaureate and others, but they also took us into the Programme for International Student Assessment in order to ensure the international benchmarking of our school performance, delivered the funding that is now in place to support the changes throughout the system, and created initiatives such as raising attainment and individual standards in education in Wales among others, which have enabled us to look at the way in which we support pupils from the most disadvantaged backgrounds. Therefore, there is a range of success from my predecessors on which I am building.

Croesawaf lawer o'r hyn a ddywedodd yr Aelod ar wahân i'r nodyn braidd yn sur ar y diwedd, a byddaf yn dychwelyd at hynny. Rwy'n falch ei bod yn croesawu cwmpas yr hyn yr ydym yn ei wneud a'r uchelgais. Dywedais yn y datganiad gwreiddiol ym mis Tachwedd y byddem yn sicr yn ystyried materion megis ariannu ysgolion yn uniongyrchol. O ran y mater y cwricwlwm rhwng wyth a 14 oed, rwyf eisoes wedi cychwyn adolygiad o gyfnod allweddol 2, a chynhelir seminar yn ystod mis Chwefror i edrych ar yr union fater hwnnw. Rydym ni ein hunain eisoes wedi ymgymryd â nifer o feysydd gwaith mewn cysylltiad â throsglwyddo o addysg gynradd i addysg uwchradd. Rydym yn cydnabod y mater hwnnw, a gobeithiwn gael mwy o integreiddio a chydlyn rhwng ysgolion uwchradd a chynradd, ac y bydd awdurdodau lleol yn arwain yn hynny o beth.

Mae'r datblygiadau o ran consortia rhanbarthol yn anghyson. Os edrychwn ar y consortia yng Nghymru, cymerwyd camau ardderchog yn y de-ddwyrain, yn y consortiwm yno. Mae consortiwm y gogledd wedi gwneud llai o argraff arnaf. Yn amlwg mae'r cwestiwn pa un a ddylent fod yn asiantaethau i'r Llywodraeth yn rhywbeth y gellir ei bwysio a'i fesur yn yr adolygiad. Fy newis i, yn amlwg, fyddai cael consensws ynglŷn â'r newidiadau a gynigir, gan fy mod yn wleidydd consensws. Fodd bynnag, rhaid imi ddweud, os yw llywodraeth leol yn dymuno cadw ei chyfrifoldebau a'u datblygu, rhaid iddi gyflawni. Bu digon o ddemocratiaeth leol yn y system dros yr 20 mlynedd diwethaf, ond prin iawn y bu'r atebolrwydd lleol tan yn ddiweddar mae arnaf ofn, ac rydym yn awr yn gweld hynny'n digwydd yn fwy uniongyrchol.

Rhaid imi ddweud wrthi bod y newidiadau a ddigwyddodd yng nghanol y 1990au, pan aethom dros nos o wyth i 22 o awdurdodau addysg lleol, wedi gwastraffu arbeniged a thanseilio ansawdd y gwasanaethau cymorth i ysgolion. Mae honno'n farn a rennir yn eang yng Nghymru, gan gynnwys ymhlið prifathrawon.

Amddiffynnaf yn llwyr y gwaith a wnaeth fy rhagflaenwyr fel Gweinidogion addysg yn y Siambwr. Maent wedi gwneud llawer iawn mewn nifer o ffyrdd i ofalu bod gennym gwricwlwm yng Nghymru sy'n destun eiddigedd ar draws y fin, gyda datblygiadau megis y cyfnod sylfaen, bagloriaeth Cymru ac eraill. Ond hwy hefyd a sicrhodd ein bod yn rhan o'r Rhaglen Ryngwladol Asesu Myfyrwyr er mwyn gallu meincnodi perfformiad ein hysgolion yn rhwngwladol, yn ogystal â sicrhau'r cyllid sydd bellach ar gael i gefnogi'r newidiadau ar draws y system, a chreu mentrau megis codi cyrhaeddiad a safonau unigol mewn addysg yng Nghymru ymhlið pethau eraill. Mae'r mentrau hyn wedi ein galluogi i ystyried sut yr ydym yn cefnogi disgylion o'r cefndiroedd mwyaf difreintiedig. Felly, rwyf yn adeiladu ar ystod o lwyddiant a gafodd fy rhagflaenwyr.

I thank the Minister for his statement today. Minister, you may recall that, on 20 November, when you initiated this process, I gave a general welcome to the principles that you set out then and I said that Plaid Cymru was open to a wide debate about how we should reconfigure education services in Wales. I said 'everything except commissioners'. You then appointed a man, Mr Robert Hill, whose most recent publication for the Royal Society for the encouragement of Arts, Manufactures and Commerce was on education commissioners. Let us hope that that is not the way that you will build consensus over the next few weeks and months.

Nevertheless, I welcome the detail in your statement today regarding how you see the review working. This is a review to end all reviews, really, in terms of the future of education in Wales. I remain of the view I expressed in November: that you did not really need this review and that you could have gone straight to an open public consultation on the future of education services. That is what I said then. However, you have appointed Mr Hill since then. I do not know what attracted you to the Labour-supporting, Blair-advising Mr Hill. However, since you have appointed him, he no doubt has a good track record and expertise in the English education system, and I would like you to confirm to the Assembly today what his remuneration is for undertaking this work, and also to confirm that he was appointed according to Nolan principles. Mr Hill is now in place and he will provide options for you to lead a debate in Wales, leading to what you say in your statement—and I welcome it—will be consensus. I hope that we can get consensus.

To date, Plaid Cymru has not been convinced of the evidence that we need to abolish local education authorities. There is an issue around how we maintain local delivery, local accountability, specialist services such as special educational needs services, and also the development and enhancement of our Welsh-language education in Wales. There is no doubt that the previous 22 local authorities and, because of that, 22 local education authorities, was a stratagem designed to stop devolution. Having had devolution, we now need to examine whether that configuration is correct. I accept that. Therefore, although we have, to date, certainly have preferred to see LEAs as the building block for the reform of our education services in Wales, the number of LEAs and their functions is a very valid subject for debate and we look to engage with Mr Hill and with you, Minister, later on as we debate these and any other models that may emerge from that.

Diolch i'r Gweinidog am ei ddatganiad heddiw. Weinidog, effallai y cofiwch fy mod wedi rhoi croeso cyffredinol ar 20 Tachwedd, pan ddechrewyd y broses hon, i'r egwyddorion a nodwyd gennych bryd hynny. Dywedais fod Plaid Cymru'n agored i ddadl eang ynglŷn â sut y dylem ad-drefnu gwasanaethau addysg yng Nghymru. Yr hyn a ddywedais oedd popeth heblaw comisiynwyr. Yna, penodwyd dyn, Mr Robert Hill, gennych y mae ei gyhoeddiad diweddaraf i'r Gymdeithas Frenhinol er hybu'r Celfyddydau, Gweithgynhyrchion a Masnach yn sôn am gomisiynwyr addysg. Gadewch inni obeithio nad dyna sut y byddwch yn meithrin consensws dros yr wythnosau a'r misoedd nesaf.

Serch hynny, rwyf yn croesawu'r manylion yn eich datganiad heddiw ynglŷn â'r modd yr ydych yn ystyried y bydd yr adolygiad yn gweithio. Hwn fydd yr adolygiad i roi diwedd ar bob adolygiad, mewn gwirionedd, am ddyfodol addysg yng Nghymru. Rwyf yn dal o'r farn a fyngais ym mis Tachwedd: nad oedd wir angen yr adolygiad hwn arnoch ac y gallech fod wedi mynd yn syth i ymgynghoriad cyhoeddus agored am ddyfodol gwasanaethau addysg. Dyna'r hyn a ddywedais bryd hynny. Fodd bynnag, rydych wedi penodi Mr Hill ers hynny. Nid wylf yn gwybod beth a'ch denodd at Mr Hill, sy'n gefnogwr i'r Blaid Lafur ac a arferai fod yn gynghorydd i Blair. Fodd bynnag, gan eich bod wedi'i benodi, mae'n siŵr bod ganddo gefndir da ac arbenigedd yn system addysg Lloegr. Hoffwn i chi gadarnhau i'r Cynulliad heddiw faint o dâl y bydd yn ei gael yn gydnabyddiaeth am ymgymryd â'r gwaith hwn, a chadarnhau hefyd y caffod ei benodi'n unol ag egwyddorion Nolan. Mae Mr Hill bellach yn ei swydd a bydd yn rhoi opsiynau i chi i arwain dadl yng Nghymru, gan arwain at gonsensws, yn ôl yr hyn a ddywedwch yn eich datganiad—ac rwyf yn croesawu hynny. Gobeithiaf y gallwn gael consensws.

Hyd yma, nid ydym ni ym Mhlaid Cymru wedi ein hargyhoeddi bod angen diddymu awdurdodau addysg lleol. Ceir problem o ran sut yr ydym yn cynnal prosesau darparu lleol, atebolwydd lleol a gwasanaethau arbenigol megis gwasanaethau anghenion addysgol arbennig, yn ogystal â sut yr ydym yn datblygu a gwella ein haddysg Gymraeg yng Nghymru. Nid oes amheuaeth mai ystryw a gynlluniwyd i atal datganoli oedd y 22 awdurdod lleol blaenorol ac, oherwydd hynny, y 22 awdurdod addysg lleol. A ninnau wedi cael proses ddatganoli, mae angen i ni archwilio ai dyna'r strwythur cywir. Rwyf yn derbyn hynny. Felly, er y byddai, hyd yma, yn sicr wedi bod yn well gennym weld y diwygiadau i'n gwasanaethau addysg yng Nghymru yn cael eu seilio ar yr AAllau, mae nifer yr AAllau a'u swyddogaethau'n bwnc dilys iawn i'w drafod. Gobeithiwn ymgysylltu â Mr Hill a gyda chi, Weinidog, yn nes ymlaen wrth inni drafod y rhain ac unrhyw fodelau eraill a allai ddod i'r amlwg.

However, we will be looking to preserve local delivery, accountability and the interest that we have in things such as Welsh-language education. In doing that, it is difficult to see how we can disjoint this work from the wider work of local government reform in Wales. It is difficult to see how you can do that. You tried to do it through consortia, as a kind of add-on to the 22 authorities; you have said that that is patchy and, in fact, that is not delivering the changes that you were seeking. You are now looking for a much more fundamental review, and I think that the Government as a whole, as I said back in November, has to look at a much more fundamental review and question about local government here. It is very difficult to see how you can achieve what you suggest you want to achieve in this statement without that wider debate. However, you are not the Minister for Local Government and Communities and you have to try to address it as you can. My concern is that the last sentence of your statement will come true once again. That is, if we do not engage in this properly, we will see many examples of support being lost in parts of the system and time and energy and resource will once again be dissipated. You are right, Minister, to say that this is an opportunity to get things right. I put it to you once again that this is an opportunity and really the last throw of the dice for the Welsh Government to get its structure of local education authorities correct. We will engage in that openly and I hope you do likewise, without any preconceptions.

Fodd bynnag, byddwn yn gobeithio cadw atebolwydd a threfniadau darparu lleol, a'r diddordeb sydd gennym mewn pethau megis addysg Gymraeg. Wrth wneud hynny, mae'n anodd gweld sut y gallwn wahanu'r gwaith hwn oddi wrth waith ehangach ym maes diwygio llywodraeth leol yng Nghymru. Mae'n anodd gweld sut y gallwch wneud hynny. Rydych wedi ceisio gwneud hynny drwy gonsortia, fel rhyw fath o ychwanegiad at y 22 awdurdod; rydych wedi dweud eu bod yn anghyson ac nad ydynt mewn gwirionedd yn cyflawni'r newidiadau yr oeddech yn eu ceisio. Rydych nawr yn dymuno cael adolygiad llawer mwy sylfaenol, a chredaf fod rhaid i'r Llywodraeth gyfan, fel y dywedais yn ôl ym mis Tachwedd, edrych ar adolygiad a chwestiwn llawer mwy sylfaenol ynglŷn â llywodraeth leol yma. Mae'n anodd iawn gweld sut y gallwch gyflawni'r hyn yr ydych yn awgrymu yn y datganiad hwn eich bod yn dymuno'i gyflawni heb y ddadl ehangach honno. Fodd bynnag, nid chi yw'r Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau a rhaid ichi geisio ymdrin â'r mater fel y gallwch. Fy mhryder yw y bydd brawddeg olaf eich datganiad yn dod yn wir unwaith eto. Hynny yw, os nad ydym yn ymdrin yn briodol â hyn, byddwn yn gweld llawer o engrheiftiau o golli cefnogaeth mewn rhannau o'r system, ac amser, egni ac adnoddau yn cael eu gwastraffu unwaith eto. Rydych yn gywir, Weinidog, wrth ddweud bod hwn yn gyfle i wneud pethau'n iawn. Dywedaf wrthych unwaith eto fod hwn yn gyfle ac, yn wir, y cyfle olaf i Lywodraeth Cymru sicrhau bod strwythur awdurdodau addysg lleol fel y dylai fod. Byddwn yn cymryd rhan agored yn hynny, heb ddim rhagsyniadau, a gobeithiaf y gwnewch chi'r un fath.

14:59

Leighton Andrews [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Of course, I had to put commissioners into Blaenau Gwent to run the education system there because the local education authority had failed. We have had to put a ministerial board into Pembrokeshire because of the problems there and we have to put a recovery board into Anglesey because of the problems there. The reality is that the system is currently failing and we have to address that.

Senedd.tv
[Video](#) [Video](#)

Wrth gwrs, roedd rhaid imi roi comisiynwyr ym Mlaenau Gwent i redeg y system addysg yno oherwydd bod yr awdurdod addysg lleol wedi methu. Rydym wedi gorfol sefydlu bwrdd gweinidogol yn Sir Benfro oherwydd y problemau yno, ac mae'n rhaid i ni sefydlu bwrdd adfer yn Ynys Môn oherwydd y problemau yno. Y gwirionedd yw bod y system ar hyn o bryd yn methu ac mae'n rhaid i ni ymdrin â hynny.

Mae'n siomedig, ond nid yw'n syndod, yr hoffai llefarydd Plaid Cymru ddibrisia o thanseilio Robert Hill, a benodwyd i wneud y gwaith hwn. Mae ganddo brofiad helaeth o addysg a gwasanaethau cyhoeddus yn gyffredinol. Cyfeiriodd llefarydd Plaid Cymru at hwn fel yr adolygiad i roi diwedd ar bob adolygiad; nid wyf yn siŵr y byddwn yn dewis defnyddio'r ymadrodd hwnnw. Cofiaf, er nad oeddwn yno ar y pryd, i'r rhyfel byd cyntaf gael ei ddisgrifio fel y rhyfel i roi diwedd ar bob rhyfel. Wrth gwrs, ni chafodd y rhagfynegiad gwreiddiol am y rhyfel hwnnw ei wireddu. Serch hynny, mae'n adolygiad pwysig. Nid ydym yn dechrau'r adolygiad hwn gan fwriadu diddymu awdurdodau addysg lleol. Rydym wedi cyflwyno adolygiad er mwyn canfod pa lefel yw'r mwyaf priodol i rai cyfrifoldebau penodol, a bydd hynny'n ein galluogi i edrych ar atebolwydd a threfniadau darparu lleol.

I agree with the Plaid Cymru spokesperson that the creation of 22 local education authorities was perhaps a stratagem designed to stop devolution. However, I also think that it was a stratagem designed to create a structure that was not going to deliver in respect of education and social services and that was going to create quite weak authorities in those areas. There is a link to further discussions that my colleague the Minister for Local Government and Communities will be having in respect of public service delivery more widely. My party has a manifesto commitment not to pursue local government reform in this Assembly, but no doubt debates will start.

In respect of the consortia, we started on the basis that we wanted to build these around the existing regions of the Association of Directors of Education in Wales. We made some minor modifications to the territorial boundaries of those regions, but we opted for the four regions, with one or two modifications that ADEW had. Seeking some consensus with local authorities that consortia were the right approach seemed to me to be the best way of going forward. There is clearly still work to be done. This review will be judged on the quality of the work that comes out and the proposals that we see for consultation later this year.

Rwyf yn cytuno â llefarydd Plaid Cymru bod creu 22 o awdurdodau addysg lleol o bosibl yn ystryw i atal datganoli. Fodd bynnag, credaf hefyd ei fod yn ystryw i greu strwythur nad oedd yn mynd i gyflawni o ran addysg a gwasanaethau cymdeithasol ac a fyddai'n creu awdurdodau eithaf gwan yn y meysydd hynny. Ceir cysylltiad â thrafodaethau pellach y bydd fy nghydweithiwr, y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau, yn eu cael ynghylch darpariaeth gwasanaethau cyhoeddus yn fwyaeng. Mae gan fy mhlaid ymrwymiad maniffesto i beidio â mynd ati i ddiwygio llywodraeth leol yn y Cynulliad hwn, ond nid oes amheuaeth y bydd dadleuon yn dechrau.

O ran y consortia, dechreuwyd ar y sail ein bod yn dymuno ffurio'r rhain o amgylch rhanbarthau presennol Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru. Gwnaethom rai mân newidiadau i ffiniau tiriogaethol y rhanbarthau hynny, ond dewiswyd y pedwar rhanbarth, gydag un neu ddau o addasiadau gan CCAC. Roedd yn ymddangos i mi mai'r peth gorau fyddai ceisio rhywfaint o gonsensws ag awdurdodau lleol mai consortia oedd y strwythur cywir. Mae'n amlwg bod gwaith i'w wneud o hyd. Bernir yr adolygiad hwn ar sail ansawdd y gwaith a gynhyrchrir a'r cynigion a welwn fel testun ymgynghoriad yn ddiweddarach eleni.

15:02

Kenneth Skates [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, thank you for your statement today and for the outline that you have provided about the scope of the review. The assessments by the Programme for International Student Assessment undertaken in 2009 highlighted the problems in previous years of leaders in Welsh education having too often avoided taking hard or difficult decisions. I think that today's statement will give important reassurance to everyone that Wales is now prepared to take tough decisions to improve educational outcomes. I have one question. One of the key messages of the Viv Thomas review, which reported in 2011, was the need to plan education structures based on learning from the very best practice right across the world. Will you reassure me, Minister, that the review team will look at the very best practices across the globe in education service delivery and ensure that, where good systems of delivery, collaboration and partnership working exist, we can learn from that experience to create the right structures in Wales?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Weinidog, diolch am eich datganiad heddiw ac am yr amlinelliad o gwmpas yr adolygiad. Roedd yr asesiadau a gynhalwyd yn 2009 gan y Rhaglen Ryngwladol Asesu Myfyrwyr yn rhoi sylw i'r problemau mewn blynnydoedd blaenorol pan fu i arweinwyr addysg Cymru, yn rhy aml, osgoi gwneud penderfyniadau anodd. Credaf y bydd datganiad heddiw'r rhoi sicrwydd pwysig i bawb bod Cymru nawr yn barod i wneud penderfyniadau anodd i wella canlyniadau addysgol. Mae gennyf un cwestiwn. Un o negeseuon allweddol adolygiad Viv Thomas, a gyflwynodd adroddiad yn 2011, oedd bod angen dysgu o'r arfer gorau ar draws y byd wrth gynllunio strwythurau addysg. A rowch chi sicrwydd imi, Weinidog, y bydd y tîm adolygu'n edrych ar yr arferion gorau ar draws y byd o ran darparu gwasanaethau addysg ac a wnewch chi sicrhau, lle mae systemau da'n bodoli o ran darparu, cydweithio a gweithio mewn partneriaeth, y gallwn ddysgu o'r profiad hwnnw i greu'r strwythurau cywir yng Nghymru?

15:03

Leighton Andrews [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I thank my colleague the Member for Clwyd South for his comments. He is absolutely right to say that we want to learn from the best systems in the world. That is why, when I visited the Organisation for Economic Co-operation and Development in December, I announced that I had asked it to carry out a full country review of the Welsh system, as it has done for other countries in the past. We learn from best practice wherever it is, whether that is in Scotland, Canada or England, and I am very happy for us to do that. He is also right to say that this review is evidence that we are prepared as a Government to take tough decisions in the field of education.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Diolch i'm cydweithiwr, Aelod De Clwyd, am ei sylwadau. Mae yn llygad ei le wrth ddweud ein bod yn awyddus i ddysgu oddi wrth systemau gorau'r byd. Dyna pam y cyhoeddais, ar ôl ymweld â'r Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd ym mis Rhagfyr, fy mod wedi gofyn iddynt gynnal adolygiad o system Cymru gyfan, fel y maent wedi'i wneud mewn gwledydd eraill yn y gorffennol. Rydym yn dysgu o arfer gorau lle bynnag y mae, boed hynny yn yr Alban, yng Nghanada neu yn Lloegr, ac rwy'n hapus iawn ein bod yn gwneud hynny. Mae hefyd yn gywir wrth ddweud bod yr adolygiad hwn yn dystiolaeth ein bod ni, fel Llywodraeth, yn barod i wneud penderfyniadau anodd ym maes addysg.

Minister, I also welcome the tone of the statement. In November, the previous position of the Government had been that the consortia would deliver real and significant changes as far as school improvement is concerned. I think that there was possibly a change in tack then, because of your disappointment with regard to developments at consortia level. I recognise that the report alludes to issues regarding the performance of individual authorities.

While I am on my feet, I would like to thank your spokesperson for the very kind remarks made last week regarding performance in Wrexham. The issue in Wrexham taught me that many of the issues were quite deep-seated. In fact, the Estyn report led to much criticism regarding the inability of local decision-making, particularly regarding school reorganisation, because at that time, the GCSE results in the authority were improving, but then they plateaued. I think that there is a need for this wholesale review. There is nothing in the statement that I would criticise, because there are fundamentals here that need to be addressed.

I would like to move on to Simon Thomas's points. Some of the criticisms on regional consortia were that they were not set up against a backdrop of local accountability. I sat for about 15 months on regional consortia and much of the to-ing and fro-ing was regarding the way in which the regional consortia wanted to proceed, but they were then hauled back by local authorities. In order to build this consensus and have a settled way forward, what involvement will there be in the review from local authorities in Wales? Given the difficulties that we had in the north Wales consortia with regard to Welsh language issues in education, what expertise will Mr Hill be supported by in terms of the Welsh language? Also, will Mr Hill look at the work that has been undertaken to date by consortia when he decides whether that model is an effective way of driving forward improvement in Wales, particularly in terms of how robust their response has been to school improvement plans on an individual basis?

Finally, given that you have set the end of March 2013 as the date for Mr Hill to provide his initial options—I am pleased that they are options, rather than recommendations—what do you see as the time frame for the introduction of any change, if there is a settled view that that is required? What provision will there be for education experts in Wales and, perhaps, teaching unions to be brought along in terms of any further change?

Weinidog, rwyf finnau hefyd yn croesawu naws y datganiad. Ym mis Tachwedd, safbwyt blaenorol y Llywodraeth oedd y byddai'r consortia'n cyflawni newidiadau gwirioneddol a sylweddol o ran gwella ysgolion. Credaf y bu newid cyfeiriad wedi hynny, o bosibl oherwydd y siom a gawsoch o ran datblygiadau ar lefel y consortia. Rwy'n cydnabod bod yr adroddiad yn cyfeirio at faterion yn ymwneud â pherfformiad awdurdodau unigol.

A minnau ar fy nhraed, hoffwn ddiolch i'ch llefarydd am y sylwadau caredig iawn a wnaed yr wythnos diwethaf ynglŷn â pherfformiad yn Wrecsam. Dysgais yn sgil y sefyllfa yn Wrecsam fod llawer o'r problemau yn rhai eithaf dwfn. Yn wir, mae adroddiad Estyn wedi arwain at lawer o feirniadaeth ynghyllch anallu i wneud penderfyniadau'n lleol, yn enwedig o ran ad-drefnu ysgolion. Roedd canlyniadau TGAU yn yr awdurdod yn gwella ar y pryd, ond ers hynny maent wedi aros ar yr un lefel. Credaf fod angen yr adolygiad cynhwysfawr hwn. Nid oes dim yn y datganiad y byddwn yn ei feirniadu, oherwydd y ceir materion sylfaenol yma y mae angen rhoi sylw iddynt.

Hoffwn symud ymlaen at bwyntiau Simon Thomas. Roedd rhai o'r beirniadaethau ynglŷn â chonsortia rhanbarthol yn ymwneud â'r ffaith na roddwyd iddynt atebolrwydd lleol wrth eu sefydlu. Eisteddas am tua 15 mis ar gonsortia rhanbarthol ac roedd llawer o'r mynd a dod yn ymwneud â'r ffordd y byddai'r consortia rhanbarthol yn awyddus i symud ymlaen, ond yna'n cael eu tynnu'n ôl gan awdurdodau lleol. Er mwyn meithrin y consensws hwn a chanfod ffordd sefydlog ymlaen, pa ran fydd awdurdodau lleol Cymru'n ei chwarae yn yr adolygiad? O ystyried yr anawsterau a gawsom yng nghonsortia'r gogledd o ran materion y Gymraeg mewn addysg, pa gymorth arbenigol a gaiff Mr Hill o ran y Gymraeg? Hefyd, a fydd Mr Hill yn edrych ar y gwaith y mae'r consortia wedi'i wneud hyd yma wrth benderfynu a yw'r model hwnnw'n ffordd effeithiol o sicrhau gwelliant yng Nghymru, yn enwedig o ran pa mor gadarn fu eu hymateb i gynlluniau gwella ysgolion unigol?

Yn olaf, o ystyried eich bod wedi nodi y bydd Mr Hill yn cyflwyno'i opsiynau cychwynnol ddiwedd mis Mawrth 2013 —rwyf yn falch mai opsiynau ydynt, yn hytrach nag argymhellion—beth yr ydych yn ystyried yw'r amserlen ar gyfer cyflwyno unrhyw newid, os ceir barn gyson bod angen hynny? Pa ddarpariaeth fydd i arbenigwyr addysg yng Nghymru, ac undebau athrawon o bosibl, gael eu cynnwys o ran unrhyw newid pellach?

15:07

Leighton Andrews [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The Liberal Democrat spokesperson is right to hold up his hands regarding educational performance in Wrexham when he was its leader. Wrexham was graded as 'adequate', or, as I have said in this Chamber before, 'barely good enough'. It is also right for him to draw attention to the problems in trying to formulate consortium arrangements in north Wales. It will be three years in May since the Minister for local government and I first attended a discussion about the creation of a consortium in north Wales. Let me remind him that this is a consortium of local authorities; it is not a Welsh Government body. It is the responsibility of local authorities to make that consortium work. The failure to get effective operational management in that consortium is a failure of the local authorities in north Wales, including the one that he ran, over the last three years or so.

In terms of the input to the review, local authorities will, of course, have the opportunity to inject their views into it, as will the consortia. In terms of Welsh language issues, there will clearly be support from my department. In terms of timescales, we envisage a three-month consultation following the proposals of this review being brought forward. Any legislative timescale will depend on what proposals are subsequently adopted.

15:09

David Rees [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, thank you for your statement today. I too welcome the detail that you have provided on what the review and its scope will be. However, I have a couple of points to make.

As a Member for a constituency that lies in one of the authorities that has been categorised as 'good', I have received many representations from members of that authority about the future of local government in the delivery of future services, and the linkage into the twenty-first century schools programme, given that infrastructures and changes within schools also has an impact on the delivery of services within local authorities. Therefore, could you confirm whether that will be considered in the review?

Finally, I asked previously about the wider picture of services that local authorities provide and the linkages between those services and the education services. You mention that you will be able to look at wider education functions, but children's services and other functions, such as transportation, link into the delivery of education by local authorities. Will the review also look at those aspects?

15:10

Leighton Andrews [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

May I say to my colleague the Member for Aberavon that his constituency indeed sits within a local authority that has been judged to be good by Estyn over several years? The leader of that authority leads on education for the Welsh Local Government Association, and I have had several conversations and formal meetings with him in respect of these issues.

Mae llefarydd y Democratiaid Rhyddfrydol yn gywir i godi ei ddywyo o ran perfformiad addysgol yn Wrecsam pan oedd yn arweinydd. Cafodd Wrecsam radd 'digonal', neu, fel y dywedais yn y Siambra hon o'r blaen, 'prin digon da'. Mae hefyd yn briodol iddo dynnu sylw at y problemau wrth geisio llunio trefniadau consortiwm yn y gogledd. Bydd tair blynedd wedi mynd heibio ym mis Mai ers i'r Gweinidog Llywodraeth leol a minnau fynd i'n trafodaeth gyntaf ynglŷn â chreu consortiwm yn y gogledd. Dewch imi ei atgoffa mai consortiwm o awdurdodau lleol yw hwn; nid yw'n gorff sy'n rhan o Lywodraeth Cymru. Yr awdurdodau lleol sy'n gyfrifol am sicrhau bod y consortiwm hwnnw'n gweithio. Mae'r methiant i sicrhau rheolaeth weithredol effeithiol yn y consortiwm hwnnw'n fethiant gan awdurdodau lleol y gogledd, gan gynnwys yr un yr oedd ef yn ei redeg, dros y tair blynedd diwethaf.

O ran cyfrannu at yr adolygiad, bydd awdurdodau lleol yn ogystal â'r consortia, wrth gwrs, yn cael cyfre i gyfrannu eu barn. O ran materion y Gymraeg, ceir cefnogaeth gan fy adran i yn amlwg. O ran amserleni, rydym yn rhagweld ymgynghoriad tri mis ar ôl cyflwyno cynigion yr adolygiad hwn. Bydd unrhyw amserlen ddeddfwriaethol yn dibynnu ar ba gynigion a gaiff eu mabwysiadu ar ôl hynny.

Weinidog, diolch am eich datganiad heddiw. Rywf hefyd yn croesawu'r manylion a ddarparwyd gennych am yr adolygiad a'i gwmpas. Fodd bynnag, mae gennyl gwpl o bwyntiau i'w gwneud.

Fel Aelod dros etholaeth sydd o fewn un o'r awdurdodau a roddwyd yn y categori 'da', rywf wedi cael nifer o sylwadau gan aelodau'r awdurdod hwnnw. Maent yn cyfeirio at ddyfodol llywodraeth leol o ran darparu gwasanaethau yn y dyfodol, a'r cysylltiad â rhaglen ysgolion ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain, o ystyried bod seilwaith a newidiadau o fewn ysgolion hefyd yn effeithio ar y gwasanaethau mewn awdurdodau lleol. Felly, a allech gadarnhau a fydd yr adolygiad yn ystyried hynny?

Yn olaf, holais eisoes ynglŷn â darlun ehangach y gwasanaethau y mae awdurdodau lleol yn eu darparu ac ynglŷn â'r cysylltiadau rhwng y gwasanaethau hynny a'r gwasanaethau addysg. Dywedwch y gallwrh edrych ar swyddogaethau addysg ehangach, ond mae gwasanaethau i blant a swyddogaethau eraill, megis trafnidiaeth, hefyd yn gysylltiedig â threfniadau awdurdodau lleol ar gyfer darparu addysg. A fydd yr adolygiad hefyd yn edrych ar yr agweddau hynny?

A gaf fi ddweud wrth fy nghydweithiwr, Aelod Aberafan, fod ei etholaeth yn wir o fewn awdurdod lleol y mae Estyn wedi barnu ei fod yn dda dros nifer o flynyddoedd? Arweinydd yr awdurdod hwnnw yw arweinydd addysg Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, ac rywf wedi cael llawer o sgyrsiau a chyfarfodydd ffurfiol gydag ef ynglŷn â'r materion hyn.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

The review will not need to look at issues around the twenty-first century schools programme, but it will need to consider issues around linkages with children's services and other services that bear on the delivery of education services. He was right to mention, in that context, school transport, which may particularly be an issue post 16. There will be a need to think about post-16 provision beyond local authorities, for example in further education colleges. Therefore, there are ancillary issues that will need to be considered by the review. If my colleague the Member for Aberavon has any further thoughts on that, he is welcome to e-mail me with his suggestions.

Ni fydd angen i'r adolygiad edrych ar faterion yn ymwneud â'r rhaglen ysgolion ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain, ond bydd angen iddo ystyried materion yn ymwneud â chysylltiadau â gwasanaethau i blant a gwasanaethau eraill sy'n dylanwadu ar y trefniadau o ran darparu gwasanaethau addysg. Roedd yn iawn, yn y cyd-destun hwnnw, i grybwyl cludiant ysgol; gall hynny fod yn fater arbennig o bwysig i rai ôl-16. Bydd angen meddwl am ddarpariaeth ôl-16 y tu hwnt i awdurdodau lleol, er enghraift, mewn colegau addysg bellach. Felly, bydd angen i'r adolygiad ystyried rhai materion ategol. Os caiff fy nghydweithiwr, Aelod Aberafan, ragor o syniadau ynglŷn â hynny, mae croeso iddo anfon e-bost ataf gyda'i awgrymiadau.

15:11

Keith Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Weinidog, rwyf wedi edrych yn fanwl ar yr hyn rydych wedi ei gyhoeddi heddiw, ac rwy'n cytuno'n llwyr gyda phopeth. Rwy'n gwybod eich bod chi a finnau yn mynd yn ôl i 1996, pan gynyddodd y Llywodraeth, a oedd yn Geidwadol ar y pryd, nifer yr awdurdodau addysg o wyth i 22, a oedd yn wael a chostus yn fy marn i—

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Minister, I have looked in detail at your announcement today, and I agree completely with everything. I know that you and I go back to 1996, when the Conservative Government of the day increased the number of local education authorities from eight to 22, which was a bad and costly move in my opinion—

15:12

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Order. Let us have a question quickly, Keith. We are pushed for time today.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

15:12

Keith Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Rydych yn gwybod imi ofyn, pan ddechreuaus yn sir Gâr, i sioeodd Ceredigion a Phenfro i ddod ynghyd i weithio gyda sir Gâr i helpu'r ysgolion. Cytunodd Ceredigion ond ni wnaeth sir Benfro. A allwch chi adrodd yn ôl ar y lefelau cyfredol o gydweithio rhwng awdurdodau addysg? A ydynt wedi gwella? Nid wyf yn credu eu bod wedi gwella.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

You know that I asked, when I started in Carmarthenshire, the counties of Ceredigion and Pembrokeshire to collaborate with Carmarthenshire to assist the schools. Ceredigion agreed but Pembrokeshire did not. Can you report back on the current levels of collaboration that exists between the local education authorities? Have they improved? I do not believe that they have.

Yn ogystal, gwnaethoch sôn am adroddiad Estyn. Rwy'n credu yr oedd pum awdurdod a oedd yn dda, yn cynnwys sir Gaerfyrddin. A fyddwch yn sicrhau bod y rhai sy'n wael yn dysgu rhywbeth gan y rhai sy'n dda ac y bydd cydweithio yn digwydd yn y fan honno hefyd? Yn y pen draw, yr awdurdodau lleol sydd yn y man gorau i helpu ysgolion gyda'r gwaith o sicrhau bod addysg plant yn gwella.

In addition, you mentioned the Estyn report. I believe that there were five good LEAs, including Carmarthenshire. Are you going to ensure that those that are poor get the message from the good authorities and that collaboration takes place there as well? Ultimately, it is the local education authorities that are best placed to help schools and to ensure that the education of children improves?

15:13

Leighton Andrews [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

My colleague the Member for Llanelli makes some important points. I wish that he had been successful in provoking collaboration with Pembrokeshire and Ceredigion when he was at Carmarthenshire. We have some good examples in the south-west: Carmarthenshire and Neath Port Talbot have been classed as good, therefore that consortium is doing reasonably well. The consortium framework allows us the opportunity for local authorities that are weaker to look at the evidence from stronger authorities and to see how they can collaborate with them.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Mae fy nghydweithiwr, Aelod Llanelli, yn codi rhai pwystiau pwysig. Hoffwn pe bai wedi llwyddo i sicrhau cydweithrediad gyda Sir Benfro a Cheredigion pan oedd yn Sir Gaerfyrddin. Mae gennym engrifftiau da yn y de-orllewin: mae Sir Gaerfyrddin a Chastell-needd Port Talbot wedi'u rhoi yn y dosbarth da, felly mae'r consortiwm hwnnw'n gwneud yn gymharol dda. Mae'r fframwaith consortiwm yn rhoi cyfle i awdurdodau lleol gwannach edrych ar y dystiolaeth gan awdurdodau cryfach a gweld sut y gallant gydweithio â hwy.

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I apologise for not having called all the Members who wanted to ask a question, but we are under a lot of pressure this afternoon due to the number of items on our agenda.

Ymddiheuraf am beidio â galw'r holl Aelodau a oedd yn dymuno gofyn cwestiwn, ond rydym dan lawer o bwysau brynhawn heddiw oherwydd nifer yr eitemau ar ein hagenda.

Datganiad: Y Wybodaeth Ddiweddaraf am Ardaloedd Menter

Minister for Business, Enterprise, Technology and Science

I am updating you on my written statement of November on enterprise zones. First, we secured a very good outcome from our constructive discussions with HM Treasury on enhanced capital allowances, which will now be available at sites within the Ebbw Vale and Haven waterway enterprise zones, in addition to the sites in Deeside that were secured last year. We will shortly sign the formal agreement with the UK Government, and maps of the agreed sites will then be published.

I launched the enterprise zone business rate scheme earlier this month as a direct response to the recommendations of the business rates policy review. I refer Members to my letter of 15 January, which contains the details.

I am sure that Members will be pleased that work has now started on the Superfast Cymru programme to take high-speed broadband the length and breadth of Wales, following state aid approval from the UK Government. The roll-out plan takes into account our economic priorities, including enterprise zones. I hope that Members found the technical briefing this morning to be of benefit. In regard to planning, good practice guidance on local development Orders will be produced this year, to help planning authorities make innovative use of LDOs. I am in discussions with the Minister for Environment and Sustainable Development about what more we can do to encourage local authorities to make effective use of LDOs in enterprise zones.

Taking the zones one by one, the Anglesey-Ynys Môn zone aligns closely with the broader energy island programme and is focused on eight strategic sites spread across the whole island. A number of energy and maritime proposals are being developed. Notably, I have agreed to work with Stena Line on the preparation of a development framework for its facility at Holyhead port. The main focus is on the sale of Horizon Nuclear Power to Hitachi. I was pleased to see a significant step forward in the reactor licensing process last week. The Department of Energy and Climate Change approved the start of formal discussions between the nuclear regulators and Hitachi-GE Nuclear Energy Ltd about the design assessment and licensing process for the reactor. This will be key to enabling plans to develop a new nuclear power station at Wylfa.

Statement: Update on Enterprise Zones

Edwina Hart [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth / The

Rwyf am roi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi am fy natganiad ysgrifenedig ym mis Tachwedd am ardaloedd menter. Yn gyntaf, rydym wedi sicrhau canlyniad da iawn o'n trafodaethau adeiladol gyda Thrysurlys EM am lwfansau cyfalaif uwch, a bydd y rhain nawr ar gael ar safleoedd o fewn ardaloedd menter Glynebwy a Dyfrffordd y Ddau Gleddau, yn ogystal â'r safleoedd yng Nglannau Dyfrdwy a sicrhawyd y llynedd. Cyn bo hir byddwn yn llofnodi'r cytundeb ffurfiol gyda Llywodraeth y DU, ac yna cyhoeddir mapiau o'r safleoedd y cytunwyd arnynt.

Lansais gynllun cyfraddau busnes ardaloedd menter yn gynharach y mis hwn fel ymateb uniongyrchol i argymhellion yr adolygiad o bolisi ardrethi busnes. Cyfeiriaf yr Aelodau at fy llythyr dyddiedig 15 Ionawr, sy'n cynnwys y manylion.

Rwyf yn siŵr y bydd Aelodau'n falch bod gwaith nawr wedi dechrau ar raglen Cyflymu Cymru i gyflwyno band eang cyflym ar hyd a lled Cymru, ar ôl cael cymeradwyaeth i gymorth gwladwriaethol gan Lywodraeth y DU. Mae'r cynllun cyflywno'n ystyried ein blaenoriaethau economaidd, gan gynnwys ardaloedd menter. Gobeithiaf y bu'r briff technegol y bore yma o fudd i Aelodau. O ran cynllunio, cynhyrchrir canllawiau arfer da ar Orchmyntion datblygu lleol eleni, i helpu awdurdodau cynllunio i ddefnyddio'r gorchymynion mewn modd arloesol. Rwyf mewn trafodaethau gyda Gweinidog yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy i weld sut y gallwn wneud mwy i annog awdurdodau lleol i ddefnyddio Gorchymynion Datblygu Lleol yn effeithiol mewn ardaloedd menter.

I gymryd yr ardaloedd fesul un, mae ardal Ynys Môn yn cyd-fynd yn agos â'r rhaglen ynys ynni ehangach ac yn canolbwytio ar wyth o safleoedd strategol ar draws yr ynys gyfan. Mae nifer o gynigion ym maes ynni a'r môr yn cael eu datblygu. Mae'n werth nodi fy mod wedi cytuno i gydweithio â Stena Line i baratoi fframwaith datblygu i'w cyfleuster ym mhorthladd Caergybi. Mae'r prif ffocws ar werthu Horizon Nuclear Power i Hitachi. Roeddwn yn falch o weld cam mawr ymlaen yn y broses o drwyddedu'r adweithydd yr wythnos ddiwethaf. Rhoddodd yr Adran Ynni a Newid yn yr Hinsawdd gymeradwyaeth i ddechrau trafodaethau ffurfiol rhwng y rheoleiddwyr niwclear a Hitachi-GE Nuclear Energy Ltd ynglŷn â'r broses o asesu'r dyluniad a thrwyddedu'r adweithydd. Bydd hyn yn allweddol ar gyfer cynlluniau i ddatblygu atomfa newydd yn yr Wylfa.

At the Cardiff enterprise zone, I am pleased to confirm that the Welsh Government has recently completed the acquisition of site E04, Callaghan Square. This provides an opportunity to develop significant grade-A office space, a priority for the Cardiff zone. The Deeside zone covers the Deeside growth zone area, which includes the northern gateway, where the specific sites are located and at which enhanced capital allowances will be available. There are also a number of important anchor company sites in the zone.

The focus of the Ebbw Vale zone is on six key sites. Our immediate priority remains to bring the main site at Rhyd-y-Blew to market this year. Rhyd-y-Blew will be the specific area in Ebbw Vale where enhanced capital allowances are available, and I am pleased to announce that the programme of work needed to make the site investment-ready has now started. The site is being marketed now, as that work goes ahead.

The Haven waterway zone is of strategic importance and has a unique offering, with around 30% of the UK's energy supplies coming in via Pembrokeshire. The zone offers the opportunity to build on existing and potential new energy sites and to support SMEs with growth potential. Last week, I confirmed that a number of key business sites are to be included within the zone, extending from the immediate Haven area to the surrounding areas of Honeyborough, Thornton and Haverfordwest airport. This includes the Waterston site recently purchased by the Welsh Government, where enhanced capital allowances will be available over a specific section of the site. The Waterston site is adjacent to the Blackbridge site, owned by Pembrokeshire County Council, and we are working in partnership with the council to develop the sites for complementary use.

At the St Athan and Cardiff Airport zone, I have previously highlighted the considerable commercial interest that exists, especially in relation to maintenance, repair and overhaul activities. At St Athan, we continue to work with the Ministry of Defence to take forward the economic development of the site. Two significant infrastructure improvements projects within the zone are about to reach key milestones. Following a Welsh Government investment of £3.4 million and preliminary clearance works last year, the straightening of the bends will begin in earnest in April 2013. This will greatly improve access along the B4265 and connectivity between Cardiff Airport and St Athan. In addition, the aerospace business park at St Athan has two redundant 1940s-built blister hangars. The Welsh Government is investing £400,000 to enable the area to be used as a potential base for the increasing number of enquiries related to helicopter and light aircraft activities.

Yn ardal fenter Caerdydd, rwyf yn falch o gadarnhau bod Llywodraeth Cymru yn ddiweddar wedi cwblhau'r broses o gaffael safle E04, Sgwâr Callaghan. Mae hyn yn rhoi cyfle i ddatblygu llawer o swyddfeydd gradd A, sy'n un o flaenoriaethau ardal Caerdydd. Mae ardal Glannau Dyfrdwy yn cwmpasu ardal dwf Glannau Dyfrdwy, sy'n cynnwys y porth gogleddol, lle mae'r safleoedd penodol wedi eu lleoli a lle y bydd lwfansau cyfalaif uwch ar gael. Mae nifer o safleoedd cwmniau angori pwysig yn yr ardal hefyd.

Mae ardal Glynebwyr yn canolbwyntio ar chwe safle allweddol. Ein blaenoriaeth gyntaf o hyd yw dod â'r prif safle yn Rhyd-y-Blew i'r farchnad eleni. Rhyd-y-Blew fydd y man penodol yng Nglyn Ebwy lle bydd lwfansau cyfalaif uwch ar gael, ac rwy'n falch o gyhoeddi bod y rhaglen waith sydd ei hangen i wneud y safle'n barod am fuddsoddiadau wedi dechrau erbyn hyn. Mae'r safle bellach yn cael ei farchnata, wrth i'r gwaith hwnnw fynd yn ei flaen.

Mae ardal Dyfrffordd y Ddau Gleddau o bwysigwydd strategol ac mae ganddi gynnig unigryw, gan fod tua 30% o gyflenwadu ynni'r DU yn dod i mewn drwy Sir Benfro. Mae'r ardal yn cynnig cyfle i adeiladu ar safleoedd ynni presennol a rhai newydd posibl, ac i gefnogi busnesau bach a chanolig a chanddynt botensial i dyfu. Yr wythnos ddiwethaf, rhoddais gadarnhad y caiff nifer o safleoedd busnes allweddol eu cynnwys yn yr ardal, yn ymestyn o'r Cleddau ei hun i ardaloedd cyfagos Honeyborough, Thornton a maes awyr Hwlfordd. Mae hyn yn cynnwys safle Waterston a brynyd yn ddiweddar gan Lywodraeth Cymru, a bydd lwfansau cyfalaif uwch ar gael mewn rhan benodol o'r safle. Mae safle Waterston yn gyfagos i safle Blackbridge, sy'n eiddo i Gyngor Sir Penfro, ac rydym yn gweithio mewn partneriaeth â'r cyngor i ddatblygu'r safleoedd fel y byddant yn eu hategu'i gilydd.

Ym mhARTH Sain Tathan a Maes Awyr Caerdydd, rwyf wedi tynnu sylw o'r blaen at y diddordeb masnachol sylweddol sy'n bodoli, yn enwedig o ran gweithgareddau cynnal a chadw, atgyweirio ac archwilio. Yn Sain Tathan, rydym yn parhau i gydweithio â'r Weinyddiaeth Amddiffyn i fwrw ymlaen â datblygiad economaidd y safle. Mae dau brosiect sylweddol ym maes gwella seilwaith o fewn y parth ar fin cyrraedd cerrig milltir allweddol. Yn dilyn buddsoddiad o £3.4 miliwn gan Lywodraeth Cymru a gwaith clirio rhagarweiniol y llynedd, bydd y gwaith o sythu'r troadau yn dechrau o ddifrif ym mis Ebrill 2013. Bydd hyn yn gwella'n fawr y mynediad ar hyd y B4265 a chysylltedd rhwng Maes Awyr Caerdydd a Sain Tathan. Hefyd, mae'r parc busnes awyrofod yn Sain Tathan yn cynnwys dau awyrendy swigen segur a adeiladwyd yn y 1940au. Mae Llywodraeth Cymru yn buddsoddi £400,000 er mwyn gallu defnyddio'r ardal fel canolfan bosibl i'r nifer cynyddol o ymholaidd yn ymwneud â gweithgareddau hofrenyddion ac awyrennau ysgafn.

I have also confirmed that the Snowdonia enterprise zone will include Llanbedr airfield, as well as the former Trawsfynydd power station and adjoining land. Discussions continue with the Nuclear Decommissioning Authority, as the site owners at Trawsfynydd, particularly around land availability. Llanbedr Airfield Estates has a long lease on the airfield site, which already accommodates a number of businesses at the airfield. The long-term strategic vision for Llanbedr is linked to the unmanned air systems sector, and I am pleased to include the airfield within the enterprise zone. Not only does this important facility have the capacity to significantly increase Wales's UAS capability, but it also has the capacity to accommodate both inward investing and indigenous businesses, and to play a pivotal role in the local economy, maximising the skills associated with the Trawsfynydd site.

The board is engaging with the Anglesey enterprise zone to explore opportunities for joint working and collaboration, to maximise the potential of the high-quality workforce and demonstrate the region's ability to foster jobs and growth. Overall, there has been strong progress in the development of the enterprise zones in Wales. As I told the Enterprise and Business Committee, I will provide a further update in April, one year on from the launch of the first five zones, and again in September, which will be the first anniversary of the Snowdonia and Haven waterway zones.

Rwyf hefyd wedi cadarnhau y bydd ardal fenter Eryri'n cynnwys maes awyr Llanbedr, yn ogystal â hen orsaf bŵer Trawsfynydd a'r tir cyfagos. Mae trafodaethau'n parhau gyda'r Awdurdod Datgomisiynu Niwclear, sef perchnogion safle Trawsfynydd, yn enwedig ynghylch y tir sydd ar gael. Mae gan Llanbedr Airfield Estates brydles hir ar safle'r maes awyr, a cheir nifer o fusnesau yn y maes awyr eisoes. Mae'r weledigaeth strategol hirdymor ar gyfer Llanbedr yn gysylltiedig â'r sector systemau awyr di-griw, ac rwy'n falch i gynnwys y maes awyr o fewn yr ardal fenter. Gallai'r cyfleouster pwysig hwn gynyddu gallu Cymru'n sylwedol ym maes Systemau Awyrennau Di-griw, ond gallai hefyd ddarparu ar gyfer busnesau sy'n mewnfuddsoddi a busnesau cynhenid, a chwarae rhan ganolog yn yr economi leol, gan fanteisio i'r eithaf ar y sgiliau sy'n gysylltiedig â safle Trawsfynydd.

Mae'r bwrdd yn ymgysylltu ag ardal fenter Ynys Môn i archwilio cyfleoedd i gydweithio a chydweithredu, er mwyn manteisio i'r eithaf ar botensial y gweithlu o ansawdd uchel a dangos gallu'r rhanbarth i feithrin swyddi a thwrf. Ar y cyfan, cymerwyd camau cadarnhaol o ran datblygiad yr ardaloedd menter yng Nghymru. Fel y dywedais wrth y Pwyllgor Menter a Busnes, rhoddaf fwy o wybodaeth ym mis Ebrill, un flwyddyn ar ôl lansiad y pum ardal gyntaf, ac unaith eto ym mis Medi, sef pen-blwydd cyntaf ardaloedd Eryri a Dyfrffordd y Ddau Gleddau.

15:20

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I have a lot of members who wish to be called, all but one are from the opposition parties. Therefore, I say to the spokespersons, the longer you take, the less time I will have to call your colleagues.

Mae gennyl lawer o aelodau sy'n dymuno cael eu galw, ac mae pawb ond un ohonynt o'r gwrthbleidiau. Felly, dywedaf wrth y llefarwyr, yr hiraf y cymerwch, y llai o amser a fydd ar gael ar gyfer eich cydweithwyr.

15:20

Nick Ramsay [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I will not take it personally, Deputy Presiding Officer.

Ni chymeraf hynny'n bersonol, Ddirprwy Lywydd.

Thank you, Minister, for your statement on this vitally important policy area. I know that there have been concerns in the past about the development of the policy, but I am glad that we seem to be moving in the right direction. I welcome your comments regarding the constructive role that you have played with Her Majesty's Treasury in delivering the enhanced capital allowances for some of the zones recently, particularly the Haven. I know that this was an area of concern for both Governments for some time, and I am pleased that that seems to have been progressed.

Diolch, Weinidog, am eich datganiad am y maes polisi hanfodol bwysig hwn. Gwn fod pryderon wedi bodoli yn y gorffennol am ddatblygiad y polisi, ond rwyf yn falch ei bod yn ymddangos ein bod yn symud i'r cyfeiriad cywir. Croesawaf eich sylwadau ynghylch y rhan adeiladol yr ydych wedi ei chwarae â Thrysorlys Ei Mawrhydi i ddarparu'r Iwfansau cyfalaf uwch i rai o'r ardaloedd yn ddiweddar, yn enwedig y Ddau Gleddau. Gwn y bu hyn yn destun pryder i'r ddwy Lywodraeth ers cryn amser, ac rwyf yn falch bod hynny'n ymddangos fel pe bai wedi symud yn ei flaen.

I also welcome your comments regarding Stena Line and the proposal of the development of a framework for the Holyhead facility. Speaking momentarily with my other hat on, as the Chair of the Enterprise and Business Committee, I know that we discussed in our recent inquiry into ports and airports the need for greater development of a relationship with organisations such as Stena Line, to hopefully tap into the cruise market in Wales. Therefore, I welcome your comments on that.

Croesawaf hefyd eich sylwadau am Stena Line a'r cynnig o ddatblygu fframwaith i gyfleouster Caergybi. I siarad am ennyd gan wisgo fy het arall, fel Cadeirydd y Pwyllgor Menter a Busnes, gwn i ni drafod yn ein hymchwiliad diweddar i borthladdoedd a meysydd awyr bod angen gwneud mwy i ddatblygu perthynas â sefydliadau megis Stena Line, gan obeithio manteisio ar farchnad llongau pleser yng Nghymru. Felly, croesawaf eich sylwadau am hynny.

I will now move on to my specific questions, the bulk of which revolve around your comments regarding the enterprise zone business rate scheme, which is crucial to developing the nuts and bolts of how the enterprise zones will work. Regarding the enterprise zone business rates, how many applications have you had thus far, if any, and how many do you expect? What capacity is there for applications?

On the timescale, I was a bit concerned, in looking at the detail, that it seems to be a short period of time for the receipt of applications. I think I am right in saying that, from the announcement on 15 January to the scheme closing on 11 February—although you might wish to correct me on that—that will be less than a month. Do you think that that will deter any businesses from applying? Do you have contingency plans in place for extending that? How are you marketing the scheme? Given the short timescale and the newness of the scheme, it is important that businesses are fully aware of all the potential advantages open to them, particularly the advantages on capital allowances, which seem to be opening up now. Therefore, how are you actually marketing it?

You mentioned the Cardiff enterprise zone. We are pleased about that. We hope that you are managing to carry Cardiff Council with you on that, Minister, because there have been concerns with that in the past. Hopefully, you will win the day in that respect.

Finally, you have spoken about the current enterprise zones. Recently, we had the addition of the Haven energy industry zone, and the nuclear zone, which now seems to be receiving a licence, which, again, I welcome. Do you see this as the closure of the addition of any new enterprise zones, or would you envisage any kind of future expansion of the scheme, particularly if it proves to be popular, as I know it will with many businesses?

Nawr, symudaf ymlaen at fy nghwestiynau penodol; mae'r rhan fwyaf ohonynt yn ymwneud â'ch sylwadau am y cynllun ardrethi busnes i ardaloedd menter, sy'n hanfodol er mwyn datblygu manylion sut y bydd yr ardaloedd menter yn gweithio. O ran ardrethi busnes ardaloedd menter, faint o geisiadau a gawsoch hyd yn hyn, os o gwbl, a faint yr ydych yn eu disgwl? Faint o geisiadau y gellir ymdopi â nhw?

O ran yr amserlen, roeddwn braidd yn bryderus, wrth edrych ar y manylion, bod yr amser ar gyfer derbyn ceisiadau'n ymddangos yn gyfnod byr. Credaf fy mod yn gywir wrth ddweud mai llai na mis sydd rhwng y cyhoeddiad ar 15 Ionawr a chau'r cynllun ar 11 Chwefror—er efallai y gallech fy nghywiro ar hynny. A ydych yn credu y bydd hynny'n rhwystro unrhyw fusnesau rhag ymgeisio? A oes gennych gynnlluniau wrth gefn ar gyfer ymestyn hynny? Sut yr ydych yn marchnata'r cynllun? O ystyried yr amserlen fer a pha mor newydd yw'r cynllun, mae'n bwysig bod busnesau'n gwbl ymwybodol o'r holl fanteision posibl sydd ar gael iddynt, yn enwedig y manteision o ran lwfansau cyfalaf, sydd fel pe baent yn dod i'r amlwg nawr. Felly, sut yr ydych yn ei farchnata mewn gwirionedd?

Fe wnaethoch sôn am ardal fenter Caerdydd. Rydym yn falch o hynny. Gobeithiwn fod gennych gefnogaeth Cyngor Caerdydd yn hynny o beth, Weinidog, gan y cafwyd pryderon am hynny yn y gorffennol. Gobeithio y byddwch yn llwyddiannus yn hynny o beth.

Yn olaf, rydych wedi siarad am yr ardaloedd menter presennol. Yn ddiweddar, ychwanegwyd ardal diwydiant ynni'r Ddau Gleddau a'r ardal niwclear, ac mae'n ymddangos ei bod yn derbyn trwydded; croesawaf hynny hefyd. A ydych yn ystyried mai dyma'r tro olaf y caiff unrhyw ardaloedd menter newydd eu hychwanegu, ynteu a ydych yn rhagweld y gellid ehangu'r cynllun yn y dyfodol mewn rhyw fodd, yn enwedig os bydd yn boblogaidd, fel y gwn y bydd ymhlið nifer o fusnesau?

15:23

Edwina Hart [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I thank Nick Ramsay very much for his comments. We were pleased with the constructive dialogue that we had on enhanced capital allowances, particularly between the Minister for Finance and Danny Alexander, the Chief Secretary to the Treasury, who was most helpful in this regard on capital allowances.

In terms of your comments on Stena Line, I think that this proves the point that when, as a Minister, I accept a report, I do actually mean it in terms of the outcomes of what the committee has said. We are having excellent discussions, because it is important that we recognise what an excellent port that we have in Holyhead, and the importance of maximising the business. This is our gateway to Ireland and our gateway straight through to Europe, which I think is important. It is also important, when we have reports from committees, that we look at what they contain and that we do what we can to develop a policy on the back of them.

Senedd.tv
[Video](#) [Video](#)

Diolch yn fawr i Nick Ramsay am ei sylwadau. Roeddym yn falch o'r ddeialog adeiladol a gawsom am lwfansau cyfalaf uwch, yn enwedig rhwng y Gweinidog Cyllid a Danny Alexander, Prif Ysgrifennydd y Trysorlys. Bu'n gymorth mawr yn hyn o beth o ran lwfansau cyfalaf.

O ran eich sylwadau am Stena Line, credaf fod hyn yn profi'r pwyt; pan rwyf fi, fel Gweinidog, yn derbyn adroddiad, rwyf wirioneddol yn golygu'r hyn a ddywedaf o ran canlyniadau'r hyn y mae'r pwylgor wedi'i ddweud. Rydym yn cael trafodaethau rhagorol, ac mae'n bwysig ein bod yn cydnabod y porthladd gwych sydd gennym yng Nghaergybi, a phwysigrwydd gwneud y gorau o'r busnes. Hwn yw ein porth i lwerddon a'n porth yn syth drwedd i Ewrop; credaf fod hynny'n bwysig. Mae hefyd yn bwysig, pan gawn adroddiadau gan bwylgorau, ein bod yn edrych ar yr hyn maent yn ei gynnwys a'n bod yn gwneud yr hyn a allwn i ddatblygu polisi'n seiliiedig arnynt.

In terms of business rates, you will appreciate that the scheme opened last week, and that it will be very quick in terms of timing. It focuses on new starts and job creation. All applications will be assessed in terms of their contributions and the aims and objectives of the scheme. The scheme operates under state aid rules, so this allows support up to £200,000 over a rolling year period. In terms of the criteria, small and medium-sized enterprises will need to be located within the enterprise zones. So, we are concentrating on getting the information out to this group of companies. In specific circumstances, we may also consider other positive business behaviours, such as whether there is research and development, innovation and so forth coming from other companies within the area. We have specified that the scheme will not provide funding for businesses that serve only a local market, or if there is an element of displacement, which I think is key.

We have £20 million—£10 million came from the UK Government, and we have matched that money—and that is taking us all the way to 2015-16, so there will be money in other budget years. I therefore think it is important that we recognise that the scheme is the start of the process at the end of this year and that it will also be going into other years.

We will monitor the successful applicants, because the grant will be paid annually for a period of up to three years, and I will review how it works. As soon as I have more information on the number of applications and everything, I will certainly update the Member concerned.

Regarding Cardiff Council, we have a good relationship with it and the local authority is represented on the enterprise zone board. It is very important that we work collectively to achieve the objectives, not only for the capital city, but for the wider region.

Regarding your point about further enterprise zones, I have not been attracted to it, but on the basis of Mohammad Asghar's contribution last week, I have had some initial discussions with Torfaen, and my officials shall have further discussions with Monmouthshire, because they might want to look at resurrecting a virtual enterprise zone for technology. That is something that I would be more than happy to look at on behalf of both local authorities. I will update you if the plans come to fruition.

O ran ardrethi busnes, byddwch yn sylweddoli bod y cynllun wedi agor yr wythnos ddiwethaf, ac y bydd yr amseru'n gyflym iawn. Mae'n canolbwytio ar fusnesau newydd a chreu swyddi. Caiff yr holl geisiadau eu hasesu o ran eu cyfraniadau a nodau ac amcanion y cynllun. Mae'r cynllun yn gweithredu o dan reolau cymorth gwladrwaethol, felly mae hyn yn caniatáu hyd at £200,000 o gymorth dros gyfnod treigl o flwyddyn. O ran y mein prawf, bydd angen i'r busnesau bach a chanolig fod wedi'u lleoli o fewn yr ardaloedd menter. Felly, rydym yn canolbwytio ar gyfleo'r wybodaeth i'r grŵp hwn o gwmniau. Dan amgylchiadau penodol, efallai y byddwn yn ystyried cwmniau eraill yn y cyffiniau sy'n arddangos ymddygiad busnes cadarnhaol arall, megis ymchwil a datblygu, arloesi ac yn y blaen. Rydym wedi nodi na fydd y cynllun yn darparu cylid i fusnesau sy'n gwasanaethu marchnad leol yn unig, neu os oes elfen o ddadleoliad; credaf fod hynny'n allwedol.

Mae gennym £20 miliwn—daeth £10 miliwn gan Lywodraeth y DU, ac rydym wedi darparu swm cyfatebol—ac mae hynny'n mynd â ni'r holl ffodd hyd at 2015-16, felly bydd arian ar gael mewn blynnyddoedd cyllideb eraill. Felly, credaf ei bod yn bwysig i ni gydnabod bod y cynllun yn nodi dechrau'r broses ar ddiwedd eleni ac y bydd hefyd yn parhau i flynyddoedd eraill.

Byddwn yn monitro'r ymgeiswyr llwyddiannus, gan y caiff y grant ei dalu'n flynyddol am gyfnod o hyd at dair blynedd, a byddaf yn adolygu sut y mae'n gweithio. Cyn gynted ag y bydd gennyl fwy o wybodaeth am nifer y ceisiadau ac ati, byddaf yn sicr yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelod dan sylw.

O ran Cyngor Caerdydd, mae gennym berthynas dda â hwy ac mae'r awdurdod lleol wedi'i gynrychioli ar fwrdd yr ardal fenter. Mae'n bwysig iawn ein bod yn cydweithio i gyflawni'r amcanion, nid yn unig i'r brifddinas, ond i'r rhanbarth ehangach.

O ran eich pwynnt am ardaloedd menter ychwanegol, nid wyl yn ystyried hwnnw'n syniad deniadol. Ond ar sail cyfraniad Mohammad Asghar yr wythnos ddiwethaf, rwyf wedi cael rhai trafodaethau cychwynnol gyda Thorfaen, a bydd fy swyddogion yn cael rhagor o drafodaethau gyda Sir Fynwy, oherwydd yr hoffent o bosibl ystyried atgyfod i'r ardal fenter rithwir ar gyfer technoleg. Mae hynny'n rhywbeth y byddwn yn fwy na pharod i edrych arno ar ran y ddau awdurdod lleol. Rhoddad y wybodaeth ddiweddaraf ichi os bydd y cynlluniau'n dwyn ffrwyth.

15:26

Alun Ffred Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Diolch yn fawr am y datganiad a'r wybodaeth ychwanegol sydd yn raddol ddedol allan ynglŷn â'r ardaloedd menter hyn. Af yn syth at rai o'r cwestiynau sy'n codi o'r datganiad hwn.

Mae'r cyntaf ynglŷn â'r lwfansau cyfalaf ychwanegol yr ydych wedi cyfeirio atynt. Mae gennym Lannau Dyfrdwy, Glynebw y rhannau o ardal fenter Aberdaugleddau, lle bydd lwfansau cyfalaf uwch. Ai dyna'r rhestr derfynol, neu a fyddwch yn barod i ystyried ardaloedd eraill? Dof at un o'r rheini yn y munud.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Thank you very much for that statement and the additional information that is slowly coming out about these enterprise zones. I will go directly to the questions that arise from this statement.

The first is about the enhanced capital allowances to which you have referred. We have Deeside, Ebbw Vale and parts of the Haven Waterway zone where there will be enhanced capital allowances. Is that the final list or will you be willing to consider other areas? I will come to those in a moment.

O ran y cynllun trethi busnes yn yr ardaloedd menter hyn, a fydd y cynllun yn gweithredu ymhob ardal? Mae rhai ohonynt yn ymddangos i mi'n wasgaredig. Yn Sir Fôn, er enghraifft, mae wyth ardal wahanol. Felly, a fydd y manteision trethi busnes yn y cynllun hwn yn gweithredu ymhob un o'r ardaloedd hyn?

Gan droi at Ynys Môn a'r cyfeiriad at wyth ardal strategol, buaswn yn gwerthfawrogi cael rhestr o'r wyth i ni gael deal yn iawn ym mha le yr ydych yn canolbwytio'ch egnion. Yr hyn sy'n rhyfedd gennfyd yw nad oes yr un cynllun lwfans cyfalaf ar gyfer yr un o'r ardaloedd hyn, hyd y gwelaf i. Rydym wedi bod yn sôn am greu parc gwyddoniaeth, efallai ar Ynys Môn. Peta'i'n cael ei sefydlu ar Ynys Môn, a fyddai'n denu'r cynllun lwfans cyfalaf uwch i geisio denu cwmniau technoleg uwch i'r ardal a'i hyrwyddo?

Gan gyfeirio at Gaerybi a'i harbwr, rwy'n croesawu'n fawr y ddealltwriaeth â Stena Line. Yn ein trafodaethau yn y pwylgor, cyfeiriwyd at bier docio Alwminiwm Môn, sydd â'r potensial i ddod â llongau 'cruise' i'r harbwr, ynghyd â manteision i'r ynys a thu hwnt. A ydych yn cynnwys Alwminiwm Môn yn y trafodaethau hyn am ddatblygu'r porthladd?

Yn olaf, rwy'n croesawu'r syniad o ddod â maes awyr Llanbedr i mewn i ardal fenter Eryri, ond nid wyf yn llwyr ddeall eich gweledigaeth strategol ar ei gyfer. Mae datblygiad UAS yn Aber-porth, a byddwn yn tybio y byddai cael un arall i fyny'r arfordir ychydig yn eithafol ac ychydig yn ddiddychymyg, os caf ddweud. Beth yn union sydd wedi'ch arwain at y penderfyniad hwn i weld dyfodol tymor hir y maes awyr hwn yng nghyd-destun y datblygiadau amheus hyn? Diolch am eich datganiad.

As regards the business rates scheme within these enterprise zones, will that scheme be implemented in every zone? Some of these zones appear to be spread across a large area. In Anglesey, for example, it is over eight different areas. Therefore, will the business rate benefits in this scheme be relevant in all these areas?

Turning to Anglesey and the reference to eight strategic areas, I would appreciate receiving a list of these eight areas so that we can understand exactly where you are focusing your efforts. What seems to strange to me is that there is not one capital allowance for any one of these areas, as far as I can see. We have talked about the creation of a science park, possibly on Anglesey. If it were established on Anglesey, would that attract enhanced capital allowances to try to attract high-tech companies to the area and to promote it?

In terms of Holyhead and the harbour, I very much welcome the agreement with Stena Line. In our discussions at committee, we also referred to the Anglesey Aluminium docking pier, which has the potential to bring cruise ships to the harbour, with benefits for the island and beyond. Have you included Anglesey Aluminium in the discussions on the development of the port?

Finally, I welcome the idea of bringing Llanbedr airfield into the Snowdonia enterprise zone, but I do not quite understand your strategic vision for the airfield. There is the UAS development at Aber-porth and I would imagine that having another one so close up the coast would be extreme and slightly unimaginative, if I may say so. What has led you to this decision to see the long-term future of this airfield in the context of these rather doubtful developments? Thank you for your statement.

15:29

Edwina Hart [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you very much indeed. I am more than happy, on the business rates scheme, to confirm that it applies across the piece. If Members would like more information on how the business rates scheme will work, I am more than happy to send it out, in addition to the letter that I have sent out, which will give clarity to Members, because it affects everyone, across the piece.

On Ynys Môn, we designated eight areas. I identified the initial outer boundary back in January 2012, I believe, when I looked at the initial outer boundary of the enterprise zone as the whole of Anglesey. From a marketing perspective, we presented it as an overall zone. However, I think that it was always the intention that enterprise zone interventions would be targeted around a number of key sites that would integrate with the broader area. Therefore, the whole island offer already exists, but it would not be fair or proportionate to other enterprise zones to apply all interventions to the whole island of Anglesey—but then I think that jam is sometimes spread too thinly. So, I have settled on these sites, and I am more than happy to share those with Members.

Diolch yn fawr iawn. Rwyf yn ddigon bodlon, i gadarnhau bod y cynllun ardrethi busnes yn berthnasol i bob maes. Os hoffai'r Aelodau gael rhagor o wybodaeth am sut y bydd y cynllun ardrethi busnes yn gweithio, rwyf yn fwy na pharod i'w dosbarthu, yn ychwanegol at y llythyr yr wyf wedi'i ddosbarthu, er mwyn gwneud pethau'n eglur i Aelodau, oherwydd y mae'n effeithio ar bawb, ym mhob maes.

Rydym wedi dynodi wyth maes ar Ynys Môn. Nodais y ffin allanol wreiddiol ym mis Ionawr 2012, rwyf yn credu, pan edrychais ar ffin allanol wreiddiol yr ardal fenter sef Ynys Môn gyfan. O safbwyt marchnata, cyflwynwyd hi fel un ardal. Fodd bynnag, credaf mai'r bwriad erioed oedd y byddai ymyriadau'r ardaloedd menter yn cael eu targedu o gwmpas nifer o safleoedd allweddol a fyddai'n integreiddio â'r ardal ehangu. Felly, mae cynnig yr ynys gyfan eisoes yn bodoli, ond ni fyddai'n deg nac yn gymesur i ardaloedd menter eraill pe byddem yn defnyddio'r holl ymyriadau ar gyfer Ynys Môn i gyd—ond yna credaf fod pethau'n cael eu gwasgaru'n rhy denau ar adegau. Felly, rwyf wedi penderfynu ar y safleoedd hyn, ac rwyf yn fwy na bodlon rhannu'r rhain gyda'r Aelodau.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Furthermore, when you look at the business rates incentives, they will be available for all EZs. However, in terms of capital allowances, you must understand that this is through negotiation and discussion with the Treasury. In real terms, the Treasury has been particularly generous in Wales in terms of what it has given on enhanced capital allowances, if you look at comparators elsewhere. I think that there are enough mechanisms in place, particularly when you look at where you might be in terms of structural funds programmes; there will always be money available for certain areas.

In terms of the science park, it is important to recognise that this is an interesting and, hopefully, successful development that we will be undertaking. I do not wish to pre-empt any further discussions about what help and assistance might be given there, because we are moving forward, hopefully, to appoint a project manager in respect of the science park, to take the work forward. They will make any representations to me about particular issues.

On Holyhead, it is clear that this is very much a strategic port for us. In terms of Anglesey Aluminium, we are also well aware of the proposals that there were for that site. The enterprise zone itself engages in all those discussions. You asked in particular about Llanbedr. I have tried, and I believe that, in the main—if you ask the chairs of my boards—I have been quite successful. I have taken the advice of those chairs about what they want to do in terms of land purchase, their boundaries, and what they see as priorities. This has emanated from a discussion within the enterprise zone board. We are clear that there is a strategic opportunity from Llanbedr regarding what can be developed there. However, I am also keen to give a message to the outside world that, although it is quite remote in Welsh terms, as a skills pool, it is open for business. I believe that an enterprise zone in that area signals that we are open for business, that we have the skills, and that we are prepared to look at what we can do there. That is the motivation for ensuring that we maximise the potential of that enterprise zone.

Hefyd, bydd y cymhelliant ardrethi busnes ar gael ar gyfer pob ardal fenter. Fodd bynnag, o ran lwfansau cyfalaf, rhaid i chi ddeall bod hyn yn ganlyniad i negodi a thrafod gyda'r Trysorlys. Mewn termau real fe welwch, wrth gymharu â mannau eraill, i'r Trysorlys fod yn arbennig o hael yng Nghymru o ran yr hyn y mae wedi'i roi ar gyfer lwfansau cyfalaf uwch. Credaf fod digon o fecanweithiau ar waith, yn arbennig pan edrychwr ar y sefyllfa bosibl o ran rhaglenni cronfeydd strwythurol; bydd arian ar gael bob amser ar gyfer rhai ardaloedd penodol.

O ran y parc gwyddoniaeth, mae'n bwysig cydnabod bod hwn yn ddatblygiad diddorol a, gobeithio, yn un llwyddiannus y byddwn yn ymgymryd ag ef. Nid wyf yn dymuno achub y blaen ar unrhyw drafodaethau ychwanegol ynglŷn â'r cymorth a'r gefnogaeth y gellid eu darparu yno, oherwydd ein bod yn symud ymlaen, gobeithio, at benodi rheolwr prosiectau'r parc gwyddoniaeth, i fwrr ymlaen â'r gwaith. Byddant yn gwneud unrhyw sylwadau imi am faterion penodol.

O ran Caergybi, mae'n amlwg ei fod yn borthladd strategol iawn inni. O ran Alwminiwm Môn, rydym hefyd yn ymwybodol iawn o'r cynigion a gyflwynwyd ar gyfer y safle hwnnw. Mae'r part hmenter ei hun yn cymryd rhan yn ymgysylltu â'r holl drafodaethau hynny. Gofynnwyd yn benodol am Lanbedr. Rwyf wedi ceisio, a chredaf yn gyffredinol—os gofynnwr i gadair yddion fy myrddau—imi fod yn eithaf llwyddiannus. Rwyf wedi cymryd cyngor y cadeiryddion hynny am yr hyn yr hoffent ei wneud o ran prynu tir, eu ffiniau, a'r hyn y maent yn ei ystyried yn flaenorïaeth. Mae hyn wedi deillio o drafodaeth o fewn bwrdd yr ardal fenter. Rydym yn glir bod cyfle strategol o ran yr hyn y gellir ei ddatblygu yn Llanbedr. Fodd bynnag, rwyf hefyd yn awyddus i roi neges i'r byd y tu allan ei bod, fel cronfa sgiliau, ar gael ar gyfer busnes, er ei bod yn eithaf anghysbell o fewn Cymru. Credaf fod ardal fenter yn y rhan honno o'r wlad yn dangos ein bod yn barod ar gyfer busnes, bod gennym y sgiliau, a'n bod yn barod i edrych ar yr hyn y gallwn ei wneud yno. Dyna'r cymhelliant i sicrhau ein bod yn manteisio i'r eithaf ar botensial yr ardal fenter honno.

15:33

Eluned Parrott [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I would like to thank the Minister for her statement today and the correspondence on business rates that we received last week. It is an interesting overview of nine months' work. However, I hope that you will forgive me if I say that it still feels like early days in the development of what is going forward, particularly when we compare it with Bristol, for example. I was looking at the website of the Bristol enterprise zone today. There, they have a clear offer, and clear boundaries of what the enterprise zone is, where it is, and what is offered there. Similarly, Liverpool not only has planning permission agreed for some of its development, but it is actually building—work is ongoing to create a college there as part of the enterprise zone. Therefore, Minister, are you truly content with the pace of progress, when you compare progress here in Wales with progress in other parts of the UK? If not, what practical steps would you like to take to speed things up?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Hoffwn ddiolch i'r Gweinidog am ei datganiad heddiw a'r ohebiaeth am ardrethi busnes a gawsom yr wythnos ddiwethaf. Mae'n drosolwg diddorol o naw mis o waith. Fodd bynnag, gobeithiaf y maddeuwch imi am ddweud ei bod yn dal i deimlo fel dyddiau cynnar yn natblygiad y cynllun, yn enwedig o'i gymharu â Bryste, er engrhaifft. Roeddwn yn edrych ar wefan ardal fenter Bryste heddiw. Yno, mae ganddynt gynnig clir, a diffiniad clir o'r ardal fenter, ble y mae, a beth sy'n cael ei gynnig yno. Yn yr un modd, mae Lerpwl wedi cael caniatâd cynllunio ar gyfer rhywfaint o'u datblygiadau, ond maent hefyd wedi dechrau adeiladu—mae gwaith yn mynd rhagddo i greu coleg yno fel rhan o'r ardal fenter. Felly, Weinidog, a ydych yn wirioneddol fodlon â chyflymder y datblygiadau, wrth gymharu'r hyn a gyflawnwyd yma yng Nghymru ac mewn rhannau eraill o'r DU? Os nad ydych, pa gamau ymarferol yr hoffech eu cymryd i gyflymu pethau?

I recall that, back in June, you said that you would be working with the enterprise zone board to develop marketing plans and to identify the resources that you needed to present a unified offer. Some of this confusion over what is in and what is out, and what is being offered, could be assisted by some clarity in a public offer, like, for example, a website. I wonder whether there is any progress there.

On some of the specific sites, congratulations on the purchase in Callaghan Square. I am glad to note your confirmation that you are protecting this site for private sector jobs, and for new jobs to be created, which I think is wonderful. Are you in discussions with Cardiff Council to see whether there are any other sites in the area that are likely to be used for relocating public sector jobs? Furthermore, do you have any tenants for the new proposed A-grade offices in Callaghan Square itself?

With regard to Anglesey and the Holyhead port development, that is extremely exciting, particularly with regard to some of the recommendations in the Enterprise and Business Committee's report. Will you be giving developments there priority for passenger or freight traffic, or both? In terms of freight, what discussions have you had with the Minister for transport, Network Rail and so on to discuss the congestion problems that exist on the A55 and any ways in which rail freight can be used to improve those links?

With regard to Ebbw Vale, what interest have you had in the sites that are available there? How firmly will you be sticking to the automotive theme that you originally set out? There is a conflict between the desire in the long term to create a hub that will be self-sustaining and the desperate need for jobs in that area. I wonder where the balance lies. With regard to St Athan, I welcome the work that is due to take place in Gilestone, which is a well-known local bottle neck. There are other bottle necks in taking people from the airport to Cardiff and to the motorway, and from St Athan to those locations as well. What discussions have you had regarding public transport to the enterprise zone there? Have there been any discussions on higher frequencies on the Vale of Glamorgan line and on having a station in St Athan, because the railway line borders the enterprise zone site? Are there any proposals to resurrect improvement plans for the road links from that area to the motorway? I will leave it at that, thank you.

Cofiaf i chi ddweud, yn ôl ym mis Mehefin, y byddech yn cydweithio â bwrrd yr ardal fenter i ddatblygu cynlluniau marchnata ac i ganfod yr adnoddau yr oedd eu hangen arnoch i gyflwyno cynnig unedig. Gellid lleihau rhywfaint ar y dryswch yngylch yr hyn sy'n cael ei gynnwys a'r hyn nad yw'n cael ei gynnwys, a'r hyn a gynigir, trwy gael rhywfaint o eglurder mewn cynnig cyhoeddus, megis gwefan, er enghraifft. Tybed a gymerwyd unrhyw gamau yn hynny o beth?

Ar rai o'r safleoedd penodol, llonyfarchiadau ar brynu'r safle yn Sgwâr Callaghan. Rwyf yn falch o nodi eich cadarnhad eich bod yn diogelu'r safle hwn ar gyfer swyddi yn y sector preifat, ac ar gyfer creu swyddi newydd; credaf fod hynny'n wych. A ydych yn cynnal trafodaethau gyda Chyngor Caerdydd i weld a oes unrhyw safleoedd eraill yn yr ardal sy'n debygol o gael eu defnyddio ar gyfer adleoli swyddi sector cyhoeddus? Hefyd, a oes gennych unrhyw deniantiaid i'r swyddfeidd gradd A newydd arfaethedig yn Sgwâr Callaghan ei hun?

O ran Ynys Môn a datblygu porthladd Caergybi, mae hynny'n hynod o gyffrous, yn enwedig o ran rhai o argymhellion adroddiad y Pwyllgor Menter a Busnes. A fyddwch yn rhoi blaenoriaeth, yn y datblygiadau yno, i gludo teithwyr neu nwyddau, neu'r dda? O ran cludo nwyddau, pa drafodaethau yr ydych wedi'u cael gyda'r Gweinidog trafnidiaeth, Network Rail ac yn y blaen i drafod y problemau tagfeydd sy'n bodoli ar yr A55 ac unrhyw ffyrdd y gellid cludo nwyddau ar reilffyrdd i wella'r cysylltiadau hynny?

O ran Glynebw, pa ddiddordeb a fynegwyd yn y safleoedd sydd ar gael yno? Pa mor gadarn y byddwch yn glynu at y thema'r sector fodurol a bennwyd gennych yn wreiddiol? Mae gwrtiharo rhwng yr awydd hirdymor i greu canolfan a fydd yn hunangynhaliol a'r angen dybryd am swyddi yn yr ardal honno. Tybed ble mae'r cydbwyssedd i'w gael? Gyda golwg ar Sain Tathan, rwyf yn croesawu'r gwaith sydd i fod i ddigwydd yn Silstwn. Mae'r fan hon yn adnabyddus fel tagfa yn lleol. Ceir tagfeydd eraill wrth fynd â phobl o'r maes awyr i Gaerdydd ac at y draffordd, ac o Sain Tathan i'r lleoliadau hynny hefyd. Pa drafodaethau yr ydych wedi'u cael yngylch trafnidiaeth gyhoeddus i'r ardal fenter yno? A fu unrhyw drafodaethau ynglŷn â chael trenau i redeg yn amlach ar linell Bro Morgannwg ac ynglŷn â chael gorsaf yn Sain Tathan, oherwydd bod y rheilffordd yn ffinio â safle'r ardal fenter? A oes unrhyw gynigion i adfer cynlluniau i wella'r cysylltiadau ffordd o'r ardal at y draffordd? Dyna ddigon am nawr, diolch.

15:36

Edwina Hart [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you very much for that contribution and your general support for the way in which we are going. We do have a clear offer in respect of the enterprise zones. We have to appreciate that not all English enterprise zones have enhanced capital allowances if they have not had a discussion with the Treasury about boundaries. We are in the place where we are, and I am satisfied with the way in which the boards are working and how they are developing their offer in terms of publicity and so on. When I make my April statement, when we will look at this 12 months on, I think that I will be able to provide Members with a full update on what is going on in that area.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Diolch yn fawr iawn am y cyfraniad hwnnw ac am eich cefnogaeth gyffredinol i'r cyfeiriad yr ydym yn symud iddo. Mae gennym gynnig clir ynglŷn â'r ardaloedd menter. Rhaid inni werthfawrogi nad oes gan bob ardal fenter yn Lloegr lwfansau cyfalaf uwch os nad ydynt wedi cael trafodaeth gyda'r Trysorlys ynglŷn â ffiniau. Dyma'r sefyllfa yr ydym ynddi, ac rwyf yn fodlon ar y ffordd y mae'r byrddau yn gweithio ac yn datblygu eu cynnig o ran cyhoeddusrwydd ac yn y blaen. Wrth wneud fy natganiad ym mis Ebrill, pan edrychwn ar hyn 12 mis yn ddiweddarach, credaf y gallaf roi'r wybodaeth yn llawn i Aelodau am yr hyn sy'n digwydd yn y maes hwnnw.

You raised an interesting point: you said that people were starting to build. One of the key issues for us, when we do have the land to build, will be the speed of the planning process. That will be essential for the enterprise zones, hence my discussions with John Griffiths. They are moving ahead with marketing plans in those areas, and I am sure that once I have spoken with the boards and have had my regular meetings with the chairs, I will be more than happy to share where they are with their marketing plans.

Thank you for your comments about Callaghan Square. I do not know of any plans for public sector jobs to be located in Callaghan Square. It is quite clear from the board's discussion that it wants it for business. It wants the best quality jobs in Callaghan Square, attracting people in. The board has discussions with parties who would be interested in that development. We also have ongoing discussions across the piece with other people in Cardiff who are interested in other plots and how they can become part of any discussion about developing this particular area. A lot of these, as you will appreciate, are commercial in confidence.

In terms of Ynys Môn, my colleague the Minister for transport and I have had a lot of discussions about freight and rail and how they enhance. We have had productive discussions on a whole range of transport issues in relation to the enterprise zones, because, as a Government, we work as one in looking at jobs and the economy.

On Ebbw Vale, there is interest, but that is also a dilemma, because we would like to focus almost totally on the automotive industry, but other people ask whether there are any other industrial issues. That is something that the board is going to have to start to wrestle with. As I have indicated, I would not turn down the opportunity if it was something else and I am sure that the board would not want to do so. I will be asking the board to think whether it is absolutely right in terms of its forecasts and whether there is any more we can do.

On St Athan, there are always transport issues, but the Minister for transport is totally cognisant of some of the issues around that. We also have the airport link to look at in terms of the wider enterprise zone, and we are having ongoing discussions on those particular matters.

Rydych wedi codi pwynt diddorol gan ddweud bod pobl yn dechrau adeiladu. Un o'r materion allweddol i ni, pan fydd gennym y tir i adeiladu, fydd cyflymder y broses gynllunio. Bydd hynny'n hanfodol i'r ardaloedd menter, a dyna pam y cefas drafodaethau gyda John Griffiths. Maent yn symud ymlaen â chynlluniau marchnata yn yr ardaloedd hynny, ac rwyf yn siŵr y byddaf yn fwy na pharod i roi gwybod am sefyllfa eu cynlluniau marchnata, cyn gynted ag y byddaf wedi siarad â'r byrddau ac wedi cael fy nghyfarfodydd rheolaidd â'r cadeiryddion.

Diolch am eich sylwadau am Sgwâr Callaghan. Nid wyf yn gwybod am unrhyw gynlluniau i leoli swyddi sector cyhoeddus yn Sgwâr Callaghan. Mae'n eithaf clir o drafodaeth y bwrdd mai busnes y maent yn dymuno'i gael yno. Maent yn dymuno cael swyddi o'r ansawdd gorau yn Sgwâr Callaghan, i ddenu pobl i mewn. Mae'r bwrdd yn cynnal trafodaethau â phartïon sydd â diddordeb yn y datblygiad hwnnw. Rydym hefyd yn cynnal trafodaethau cyffredinol parhaus â phobl eraill yng Nghaerdydd sydd â diddordeb mewn lleiniau eraill ac mewn dod yn rhan o unrhyw drafodaeth ynglŷn â datblygu'r maes penodol hwn. Mae llawer o'r rhain, fel y byddwch yn gwerthfawrogi, yn fasnachol gyfrinachol.

O ran Ynys Môn, mae fy nghydweithiwr, y Gweinidog trafnidiaeth, a minnau wedi cael llawer o drafodaethau am gludo nwyddau a rheilffyrdd a sut y maent yn gwella. Rydym wedi cael trafodaethau cynhyrchiol am ystod eang o faterion trafnidiaeth mewn cysylltiad â'r ardaloedd menter, oherwydd, fel Llywodraeth, rydym yn gweithio fel un wrth edrych ar swyddi a'r economi.

Ceir diddordeb yng Nglynebwyr, ond ceir cyfyng-gyngor hefyd. Hoffem ganolbwytio bron yn gyfan gwbl ar y diwydiant modurol, ond mae pobl eraill yn gofyn a oes unrhyw feisydd diwydiannol eraill. Mae hynny'n rhywbeth y mae'r bwrdd yn mynd i orofd dechrau ymrafael ag ef. Fel yr wyf wedi nodi, ni fyddwn yn gwrthod y cyfle pe bai rhywbeth arall yn codi, ac rwyf yn siŵr na fyddai'r bwrdd yn dymuno gwneud hynny. Byddaf yn gofyn i'r bwrdd feddwl a yw eu rhagolygon yn holol gywir ac a oes unrhyw beth arall y gallwn ei wneud.

O ran Sain Tathan, ceir materion trafnidiaeth drwy'r amser, ond mae'r Gweinidog trafnidiaeth yn holol ymwybodol o rai o'r materion sy'n gysylltiedig â hynny. Mae gennym hefyd y cyswllt â'r maes awyr i'w ystyried o ran yr ardal fenter ehanguach, ac rydym yn cynnal trafodaethau parhaus am y materion penodol hynny.

15:39

Joyce Watson [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I welcome the progress of the plans on the enterprise zones in Pembrokeshire and I welcome particularly the inclusion of Honeyborough, Haverfordwest airport, Waterston and Thornton in that zone. The importance of assisting the development of small and medium-sized enterprises with growth potential in an area where they make a significant contribution to the future sustainability of the local economy, in my opinion, cannot be overstated. Can the Minister confirm that she is working closely with businesses and education providers and that, in terms of long-term sustainability, apprenticeships will form part of her growth agenda?

Senedd.tv
[Video](#) [Video](#)

Rwyf yn croesawu'r hyn a gyflawnwyd o ran cynlluniau'r ardaloedd menter yn Sir Benfro a chroesawaf yn arbennig gynnwys Honeyborough, maes awyr Hwlfordd, Waterston a Thornton yn yr ardal honno. Yn fy marn i, ni ellir gorbwyslesio pa mor bwysig yw cynorthwyo datblygiad busnesau bach a chanolig sydd â potensial i dyfu, mewn ardal lle maent yn gwneud cyfraniad sylweddol i gynaliadwyedd yr economi leol yn y dyfodol. A all y Gweinidog gadarnhau ei bod yn cydweithio'n agos â busnesau a darparwyr addysg ac, o ran cynaliadwyedd tymor hir, y bydd prentisiaethau'n ffurfio rhan o'i hagenda ar gyfer twf?

I also welcome Llanbedr airfield as an entry into that regional partnership, because I know that the people on the ground, when I go there, have asked me time and again to consider that as a possible development area within that zone.

15:40

Edwina Hart [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you for your comments regarding the enterprise zones. I am very pleased that we are able to include those additional sites and concentrate on small and medium-sized enterprises, particularly in the Haven Waterway zone. I would indicate to you that education and training are actually key elements in what employers want when they come into an enterprise zone, and we have an offer in Wales that is second to none. We work very closely with the Deputy Minister for Skills and the Minister for Education and Skills to ensure that the appropriate offer is there for any employers who wish to come into that particular area. Obviously, that department works particularly well with the providers of education across Wales to ensure that we have the workforce qualifications and the training opportunities that are necessary to bring jobs and prosperity into the area.

Also, thank you for your comments on Llanbedr. It is important that we are able to facilitate the inclusion of these small airports. It is important when you look at what they are developing in terms of how that itself can be a hub for further businesses to come into the area. It is so important within rural Wales that we take advantage of all the opportunities that we have and build on the success that is there already.

15:41

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Members have one minute each now, and I will be brutal.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

15:41

Antoinette Sandbach [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I will be very quick. Minister, are you satisfied that businesses within these enterprise zones are aware of the enhanced capital allowances? I did a visit at Deeside, where a business was talking about a \$4 million investment, but was not aware of the enhanced capital allowances. Could you deal with that issue? Could you perhaps also deal with the talks that you have had with Hitachi about the generic design assessment that the Department for Energy and Climate Change has asked the Office for Nuclear Responsibility to undertake? I understand that that process is likely to take a minimum of three years; that was the case with the Areva and Westinghouse designs. Clearly, that is important because it may well be that work will not be done on site until that GDA has been completed. Could you update us on your talks with Hitachi?

15:42

Edwina Hart [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you very much indeed. I had a meeting with the Secretary of State for Wales yesterday where the whole issue of Hitachi came up. He and I were both satisfied with the progress on the engagement that we all have with the company in Ynys Môn for the development of the plant. Any company with that level of investment going in should have a business adviser attached to it, and I am sure that they will have raised the relevant issues.

Rwyf hefyd yn croesawu'r ffaith bod maes awyr Llanbedr i'r bartneriaeth ranbarthol honno, oherwydd y gwn fod pobl, pan af yno, wedi gofyn imi dro ar ôl tro i'w ystyried fel man datblygu posibl o fewn yr ardal honno.

Diolch am eich sylwadau am yr ardaloedd menter. Rwyf yn falch iawn ein bod yn gallu cynnwys y safleoedd ychwanegol hynny a chanolbwytio ar fusnesau bach a chanolig, yn enwedig yn ardal Dyffordd y Ddua Gleddau. Byddwn yn dweud wrthch bod addysg a hyfforddiant mewn gwirionedd yn elfennau allweddol yn yr hyn y mae ar gyflogwyr ei eisiau pan fyddant yn dod i ardal fenter, ac mae gennym gynnig heb ei ail yng Nghymru. Rydym yn cydweithio'n agos iawn â'r Dirprwy Weinidog Sgiliau a'r Gweinidog Addysg a Sgiliau i sicrhau bod y cynnig addas ar gael i unrhyw gyflogwyr sy'n dymuno dod i'r ardal benodol honno. Yn amlwg, mae'r adran honno'n gweithio'n arbennig o dda gyda darparwyr addysg ledled Cymru i sicrhau bod gennym y cymwysterau a'r cyfleoedd hyfforddi a gyfer y gweithlu sydd eu hangen i ddod â swyddi a ffyniant i'r ardal.

Hefyd, diolch am eich sylwadau am Lanbedr. Mae'n bwysig ein bod yn gallu hwyluso'r broses o gynnwys y meysydd awyr bach hyn. Mae'n bwysig wrth edrych ar yr hyn y maent yn ei ddatblygu, a sut y gall y maes awyr ei hun fod yn ganolbwyt i ddenu mwya o fusnesau i'r ardal. Mae mor bwysig yng nghefn gwlaid Cymru ein bod yn manteisio ar bob cyfle sydd gennym ac yn adeiladu ar y llwyddiant sy'n bodoli eisoes.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Byddaf yn gyflym iawn. Weinidog, a ydych yn fodlon bod busnesau yn yr ardaloedd menter hyn yn ymwybodol o'r lwfansau cyfalaif uwch? Cynhelias ymwelliad â Glannau Dyfrdwy, lle roedd busnes yn sôn am fuddsoddiad o \$4 miliwn, ond nid oedd yn ymwybodol o'r lwfansau cyfalaif uwch. A allech chi ymdrin â'r mater hwnnw? A allech efallai hefyd roi sylw i'r trafodaethau yr ydych wedi'u cael gyda Hitachi am yr asesiad cyllunio generig y mae'r Adran Ynny a Newid yn yr Hinsawdd wedi gofyn i'r Swyddfa Cyfrifoldeb Niwclear ymgymryd ag ef? Rwyf ar ddeall bod y broses honno'n debygol o gymryd o leiaf dair blynedd; roedd hynny'n wir am gynlluniau Areva a Westinghouse. Yn amlwg, mae hynny'n bwysig oherwydd ei bod yn bosibl na wneir dim gwaith ar y safle nes i'r asesiad hwnnw gael ei gwblhau. A allech roi'r wybodaeth ddiweddaraf inni am eich trafodaethau gyda Hitachi?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Diolch yn fawr iawn yn wir. Cefais gyfarfod ag Ysgrifennydd Gwladol Cymru ddoe lle y cododd mater Hitachi. Roedd ef a minnau ill dau'n fodlon â'r modd y mae'r ymgysylltiad yn symud yn ei flaen gyda'r cwmni ar Ynys Môn i ddatblygu'r gwaith. Dylai unrhyw gwmni sy'n buddsoddi cymaint â hynny fod ag ymgynghorydd busnes ynglwm wrtho, ac rwyf yn siŵr y byddant wedi codi'r materion perthnasol.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

15:42

Elin Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Weinidog, byddwch yn ymwybodol fy mod wedi codi'r posibiliad gyda chi y gallai Aberteifi a Dyffryn Teifi ddatblygu i fod yn ardal dwf lleol. Yn sgîl eich penderfyniad i gysylltu eich rhaglen buddsoddi band-eang gyda'ch rhaglen parthau menter, mae'r penderfyniad yn awr yn gosod fy etholaeth dan grym anfantais. A wnewch ystyried sut y gallwch ddefnyddio'ch polisi ynglŷn â pharthau menter, ac yn benodol ardaloedd twf lleol, i fod o gefnogaeth i etholaethau fel fy un i?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Minister, you will be aware that I raised the possibility with you that perhaps Cardigan and the wider Cardigan area could be developed to be a local growth zone. Given your decision to link your broadband investment programme with your enterprise zone programme, that decision places my constituency under some disadvantage. Will you therefore consider how you could use your policy on enterprise zones, and local growth zones specifically, to support constituencies such as mine?

15:43

Edwina Hart [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you for that. The local growth zone issue has gone very well in the context of regional enterprise zones and local growth zones. There is a lot of work coming out of Powys, which will also be useful in the development of the rural development plan in terms of what we might look at. I will be more than happy to consider any requests in terms of a local growth zone in that area. I will ask officials to make inquiries about the feasibility of this and how it might work, and I will get back to the Member.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Diolch am hynny. Mae mater ardaloedd twf lleol wedi mynd yn dda iawn yng nghyd-destun ardaloedd menter rhanbarthol ac ardaloedd twf lleol. Gwneir llawer o waith ym Mhowys, a fydd hefyd yn ddefnyddiol wrth ddatblygu'r cynllun datblygu gwledig a'r hyn y gallem ei ystyried. Byddaf yn ddigon bodlon ystyried unrhyw geisiaidau o ran ardal dwf leol yn y fan honno. Fe wnaf ofyn i swyddogion wneud ymholiadau am ddichonoldeb hyn a sut y gallai weithio, a dof yn ôl at yr Aelod.

15:43

Paul Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

In your written statement last week, Minister, you confirmed that rolling out the super-fast broadband scheme would take into account your economic priorities, including the enterprise zones. However, the fibre broadband roll-out will start in 14 unitary authorities that do not include Pembrokeshire, where the Haven Waterway enterprise zone is located. Can you confirm that the Haven Waterway enterprise zone is included in the super-fast broadband roll-out during 2013-14, given last week's statement?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Yn eich datganiad ysgrifenedig yr wythnos ddiwethaf, Weinidog, fe wnaethoch gadarnhau y byddai eich blaenoriaethau economaidd, gan gynnwys yr ardaloedd menter, yn cael eu hystyried wrth gyflwyno'r cynllun band eang cyflym iawn. Fodd bynnag, bydd band eang ffibr yn dechrau cael ei gyflwyno mewn 14 o awdurdodau unedol heb gynnwys Sir Benfro, lle mae ardal fenter Dyfrffordd y Ddua Gleddau wedi'i lleoli. A allwch gadarnhau bod ardal fenter Dyfrffordd y Ddua Gleddau wedi'i chynnwys yn y band eang cyflym iawn a gyflwynir yn ystod 2013-14, o ystyried datganiad yr wythnos ddiwethaf?

15:44

Edwina Hart [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

My understanding was that it was included in the 2013-14 roll-out, never mind the reference to the county. However, I will check that with officials before I come back, and if there has been any error on my part, I will advise Members.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Roeddwn ar ddeall y cai ei gyflwyno yn 2013-14, waeth pa un am y cyfeiriad at y sir. Fodd bynnag, byddaf yn cadarnhau hynny gyda swyddogion cyn dod yn ôl, ac os bu unrhyw gamgymeriad ar fy rhan, rhof wybod i'r Aelodau.

15:44

Yr Arglwydd / Lord Elis-Thomas [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Diolch i'r Gweinidog am ei hymateb, yn enwedig ar Lanbedr. Mae hyn yn golygu bod y buddsoddiad mawr a wnaed gan fy nghyfaill, pan oedd yn Ddirprwy Prif Weinidog, yn yr adeilad newydd ar gyfer datblygu busnesau wedi bod yn llwyddiannus. A fyddai'r Gweinidog yn cytuno mai strategaeth bwysig yn yr ardal hon yw defnyddio gwaddol y sector cyhoeddus yn y diwydiant niwclear a'r diwydiant awyrennau—yn y diwydiant amddiffyn yn benodol—er mwyn creu busnesau newydd?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I thank the Minister for her response, particularly on Llanbedr. That means that the major investment made by my colleague, when he was Deputy First Minister, in the new facility for the development of businesses has been successful. Would the Minister agree that an important strategy in this area would be to use what the public sector has left behind in the nuclear and aviation industries—in the defence industry in particular—in order to generate new businesses?

15:45

Edwina Hart [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

You are absolutely correct in what you say in your statement. Also, it was important, in terms of the original development of Llanbedr, that it has protected us so that we can do something there now and for the future, which will hopefully bring more jobs in. It would have been a very difficult area to regenerate had we not had that original investment.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Rydych yn llygad eich lle yn yr hyn a ddywedwch yn eich datganiad. Hefyd, roedd yn bwysig, o ran datblygiad gwreiddiol Llanbedr, ei fod wedi ein hamddiffyn fel y gallwn wneud rhywbeth yno nawr ac ar gyfer y dyfodol, a'r gobaith yw y bydd yn dod â mwy o swyddi i mewn. Byddai wedi bod yn ardal anodd iawn i'w hadfywio pe na baem wedi cael y buddsoddiad gwreiddiol hwnnw.

15:45

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I am grateful to all Members and the Minister for their co-operation in succinct questions and answers.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Rwyf yn ddiolchgar i'r holl Aelodau a'r Gweinidog am eu cydweithrediaid o ran rhoi cwestiynau ac atebion cryno.

Cynnig i Atal Rheol Sefydlog Rhifau 11.16, 12.20(i) a 27.7

Cynnig NDM5153 Jane Hutt

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheolau Sefydlog 33.6 a 33.8:

Yn atal Rheol Sefydlog 11.16, Rheol Sefydlog 12.20(i) a Rheol Sefydlog 27.7 er mwyn caniatáu i NNDM5151 ac NNDM5152 gael eu hystyried yn y Cyfarfod Llawn ddydd Mawrth 22 Ionawr 2013.

Motion to Suspend Standing Order Nos. 11.16, 12.20(i) and 27.7

Motion NDM5153 Jane Hutt

To propose that the National Assembly for Wales, in accordance with Standing Orders 33.6 and 33.8:

Suspends Standing Order 11.16, Standing Order 12.20(i) and Standing Order 27.7 to allow NNDM5151 and NNDM5152 to be considered in Plenary on Tuesday 22 January 2013.

15:45

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I call the Minister for Local Government and Communities to move the motion.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Galwaf ar y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau i gynnig y cynnig.

15:45

Carl Sargeant [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau / The Minister for Local Government and Communities

I move the motion.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Cynigiaf y cynnig.

15:45

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I do not have any speakers. The proposal is to suspend the Standing Orders. Does any Member object? I see that there are no objections. The motion is therefore agreed in accordance with Standing Order No. 12.36.

Nid oes gennyl unrhyw siaradwyr. Y cynnig yw i atal y Rheolau Sefydlog. A oes unrhyw Aelod yn wrthwnebu? Gwelaf nad oes unrhyw wrthwnebiad. Mae'r cynnig, felly, wedi'i dderbyn, yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 12.36.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Derbyniwyd y cynnig.

Motion agreed.

Cynnig i Gymeradwyo Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (Gofynion Rhagnodedig a Chynllun Diofyn) (Cymru) (Diwygio) 2013 a Chynnig i gymeradwyo Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (Darpariaethau Trosiannol) (Cymru) 2013

Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

In accordance with Standing Order No. 12.24, I propose that the motions are grouped for debate. Does any Member object? I see that there are no objections. I call the Minister for Local Government and Communities to move the motions.

Cynnig NNDM5151 Jane Hutt

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru; yn unol â Rheol Sefydlog 27.5

Yn cymeradwyo bod y fersiwn drafft o Reoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (Gofynion Rhagnodedig a Chynllun Diofyn) (Cymru) (Diwygio) 2013 yn cael ei lunio yn unol â'r fersiwn drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 17 Ionawr 2013.

Cynnig NNDM5152 Jane Hutt

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru; yn unol â Rheol Sefydlog 27.5

Yn cymeradwyo bod y fersiwn drafft o Reoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (Darpariaethau Trosiannol) (Cymru) 2013 yn cael ei lunio yn unol â'r fersiwn drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 17 Ionawr 2013.

Motion to Approve the Council Tax Reduction Schemes (Prescribed Requirements and Default Scheme) (Wales) (Amendment) Regulations 2013 and Motion to Approve the Council Tax Reduction Schemes (Transitional Provisions) (Wales) Regulations 2013

Yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 12.24, rwy'n cynnig bod y cynigion yn cael eu grwpio ar gyfer dadl. A oes unrhyw Aelod yn gwrtwynebu? Gwelaf nad oes unrhyw wrtwynebiad. Galwaf ar y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau i gynnig y cynigion.

Motion NNDM5151 Jane Hutt

To propose that the National Assembly for Wales; in accordance with Standing Order 27.5

Approves that the draft the Council Tax Reduction Schemes (Prescribed Requirements and Default Scheme) (Wales) (Amendment) Regulations 2013, is made in accordance with the draft laid in the Table Office on 17 January 2013.

Motion NNDM5152 Jane Hutt

To propose that the National Assembly for Wales; in accordance with Standing Order 27.5

Approves that the draft The Council Tax Reduction Schemes (Transitional Provisions) (Wales) Regulations 2013 is made in accordance with the draft laid in the Table Office on 17 January 2013.

Carl Sargeant [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau / The Minister for Local Government and Communities

I move the motions.

Janet Finch-Saunders [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you for introducing this motion on the amended council tax reduction scheme. As I said earlier, we really do welcome the u-turn. However, we also remember the criticism that opposition parties faced from the Welsh Government when we said that you could have afforded to do this earlier. You could have implemented the regulations, as should have been done in the first place, in an appropriate manner.

We still want the option to be able to scrutinise these regulations and the Welsh Government's application of them. That is now increasingly the case, given that the Welsh Government has already had to amend them less than a month after they were laid last time.

Diolch i chi am gyflwyno'r cynnig hwn ar y cynllun lleihau treth cyngor diwygiedig. Fel y dywedais yn gynharach, rydym yn croesawu'r tro pedol. Fodd bynnag, rydym hefyd yn cofio'r feirniadaeth yr oedd y gwrtbleidiau yn ei hwynebu gan Llywodraeth Cymru pan ddywedom y gallech fod wedi fforddio gwneud hyn yn gynharach. Fe allech fod wedi rho'r rheoliadau ar waith, fel y dylid bod wedi gwneud yn y lle cyntaf, mewn modd priodol.

Rydym yn dal yn dymuno cael y dewis i allu craffu ar y rheoliadau hyn a defnydd Llywodraeth Cymru ohonynt. Mae hynny bellach yn fwfywy gwir, o gofio bod Llywodraeth Cymru eisoes wedi eu diwygio lai na mis ar ôl iddynt gael eu gosod tro diwethaf.

This will be a relief to the 330,000 families who will now potentially have to pay no council tax or will certainly get a good reduction. However, it is appalling that it has taken so long for the Minister and his department to do this. You were aware of this right at the beginning of last year, no more so than in May, when you had the indicative figures. If you recall, as I have made numerous requests here and in a written Assembly question, I have asked you to put that letter on public record. For some reason, you seem hesitant to do that. In the interests of transparency and accountability to us as Assembly Members and to the people of Wales, you should place that letter on record.

You have mentioned in the past that you did not have the funding and the UK Government came under some criticism. However, it gave £52 million in consequential funding for Wales in the autumn statement and my colleague, Antoinette Sandbach, reminded us earlier today of a further £210 million. So, funding has come from the UK Government, big style. [Laughter.] Yes. Definitely. Most certainly.

Bydd hyn yn rhyddhad i 330,000 o deuluoedd na fyddant bellach o bosibl yn gorfol talu unrhyw dreth gyngor neu a fyddant yn sicr o gael gostyngiad da. Fodd bynnag, mae'n warthus ei fod wedi cymryd mor hir i'r Gweinidog a'i adran i wneud hyn. Roeddech yn ymwybodol o'r hawl hon ar ddechrau'r llynedd, dim mwy felly nag ym mis Mai, pan oedd y ffigurau dangosol gennych. Os ydych yn cofio, gan fy mod wedi gwneud ceisiadau niferus yma ac mewn cwestiwn ysgrifenedig y Cynulliad, rwyf wedi gofyn i chi roi'r llythyr hwnnw ar gofnod cyhoeddus. Am ryw reswm, rydych yn ymddangos yn betrusgar i wneud hynny. Er mwyn tryloywder ac atebolwyd i ni fel Aelodau'r Cynulliad ac i bobl Cymru, dylech roi'r llythyr hwnnw ar gofnod.

Rydych wedi sôn yn y gorffennol nad oedd gennych yr arian a daeth Llywodraeth y DU dan rywfaint o feirniadaeth. Fodd bynnag, rhoddodd £52 miliwn mewn cyllid canlyniadol i Gymru yn natganiad yr hydref ac atgoffwyd ni'n gynharach heddiw gan fy nghydweithiwr, Antoinette Sandbach, am £210 miliwn ychwanegol. Felly, mae arian wedi dod o Lywodraeth y DU, Llawer ohono. [Chwerthin.] Oes. Yn bendant. Yn sicr ddigon.

15:49

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Order. Please, I am trying to listen to the Member.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

15:49

Janet Finch-Saunders [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

We know also of the shambolic and appalling manner in which you do not allow a council tax freeze to be implemented, despite having the funding—£39 million last year from the UK Government—to allow council tax payers to have a freeze. Yet, you have decided that those council tax payers are not worthy of having those savings.

Rydym yn gwybod hefyd am y modd di-drefn ac ofnadwy lle nad ydych yn caniatáu gweithredu rhewi'r dreth gyngor, er bod y cyllid—39 miliwn y flwyddyn diwethaf gan Lywodraeth y DU—i ganiatáu i dalwyr y dreth gyngor i gael rhewi taliadau. Eto, rydych wedi penderfynu nad oedd y talwyr treth gyngor hynny yn deilwng o gael yr arbedion hynny.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I also note that there were errors in the 2012 regulations, which the 2013 regulations pick up on, such as changing 'appropriate' to 'inappropriate'. Therefore, these regulations do need to be amended. I am concerned that this announcement comes at a time when local authorities in Wales are compiling their schemes on the original proposals. I am given to understand that my own authority has written its reports, only to have now to rewrite them. There is mention in the default scheme that they only have until 31 January, therefore what leniency do you intend to introduce so that local authorities do not have to pick up your mistakes? Or is that what you are saying that they have to do?

Rwyf hefyd yn nodi bod gwallau yn rheoliadau 2012, y mae rheoliadau 2013 yn eu nodi, megis newid 'priodol' i 'amhriodol'. Felly, mae angen diwygio'r rheoliadau hyn. Rwy'n pryderu bod y cyhoeddiad yn dod ar adeg pan fo awdurdodau lleol yng Nghymru yn llunio eu cynlluniau ar y cynigion gwreiddiol. Rwy'n cael ar ddeall bod fy awdurdod i fy hun wedi ysgrifennu ei adroddiadau, dim ond i orfol eu hailsgrifennu yn awr. Mae sôn yn y cynllun diofyn mai dim ond tan 31 Ionawr sydd ganddynt, felly pa drugaredd ydych chi'n bwriadu ei gyflwyno fel nad yw awdurdodau lleol yn gorfol nodi eich camgymeriadau? Neu ai dyna'r ydych yn dweud sydd raid iddynt ei wneud?

The Welsh Government must commit to helping families after they have faced eye-watering rises of 140% in council tax since Labour came to power. I wholeheartedly welcome the Welsh Government's amended regulations, as they will give families some peace of mind after the shambolic process thus far. However, you ought to reflect on how you have brought forward these regulations, because this is not the way that the National Assembly for Wales or the Welsh Government should bring forward legislation in any shape or form.

Rhaid i Lywodraeth Cymru ymrwymo i helpu teuluoedd ar ôl iddynt wynebu cynnydd poenus o 140% yn y dreth gyngor ers i Lafur ddod i rym. Rwy'n croesawu rheoliadau diwygiedig Llywodraeth Cymru, gan y byddant yn rhoi rywfaint o dawelwch meddwl i deuluoedd ar ôl y broses ddi-drefn hyd yn hyn. Fodd bynnag, dylech fyfyr ar sut yr ydych wedi cyflwyno'r rheoliadau hyn, gan nad dyma'r ffordd y dylai Cynulliad Cenedlaethol Cymru neu Lywodraeth Cymru gyflwyno deddfwriaeth mewn unrhyw ffurf.

We support the regulations being laid today. Diolch yn fawr iawn.

Rydym yn cefnogi gosod y rheoliadau heddiw. Diolch yn fawr iawn.

15:51

Simon Thomas [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Yn anffodus, nid yw Rhodri Glyn Thomas yn gallu bod yma i sawru ei eiliad o fuddugoliaeth o weld y Llywodraeth yn gwneud tro pedol heddiw. Felly, bydd yn rhaid i Thomas arall wneud y tro.

Unfortunately, Rhodri Glyn Thomas cannot be here to savour his moment of victory in seeing this Government's u-turn today. Therefore, another Thomas will have to do.

Rwy'n ffeindio fy mod yn gallu cytuno gydag un peth a ddywedodd llefarydd yr wrthblaid, sef mai nid dyma'r ffordd i ddeddfu. Mae hynny'n sicr. Dyma'r trydydd gwaith rydym wedi eistedd fan hyn yn edrych ar reoliadau newydd. Ar hyd y daith, nid ydym wedi cael unrhyw bwylgor i'w ystyried, ar wahân i'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol a oedd wedi cwrdd i unwaith ar fyrdar. Dim ond unwaith felly y cawsom gyfle i bwylgor ystyried y rheoliadau a sut maent yn effeithio ar ein trigolion ar draws Cymru. Mae hynny'n siomedig iawn. Mae'n siomedig ein bod newydd gael grymoedd i ddeddfu fel hyn ac nad yw'r grymoedd hynny yn cael eu harfer yn y ffordd gywir.

I find that there is one thing on which I can agree with the opposition spokesperson, and that is that this is not the way to legislate. That is certain. This is the third time that we have sat here looking at new regulations. Throughout that journey, we have not had any committee to consider this, apart from the Constitutional and Legislative Affairs Committee, which had one urgent meeting. Only once, therefore, have we had an opportunity for a committee to consider the regulations and how they affect people across Wales. That is very disappointing. It is disappointing that we have just received powers to legislate in this way and that those powers are not being practised correctly.

Rwy'n siŵr bod y rheoliadau a basiwyd cyn y Nadolig yn ddiffygol—dywedodd adroddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol eu bod yn ddiffygol mewn mannau—a dyma gyfle i gywiro rhai o'r diffygion hynny. Yn bwysicach, dyma gyfle i'r Llywodraeth roi ar waith yffaith ei bod wedi dweud ei bod wedi canfod, lawr cefn y sofa, £22 miliwn yn sydyn iawn, ar ôl misoedd lawer o wadu ei bod yn bosibl canfod yr arian hwnnw.

I am sure that the regulations passed before Christmas were deficient—the report of the Constitutional and Legislative Affairs Committee said that they were deficient in places—and this is an opportunity to correct some of those deficiencies. More importantly, this is an opportunity for the Government to put into effect the fact that it has said that it has found, down the back of the sofa, £22 million all of a sudden, after many months of denying that it would be possible to find that money.

Codwyd hyn gan Blaid Cymru a Rhodri Glyn Thomas yn ôl ym mis Ebrill y llynedd, a dywedodd Plaid Cymru yn glir iawn am flwyddyn gyfan bron bod modd gwneud hyn am flwyddyn o leiaf. Dyma'r tro cyntaf i bron 250,000 o bobl dalu'r dreth gyngor, a byddant yn dioddef ac yn teimlo'n ansicr oherwydd hynny. Bydd awdurdodau lleol yn cael anwasterau o ran mynd ar ôl dyledion, achos bydd nifer o'r dyledion mor fach fel eu bod o dan y trothwy lle mae awdurdodau yn meddwl ei bod yn werth mynd ar eu hôl. Felly, roeddem yn trosglwyddo penderfyniad yn San Steffan yn syth ar awdurdodau lleol, ac felly dylid wedi gwneud rhywbeth ar lefel genedlaethol gan Llywodraeth Cymru i warchod awdurdodau a chymunedau am flwyddyn o leiaf.

This was raised by Plaid Cymru and Rhodri Glyn Thomas back in April last year, and Plaid Cymru stated very clearly for almost a year that this could be done for at least a year. This is the first time that almost 250,000 people will pay council tax, and they will suffer and feel unsure as a result. Local authorities will face difficulties in clawing back debts, because some will be so small that they will below the threshold at which it is worthwhile authorities pursuing them. Therefore, we were passing Westminster's decision straight on to local authorities, and therefore the Welsh Government should have done something at a national level to protect authorities and communities for at least a year.

Mae Plaid Cymru yn derbyn mai penderfyniad San Steffan yw hwn, ac nad oes gan y blaid Doriaidd unrhyw le i ddadlau yn y ddadl hon. Hi sydd wedi trosglwyddo'r diffyg hwn yn y gyllideb i Llywodraeth Cymru, ac mae arnaf ofn nad oes ganddi unrhyw ffordd o ddadlau ei bod yn amddiffyn trethdalwyr Cymru yn y cyd-destun hwn. Llywodraeth Cymru sydd wedi, ar y funud olaf, dod delerau â'r gwir doriad.

Plaid Cymru accepts that this is a Westminster decision, and the Tory party has no place to argue in this debate. It has passed this deficit on in the budget for the Welsh Government, and I am afraid that it does not have a leg to stand on in claiming that it is protecting Welsh taxpayers in this context. It is the Welsh Government that has, at the last minute, come to terms with the real cuts.

Wrth i ni basio'r rheoliadau hyn heddiw—y bydd Plaid Cymru yn eu cefnogi—mae cwpwl o gwestynau pwysig heb eu hateb. Yn gyntaf oll, mae rhai awdurdodau lleol eisoes wedi anfon llythyrau yn dweud wrth etholwyr bod yn rhaid iddynt dalu'r dreth gyngor. Pa gefnogaeth sydd gan Lywodraeth Cymru i helpu'r awdurdodau ddelio gyda hynny? Pan rydych yn deddfu'n wael, mae'n arwain at ddryswnch, a bydd dryswnch mawr ar lawr gwlad oherwydd hyn. Byddai gweithredu'n fuan wedi ein harbed ni rhag hynny.

Yr ail gwestiwn sy'n codi yw: o ble y daw'r arian hwn? Rwy'n croesawu'r ffait bod yr arian yma a gwn fod hyblygrwydd yn dod tua diwedd y flwyddyn ariannol, ond dywedodd y Gweinidog yn glir iawn ar y cyfryngau na ddaw'r arian hwn o'i bortffolio ef, ond ar draws yr holl Lywodraeth. Dywedodd ei fod yn ymateb gan y Cabinet cyfan. Faint o'r £22 miliwn, felly, sy'n dod o gyllideb y Gweinidog, a faint sy'n dod o gyllidebau Gweinidogion eraill? Hoffwn wybod pa mor hapus oedd y i roi'r arian hwnnw hefyd, ond mater arall yw hwnnw.

Y pwyt olaf yw bod Plaid Cymru wedi dadlau ar hyd y daith ei fod yn bosibl i wneud hyn am flwyddyn. Pan wnaethom ddweud hynny, dywedodd Llywodraeth Cymru sawl gwaith y byddai nyrsys, athrawon a meddygon yn colli eu swyddi pe byddai'n ffeindio £22 miliwn. Mae Llywodraeth Cymru wedi ffeindio £22 miliwn, ac nid oes neb wedi colli swydd oherwydd hynny. Mae gwrsi mawr i'w dysgu gan y Llywodraeth o ran sut i ddeddfu a sut i baratoi cylideb o'r 'mess' hwn. Mae hi wedi bod yn siambls, nid oes dwywaith. O leiaf, yn hwyr yn y dydd, mae hi wedi unioni'r sefyllfa, a bydd pobl yn cael gwell bargen flwyddyn nesaf nag yr oeddent yn mynd i'w chael yn sgil toriadau'r Llywodraeth Doriadd a 'Lib Dem' draw yn San Steffan.

As we pass these regulations today—Plaid Cymru will support them—there are a couple of important questions that remain unanswered. First of all, some authorities have already sent letters telling constituents that they have to pay council tax. What support can the Welsh Government give to help authorities deal with that? When you legislate badly, it leads to confusion, and there will be huge confusion on the ground because of this. Acting promptly would have saved us from that.

The second question that arises is: where does this money come from? I welcome the fact that it is available and I understand that there is some flexibility towards the end of the financial year, but the Minister said clearly in the media that the moneys did not come from his portfolio, but from across Government. He said that it was a response from the Cabinet as a whole. How much of the £22 million, therefore, comes from the Minister's budget, and how much from the budgets of other Ministers? I would like to know how content they were to give up those funds, but that is another issue.

The final point is that Plaid Cymru has argued throughout this process that this was possible and could be achieved for a year. When we have said that, the Welsh Government has said on many occasions that nurses, teachers and doctors would lose their jobs if it were to find that £22 million. The Welsh Government has found that £22 million and nobody has lost their job because of it. There are major lessons to be learnt by Government on how to legislate and budget properly from this mess. It has been a shambles; there is no doubt about that. At least, late in the day, it has been put right and people will get a better deal next year than they would have got as a result of cuts imposed by the Tories and the Lib Dems in Westminster.

15:55

Peter Black [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

In the words of the American baseball catcher Yogi Berra, this is like déjà vu all over again. We find ourselves for the third time within a month discussing these regulations in the hope that this time the Welsh Government has got it right. I very much welcome the fact that the Welsh Government has found this money and that it is able to do what it has been saying it was intending to do all along, which is to protect people in Wales from the consequences of the problems that the UK Government is having to face in getting the finances back in order.

I also welcome the fact that the Minister has managed to do this before the deadline of 31 January, although, arguably, we find ourselves in a slightly shambolic situation in that local councillors now have eight or nine days in which to get their regulations in place, otherwise the default scheme will kick in. I understand that the Minister does not have any leeway at all in that regard, and, if the default scheme kicks in, we lose concessions such as those made to war pensioners and a number of other concessions that local schemes should take account of. Therefore, maybe the Minister could give us an indication as to what discussions he has had with local councils about what stage they are at in terms of getting their regulations rewritten and readopted.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Yng ngeiriau'r daliwr pêl fas Americanaidd Yogi Berra, mae hyn fel déjà vu unwaith eto. Rydym yn cael ein hunain am trydydd tro o fewn mis yn trafod y rheoliadau hyn yn y gobaith y tro hwn bod Llywodraeth Cymru wedi cael pethau'n iawn. Rwy'n croesawu'n fawr y ffait bod Llywodraeth Cymru wedi darganfod yr arian hwn a'i bod yn gallu gwneud yr hyn y dywedodd ei bod yn bwriadu ei wneud o'r dechrau, sef amddiffyn pobl Cymru rhag canlyniadau'r problemau y mae Llywodraeth y DU yn gorfod eu hwynebu wrth gael y cyllid yn ôl yn i drefn.

Rwyf hefyd yn croesawu'r ffait bod y Gweinidog wedi llwyddo i wneud hyn cyn y dyddiad cau, 31 Ionawr, er, gellid dadlau, rydym yn canfod ein hunain mewn sefyllfa ychydig yn ddi-drefn lle mae gan gyngorwr lleol wyth neu naw diwrnod bellach i gael eu rheoliadau ar waith, fel arall, bydd y cynllun diofyn yn cychwyn. Rwy'n deall nad oes gan y Gweinidog unrhyw lwfans o gwbl yn hynny o beth, ac, os yw'r cynllun diofyn yn cychwyn, byddwn yn colli consesiynau megis y rhai a wnaed i bensodyn rhyfel a nifer o gonsesiynau eraill y dylai cynlluniau lleol eu hystyried. Felly, effallai y gallai'r Gweinidog roi syniad i ni o ran pa drafodaethau y mae wedi'u cael gyda chyngorwr lleol am ba gam y maent arno o ran ailsgrifennu ac aifabwysiadu eu rheoliadau.

Many councillors will have to convene meetings, with a statutory three working days' notice to do that. On Thursday, when I turned up to a Swansea council meeting, 10 minutes before we were to discuss the regulations based on the regulations passed in December, council members were not aware that this change was to take place. Although I was assured that local councillors would be briefed on Thursday morning, that did not happen. In fact, I understand that an e-mail went out to councillors at 4.58 p.m. on Thursday to tell them about the changes. So, many councils are now having to pull back from where they were at. Although we welcome the money, therefore, there is a huge question about the process by which we have arrived at this point. We seem to have bumbled along from the initial meeting, when the Minister failed to get consensus on the suspension of Standing Orders, to the next meeting, when we all came back to pass the regulations with the sunset clause, which I am pleased to see still in there, to now, a month later, when we have found the money that the Minister said it was not possible to find. We are now able to do that along the lines already taken by the Scottish Government and by many English councils, which have been given the discretion, which the Minister has denied local councils in Wales, to try to find that money from within their resources to mitigate the impact of this change.

Therefore, as I said, this is very welcome, but it is an issue that has left us with a bit of egg on all our faces in terms of how this has been dealt with. Local councils will now have to work very hard to get this sorted out, and the urgency with which we were recalled on 20 December to pass the regulations no longer appears as urgent as it appeared then, because we now have to do the whole thing again. I hope that the Minister can assure us that councils will be able to get the local schemes in place on time.

Bydd raid i lawer o gynghorwyr gynnill cyfarfodydd, gyda rhybudd o drí diwrnod gwaith statudol i wneud hynny. Ar ddydd iau, pan euthum i gyfarfod cyngor Abertawe, 10 munud cyn i ni drafod y rheoliadau sy'n seiliedig ar y rheoliadau a dderbyniwyd ym mis Rhagfyr, nid oedd aelodau'r cyngor yn ymwybodol bod y newid hwn i ddigwydd. Er i mi gael fy sicrhau y byddai cynghorwyr lleol yn cael eu brifio ar fore dydd iau, ni ddigwyddodd hynny. Yn wir, rwy'n deall bod e-bost wedi cael ei anfon i gynghorwyr am 4.58 p.m. ar ddydd iau i ddweud wrthynt am y newidiadau. Felly, mae llawer o gynghorau yn awr yn gorfod tynnu yn ôl o ble'r oeddent. Er ein bod yn croesawu'r arian, felly, mae cwestiwn mawr yngylch y broses ar gyfer cyrraedd y pwyt hwn. Mae'n ymddangos ein bod wedi stwna yn ein blaenau o'r cyfarfod cychwynnol, pan fethodd y Gweinidog â chael consensws ar atal Rheolau Sefydlog, i'r cyfarfod nesaf, pan ddaethom i gyd yn ôl i basio'r rheoliadau gyda'r cymal machlud, rwy'n falch o weld sy'n dal i fod yno, hyd at nawr, fis yn ddiweddarach, pan ydym wedi dod o hyd i'r arian y dywedodd y Gweinidog nad oedd yn bosibl dod o hyd iddo. Rydym yn awr yn gallu gwneud hynny ar hyd y llinellau a gymerwyd eisoes gan Lywodraeth yr Alban a chan gynghorau Lloegr, y rhai sydd wedi cael y disgrifiwn, y mae'r Gweinidog wedi ei wadu i gynghorau lleol yng Nghymru, i geisio dod o hyd i'r arian hwnnw o fewn eu hadnoddau i liniaru effaith y newid hwn.

Felly, fel y dywedais, mae hyn i'w groesawu'n fawr, ond mae'n fater sydd wedi ein gadael gydag ychydig o wy ar ein hwynebau i gyd o ran sut mae hyn wedi cael ei drin. Bydd cynghorau lleol yn awr yn gorfod gweithio'n galed iawn i ddatrys hyn, ac nid yw'r brys a welwyd wrth ein ni'n ôl ar 20 Rhagfyr i basio'r rheoliadau mwyach yn ymddangos yn gymaint o fater brys ag yr oedd bryd hynny, oherwydd, bellach mae'n rhaid i ni wneud yr holl beth eto. Rwy'n gobeithio y gall y Gweinidog ein sicrhau y bydd cynghorau yn gallu cael y cynlluniau lleol ar waith ar amser.

15:58

Ieuan Wyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Mae'n debyg mai 'gwel hwy'r na hwyrach' yw'r peth mwyaf hael y gallwn ei ddweud am gyhoeddriad y Llywodraeth heddiw. Er hynny, mae un cwestiwn yn aros, sef: pam ei bod hi wedi bod mor hir cyn i'r Llywodraeth ddod i'r casgliad bod angen gwneud i fyny am y bwlc rhwng yr arian sy'n dod o San Steffan a gwerth y budd-dal fel y mae ar hyn o bryd? Nid yw fel pe bai neb wedi rhybuddio'r Llywodraeth o ganlyniadau gorfodi cannoedd o filoedd o bensiwnwyr ac eraill, megis pobl gydag anableddau, i dalu'r dreth gyngor am y tro cyntaf. Cofiw mai'r rhain yw'r bobl mwyaf bregus, anghenus a thlawd yn ein cymdeithas. Fe eglurais ym mis Rhagfyr y byddai 5,400 o bobl Ynys Môn yn talu cyfran o'r dreth gyngor am y tro cyntaf, ac y byddai 1,300 yn ychwanegol yn talu mwy.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

It appears that 'better late than never' is the kindest thing that I could say about the Government's announcement today. However, one question remains: why did it take the Government so long to come to the conclusion that it had to make up the gap between the money coming from Westminster and the value of the benefit as it is at present? It is not as if no-one warned the Government of the consequences of forcing hundreds of thousands of pensioners and others, such as people with disabilities, to pay council tax for the first time. We remember that these are the most vulnerable, needy and poor people in our community. I explained in December that 5,400 people in Anglesey would be paying a portion of council tax for the first time, and an additional 1,300 people would be paying more.

Wrth gwrs, rydym yn edrych ar ddarlun ychydig ehangach hefyd. Mae'r newidiadau i fudd-daliadau yn gyffredinol, ac i fudd-dal tai hefyd, yn dod i rym ym mis Ebrill. Fel rydym wedi clywed yn barod mewn cwestiynau i'r Prif Weinidog heddiw, mae'r dreth ystafell wely yn sicr o gael effaith ddfrifol ar nifer fawr o deuluoedd a fydd yn gweld y cymorth maent yn ei gael i dalu rhent yn gostwng. Mae nifer ohonynt yn wynebu bod yn ddigartref oni bai eu bod yn symud i dŷ llai. Mae hyn yn effeithio ar 850 o bobl ar Ynys Môn ac felly nid oes unrhyw ffordd yn y byd y gallir eu hailgartrefu mewn cyfnod byr.

Mae adnoddau'r asiantaethau statudol wedi eu hymestyn hyd yr eithaf yn barod. O fis Ebrill ymlaen, bydd toriadau i gyllidebau'r cyngorau sir yn golygu y bydd llai o gymorth ar gael i bobl anghenus. Mae'r Gweinidog wedi cyhoeddi datganiad heddiw sy'n cyfeirio at yr angen i gryfhau'r berthynas rhwng y Llywodraeth a'r trydydd sector yng Nghymru. Croesawaf yr hyn y mae'n ei ddweud yn y fan honno, oherwydd bydd y pwysau ar y trydydd sector yn sgil newidiadau budd-daliadau lles y glymblaid yn Llundain yn aruthrol. Mae'r toriadau i'r gyllideb cymorth gyfreithiol, er enghraifft, yn gwneud gwaith mudiadau megis Cyngor ar Bopeth yn hynod o anodd. Y gwiw plauen yw y bydd cannoedd o deuluoedd ar Ynys Môn a degau o filoedd ledled Cymru yn gweld toriadau sylweddol yn eu hincwm yn y flwyddyn ariannol nesaf.

Mae pethau'n ddrwg yn barod. Dros y Nadolig, gwelsom gynnydd aruthrol yn nifer y teuluoedd oedd yn derbyn parseli bwyd ar Ynys Môn. Rwy'n llonyfarch y gwaith mae mudiadau gwirfoddol a'r trydydd sector yn ei wneud, megis partneriaethau Cymunedau'n Gyntaf, Cyngor ar Bopeth, yr eglwysi, ac yn y blaen, ac mae'r banc bwyd lleol yn gweithio'n agos gyda meddygon, nyrsys a gweithwyr cymdeithasol. Os yw'n ddrwg yn awr, cymaint gwaeth fydd pethau mewn ychydig wythnosau. O gymryd hynny i gyd i ystyriaeth, rwy'n methu a deall pam fod y Llywodraeth wedi cymryd cymaint o amser i ymateb. Mantra'r Llywodraeth yw 'sefyll i fyny dros bobl Cymru'; pa ffodd well i wireddu'r mantra na helpu pobl fregus gyda chymorth o ran y dreth gyngor? Pam aros tan heddiw i wneud hynny?

Of course, we are looking at a broader picture as well. The changes to benefits generally, and to housing benefits as well, will be coming into force in April. As we have already heard in questions to the First Minister today, the bedroom tax will certainly have a serious effect on many families that will see the support that they receive to pay their rent decrease. Many of them are facing homelessness if they do not move to a smaller home. This will affect 850 people in Anglesey and therefore there is no way at all that we could rehouse them in such a short period of time.

The resources of statutory agencies are stretched to the limit already. From April onwards, cuts to county councils' budgets will mean that there will be less support available for the needy. The Minister has published a statement today that refers to the need to strengthen the relationship between the Government and the third sector in Wales. I welcome what he says there, because the pressure on the third sector in the wake of the changes to welfare benefits made by the coalition in London will be huge. Cuts to the budget for legal aid, for example, will make the work of organisations such as Citizens Advice very difficult. The plain truth is that hundreds of families in Anglesey and tens of thousands across Wales will face huge cuts in their income in the next financial year.

Things are already bad. Over Christmas, we saw a huge increase in the number of families receiving food parcels in Anglesey. I congratulate the work that voluntary and third sector organisations are doing, such as Communities First partnerships, Citizens Advice, the churches, and so forth, and the local food bank is working closely with doctors, nurses and social workers. If it is bad now, it will only get worse in a few weeks. Taking all of that into consideration, I cannot understand why this Government has taken so long to respond. The Government's mantra is 'standing up for the people of Wales'; what better way to realise that mantra than to help vulnerable people with their council tax? Why wait until today to do that?

Fel y dywedodd Simon Thomas, codwyd y mater hwn yn gyntaf gan Rhodri Glyn Thomas fis Ebrill y llynedd. Fe'i gwnaethpwyd yn hollol glir bryd hynny beth fyddai effaith peidio â chyllido'r bwlc. Beth sydd wedi digwydd yn y naw mis ers hynny? Beth sydd wedi achosi'r Llywodraeth i berfformio tro pedol mor sylweddol yn awr, er mor dderbyniol yw hynny? Paham na ddywedodd fis yn ôl—cofiwch ein bod wedi trafod hyn ym mis Rhagfyr—nad oedd digon o arian yn y coffrau? Beth sydd wedi newid yn y cyfamser? Er bod y gair wedi cael ei ddfyfynnu sawl tro yn y Siambra y prynhawn yma, mae'r ffordd y mae'r Llywodraeth hon wedi delio â'r mater, yn iaith stryd gorau sir Fôn, yn 'siambals llwyd'. Mae hynny'n cynnwys y ffordd y cyflwynwyd y rheoliadau ddechrau Rhagfyr, a'r angen i ddod yn ôl yma bythefnos yn ddiweddarach. Mae gennyn ychydig bach o brofiad erbyn hyn o ran sut y mae'r Llywodraeth yn gweithio, felly ni allaf yn fy myw gredu mai'r wythnos diwethaf y daeth hi'n amlwg fod yna danwariant yng nghyllideb y Llywodraeth. A yw'r Llywodraeth yn dweud mai dim ond ddoe neu'r wythnos diwethaf y daeth i wybod bod arian ar ôl yn y gyllideb? Ni allaf yn fy myw dderbyn hynny. Yn fy marn i, roedd yn gwybod ers o leiaf fis Tachwedd y byddai digon o danwariant i gyllido budd-dal y dreth gyngor. A yw'r Llywodraeth hon, mewn gwirionedd, wedi gwneud tro pedol? Mae gwersi mawr i'w dysgu. Er mwyn pobl Cymru, gobeithiaf fod Llywodraeth Cymru wedi eu dysgu y tro hwn.

As Simon Thomas said, this matter was first raised by Rhodri Glyn Thomas in April last year. It was made perfectly clear then what the effect of not funding the gap would be. What has happened in the intervening nine months? What has caused the Government to perform such a significant u-turn, however acceptable it is, now? Why did it not say a month ago—you will remember that we discussed this in December—that there was not enough money in the coffers? What has changed in the meantime? Although this has been quoted many times in the Chamber this afternoon, the way that the Government has dealt with this matter is, in my best Anglesey street language, an utter shambles. That includes the way that the regulations were introduced at the beginning of December, and the fact that we had to reconvene in a fortnight's time. I have some knowledge by now of how the Government works, therefore I cannot believe that it was only last week that it became evident that there was an underspend in the Government's budget. Is this Government saying that it was only yesterday or last week that it became aware that there was an underspend in the budget? I cannot for the life of me accept that. I believe that it knew full well since November at least that there was enough underspend to fund the council tax benefit. Has this Government really performed a u-turn? There are huge lessons to be learnt here. For the sake of the people of Wales, I hope that the Welsh Government will have learnt these lessons now.

16:04

Carl Sargeant [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I am very grateful for your acceptance of the suspension of Standing Orders to provide an opportunity to hold this debate today. My Cabinet colleagues and I had become increasingly concerned with the issue of the council tax benefit scheme, particularly as the impact of the other UK Government welfare reforms starts to become clearer. For example, the bedroom tax and last week's announcement to cap benefit increases at 1%. These are decisions that will implement further real-term cuts to the income of some of our most vulnerable households.

I was very grateful for the comments made by many Members today. There is a great awareness of the process that has been undertaken in order to get these regulations laid. There just seems to be a few bits outstanding that are causing confusion for a few colleagues, which I will endeavour to make clear today.

The opposition party Member for Aberconwy makes reference to figures that were known by this Government earlier last year. That is incorrect. The figures that we received from the UK Government were much larger in terms of deficit than the 10% reduction proposed by the UK Government. If the Member is really serious about saying that we should have implemented those figures, then it would have meant a reduction for constituents at that point of around 15%. The Member really does need to think about what she contributes.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Rwy'n ddiolchgar eich bod yn derbyn atal y Rheolau Sefydlog er mwyn rhoi cyfle i gynnal y ddadl hon heddiw. Mae fy nghydweithwyr yn y Cabinet a finnau wedi dod yn gynyddol bryderus ynghylch mater cynllun budd-dal y dreth gyngor, yn enwedig wrth i effaith diwygiadau lles eraill Llywodraeth y DU ddechrau dod yn gliriach. Er enghraifft, y dreth ystafell wely a chyhoeddiad yr wythnos diwethaf i gapio cynnydd budd-dal ar 1%. Mae'r rhain yn benderfyniadau a fydd yn gweithredu toriadau pellach mewn termau real i incwm rhai o'n haelwyd yd sydd fwyafr agored i niwed.

Roeddwn yn ddiolchgar iawn am y sylwadau a wnaed gan nifer o Aelodau heddiw. Mae ymwybyddiaeth fawr o'r broses sydd wedi ei chynnal er mwyn gosod y rheoliadau hyn. Mae'n ymddangos mai dim ond un neu ddau o bethau sydd ar ôl sy'n achosi dryswch i rai cydweithwyr, a byddaf yn ymdrechu i wneud y rhain yn glir heddiw.

Mae Aelod yr wrthblaid dros Aberconwy yn cyfeirio at ffigurau a oedd yn hysbys i'r Llywodraeth hon yn gynharach y llynedd. Mae hynny'n anghywir. Roedd y ffigurau a gawsom gan Lywodraeth y DU yn llawer mwy o ran diffyg na'r gostyngiad o 10% a gynigiwyd gan Lywodraeth y DU. Os yw'r Aelod yn wirioneddol o ddifrif am ddweud y dylem fod wedi gweithredu'r ffigurau hynny, yna byddai wedi golygu gostyngiad i etholwyr ar y pwynt hwnnw o tua 15%. Mae angen i'r Aelod feddwl o ddifrif am yr hyn y mae'n ei gyfrannu.

I have heard Members calling this a u-turn in policy, and talking about political pressure and a shambles. Let me say very clearly that I do not care what you want to call it; this will really make a big difference to 330,000 households in Wales, and it will protect the precious income that needs to be maintained throughout Wales. This is about Carwyn Jones's Government standing up for the people of Wales. [‘Interruption’.] Let me be very clear to colleagues in responding to some of the questions that they raise. It really is not a laughing matter for the opposition parties. This is serious for the people of Wales. I have just received an e-mail from a resident of the Isle of Anglesey thanking the Welsh Government for intervening in relation to the UK Government cuts, and for making the household income of a hard-working family much more sustainable. That is what the Welsh Government, working with colleagues, is delivering.

I will pick up some of the technical issues that Members raised. The sunset clause is still within the regulations, and, as Peter Black mentioned, there is no flexibility in relation to local authorities consulting by 31 January. Schemes must be delivered and ratified by the end of 31 January. By Friday last, only two authorities had planned to take theirs to ratification; the rest were coming forward. The only thing that we have done in terms of the amendment of the scheme is to move the threshold from 90% to 100%. So, the consultation of the scheme that had taken place still stands; it is just about the numbers within the scheme.

The sunset clause that was brought into the regulations was supported by the opposition parties. I am therefore keen to take that forward. However, it presents a small problem, because where there is an amendment to the scheme, it must come back to the Assembly for ratification, as it is an amendment to the whole scheme. Therefore, I put Members on notice now that there are three or four more regulations that support these council tax regulations. I will be bringing them before the Assembly in February in order for Members to consider them.

One or two Members mentioned the issue of the £22 million, which has broadly been welcomed. However, it seems that, for some Members, this is just a drop in the ocean in terms of financing. This work with the Minister for Finance in terms of finding the allocation for additional funding to protect the most vulnerable people was no mean feat. Broadly, I welcome Members' contributions and their support in taking these regulations forward. Of course, it has not been all plain sailing. This was a scheme introduced by the UK Government, with a 10% reduction imposed on Welsh residents, but we have to work with the cards that we are dealt.

Rwyf wedi clywed Aelodau yn galw hyn yn dro pedol mewn polisi, ac yn siarad am bwysau gwleidyddol a thraed moch. Gadewch i mi ddweud yn glir iawn nad wyf yn poeni beth yr ydych am ei alw; bydd hyn yn gwneud gwahaniaeth mawr i 330,000 o gartrefi yng Nghymru, a bydd yn amddiffyn yr incwm gwerthfawr y mae angen ei gynnal ledled Cymru. Mae hyn yn ymwneud â Llywodraeth Carwyn Jones yn sefyll dros bobl Cymru. [Torri ar draws.] Gadewch i mi fod yn glir iawn i gydweithwyr wrth ymateb i rai o'r cwestiynau y maent yn eu codi. Nid yw'n fater chwerthin i'r gwrthbleidiau. Mae hyn yn ddifrifol i bobl Cymru. Rwyf newydd dderbyn e-bost oddi wrth un o drigolion Ynys Môn yn diolch i Lywodraeth Cymru am ymyrryd mewn perthynas â thoriadau Llywodraeth y DU, ac am wneud incwm aelwyd teulu sy'n gweithio'n galed yn llawer mwy cynaliadwy. Dyna beth y mae Llywodraeth Cymru, gan weithio gyda chydweithwyr, yn ei gyflawni.

Byddaf yn codi rhai o'r materion technegol a gododd yr Aelodau. Mae'r cymal machlud yn dal i fod o fewn y rheoliadau, ac, fel y soniodd Peter Black, nid oes unrhyw hyblygrwydd mewn perthynas ag awdurdodau lleol yn ymgynghori erbyn 31 Ionawr. Rhaid i gynlluniau gael eu cyflwyno a'u cadarnhau erbyn diwedd 31 Ionawr. Erbyn dydd Gwener diwethaf, dim ond dau awdurdod oedd wedi bwriadu cadarnhau eu cynlluniau nhw; roedd y gweddill yn dod ymlaen. Yr unig beth yr ydym wedi ei wneud o ran newid y cynllun yw symud y trothwy o 90% i 100%. Felly, mae ymgynghoriaid ar y cynllun a oedd wedi digwydd yn dal i sefyll; mae'n ymwneud â'r niferoedd o fewn y cynllun.

Roedd y cymal machlud a gyflwynwyd i'r rheoliadau yn cael ei gefnogi gan y gwrthbleidiau. Felly, rwy'n awyddus i fwrr ymlaen â hynty. Fodd bynnag, mae'n cyflwyno problem fach, oherwydd lle mae diwygiad i'r cynllun, mae'n rhaid iddo ddod yn ôl i'r Cynulliad i'w gadarnhau, gan ei fod yn welliant i'r cynllun cyfan. Felly, rwy'n rhybuddio Aelodau yn awr bod tri neu bedwar yn fwy o reoliadau sy'n cefnogi'r rheoliadau treth gyngor hyn. Byddaf yn dod â nhw gerbron y Cynulliad ym mis Chwefror er mwyn i'r Aelodau eu hystyried.

Mae un neu ddau o Aelodau wedi sôn am y £22 miliwn, sydd wedi cael ei groesawu'n gyffredinol. Fodd bynnag, mae'n ymddangos, i rai Aelodau, mai diferyn yn y môr yw hwn yn unig o ran ariannu. Roedd y gwaith hwn gyda'r Gweinidog Cyllid o ran dod o hyd i'r dyraniad ar gyfer cyllid ychwanegol i amddiffyn y bobl fwyaf agored i niwed yn dipyn o gamp. Yn fras, rwy'n croesawu cyfraniadau'r Aelodau a'u cefnogaeth wrth weithredu'r rheoliadau. Wrth gwrs, nid yw wedi bod yn hollol ddidrafferth. Roedd hwn yn gynllun a gyflwynwyd gan Lywodraeth y DU, gyda gostyngiad o 10% a osodwyd ar drigolion Cymru, ond mae'n rhaid i ni weithio gyda'r cardiau a ddelwyd i ni.

16:09

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The proposal is to agree the motion to approve the Council Tax Reduction Schemes (Prescribed Requirements and Default Scheme) (Wales) (Amendment) Regulations 2013. Does any Member object? I see that there are no objections. The motion is therefore agreed in accordance with Standing Order No. 12.36.

Derbyniwyd y cynnig.

Y cynnig yw cytuno ar y cynnig i gymeradwyo'r Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (Gofynion Rhagnodedig a Chynllun Diofyn) (Cymru) (Diwygio) 2013. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebiad? Gwelaf nad oes unrhyw wrthwynebiad. Mae'r cynnig, felly, wedi'i dderbyn, yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 12.36.

Motion agreed.

Senedd.tv
[Video](#) [Video](#)

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The proposal is to agree the motion to approve the Council Tax Reduction Schemes (Transitional Provisions) (Wales) Regulations 2013. Does any Member object? I see that there are no objections. The motion is therefore agreed in accordance with Standing Order No. 12.36.

Derbynwyd y cynnig.

Cynllun Cychod Pysgota (Dyfeisau Olrhain Drwy Loeren a Darlledu Data Gweithgareddau Pysgota yn Electronig) (Cymru) 2012

Cynnig NDM5143 Jane Hutt

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru; yn unol â Rheol Sefydlog 27.5

Yn cymeradwyo bod y fersiwn drafft o Gynllun Cychod Pysgota (Dyfeisau Olrhain Drwy Loeren a Darlledu Data Gweithgareddau Pysgota yn Electronig) (Cymru) 2012 yn cael ei lunio yn unol â'r fersiwn drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 21 Rhagfyr 2012.

Y cynnig yw cytuno ar y cynnig i gymeradwyo'r Cynlluniau Lleihau Dreth Gyngor (Darpariaethau Trosiannol) (Cymru) 2013. A oes unrhyw Aelod yn gwrrthwynebu? Gwelaf nad oes unrhyw wrthwynebiad. Mae'r cynnig, felly, wedi'i dderbyn, yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 12.36.

Motion agreed.

The Fishing Boats (Satellite-Tracking Devices and Electronic Transmission of Fishing Activities Data) (Wales) Scheme 2012

Motion NDM5143 Jane Hutt

To propose that the National Assembly for Wales; in accordance with Standing Order 27.5

Approves that the draft The Fishing Boats (Satellite – Tracking Devices and Electronic Transmission of Fishing Activities Data) (Wales) Scheme 2012 is made in accordance with the draft laid in the Table Office on 21 December 2012.

16:10

Alun Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Dirprwy Weinidog Amaethyddiaeth, Bwyd, Pysgodfeydd a Raglenni Ewropeaidd / The Deputy Minister for Agriculture, Food, Fisheries and European Programmes

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I move the motion.

Cynigiaf y cynnig.

Members might be aware that on 21 December, I laid a statutory instrument entitled the Fishing Boats (Satellite-Tracking Devices and Electronic Transmission of Fishing Activities Data) (Wales) Scheme 2012 before this Assembly. The purpose of the instrument is to establish a scheme in Wales to provide financial assistance to the fishing fleet to meet certain EU obligations regarding vessel monitoring and reporting requirements. It will also revoke two previous schemes that are no longer required. EU regulation No. 1224/2009 requires every fishing boat over a certain size to have an on-board satellite-tracking device, as well as an electronic recording and reporting system.

Gallai Aelodau fod yn ymwybodol ar 21 Rhagfyr, fy mod wedi gosod offeryn statudol gyda'r teitl Cynllun Cychod Pysgota (Dyfeisau Olrhain Drwy Loeren a Darlledu Data Gweithgareddau Pysgota yn Electronig) (Cymru) 2012 gerbron y Cynulliad hwn. Pwrpas yr offeryn yw sefydlu cynllun yng Nghymru i ddarparu cymorth ariannol i'r ffylid bysgota i fodloni rhwymedigaethau penodol yr UE ynghylch monitro cychod a gofynion adrodd. Bydd hefyd yn diddymu dau gynllun blaenorol nad oes eu hangen mwyach. Mae rheoliad yr UE Rhif 1224/2009 yn gofyn i bob cwch pysgota dros faint arbennig i gael dyfais olrhain drwy loeren ar fwrrdd y cwch, yn ogystal â system gofnodi ac adrodd electronig.

The maximum amount that Welsh fisheries require to deliver the scheme is approximately £98,500. The Welsh Government has secured access to 90% of the actual costs from the European Commission to deliver the scheme. The Welsh Government will contribute a maximum of 10% from the existing fisheries revenue budget. The other UK devolved administrations are in the process of introducing similar schemes. This instrument will ensure that the fishing fleet in Wales is not economically disadvantaged and will facilitate compliance with EU reporting requirements.

Yr uchafswm sydd ei angen ar bysgodfeydd Cymru i'w gwneud yn ofynnol i gyflawni'r cynllun yw oddeutu £98,500. Mae Llywodraeth Cymru wedi sicrhau mynediad i 90% o'r costau gwirioneddol gan y Comisiwn Ewropeaidd i ddarparu'r cynllun. Bydd Llywodraeth Cymru yn cyfrannu uchafswm o 10% o'r gyllideb refeniw bresennol pysgodfeydd. Mae'r gweinyddiaethau datganoledig eraill y DU yn y broses o gyflwyno cynlluniau tebyg. Bydd yr offeryn hwn yn sicrhau nad yw'r ffylid bysgota yng Nghymru o dan anfantais economaidd a bydd yn hwyluso cydymffurfio â gofynion adrodd yr UE.

This statutory instrument is made under sections 15(1) and (2) of the Fisheries Act 1981, as read with paragraph 1A of Schedule 2 to the European Communities Act 1972, and is subject to the affirmative resolution procedure.

Gwneir yr offeryn statudol hwn o dan adrannau 15 (1) a (2) o Ddeddf Pysgodfeydd 1981, fel y'i darllenir gyda pharagraff 1A o Atodlen 2 i Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972, ac mae'n ddarostyngedig i'r weithdrefn penderfyniad cadarnhaol.

Presiding Officer, I present this scheme for consideration and resolution of this National Assembly.

Daeth y Llywydd i'r Gadair am 4.11 p.m.

Lwydd, rwy'n cyflwyno'r cynllun hwn i gael ei ystyried a'i ddatrys gan y Cynulliad Cenedlaethol hwn.

The Presiding Officer took the Chair at 4.11 p.m.

16:11

Antoinette Sandbach [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I am grateful for your statement. The Welsh Conservatives fully support the provisions in this legislation, which we anticipate will affect 21 boats in Wales.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Rwy'n ddiolchgar am eich datganiad. Mae'r Ceidwadwyr Cymreig yn cefnogi'n llwyr y darpariaethau yn y ddeddfwriaeth, yr ydym yn rhagweld fydd yn effeithio ar 21 o gychod yng Nghymru.

The regulations are silent as to what will happen with other EU-registered boats that do not comply with this regulation. Could you tell us whether you are planning on bringing forward further regulations regarding Welsh waters where foreign-registered boats, which are still subject to that EU regulation, do not comply? That is my only question.

Mae'r rheoliadau yn dawel ynglŷn â beth fydd yn digwydd gyda chychod eraill wedi'u cofrestru yn yr UE nad ydynt yn cydymffurfio â'r rheoliad hwn. A allwch chi ddweud wrthym a ydych yn bwriadu cyflwyno rheoliadau pellach yngylch dyfroedd Cymru lle nad yw cychod wedi'u cofrestru dramor, sy'n dal yn ddarostyngedig i reoliad yr UE, yn cydymffurfio? Dyna fy unig gwestiwn.

16:12

David Rees [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I have one question to ask you, Deputy Minister. Paragraph 4.1 of the explanatory memorandum talks about the costs incurred by Welsh fishermen and paragraph 5 talks about the costs incurred by vessel owners. The investigation undertaken by the task and finish group on the common fisheries policy identified that owners and fishermen were not necessarily the same people. Could you clarify what the situation is, please?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Mae gennyf un cwestiwn i'w ofyn ichi, Ddirprwy Weinidog. Mae paragraff 4.1 o'r memorandwm esboniadol yn sôn am y costau a geir gan bysgotwyr yng Nghymru ac mae paragraff 5 yn sôn am y costau a geir gan berchnogion cychod. Nododd yr ymchwiliad a wnaed gan y grŵp gorchwyl a gorffen ar y polisi pysgodfeydd cyffredin nad oedd perchnogion a physgotwyr yr un bobl o anghenraeid. A allech chi egluro beth yw'r sefyllfa, os gwelwch yn dda?

Alun Davies a gododd—

Alun Davies rose—

16:12

Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Sorry; you are too eager, Deputy Minister. William Powell is next.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Mae'n ddrwg gennyf, rydych yn rhy awyddus, Ddirprwy Weinidog. William Powell sydd nesaf.

16:13

William Powell [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I would like to thank the Deputy Minister for bringing forward this important instrument today. I assure him of the strong support from the Welsh Liberal Democrat group for this measure. We learnt in the task and finish group to which David Rees referred, the importance of robust data and credible enforcement, and this will play an important part in bringing that about.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Hoffwn ddiolch i'r Dirprwy Weinidog am gyflwyno'r offeryn pwysig heddiw. Rwy'n ei sicrhau o gefnogaeth gref gan grŵp Democratiaid Rhyddfrydol Cymru i'r mesur hwn. Dysgasom yn y grŵp gorchwyl a gorffen y cyfeiriodd David Rees ato, am bwysigrwydd data cadarn a gorfodi credadwy, a bydd hyn yn chwarae rhan bwysig i wireddu hynny.

Can the Deputy Minister update the Chamber on any discussions that he has had with Mr Jim Evans and his colleagues in the Welsh Fisherman's Association regarding the implementation of this important reform?

A all y Dirprwy Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Siambwr am unrhyw drafodaethau y mae wedi'u cael gyda Mr Jim Evans a'i gydweithwyr yng Nghymdeithas Pysgota Cymru ynglŷn â gweithredu'r diwygiad pwysig hwn?

16:13

Janet Finch-Saunders [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

A couple of points of concern have also been raised with me. Have you any evidence to suggest that these transponders can be circumvented at any time? Also, is there any evidence of illicit fishing or any physical damage done to the transponders? These questions have been raised with me by someone who has some knowledge of the field—or the water—and is quite concerned.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Mae un neu ddau o bwyntiau o bryder hefyd wedi cael eu codi gyda mi. A oes gennych unrhyw dystiolaeth i awgrymu y gellir osgoi'r trawsatebwyr hyn ar unrhyw adeg? Hefyd, a oes unrhyw dystiolaeth o bysgota anghyfreithlon neu unrhyw ddifrod ffisegol a gyflawnwyd i'r trawsatebwyr? Mae'r cwestiynau hyn wedi cael eu codi gyda mi gan rywun sydd â rhywfaint o wybodaeth am y maes—neu'r dŵr—ac mae'n eithaf pryerus.

Alun Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I am grateful for the Members' support for this resolution. I can say to the Conservative spokesperson that this is not a matter of compliance; it is a matter of the establishment of a fund to enable the fishing fleet to comply with existing and future rules and regulations. So, this afternoon, we are discussing the establishment of that fund, rather than the other regulations to which you might be referring.

I am particularly grateful to my colleague and friend David Rees for his supportive comments. [Laughter.] They are gratefully accepted. I have to say, in answer to others, that if they check Part 2 of these regulations, they will see under section 5(1)(a) the definition of all those eligible to make applications:

'the master, owner or charterer of an eligible Welsh fishing boat'.

An eligible Welsh fishing boat is further defined elsewhere in the regulations as a boat whose principal port of administration is within the territory of Wales as defined by the relevant legislation. I hope that that answers those particular queries.

On other matters, I am grateful to William Powell for his remarks. We discuss these matters on an ongoing basis with the Welsh fishing organisations. I have met Jim Evans on a number of occasions, as the Member is aware, to discuss this and other matters. I will meet further fishing representatives next week. This has the support of the fleet as a whole, because it is enabling legislation that will enable us to create a fund to help it to comply with the regulations that are in place and will be in place in the future.

I understand the comments made by Janet Finch-Saunders and I suggest that she writes to me if she has any details of physical damage to this equipment or that it could be used in any way to circumvent existing regulations. Today's motion seeks to establish a fund that will enable us to help the fleet to be compliant and to continue to be compliant in the future. I am pleased that we are able to assist our fishing industry in this way, and that it will be able to meet its EU obligations with the help and support of the Welsh Government and, I know, with the support of the population of the country as well.

Rwy'n ddiolchgar am gefnogaeth yr Aelodau i'r penderfyniad hwn. Gallaf ddweud wrth lefarydd y Ceidwadwyr nad mater o gydymffuriaeth yw hwn, mae'n fater o sefydlu cronfa i alluogi'r fflyd bysgota i gydymffurfio â rheolau y presennol a'r dyfodol. Felly, y prynhawn yma, rydym yn trafod sefydlu'r gronfa honno, yn hytrach na'r rheoliadau eraill y gallech fod yn cyfeirio atynt.

Rwy'n arbennig o ddiolchgar i fy nghydweithiwr a fy nghyfaill David Rees am ei sylwadau cefnogol. [Chwerthin.] Maent yn cael eu derbyn yn ddiolchgar. Rhaid i mi ddweud, mewn ateb i eraill, os ydynt yn gwirio Rhan 2 o'r rheoliadau hyn, byddant yn gweld o dan adran 5 (1) (a) y diffiniad o bawb sy'n gymwys i wneud ceisiadau:

meistr, perchenog neu siartrwr cwch pysgota Cymreig cymwys.

Mae cwch pysgota Cymreig cymwys yn cael ei ddiffinio ymhellach mewn mannau eraill yn y rheoliadau fel cwch y mae ei brif borthladd gweinyddu o fewn tiriogaeth Cymru fel y'u diffinnir gan y ddeddfwriaeth berthnasol. Gobeithio bod hynny'n ateb rhai o'r ymholaied penodol.

Ar faterion eraill, rwy'n ddiolchgar i William Powell am ei sylwadau. Rydym yn trafod y materion hyn ar sail barhaus gyda sefydliadau pysgota Cymru. Rwyf wedi cwrdd â Jim Evans ar nifer o achlysuron, fel mae'r Aelod yn ymwybodol, i drafod hyn a materion eraill. Byddaf yn cyfarfod â mwya o gynrychiolwyr pysgota yr wythnos nesaf. Mae hyn wedi derbyn cefnogaeth y fflyd gyfan, oherwydd ei fod yn galluogi deddfwriaeth a fydd yn ein galluogi i greu cronfa i helpu i gydymffurfio â'r rheoliadau sydd ar waith a bydd ar waith yn y dyfodol.

Rwy'n deall y sylwadau a wnaed gan Janet Finch-Saunders, ac rwy'n awgrymu ei bod yn ysgrifennu ataf os oes ganddi unrhyw fanylion am ddifrod ffisegol i'r offer hwn neu y gallai gael ei ddefnyddio mewn unrhyw ffordd i osgoi rheoliadau presennol. Mae cynnig heddiw yn ceisio sefydlu cronfa fydd yn ein galluogi i helpu'r fflyd i gydymffurfio ac i barhau i fod yn cydymffurfio yn y dyfodol. Rwy'n falch ein bod yn gallu cynorthwyo ein diwydiant pysgota yn y modd hwn, ac y bydd yn gallu bodloni ei rwymedigaethau UE gyda chymorth a chefnogaeth Llywodraeth Cymru ac, miwn, gyda chefnogaeth poblogaeth y wlad hefyd.

Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The proposal is to agree the motion. Does any Member object? I see that there are no objections. Therefore, the motion is agreed in accordance with Standing Order No. 12.36.

Derbyniwyd y cynnig.

Y cwestiwn yw a ddylid derbyn y cynnig. A oes unrhyw Aelod yn gwrrhynebu? Gwelaf nad oes unrhyw wrthwynebiad. Mae'r cynnig, felly, wedi'i dderbyn, yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 12.36.

Motion agreed.

16:17

Dadi Cyfnod 3 o dan Reol Sefydlog Rhif 26.44 ar y Bil Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru)

Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

In accordance with Standing Order No. 26.36, amendments will be disposed of in the order which the sections and Schedules to which they relate arise in the Bill.

Grŵp 1: Hysbysu am Sgoriau Hylendid Bwyd a'u Cyhoeddi (Gwelliannau 12, 1, 13, 2, 14 a 3)

16:17

Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The lead amendment in this group is amendment 12 and I call on Kirsty Williams to move amendment 12 and to speak to the other amendments in the group.

16:17

Kirsty Williams [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I move amendment 12 in my name and with the name of Darren Millar in support.

I will begin by saying how much the Welsh Liberal Democrats support the principles outlined in this legislation. The prevalence of food-borne diseases has been increasing, and they can be absolutely devastating to the people who catch them. We all remember, I am sure, the death of a small boy from food poisoning acquired from a school lunch. We also remember cases in north Wales of people innocently going to their local takeaway, contracting a food-borne disease and suffering considerably because of that. We believe that this legislation will go some way towards dropping the number of those illnesses and incidences and will be a positive aspect of improving public health in Wales.

We have always believed, however, that the voluntary scheme was inadequate. While the establishments that scored well proudly displayed their stickers, with 4s and 5s on them, perhaps not unsurprisingly, those who did less well were not so keen to advertise their failings. Although the ratings were available on the Food Standards Agency's website, how many of us, perhaps while walking home from a rugby international, stopped outside the kebab shop and took out our smartphones to check the rating of that establishment? I suggest that it simply does not happen too often. It was clear to us that the Government's intention to make all businesses display their rating was the right one. I, for one, having found the FSA website and having looked up food establishments in my constituency, have changed my habits and where I eat in my constituency. Once you become aware of these things, it has an impact on where you choose to buy your food.

Stage 3 Standing Order No. 26.44 Y debate on the Food Hygiene Rating (Wales) Bill

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 26.36, caiff gwelliannau eu gwaredu yn y drefn y mae'r adrannau a'r atodlenni y maent yn cyfeirio atynt yn codi yn y Bil.

Group 1: Notification and Publication of Food Hygiene Ratings (Amendments 12, 1, 13, 2, 14 and 3)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Y prif welliant yn y grŵp hwn yw gwelliant 12 a galwaf ar Kirsty Williams i gynnyg gwelliant 12 ac i siarad am y gwelliannau eraill yn y grŵp.

Cynigiaf welliant 12 yn fy enw i a chydag enw Darren Millar yn ei gefnogi.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Dechreuaef drwy ddweud gymaint y mae Democratiaid Rhyddfrydol Cymru yn cefnogi'r egwyddorion a amlinellir yn y ddeddfwriaeth hon. Mae nifer yr achosion o glefydau a gludir mewn bwyd wedi bod yn cynyddu, a gallant fod yn gwbl ddinistriol i'r bobl sy'n eu dal. Rydym oll yn cofio, rwy'n siwr, farwolaeth bachgen bach o wenwyn bwyd a gafwyd o giniog ysgol. Rydym hefyd yn cofio achosion yng ngogledd Nghymru o bobl yn mynd yn ddiniwed i'w siop pryd parod leol, yn dal clefyd a gludir gan fwyd a dioddef yn sylweddol oherwydd hynni. Rydym yn credu y bydd y ddeddfwriaeth hon yn mynd rhywfaint o'r ffordd tuag at ostwng nifer yr afiechydon a'r digwyddiadau hynni a bydd yn agwedd gadarnhaol ar wella iechyd y cyhoedd yng Nghymru.

Rydym wedi credu erioed, fodd bynnag, bod y cynllun gwirfoddol yn annigonol. Er bod y sefydliadau a sgoriodd yn dda yn arddangos eu sticeri yn falch, gyda sgôr o 4 a 5 arnynt, efallai nad yw'n syndod, nid oedd y rhai na wnaeth crystal mor awyddus i hysbysebu eu methiannau. Er bod y sgorau ar gael ar wefan yr Asiantaeth Safonau Bwyd, faint ohonom, efallai wrth gerdded adref o gêm rygbri ryngwladol, arhosodd y tu allan i'r siop kebab ac edrych ar ein ffonau deallus i wirio statws y sefydliad hwnnw? Rwy'n awgrymu nad yw'n digwydd yn rhy aml. Roedd yn amlwg i ni mai bwrriad y Llywodraeth i wneud i'r holl fusnesau arddangos eu sgôr oedd yr un cywir. Rwyf fi, yn un, ar ôl dod o hyd i wefan yr ASB ac wedi edrych ar sefydliadau bwyd yn fy etholaeth, wedi newid fy arferion a ble'r wyf yn bwyta yn fy etholaeth. Unwaith y byddwch yn dod yn ymwybodol o'r pethau hyn, mae'n effeithio ar ble'r ydych yn dewis prynu eich bwyd.

However, we believe that the legislation needs to go one step further. First, will the public truly understand what the five ratings mean? Will they understand the thinking behind why the inspector has graded a particular establishment? Also, should members of the public be able to have an explanation as to why a particular establishment received a certain rating, and be able to look at the inspection reports lying behind that rating? These matters were discussed in committee at Stage 2, and I remain convinced that if this legislation is to be about greater openness and transparency, and about giving the public the information that it needs to make choices about where to buy food, the public needs to have access not only to the ratings, but to the information that lies behind them.

We saw that, in some local authorities in England, this is perfectly practicable. There are no reasons why this information cannot be made available. Local authorities across the border do it successfully, and there were therefore no practical reasons why the Government could not make progress in this area. Obviously, the one difference between ourselves and local authorities across the border is the issue of the language. I feel very strongly that, if we are going to require local authorities to provide these reports, they need to be available through the medium of English and through the medium of Welsh, if we are to pay more than lip service to our commitment to the language. That is the reason why the Welsh Liberal Democrats group has brought forward these amendments today: to further increase the openness and transparency of information available to the Welsh public, so that the very good intentions of the Bill can be fully exploited. It is about giving people all the information they need to make positive choices about where they buy their foodstuffs.

Fodd bynnag, credwn fod angen i'r ddeddfwriaeth fynd un cam ymhellach. Yn gyntaf, a fydd y cyhoedd wir yn deall beth y mae'r pum sgôr yn eu golygu? A fyddant yn deall y meddylfryd y tu ôl pam fod yr arolygydd wedi rhoi sgôr i sefydliad penodol? Hefyd, a ddylai aelodau o'r cyhoedd allu cael eglurhad yngylch pam y mae sefydliad arbennig wedi derbyn sgôr penodol, a gallu edrych ar yr adroddiadau arolygu y tu ôl i'r sgôr hwnnw? Trafodwyd y materion hyn yn y pwylgor yng Nghyfnod 2, ac rwy'n parhau'n argyhoeddledig, os mai nod y ddeddfwriaeth hon yw bod yn fwy agored a thryloyw, a rhoi'r wybodaeth i'r cyhoedd y mae ei hangen i wneud dewisiadau yngylch ble i brynu bwyd, mae angen i'r cyhoedd gael mynediad nid yn unig i'r sgorai, ond i'r wybodaeth y tu ôl iddynt.

Gwelsom, mewn rhai awdurdodau lleol yn Lloegr, bod hyn yn holol ymarferol. Nid oes unrhyw reswm pam na ellir sicrhau bod y wybodaeth hon ar gael. Mae awdurdodau lleol ar draws y ffin yn ei wneud yn llwyddiannus, ac nid oedd rhesymau ymarferol felly pam na allai'r Llywodraeth wneud cynydd yn y maes hwn. Yn amlwg, yr un gwahaniaeth rhyngom ni ac awdurdodau lleol ar draws y ffin yw mater yr iaith. Rwy'n teimlo'n gryf, os ydym yn mynd i'w gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol i ddarparu'r adroddiadau hyn, mae angen iddynt fod ar gael trwy gyfrwng y Saesneg a thrwy gyfrwng y Gymraeg, os ydym i wneud mwy na thalu gwasanaeth gwefusau i'n hymrwymiad i'r iaith. Dyna'r rheswm pam mae grŵp Democratiaid Rhyddfrydol Cymru wedi cyflwyno'r gwelliannau hyn heddiw: i gynyddu natur agored a thryloyw'r wybodaeth sydd ar gael i'r cyhoedd yng Nghymru, fel y gellir defnyddio bwriadau da iawn y Bil yn llawn. Mae'n ymwneud â rhoi'r holl wybodaeth i bobl sydd ei hangen arnynt i wneud dewisiadau cadarnhaol am lle maent yn prynu eu bwydydd.

16:21

Darren Millar [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I, too, would like to welcome this debate today, on behalf of the Welsh Conservatives. Hopefully, by the end of today's Plenary meeting, it will be a huge step forward for food quality and hygiene here in Wales, and we very much hope that the scheme will be implemented successfully. Having said that, we believe that there are improvements to be made to the legislation as it stands, and that is why I want to speak in support of amendments 12, 13 and 14, which have been tabled in the name of Kirsty Williams. These are very simple amendments, and they are purely in the interests of providing information—which is already available, though not necessarily easily accessible—on food establishments to consumers. Of course, the legislation as currently drafted will be making the summary reports available. However, it does not make the more detailed inspection reports available on the FSA website. It is important that that level of detail is available to help consumers understand the system that is in operation in Wales, so that they can be confident that the food establishments that they frequent are operating safely.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Hoffwn innau, hefyd, groesawu'r ddadl hon heddiw, ar ran y Ceidwadwyr Cymreig. Gobeithio, erbyn diwedd y Cyfarfod Llawn heddiw, bydd yn gam mawr ymlaen ar gyfer ansawdd a hylendid bwyd yma yng Nghymru, ac rydym yn mawr obeithio y bydd y cynllun yn cael ei weithredu'n llwyddiannus. Wedi dweud hynny, rydym yn credu bod gwelliannau i gael eu gwneud i'r ddeddfwriaeth fel y mae, a dyna pam yr wyf am siarad o blaid gwelliannau 12, 13 a 14, sydd wedi cael eu cyflwyno yn enw Kirsty Williams. Mae'r rhain yn welliannau syml iawn, ac maent er budd darparu gwybodaeth yn unig-sydd eisoes ar gael, er nad o reidrwydd yn hygrych-ar sefydliadau bwyd i ddefnyddwyr. Wrth gwrs, bydd y ddeddfwriaeth fel y'i drafftiwyd ar hyn o bryd yn sicrhau y bydd yr adroddiadau cryno ar gael. Fodd bynnag, nid yw'n gwneud yr adroddiadau arolygu mwy manwl ar gael ar wefan yr ASB. Mae'n bwysig bod y lefel honno o fanylder ar gael i helpu defnyddwyr i ddeall y system sydd ar waith yng Nghymru, fel y gallant fod yn hyderus bod y sefydliadau bwyd y maent yn eu defnyddio yn cael eu gweithredu'n ddiogel.

One interesting thing about the evidence that we received on the Health and Social Care Committee, when we were looking at this Bill, was that the publication of detailed reports was not opposed by the Federation of Small Businesses. Perhaps you would expect the FSB to oppose the publication of detailed reports, but it did not. This goes to show that the information that is available in the more detailed inspection reports can be very helpful and useful for consumers, in allowing them to see that the reason why a food establishment has been rated a 1 or a 2, as opposed to a 3, 4 or 5, can sometimes be a matter of paperwork not being in order, rather than something not necessarily being safe. We are also in total agreement with the amendments relating to ensuring that this information is available through the medium of Welsh. That is why we will be supporting all of the amendments tabled by the Liberal Democrats.

In terms of the Welsh Government's amendments 1, 2 and 3, we will support the Welsh Government's first amendment, which clarifies that food authorities must provide any further information prescribed at the same time as informing the FSA of the rating of an establishment. I see no problem with that clarification, and that is why we support that amendment. However, we will be opposing amendment 2, which creates regulation-making powers to require the FSA to publish further information on its website, such as those inspection reports. We welcome the Government's stated intention behind this amendment, but we do not feel that it is strong enough. We feel that it is important that these things are specified on the face of the Bill, to give some confidence that the full inspection reports will be required in the future. However, we will be supporting amendment 3, which clarifies that the FSA must publish the rating on its website within seven days of being informed. I think that that is perfectly acceptable.

16:25

Elin Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Mae Plaid Cymru yn cefnogi'r egwyddor sydd y tu ôl i'r Bil hwn a thu ôl i'r hyn y mae'r ddeddfwriaeth yn ceisio'i gyflawni, sef gwella safonau hylendid bwyd mewn llefydd bwyta yng Nghymru. Mae'n ceisio gwneud hynny nid yn unig ar gyfer ein pobl ni ein hunain, ond ar gyfer ymwelwyr â Chymru, yn y gobaith y bydd ein safonau hylendid bwyd, yn y pen draw, gyda'r gorau yn Ewrop.

O ran y grŵp hwn o welliannau, byddwn yn cefnogi'r gwelliannau yn enw Kirsty Williams. Mae gwybodaeth i gwsmeriaid yn deillio o ddwy ffynhonnell: y sgôr ar y sticer, a'r adroddiad sy'n cael ei baratol gan swyddog wrth benderfynu ar y sgôr hwnnw. Mae'n annerbyniol fod yn rhaid inni, ar hyn o bryd, wneud cais rhyddid gwybodaeth i weld adroddiad hylendid bwyd. Felly, mae'r hyn sydd yng ngwelliannau Kirsty Williams yn gam sylweddol ymlaen wrth geisio sicrhau bod gwybodaeth lawn ar gael i unrhyw gwsmer posibl am y sgôr hylendid bwyd a pham y penderfynodd unrhyw swyddog rho'r sgôr hwnnw.

Un peth diddorol am y dystiolaeth a gawsom ar y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, pan oeddem yn edrych ar y Bil hwn, oedd nad oedd cyhoeddi adroddiadau manwl yn cael ei wrthwynebu gan y Ffederasiwn Busnesau Bach. Efallai y byddech yn disgwy i'r Ffederasiwn Busnesau Bach i wrthwynebu cyhoeddi adroddiadau manwl, ond ni wnaeth. Mae hyn yn dangos y gall y wybodaeth sydd ar gael yn yr adroddiadau arolygu mwy manwl fod yn fuddiol ac yn ddefnyddiol iawn i ddefnyddwyr, trwy ganiatâu iddynt weld y rheswm pam y mae sefydliad bwyd wedi cael sgôr o 1 neu 2, yn hytrach na 3, 4 neu 5, gall weithiau fod yn fater o waith papur ddim mewn trefn, yn hytrach na rhywbeth nad yw'n ddiogel o reidrwydd. Rydym hefyd yn cytuno'n llwyr â'r gwelliannau sy'n ymwneud â sicrhau bod y wybodaeth hon ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg. Dyna pam y byddwn yn cefnogi pob un o'r gwelliannau a gyflwynwyd gan y Democratiaid Rhyddfrydol.

O ran gwelliannau 1, 2 a 3, Llywodraeth Cymru byddwn yn cefnogi gwelliant cyntaf Llywodraeth Cymru, sy'n egluro bod yn rhaid i awdurdodau bwyd roi unrhyw wybodaeth bellach a bennir ar yr un pryd â rhoi gwybod i'r ASB am sgôr sefydliad. Ni welaf unrhyw broblem gyda'r eglurhad hwnnw, a dyna pam yr ydym yn cefnogi'r gwelliant hwnnw. Fodd bynnag, byddwn yn gwrthwynebu gwelliant 2, sy'n creu pwerau gwneud rheoliadau i fynnu bod yr ASB yn cyhoeddi rhagor o wybodaeth ar ei gwefan, megis yr adroddiadau arolygu. Rydym yn croesawu bwriad penodol y Llywodraeth y tu ôl i'r gwelliant hwn, ond nid ydym yn teimlo ei fod yn ddigon cryf. Rydym yn teimlo ei bod yn bwysig bod y pethau hyn yn cael eu nodi ar wyneb y Bil, er mwyn rhoi rhywfaint o hyder y bydd yr adroddiadau arolygu llawn yn ofynnol yn y dyfodol. Fodd bynnag, byddwn yn cefnogi gwelliant 3, sy'n egluro bod yn rhaid i'r ASB gyhoeddi'r sgôr ar ei gwefan o fewn saith niwrnod o gael ei hysbysu. Credaf fod hynny'n gwbl dderbynol.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Plaid Cymru also supports the principle underpinning this Bill and what this legislation seeks to achieve, which is to improve food hygiene standards in food establishments across Wales. It seeks to do this not only for the people of Wales but for visitors to Wales, in the hope that, eventually, our food hygiene standards will be among the best in Europe.

In terms of this group of amendments, we will support the amendments tabled in the name of Kirsty Williams. Information for customers emanates from two sources: the score displayed on the sticker, and the report prepared by an official in determining the score. It is unacceptable that, at present, one must make a freedom of information request to see a food hygiene report. Therefore, what is contained within Kirsty Williams's amendments represents a major step forward in ensuring that full information is available to any potential customer on the food hygiene score and how an official came to the decision on that score.

Yr haf diwethaf, gwnaeth myfyriwr yn fy swyddfa i rywfaint o ymchwil ar 80 o fusnesau bwyd yn Aberystwyth, a gwelwyd bod gan 25% ohonynt sgôr o 1 neu 2. Nid oedd yr un o'r busnesau hynny yn arddangos y sticer. Rydw i'n mynd i rai o'r llefydd bwyd hynny â sgôr o 1 neu 2, a hoffwn allu penderfynu a fyddaf yn para i fynd iddynt. Felly, hoffwn allu darllen yr adroddiad gan y swyddog hylendid bwyd er mwyn gwneud y penderfyniad hwnnw. Mae hyn felly yn gyfraniad pwysig o ran sicrhau bod yr adroddiad ar gael i'r cyhoedd ac i unrhyw un sydd am weld pam y rhoddyd sgôr penodol.

Rwy'n credu i'r Gweinidog ddweud yn y pwylgor taw un o'r rhesymau dros wrthod y math hwn o welliant oedd y ffaith y byddai'n rhaid i'r Asiantaeth Safonau Bwyd baratoi a chyhoeddi'r wybodaeth yn Gymraeg ac yn Saesneg, ac y byddai costau a phroblemau ymarferoldeb ynglwm wrth hynny. Mae dadl o'r fath yn yr oes sydd ohoni yn annerbyniol. Gellid edrych ar baratoi templed cryno, dwyieithog i awdurdodau lleol weithio ynddo, ac un y gallai'r Asiantaeth Safonau Bwyd ei gyhoeddi er mwyn sicrhau tryloywder gwybodaeth i gwsmeriaid yn Gymraeg ac yn Saesneg. Felly, byddwn heddiw yn cefnogi'r gwelliannau yn enw Kirsty Williams. Ni fyddwn yn cefnogi'r gwelliannau yn enw'r Gweinidog, os taw felly yr aiff bleidlais yn y pen draw.

Last summer, a student in my office did some research on 80 food businesses in Aberystwyth, 25% of which attained a 1 or 2 score rating. None of those establishments actually displayed their sticker. I actually frequent some of those food establishments that scored a 1 or 2 rating, and I would like to be able to make a decision as to whether I will continue to do so. Therefore, I would like to be able to read the report carried out by the food hygiene officer in order to make that decision. It is an important contribution in ensuring that that report should be available to the public and to anyone who is interested in seeing why a particular score was awarded.

I think that the Minister said at committee stage that one of the reasons for rejecting this sort of amendment was the fact that the Food Standards Agency would have to prepare and publish this information in Welsh as well as in English, and that there would be costs and issues of practicality attached to that. Such an argument in this day and age is unacceptable. It is feasible to look at producing a compact, bilingual template that local authorities could use, and which the Food Standards Agency could publish in order to ensure transparency of information for customers in both Welsh and English. Therefore, today we will be supporting the amendments tabled in the name of Kirsty Williams. We will not be supporting the amendments tabled in the Minister's name, if that is how the vote eventually goes.

16:28

Lesley Griffiths [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Gweinidog lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol / The Minister for Health and Social Services

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I listened carefully to the reasons that the three health opposition spokespeople have put forward in relation to the amendments in this group. As has been set out, amendments 12, 13 and 14 amend section 6 of the Bill and require food authorities to send to the Food Standards Agency, and for the FSA to publish, copies of inspection reports. As I will explain when I come to my points on the Government amendments in this group, I am extremely supportive of the principle of the FSA publishing food hygiene inspection reports. There is a very clear benefit for consumers in this information being made available.

Gwrandewais yn ofalus ar y rhesymau y mae tri llefarydd lechyd y gwrthbleidiau wedi'u cynnig mewn perthynas â'r gwelliannau yn y grŵp. Fel y maent wedi'u gosod allan, mae gwelliant 12, 13 a 14 yn diwygio adran 6 y Bil ac yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau bwyd anfon copiâu o adroddiadau arolygu at yr Asiantaeth Safonau Bwyd, ac i'r ASB eu cyhoeddi. Fel y byddaf yn egluro pan fyddaf yn dod at fy mhwyntiau ar welliannau'r Llywodraeth yn y grŵp hwn, rwy'n hynod o gefnogol i'r egwyddor bod yr ASB yn cyhoeddi adroddiadau hylendid bwyd. Mae mantais glir iawn i ddefnyddwyr mewn sicrhau bod y wybodaeth hon ar gael.

Amendment 13 would require the FSA to publish food hygiene inspection reports carried out by food authorities in accordance with section 2 of the Bill. However, although section 2 requires food authorities to inspect food business establishments in its area, it does not require the production of inspection reports. I am also concerned that the proposed duty to publish inspection reports bilingually also creates potential conflict with the Welsh Language Act 1993 and the Welsh Language (Wales) Measure 2011. Under this legislation, failures to comply with language schemes can be investigated by the Welsh Language Commissioner and enforcement action taken if necessary.

Byddai gwelliant 13 yn ei gwneud yn ofynnol i'r ASB gyhoeddi adroddiadau arolygu hylendid bwyd a gynhaliwyd gan awdurdodau bwyd yn unol ag adran 2 o'r Bil. Fodd bynnag, er bod adran 2 yn gofyn i awdurdodau bwyd arolygu sefydliadau busnes bwyd yn eu hardal, nid yw'n ei gwneud yn ofynnol i gynhyrchu adroddiadau arolygu. Rwyf hefyd yn bryderus bod y ddyletswydd arfaethedig i gyhoeddi adroddiadau arolygu yn ddwyieithog hefyd yn creu gwrthdaro posibl â Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 a Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011. O dan y ddeddfwriaeth hon, gall methiant i gydymffurfio â chynlluniau iaith gael eu hymchwilio gan Gomisiynydd yr Iaith Gymraeg a gellir cymryd camau gorfodi os oes angen.

The amendment put forward by Kirsty Williams does not provide the flexibility for the Welsh Language Commissioner or a tribunal to consider any failures to comply; rather, it imposes an inflexible, absolute duty.

Nid yw'r gwelliant a gyflwynwyd gan Kirsty Williams yn darparu'r hyblygrwydd i Gomisiynydd yr Iaith Gymraeg neu dribiwnlys ystyried unrhyw fethiant i gydymffurfio; yn hytrach, mae'n pennu dyletswydd anhyblyg, absolwiwt.

I will now move to Government amendments 1, 2 and 3 and my decision to provide Welsh Ministers with powers that are flexible enough to enable them to require not only the publication of food hygiene inspection reports, but also the publication of other information. The purpose of amendment 1 is to specify when prescribed information should be submitted by a food authority to the Food Standards Agency. The amendment requires the food authority to send the prescribed information to the FSA when informing the agency of the food hygiene rating of a food business establishment.

Amendment 2 provides Welsh Ministers with powers to make regulations to require the FSA to publish additional information on its website. These regulations will enable the routine publication of food hygiene inspection reports.

I previously indicated my intention to create an explicit requirement for food authorities to provide full food hygiene inspection reports to consumers on request. During the Stage 2 Health and Social Care Committee meeting on 7 November, I advised that I would need to give this amendment further consideration because of issues raised by lawyers in relation to potential wider policy implications for the Freedom of Information Act 2000. I said that if these concerns could be overcome, I would seek to amend the Bill at Stage 3 to create such a requirement.

I have discussed these concerns with lawyers and have considered the Stage 1 report of the committee and, in particular, the committee's support for the principle that all inspection reports be published, either on the website of the relevant local authority or on the FSA website. The committee welcomed my suggestion that inspection reports could be made available on request, but felt that this may create a further barrier to the public accessing this information. The committee stated that it would like reports to be published routinely, to enable and to encourage more people to access them.

Having regard to the remarks about accessibility made by the committee, and comments made by Assembly Members, I have decided to amend the Bill to allow for the routine publication of food hygiene inspection reports. The Bill already provides Welsh Ministers with the power to prescribe the information that a food authority must send to the FSA. I intend this power to be used to require the provision of food hygiene inspection reports to the agency. Amendment 2 will therefore provide Welsh Ministers with the scope to require that the information provided be published on the agency's website.

Byddaf yn awr yn symud i welliannau 1, 2 a 3 y Llywodraeth a fy mhenderfyniad i roi i Weinidogion Cymru bwerau sy'n ddigon hyblyg i'w galluogi i'w gwneud yn ofynnol nid yn unig i gyhoeddi adroddiadau arolygu hylendid bwyd, ond hefyd cyhoeddi gwybodaeth arall. Pwrpas gwelliant 1 yw nodi pryd y dylai gwybodaeth ragnodedig gael ei chyflwyno gan awdurdod bwyd i'r Asiantaeth Safonau Bwyd. Mae'r diwygiad yn ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod bwyd anfon y wybodaeth ragnodedig i'r ASB wrth hysbysu'r asiantaeth o sgôr hylendid bwyd sefydliad busnes bwyd.

Mae gwelliant 2 yn rhoi i Weinidogion Cymru bwerau i wneud rheoliadau i'w gwneud yn ofynnol i'r ASB gyhoeddi gwybodaeth ychwanegol ar ei gwefan. Bydd y rheoliadau hyn yn galluogi cyhoeddi adroddiadau arolygu hylendid bwyd fel mater o drefn.

Nodais o'r blaen fy mwriad i greu gofyniad penodol i awdurdodau bwyd ddarparu adroddiadau arolygu hylendid bwyd llawn i ddefnyddwyr ar gais. Yn ystod Cam 2 cyfarfod y Pwyllgor lechyd a Gofal Cymdeithasol ar 7 Tachwedd, rhoddais wybod y byddai angen i mi roi ystyriaeth bellach i'r gwelliant hwn oherwydd materion a godwyd gan gyfreithwyr mewn perthynas â goblygiadau polisi ehangach posibl ar gyfer y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Dywedais, pe gellid goresgyn y pryderon hyn, y byddwn yn ceisio newid y Bil yng Nghyfnod 3 i greu gofyniad o'r fath.

Rwyf wedi trafod y pryderon gyda chyfreithwyr ac wedi ystyried adroddiad Cam 1 y pwyllgor ac, yn arbennig, gefnogaeth y pwyllgor i'r egwyddor bod yr holl adroddiadau arolygu yn cael eu cyhoeddi, naill ai ar wefan yr awdurdod lleol perthnasol neu ar wefan yr ASB. Mae'r pwyllgor wedi croesawu fy awgrym y gellir sicrhau bod adroddiadau arolygu ar gael ar gais, ond mae'n yn teimlo y gallai hyn greu rhwystri pellach i'r cyhoedd gael y wybodaeth hon. Mynegodd y pwyllgor y byddai'n Hoffi i adroddiadau gael eu cyhoeddi fel mater o drefn, i alluogi ac i annog mwy o bobl i gael mynediad atynt.

O ystyried y sylwadau am hygyrchedd a wnaed gan y pwyllgor, a sylwadau a wnaed gan Aelodau'r Cynulliad, rwyf wedi penderfynu newid y Bil i ganiatâu ar gyfer cyhoeddi adroddiadau arolygu hylendid bwyd fel mater o drefn. Mae'r Bil eisoes yn darparu i Weinidogion Cymru y pwêr i ragnodi'r wybodaeth y mae'n rhaid i awdurdod bwyd anfon at yr ASB. Rwy'n bwriadu i'r pwêr hwn gael ei ddefnyddio i ofyn am ddarparu adroddiadau arolygu hylendid bwyd i'r asiantaeth. Bydd gwelliant 2 felly'n rhoi i Weinidogion Cymru y cyfle i fynnu bod y wybodaeth a ddarperir yn cael ei chyhoeddi ar wefan yr asiantaeth.

It is my intention to consult with stakeholders on the routine publication of food hygiene information, including inspection reports. This consultation will begin in March 2013. The consultation will clearly state this Government's intention to require the publication of full food hygiene inspection reports. It is important that this consultation seeks stakeholders' views on how this can be effectively achieved and implemented in a timely manner. I consider consultation essential in order to ensure that the right information is published, and so that cost and other resource implications are minimised. I also need to consult on what safeguards need to be put in place to ensure that ongoing food hygiene enforcement action is not compromised and there is no breach of data protection principles.

In the light of these points, I feel it is entirely appropriate for this matter to be dealt with in regulations, rather than on the face of the Bill, as the information that is to be published may be changed from time to time. Amendment 3 specifies when the prescribed information must be published by the FSA.

For the reasons that I have already outlined, Members will see that there are difficulties with amendments 12, 13 and 14. However, the Government amendments tabled in my name go further than those, and for the reasons given, I ask you to support amendments 1, 2 and 3.

16:34

Kirsty Williams [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I thank colleagues for their comments; I am grateful that there seems to be consensus around the Chamber that members of the public should have access to the reasoning behind the scores given, and that they should have access to the report.

There is always a debate to be had about what is appropriate for the face of a Bill and what is appropriate for regulations. I think that there are still ongoing issues to be ironed out, addressed and discussed at length, and I am not quite sure that we are there yet. I listened very carefully to what the Minister has said with regard to regulations and her intention to look to consult on regulations in March of this year, and I welcome that very much indeed.

On the basis of the commitments given by the Minister this afternoon, I would be happy not to press the amendments forward or to withdraw them, as you see fit, Presiding Officer. However, I will put the Government on notice: I do not want to have to be here in 12 or 18 months' time asking the Government why it has taken that length of time to bring such regulations forward. I will also put the Government on notice that should my group feel that the regulations that come forward are inadequate, we will pray against them and ensure that they are brought here for a vote on the floor of the Chamber. I am taking the Minister at her word this afternoon that she will make good the principles contained within these amendments and, on that basis, I would be happy to not press them to a vote.

Mae'n fwriad gennyl i ymgynghori â rhanddeiliaid ar gyhoeddi gwybodaeth hylendid bwyd fel mater o drefn, gan gynnwys adroddiadau arolygu. Bydd yr ymgynghoriad hwn yn dechrau ym mis Mawrth 2013. Bydd yr ymgynghoriad yn datgan yn glir fwriad y Llywodraeth hon i'w gwneud yn ofynnol i gyhoeddi adroddiadau arolygu hylendid bwyd llawn. Mae'n bwysig bod yr ymgynghoriad hwn yn ceisio barn rhanddeiliaid ar sut y gellir cyflawni hyn yn effeithiol a'i weithredu mewn modd amserol. Rwy'n ystyried ymgynghori yn hanfodol er mwyn sicrhau bod y wybodaeth gywir yn cael ei chyhoeddi, a bod cost a goblygiadau eraill o ran adnoddau yn cael eu lleihau. Mae angen i mi ymgynghori hefyd ar y mesurau diogelu y mae angen eu rhoi ar waith i sicrhau nad yw gweithredu gorfodi hylendid bwyd parhaus yn cael ei beryglu ac nad oes unrhyw dorri egwyddorion diogelu data.

Yng ngoleuni'r pwyntiau hyn, rwy'n teimlo ei bod yn gwbl briodol i'r mater hwn gael ei drin yn y rheoliadau, yn hytrach nag ar wyneb y Bil, oherwydd gall y wybodaeth sydd i'w chyhoeddi gael ei newid o bryd i'w gilydd. Mae gwelliant 3 yn nodi pryd y mae'n rhaid i'r wybodaeth ragnodedig gael ei chyhoeddi gan yr ASB.

Am y rhesymau a amlinellais eisoes, bydd yr Aelodau'n gweld bod anawsterau o ran gwelliant 12, 13 a 14. Fodd bynnag, mae gwelliannau'r Llywodraeth a gyflwynwyd yn fy enw i yn mynd ymhellach na hynny, ac am y rhesymau a roddwyd, rwy'n gofyn i chi i gefnogi gwelliannau 1, 2 a 3.

Senedd.tv
[Video](#) [Video](#)

Diolch i gydweithwyr am eu sylwadau; rwy'n ddiolchgar ei bod yn ymddangos fod consensws yn y Siambwr y dylai aelodau o'r cyhoedd gael mynediad at y rhesymeg y tu ôl i'r sgoriau a roddir, ac y dylent gael mynediad at yr adroddiad.

Mae bob amser dadl i'w chael am yr hyn sy'n briodol ar gyfer wyneb y Bil a'r hyn sy'n briodol ar gyfer rheoliadau. Credaf fod problemau parhaus o hyd i gael eu datrys, i roi sylw iddynt ac i'w trafod yn hir, ac nid wyf yn hollosi siŵr ein bod ni yno eto. Gwrandewais yn ofalus ar yr hyn a ddywedodd y Gweinidog mewn perthynas â rheoliadau a'i bwriad i edrych i ymgynghori ynghylch rheoliadau ym mis Mawrth eleni, ac rwy'n croesawu hynny'n fawr iawn yn wir.

Ar sail yr ymrwymiadau a roddwyd gan y Gweinidog y prynhawn yma, byddwn yn hapus i beidio â gwthio'r newidiadau ymlaen neu i'w tynnu'n ôl, fel y gwelwch yn dda Lywydd. Fodd bynnag, byddaf yn hysbysu'r Llywodraeth: nid wyf am fod yma ymhen 12 neu 18 mis yn gofyn i'r Llywodraeth pam ei bod wedi cymryd yr holl amser i gyflwyno rheoliadau o'r fath. Byddaf hefyd yn hysbysu'r Llywodraeth pe digwydd i fy ngrŵp deimlo bod y rheoliadau a gynigir yn annigonol, byddwn yn ymbil yn eu herbyn ac yn sicrhau eu bod yn cael eu dwyn yma am bleidlais ar lawr y Siambwr. Rwy'n derbyn gair y Gweinidog y prynhawn yma y bydd yn cyflawni'r egwyddorion a geir yn y gwelliannau hyn ac, ar y sail honno, byddwn yn hapus i beidio â phwysyo arnynt i bleidlais.

16:36	Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography	The question is that amendment 12 be agreed to. Does any Member object?	Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 12. A oes unrhyw Aelod yn gwirthwynebu?	Senedd.tv Fideo Video
16:36	Kirsty Williams Bywgraffiad Biography	I withdraw amendment 12.	Rwy'n tynnu gwelliant 12 yn ôl.	Senedd.tv Fideo Video
16:36	Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography	Does anyone object to the withdrawal of the amendment? I see that there are no objections. Therefore, amendment 12 is withdrawn.	A oes unrhyw un yn gwirthwynebu tynnu'r gwelliant yn ôl? Gwelaf nad oes unrhyw wrthwynebiad. Felly, caiff gwelliant 12 ei dynnu'n ôl.	Senedd.tv Fideo Video
		<i>Tynnwyd gwelliant 12 yn ôl drwy ganiatâd y Cynulliad.</i>	<i>Amendment 12 withdrawn by leave of the Assembly.</i>	
16:36	Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography	I invite the Minister for Health and Social Services to move amendment 1.	Rwy'n gwahodd y Gweinidog lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i gynnig gwelliant 1.	Senedd.tv Fideo Video
16:36	Lesley Griffiths Bywgraffiad Biography	I move amendment 1 in my name.	Cynigiaf welliant 1 yn fy enw.	Senedd.tv Fideo Video
16:36	Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography	The question is that amendment 1 be agreed to. Does any Member object? I see that there are no objections. Therefore, amendment 1 is agreed in accordance with Standing Order No. 12.36.	Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 1. A oes unrhyw Aelod yn gwirthwynebu? Gwelaf nad oes unrhyw wrthwynebiad. Felly, caiff gwelliant 1 ei dderbyn yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 12.36.	Senedd.tv Fideo Video
		<i>Derbyniwyd gwelliant 1.</i>	<i>Amendment 1 agreed.</i>	
16:37	Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography	Amendment 13 is not being moved.	Nid yw gwelliant 13 yn cael ei gynnig.	Senedd.tv Fideo Video
		<i>Ni chynigiwyd gwelliant 13.</i>	<i>Amendment 13 not moved.</i>	
16:37	Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography	I invite the Minister for Health and Social Services to move amendment 2.	Rwy'n gwahodd y Gweinidog lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i gynnig gwelliant 2.	Senedd.tv Fideo Video
16:37	Lesley Griffiths Bywgraffiad Biography	I move amendment 2 in my name.	Cynigiaf welliant 2 yn fy enw.	Senedd.tv Fideo Video
16:37	Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography	The question is that amendment 2 be agreed to. Does any Member object? I see that there are no objections. Therefore, amendment 2 is agreed in accordance with Standing Order No. 12.36.	Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 2. A oes unrhyw Aelod yn gwirthwynebu? Gwelaf nad oes unrhyw wrthwynebiad. Felly, caiff gwelliant 2 ei dderbyn yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 12.36.	Senedd.tv Fideo Video
		<i>Derbyniwyd gwelliant 2.</i>	<i>Amendment 2 agreed.</i>	
16:37	Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography	Amendment 14, tabled in the name of Kirsty Williams, falls.	Mae gwelliant 14, a gyflwynwyd yn enw Kirsty Williams, yn methu.	Senedd.tv Fideo Video

16:37	Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography	Rwy'n gwahodd y Gweinidog lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i gynnig gwelliant 3.	Senedd.tv Fideo Video
16:37	Lesley Griffiths Bywgraffiad Biography	I move amendment 3 in my name.	Cynigiaf welliant 3 yn fy enw.
16:37	Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography	The question is that amendment 3 be agreed to. Does any Member object? I see that there are no objections. Therefore, amendment 3 is agreed in accordance with Standing Order No. 12.36.	Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 3. A oes unrhyw Aelod yn wrthwynebu? Gwelaf nad oes unrhyw wrthwynebiad. Felly, caiff gwelliant 3 ei dderbyn yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 12.36.
	<i>Derbyniwyd gwelliant 3.</i>		<i>Amendment 3 agreed.</i>
	Grŵp 2: Cyhoeddi Sgoriau Hylendid Bwyd ar Ddeunydd Hyrwyddo (Gwelliannau 9, 21, 22, 10, 23, 11, 25, 5 ac 8)		Group 2: Publication of Food Hygiene Ratings on Promotional Material (Amendments 9, 21, 22, 10, 23, 11, 25, 5 and 8)
16:38	Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography	The lead amendment in this group is amendment 9. I call on Elin Jones to move amendment 9 and to speak to the other amendments in the group.	Y prif welliant yn y grŵp hwn yw gwelliant 9. Rwy'n galw ar Elin Jones i gynnig gwelliant 9 ac i siarad am y gwelliannau eraill yn y grŵp.
16:38	Elin Jones Bywgraffiad Biography	Cynigiaf welliant 9 yn fy enw i a chydag enw Darren Millar yn ei gefnogi.	I move amendment 9 in my name and with the name of Darren Millar in support.
	Mae'r gyfres hon o welliannau yn ymwneud â gosod gofyniad ar wyneb y Bil bod pob busnes bwyd sydd â safle we yn gosod cyfeiriad ar y safle hwnnw at y sgôr hylendid sy'n cael ei ddangos ar safle we'r Asiantaeth Safonau Bwyd. Mae patrwm wedi datblygu dros yr 20 i 30 mlynedd ddiwethaf o archebu bwyd mewn dwy ffordd benodol yng Nghymru: yn gyntaf, yn y lle bwyta ei hun ac, yn ail, yn gynyddol, dros y ffôn wrth archebu 'takeaway'. Bydd y sgôr hylendid bwyd ar gael wrth archebu yn y ddwy ffordd hynny. Mae hynny'n ofynnol ar wyneb y Bil fel y'i cyflwynwyd gan y Gweinidog yn wreiddiol, gan ei fod yn ofynnol bod sticer yn cael ei ddangos yn y lle bwyd ac mae cymal yn y ddeddfwriaeth sy'n ei gwneud yn orfodol i'r sgôr gael ei roi yn gywir ar gais dros y ffôn pan mae rhywun yn archebu 'takeaway', neu fwrrd o ran hynny. Yn gynyddol, wrth gwrs, mae pobl yn archebu bwyd ac yn gwneud penderfyniadau am le i fwyta drwy edrych ar y we. Nid oedd y Bil gwreiddiol yn dweud unrhyw beth am roi gwybodaeth ar y we i gwsmeriaid posibl.	This set of amendments concern placing a requirement on the face of the Bill that every food business that has a website must include a reference on that site to the hygiene rating that is published on the Food Standards Agency's website. A pattern has developed over the last 20 to 30 years of ordering food in two specific ways in Wales: first, at the establishment itself and, secondly, increasingly, over the phone when ordering a takeaway. The food hygiene rating will be available when ordering in both those ways. That is a requirement on the face of the Bill as it was introduced by the Minister originally, as it is a requirement to display a sticker at the establishment and there is a section in the legislation that requires the score to be communicated accurately over the phone, upon request, when someone is ordering a takeaway, or a table for that matter. Increasingly, of course, people are ordering food and making decisions about where to eat online. The original Bill made no reference to displaying information to potential customers online.	

Yn sgil y drafodaeth yn ystod Cyfnod 1 a Chyfnod 2, addawodd y Gweinidog i ddod â gwelliant i gyflwyno hyn ar wyneb y Bil, ond yn hytrach na hynny, mae'r Gweinidog bellach wedi cyflwyno gwelliant sydd o'n blaenau heddiw i ganiatáu pwerau gwneud rheoliadau am wybodaeth ar safleoedd gwe a deunydd cyhoeddusrwydd. Yn fy marn i, mae gosod gofyniad penodol ar wyneb y Bil i fusnes bwyd gyfeirio cwsmer at sgôr hylendid bwyd ar safle we'r Asiantaeth Safonau Bwyd yn rhagorach gwelliant na gwelliant y Llywodraeth heddiw. Byddai hynny'n ei gwneud yn glir i gwsmeriaid, sut bynnag y byddant yn archebu bwyd, bod modd iddynt wybod y sgôr hylendid bwyd yn gorfforol yn y sefydliad busnes bwyd, wrth archebu bwyd dros y ffôn neu wrth archebu ar y we. Dyna'r hyn sy'n sail i'r gwelliannau yn fy enw heddiw. Byddwn yn gofyn ichi am eich cefnogaeth iddynt.

In the wake of the discussions during Stage 1 and Stage 2, the Minister promised to introduce an amendment to include this on the face of the Bill, but rather than do that, the Minister has tabled the amendment that is before us today to permit regulation-making powers about information on websites and publicity material. In my view, including a specific requirement on the face of the Bill for a food business to direct a customer to the food hygiene rating on the Food Standards Agency's website is a better amendment than the Government's amendment. That would make it clear to customers, whichever way they order food, that they can ascertain the food hygiene rating physically at the establishment, when ordering food over the phone or when ordering online. That is the basis for the amendments in my name today. I ask you to support them.

16:41

Darren Millar [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I want to speak in support of the amendments tabled in the name of Elin Jones in this group, and also to speak to amendments 21, 22, 23 and 25, which have been tabled in my name. It is quite clear to me that the Bill was deficient in not allowing for any measures to ensure that a food hygiene rating was available to people when ordering over the telephone or the internet. This set of amendments is designed to deal with that particular problem. There was some discussion within the committee about whether takeaway leaflets ought to be referring to menus, and we sort of came to the conclusion that, while it was not appropriate to publish a specific rating on takeaway menus, or even on somebody's website, because of the regularity with which they might need to be updated, there was a sense that there needed to be some sort of emblem or information that ensured that people were aware that they could request the rating, or find it in a certain location. That is what these particular amendments are designed to deal with, and that is why we will be supporting them.

There were a few red herrings thrown about to do with the fact that if these sorts of amendments were approved, it might result in businesses incurring significant costs because of the need to reproduce literature. However, as I said, given that we are not requiring the literature to have a specific rating on it, but merely an advertisement of the availability of a rating, I think that these amendments ought to be accepted by everybody in the Chamber today.

The Minister will no doubt speak to her amendments 5 and 8 that provide the regulation-making powers so that the Minister can specify the way in which the availability of a rating ought to be promoted in marketing and other promotional material. However, I do feel that the alternative amendments being put forward in both my name and in the name of Elin Jones are a more elegant way to address the problem on the face of the Bill, and therefore we will not be supporting amendments 5 and 8.

16:43

Kirsty Williams [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Like Elin and Darren, we on the Liberal Democrat benches believe that there is much merit in the inclusion of a reference to the Food Standards Agency and a rating on publicity material, whether that be via the internet or on literature that is produced by a business to advertise its goods.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Rwyf am siarad o blaid y gwelliannau a gyflwynwyd yn enw Elin Jones yn y grŵp hwn, a hefyd siarad am welliannau 21, 22, 23 a 25, sydd wedi cael eu cyflwyno yn fy enw i. Mae'n eithaf amlwg i mi bod y Bil yn ddiffygol wrth beidio â chaniatáu ar gyfer unrhyw fesurau i sicrhau bod sgôr hylendid bwyd ar gael i bobl wrth archebu dros y ffôn neu'r rhyngrwyd. Mae'r set o welliannau wedi ei chynllunio i ddelio â'r broblem benodol honno. Cafwyd rhywfaint o drafodaeth o fewn y pwylgor yngylch a ddyllai taflenni cludfwyd fod yn cyfeirio at fwydleni, a daethom i gasgliad o fath, er nad oedd yn briodol i gyhoeddi sgôr penodol ar fwydleni bwyd parod, neu hyd yn oed ar wefan rhywun, oherwydd pa mor rheolaidd y gallai fod angen iddynt gael eu diweddu, roedd ymdeimlad bod angen rhyw fath o arwyddlon neu wybodaeth a oedd yn sicrhau bod pobl yn ymwybodol y gallent ofyn am y sgôr, neu ddod o hyd iddi mewn lleoliad penodol. Dyna beth y mae'r diwygiadau penodol hyn wedi cael eu cynllunio i ddelio ag ef, a dyna pam y byddwn yn eu cefnogi.

Codwyd rhai ysgyfarnogod yngylch y ffaith, os c'â'r mathau hyn o newidiadau eu cymeradwyo, y gallai olygu bod busnesau yn mynd i gostau sylweddol oherwydd yr angen i atgynhyrchu llenyddiaeth. Fodd bynnag, fel y dywedais, o gofio nad ydym yn ei gwneud yn ofynnol i lenyddiaeth gael sgôr penodol arno, dim ond hysbyseb bod sgôr ar gael, rwy'n meddwl y dylai gwelliannau hyn gael eu derbyn gan bawb yn y Siambwr heddiw.

Bydd y Gweinidog yn sicr yn siarad am ei gwelliannau 5 ac 8 sy'n darparu'r pwerau i wneud rheoliadau fel y gall y Gweinidog nodi'r ffordd y dylid hyrwyddo argaeledd sgôr mewn deunydd marchnata a deunydd hyrwyddo arall. Fodd bynnag, rwy'n teimlo bod y gwelliannau eraill sy'n cael eu cynnig yn fy enw i ac yn enw Elin Jones yn ffordd fwy cain o fynd i'r afael â'r broblem ar wyneb y Bil, ac felly ni fyddwn yn cefnogi gwelliannau 5 ac 8 .

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Fel Elin a Darren, rydym ni ar feinciau'r Democraidaid Rhyddfrydol yn credu bod llawer o rinwedd mewn cynnwys cyfeiriad at yr Asiantaeth Safonau Bwyd a sgôr ar ddeunydd cyhoeddusrwydd, boed hynny trwy gyfrwng y rhyngrwyd neu ar lenyddiaeth a gynhyrchir gan fusnes i hysbysebu ei nwyddau.

We heard in committee that the way in which we purchase food is changing constantly. I was much bemused by the service of one company that will deliver you a roast dinner should you not be able to rustle one up yourself. You can dial up and they will deliver your roast dinner to you. Such modernity has not quite reached Brecon and Radnorshire yet; we tend to cook our own roast dinners on a Sunday. However, the point is that the way in which we order our food and purchase it is changing all the time, and while it used to be routine to ring up to get your takeaway, increasingly food is being purchased over the internet. In doing so, we need to make consumers aware that there is an opportunity to check what the food hygiene rating is, and that you do not need to be in the premises to see it; there are other ways of finding out the rating of particular premises. Therefore, we will support both Elin Jones's and Darren Millar's amendments in this regard.

Again, we get to the issue of whether the face of the Bill, rather than regulations, is the appropriate place for this. In this case, I believe that it is right to put this on the face of the Bill, but, in the absence of support for those amendments, the Liberal Democrats will support the Government's amendments, because provision in regulations is a better option than no provision at all within legislation for websites or publicity material. It is the second-best option and, therefore, I hope that Members in the Chamber today will vote for the substantive amendments with regard to putting this on the face of the Bill.

16:46

Lesley Griffiths [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

During Stage 2 scrutiny, I stated my clear intention to introduce an amendment to the Bill to require reference to food hygiene ratings on websites and appropriate printed publicity materials. Amendment 5 in my name delivers on this commitment and will insert a new section 10, 'Promoting food hygiene ratings', in the Bill. The new section gives Welsh Ministers the power to make regulations requiring food business operators to display prescribed information on certain types of publicity material: broadly speaking, those publications giving details of the food available, such as takeaway menus, flyers and advertisements, and on their websites and those operated on their behalf. The prescribed information could take the form of a statement on printed promotional material informing consumers as to where the business's rating can be viewed on the FSA website. In the case of a food business website, an image would be displayed to show a business's food hygiene rating or there would be a hyperlink to where the rating can be viewed on the FSA website, or perhaps even both an image and a hyperlink.

Before exercising the regulation-making power under new section 10 of the Bill, Welsh Ministers will consult on what rating information should be published and how it should be presented on websites and certain publicity material. I regard this as a vital process to ensure that regulations reflect current approaches to promotional activity, while balancing the needs of consumers with the need to minimise the impact on food businesses. I believe that it is appropriate for this matter to be dealt with through subordinate legislation.

Clywsom yn y pwylgor bod y ffordd yr ydym yn prynu bwyd yn newid yn gyson. Dryswyd fi'n fawr gan wasanaeth un cwmni a fydd yn danfon cinio rhostr i chi pe digwydd nad ydych yn gallu darparu un eich hun. Gallwr ddeialu rhif a byddant yn danfon eich cinio rhostr i chi. Nid yw moderniaeth o'r fath wedi cyrraedd Sir Frycheiniog a Sir Faesyfed eto; rydym yn tueddu i goginio ein cinio rhostr ein hunain ar y Sul. Fodd bynnag, y pwyt yw bod y ffordd yr ydym yn archebu ein bwyd ac yn ei brynu yn newid drwy'r amser, ac er ei fod yn arfer bod yn arferol i ffonio i gael eich prydu parod, yn gynyddol mae bwyd yn cael ei brynu dros y rhyngrwyd. Wrth wneud hynny, mae angen i ni wneud defnyddwyr yn ymwybodol bod cyfle i wirio beth yw'r sgôr hylendid bwyd, ac nad oes angen i chi fod ar y safle i'w gweld; mae ffyrdd eraill o ddod o hyd i sgôr safle arbennig. Felly, byddwn yn cefnogi gwelliannau Elin Jones a Darren Millar yn hyn o beth.

Unwaith eto, rydym yn dod at fater ai wyneb y Bil, yn hytrach na rheoliadau, yw'r lle priodol ar gyfer hyn. Yn yr achos hwn, rwy'n credu ei bod yn iawn i roi hyn ar wyneb y Bil, ond, yn absenoldeb cymorth ar gyfer y gwelliannau hynny, bydd y Democratiaid Rhyddfrydol yn cefnogi gwelliannau'r Llywodraeth, oherwydd mae'r ddarpariaeth yn y rheoliadau yn opswn gwell na dim darpariaeth o gwbl mewn deddfwriaeth ar gyfer gwefannau neu ddeunydd cyhoedduswyd. Dewis ail orau ydyw, ac felly, rwy'n gobeithio y bydd Aelodau yn y Siambwr heddiw yn pleidleisio dros y gwelliannau o sylwedd o ran rhoi hyn ar wyneb y Bil.

Senedd.tv
[Video](#) [Video](#)

Yn ystod y Cyfnod craffu 2, nodais fy mwriad clir i gyflwyno gwelliant i'r Bil i'w gwneud yn ofynnol i gyfeirio at sgoriau hylendid bwyd ar wefannau a deunyddiau cyhoedduswyd priodol wedi'u hargraffu. Mae gwelliant 5 yn fy enw i yn cyflawni ar yr ymrwymiad hwn a bydd yn mewnosod adran 10 newydd, 'Hyrwyddo sgoriau hylendid bwyd', yn y Bil. Mae'r adran newydd yn rhoi i Weinidogion Cymru y pŵer i wneud rheoliadau sy'n mynnu bod gweithredwyr busnesau bwyd yn arddangos gwybodaeth ragnodedig ar rai mathau o ddeunydd cyhoedduswyd: yn fras, y cyhoeddiadau hynny sy'n rhoi manylion am y bwyd sydd ar gael, megis bwydleni prydu parod, taflenni a hysbysebion, ac ar eu gwefannau a rhai a weithredir ar eu rhan. Gallai'r wybodaeth ragnodedig fod ar ffur datganiad ar ddeunydd hyrwyddo argraffedig yn hysbysu defnyddwyr o ran ble y gellir gweld sgôr y busnes ar wefan yr ASB. Yn achos gwefan busnes bwyd, byddai delweddu yn cael ei harddangos i ddangos sgôr hylendid busnes bwyd neu byddai hypergyswlit i lle y gellir gweld y sgôr ar wefan yr ASB, neu effalai hyd yn oed ddelweddu a hypergyswlit.

Cyn arfer y pŵer i wneud rheoliadau o dan adran 10 newydd y Bil, bydd Gweinidogion Cymru yn ymgynghori ar ba wybodaeth sgorio dylai gael ei chyhoeddi a sut y dylid ei chyflwyno ar wefannau a deunydd cyhoedduswyd penodol. Rwy'n ystyried hyn fel proses hanfodol i sicrhau bod rheoliadau'n adlewyrchu'r dulliau presennol o weithgaredd hyrwyddo, tra'n cydbwyso anghenion defnyddwyr â'r angen i leihau'r effaith ar fusnesau bwyd. Rwy'n credu ei bod yn briodol i'r mater hwn gael ei drin drwy is-ddeddfwriaeth.

Members will see that amendment 5 also provides for regulations to create an offence, impose a penalty—including a fixed penalty—make provisions about enforcement, and make different provisions for different types of establishments. The detail of the requirements will be provided in regulations.

Given the matters covered by the proposed regulations and the clear importance that Members place on this, amendment 8 would require these regulations to be made subject to the affirmative procedure. This will provide Members with the opportunity to scrutinise the regulations and for them to be considered in Plenary.

Turning to the amendments in this group tabled by Elin Jones and Darren Millar, I support, in principle, the intention behind them, but consider that Government amendment 5 will achieve the principle. Amendment 9, proposed by Elin Jones, requires reference to a food hygiene rating on a website maintained by the FSA or any website maintained by or on behalf of the food business establishment. Amendment 21, proposed by Darren Millar, makes reference to the publication of a food hygiene rating on promotional or advertising material. His amendment 22 proposes the restriction of certain categories of such material by way of regulations. Amendment 10 by Elin Jones and amendment 23 by Darren Millar are very similar and propose different provisions for different types of establishments. Amendment 11 by Elin Jones proposes an associated offence for food business establishments that fail to include a reference to the availability of their food hygiene rating on a website maintained by the FSA or any website maintained by or on behalf of the food business establishment. Amendment 25 by Darren Millar proposes a similar offence for a food business establishment that fails to publicise the availability in the manner prescribed of its food hygiene rating in any promotional or advertising material, which is produced by or on behalf of the food business establishment. As I have set out, the regulations that will be made by Welsh Ministers for the promotion of food hygiene ratings also contain the powers to create the necessary offences should food business operators fail to comply with the requirements placed upon them.

For these reasons, I ask you to support the full package of proposals put forward in Government amendments 5 and 8, and not to support amendments 9, 21, 22, 10, 23, 11 and 25.

Bydd Aelodau yn gweld bod gwelliant 5 hefyd yn darparu ar gyfer rheoliadau i greu troseidd, gosod cosb-gan gynnwys cosb benodedig—gwneud darpariaethau yng Nghylch gorfodi, ac yn gwneud darpariaethau gwahanol ar gyfer gwahanol fathau o sefydliadau. Bydd manylion y gofynion yn cael eu darparu mewn rheoliadau.

O ystyried y materion a gwmpesir gan y rheoliadau afaethedig a'r pwysigrwydd clir y mae Aelodau yn ei roi ar hyn, byddai gwelliant 8 yn gofyn bod y rheoliadau hyn yn cael eu gwneud yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol. Bydd hyn yn rhoi cyfle i Aelodau i graffu ar y rheoliadau ac iddynt gael eu hystyried yn y Cyfarfod Llawn.

Gan droi at y gwelliannau yn y grŵp hwn a gyflwynwyd gan Elin Jones a Darren Millar, rwy'n cefnogi, mewn egwyddor, y bwriad y tu ôl iddynt, ond rwy'n ystyried y bydd gwelliant 5 y Llywodraeth yn cyflawni'r egwyddor. Mae gwelliant 9, a gynigiwyd gan Elin Jones, yn ei gwneud yn ofynnol bod cyfeiriad at sgôr hylendid bwyd ar wefan a gynhelir gan yr ASB neu unrhyw wefan a gynhelir gan neu ar ran y sefydliad busnes bwyd. Mae gwelliant 21, a gynigiwyd gan Darren Millar, yn gwneud cyfeiriad at gyhoeddi sgôr hylendid bwyd ar ddeunydd hyrwyddo neu hysbysebu. Mae ei welliant 22 yn cynnig cyfyngu ar gategorïau penodol deunydd o'r fath drwy gyfrwng rheoliadau. Mae gwelliant 10 gan Elin Jones a gwelliant 23 gan Darren Millar yn debyg iawn ac yn cynnig darpariaethau gwahanol ar gyfer gwahanol fathau o sefydliadau. Mae gwelliant 11 gan Elin Jones yn cynnig troseidd gysylltiedig ar gyfer sefydliadau busnes bwyd sy'n methu â chynnwys cyfeiriad at argaeledd eu sgôr hylendid bwyd ar wefan a gynhelir gan yr ASB neu unrhyw wefan a gynhelir gan neu ar ran y sefydliad busnes bwyd. Mae gwelliant 25 gan Darren Millar yn cynnig troseidd debyg ar gyfer sefydliad busnes bwyd sy'n methu â rhoi cyhoeddusrwydd i argaeledd ei sgôr hylendid bwyd yn y modd a ragnodir mewn unrhyw ddeunydd hyrwyddo neu hysbysebu, sy'n cael ei gynhyrchu gan neu ar ran y sefydliad busnes bwyd. Fel yr wyf wedi nodi, mae'r rheoliadau a fydd yn cael eu gwneud gan Weinidogion Cymru ar gyfer hyrwyddo sgoriau hylendid bwyd hefyd yn cynnwys y pwerau i greu'r troseddau angenrheidiol pe digwydd i weithredwyr busnes bwyd fethu â chydymffurfio â'r gofynion a osodir arnynt.

Am y rhesymau hyn, gofynnaf ichi gefnogi'r pecyn llawn o gynigion a gyflwynwyd yng ngwelliannau'r 5 ac 8 y Llywodraeth, a pheidio â chefnogi gwelliannau 9, 21, 22, 10, 23, 11 a 25.

16:50

Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I call Elin Jones to reply to the debate.

Rwy'n galw ar Elin Jones i ymateb i'r ddadl.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

16:50

Elin Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I thank Members for their comments in support of my elegant amendments. Whichever way the vote goes this afternoon on whether website information should be available via regulation or on the face of the Bill, the lesson for Government is that legislation should always be futureproofed. The original legislation had no reference at all to website information, and, if the committee had not pressed the case, the legislation, as unamended, would have dated quickly in its applicability and intention to offer information to consumers in Wales.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

Diolch i'r Aelodau am eu sylwadau o blaid fy ngwelliannau cain. Pa bynnag ffordd y mae'r bleidlais yn mynd y prynhawn yma ynglych a ddylai gwybodaeth ar wefan fod ar gael drwy reoliadau neu ar wyneb y Bil, y wers ar gyfer Llywodraeth yw y dylai deddfwriaeth bob amser fod wedi'i diogelu i'r dyfodol. Nid oedd unrhyw gyfeiriad yn y ddeddfwriaeth wreiddiol o gwbl at wybodaeth gwefan, a, phe na byddai'r pwylgor wedi pwysio'r achos, byddai'r ddeddfwriaeth, heb ei diwygio, wedi dyddio yn gyflym yn ei chymhwysedd a'i bwriad i gynnig gwybodaeth i ddefnyddwyr yng Nghymru.

I urge you to vote for the elegant amendments in my name, but, if those are unsuccessful, we will be supporting the regulation-making powers in the Government amendments, even though we see them as the second best option.

Fe'ch anogaf i bleidleisio dros y diwygiadau cain yn fy enw, ond, os yw'r rhain yn aflwyddiannus, byddwn yn cefnogi'r pwerau i wneud rheoliadau yng ngwelliannau'r Llywodraeth, er ein bod yn eu gweld fel yr ail opsiwn gorau.

16:51

Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

If amendment 9 is not agreed, amendments 10 and 11 will fall. The question is that amendment 9 be agreed to. Does any Member object? I see that there is objection, therefore we will move to an electronic vote.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

Os nad yw gwelliant 9 yn cael ei dderbyn, bydd gwelliannau 10 a 11 yn methu. Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 9. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Gwelaf fod gwrthwynebiad, felly symudwn i bleidlais electronig.

[Canlyniad y bleidlais ar welliant 9](#)

[Result of the vote on amendment 9](#)

Gwrthodwyd gwelliant 9: O blaid 25, Yn erbyn 26, Ymatal 0.

Amendment 9 not agreed: For 25, Against 26, Abstain 0.

16:51

Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I invite Darren Millar to move amendment 21.

Yr wyf yn gwahodd Darren Millar i gynnig gwelliant 21.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

16:51

Darren Millar [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I move amendment 21 in my name.

Cynigiaf welliant 21 yn fy enw.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

16:52

Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The question is that amendment 21 be agreed to. Does any Member object? I see that there is objection, therefore we will move to an electronic vote.

Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 21. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Gwelaf fod gwrthwynebiad, felly symudwn i bleidlais electronig.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

[Canlyniad y bleidlais ar welliant 21](#)

[Result of the vote on amendment 21](#)

Gwrthodwyd gwelliant 21: O blaid 25, Yn erbyn 26, Ymatal 0.

Amendment 21 not agreed: For 25, Against 26, Abstain 0.

Methodd gwelliant 22.

Amendment 22 fell.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)
Grŵp 3: y Gofyniad I Arddangos Sticeri Sgôr Hylendid Bwyd Lluosog (Gwelliannau 4 a 7)**Group 3: Requirements to Display Multiple Food Hygiene Rating Stickers (Amendments 4 and 7)**

16:52

Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I call on Lesley Griffiths to move and speak to amendment 4 and to speak to the other amendment in the group.

Rwy'n galw ar Lesley Griffiths i gynnig a siarad am welliant 4 a siarad am y gwelliant arall yn y gr?p.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

16:52

Lesley Griffiths [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I move amendment 4 in my name.

These amendments are to section 7(4) and section 24, and make it clear that more than one food hygiene rating sticker can be issued by a food authority for display at more than one location by the operator of a food business establishment. For example, it may be the case that an establishment has more than one entrance used by the public, or a number of satellite points of sale. In these cases, the food authority can work with the business to determine where the stickers should be displayed for the benefit of consumers. I ask Members to support these amendments.

Cynigiaf welliant 4 yn fy enw i.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Mae'r diwygiadau hyn i adran 7 (4) ac adran 24, ac yn ei gwneud yn glir y gellir cyhoeddi mwy nag un sticer sgorio hylendid bwyd gan awdurdod bwyd i'w arddangos mewn mwy nag un lleoliad gan weithredwr sefydliad busnes bwyd. Er enghraifft, efallai bod gan sefydliad fwy nag un fynedfa a ddefnyddir gan y cyhoedd, neu nifer o bwyntiau gwerthu ategol. Yn yr achosion hyn, gall yr awdurdod bwyd weithio gyda'r busnes i benderfynu ble y dylai'r sticeri gael eu harddangos er budd defnyddwyr. Gofynnaf i Aelodau gefnogi'r gwelliannau hyn.

16:53

Darren Millar [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

On behalf of the Welsh Conservatives, I want to acknowledge our support for these amendments. It is perfectly sensible that the FSA ought to be able to issue further stickers for those establishments that have multiple entries or multiple outlet points. Therefore, we will be supporting these amendments.

Ar ran y Ceidwadwyr Cymreig, rwyf am gydnabod ein cefnogaeth i'r gwelliannau hyn. Mae'n gwbl synhyrrol fod yr ASB yn gallu cyhoeddi sticeri pellach ar gyfer y sefydliadau hynny sydd â mynedfeydd lluosog neu fannau gwerthu lluosog. Felly, byddwn yn cefnogi'r gwelliannau hyn.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

16:53

Kirsty Williams [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The Welsh Liberal Democrats will also support the Government's amendments. They are practical and sensible. I would be very grateful if the Minister could provide some clarification. As she will know, I was very concerned at committee stage that there should be an opportunity for people who sell away from their main premises to be caught by these regulations. As the legislation was originally drafted, it would require someone to display a certificate at the point at which the food was produced, but that was not necessarily the point at which the food was sold. For instance, one thinks of a farmer's market where someone is selling sausages, pies, faggots or other food products that could be potentially hazardous to human health if not produced in a proper way. However, they are sold away from the premises at which they are produced, and so no-one would have any idea as to the conditions and rating of that premises. Can the Minister confirm that such situations would be captured by this? However, as I said, the Welsh Liberal Democrats will support amendments 4 and 7.

Bydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru hefyd yn cefnogi gwelliannau'r Llywodraeth. Maent yn ymarferol ac yn synhyrrol. Byddwn yn ddiolchgar iawn pe gallai'r Gweinidog roi rhywfaint o eglurhad. Fel y mae hi'n gwybod, roeddwn yn bryderus iawn yn y cyfnod pwylgor y dylai fod cyfle i bobl sy'n gwerthu i ffwrdd oddi wrth eu prif adeilad i gael eu dal yn y rheoliadau hyn. Fel y cafodd y ddeddfwriaeth ei drafftio'n wreiddiol, byddai'n ofynnol i rywun ddangos dystysgrif yn y man lle'r oedd y bwyd yn cael ei gynhyrchu, ond nid hwnnw o reidrwydd oedd y pwynt lle'r oedd y bwyd yn cael ei werthu. Er enghraifft, mae rhywun yn meddwl am farchnad ffermwyr lle mae rhywun yn gwerthu selsig, pasteiod, fagats neu gynhyrchion bwyd eraill a allai fod yn beryglus i iechyd dynol os nad ydynt yn cael eu cynhyrchu mewn ffordd briodol. Fodd bynnag, maent yn cael eu gwerthu i ffwrdd o'r fangre lle maent yn cael eu cynhyrchu, ac felly ni fyddai gan unrhyw un syniad yngylch amodau a sgôr y safle hwnnw. A all y Gweinidog gadarnhau y byddai sefyllfaoedd o'r fath yn cael eu dal yn hyn? Fodd bynnag, fel y dywedais, bydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru yn cefnogi gwelliannau 4 a 7.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

16:54

Lesley Griffiths [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I am grateful to Members for their comments and support. I confirm that that is indeed the case, and that is why I specifically said 'satellite points of sale'.

Rwy'n ddiolchgar i'r Aelodau am eu sylwadau a'u cefnogaeth. Rwy'n cadarnhau mai felly'n wir y mae pethau, a dyna pam y dywedais yn benodol 'pwyntiau gwerthu ategol'.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

16:54

Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The question is that amendment 4 be agreed to. Does any Member object? I see that there are no objections. Therefore, amendment 4 is agreed in accordance with Standing Order No. 12.36.

Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 4. A oes unrhyw Aelod yn gwrrthwnebu? Gwelaf nad oes unrhyw wrthwnebiad. Felly, caiff gwelliant 4 ei dderbyn yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 12.36.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Derbyniwyd gwelliant 4.

Amendment 4 agreed.

Methodd gwelliant 10.

Amendment 10 fell.

Methodd gwelliant 23.

Amendment 23 fell.

Grŵp 4: Troseddau (Gwelliannau 24, 26 a 27)

Group 4: Offences (Amendments 24, 26 and 27)

16:55

Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad Biography](#)

The lead amendment in this group is amendment 24. I call on Darren Millar to move and speak to the lead amendment and to the other amendments in the group.

Y prif welliant yn y grŵp hwn yw gwelliant 24. Galwaf ar Darren Millar i gynnig a siarad am y prif welliant ac am y gwelliannau eraill yn y grŵp.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

16:55

Darren Millar [Bywgraffiad Biography](#)

I move amendment 24 in my name.

Cynigiaf welliant 24 yn fy enw.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

I will also speak to amendments 26 and 27 in this group in my name. Amendment 24, and the related amendment 26, remove the defence of a reasonable excuse when the actions of an operator of a food business establishment constitute an offence listed in section 9, subsections (1) and (2) of the Bill. The whole purpose of this legislation is to convert the current voluntary food hygiene rating scheme into a mandatory one. Food business establishments in Wales should provide customers with accurate and accessible information relating to their hygiene levels. While the requirements placed on the business, such as displaying a valid sticker or making sure the correct information is given to a customer, are crucial, they are not at all onerous. Therefore, it is crucial that establishments do not become lazy or careless in relation to their duties and that they are not allowed to break the rules. The wording on the face of the Bill, in saying that a reasonable excuse can be given, does not seem to me to chime with the seriousness of this legislation and the importance of the duties that food business establishments have being fulfilled. These are very serious duties, and it is for those reasons that we have tabled these amendments today to remove this reasonable-excuse defence from the face of the Bill.

Byddaf hefyd yn siarad am welliannau 26 a 27 yn y grŵp hwn yn fy enw i. Mae gwelliant 24, a'r diwygiad cysylltiedig 26, yn dileu'r amddiffyniad o esgus rhesymol pan fydd gweithredoedd gweithredydd busnes bwyd yn golygu trosedd a restrir yn adrann 9, is-adrannau (1) a (2) o'r Bil. Holl bwrpas y ddeddfwriaeth hon yw trawsnewid y cynllun sgorio hylendid bwyd cyfredol gwirfoddol i un gorffodol. Dylai sefydliadau busnes bwyd yng Nghymru ddarparu cwsmeriaid gyda gwybodaeth gywir a hygrych mewn perthynas â'u lefelau hylendid. Er bod y gofynion a osodir ar y busnes, fel arddangos sticer ddilys neu wneud yn si?r bod y wybodaeth gywir yn cael ei rhoi i gwsmer, yn hanfodol, nid ydynt yn feichus o gwbl. Felly, mae'n hanfodol nad yw sefydliadau yn mynd yn ddiog neu'n ddiofal mewn perthynas â'u dyletswyddau ac na chaniateir iddynt dorri'r rheolau. Nid yw'r geiriad ar wyneb y Bil, wrth ddweud y gellir rhoi esgus rhesymol, yn ymddangos i mi yn cyd-daro â difrifoldeb y ddeddfwriaeth hon a phwysigrwydd bod y dyletswyddau sydd gan sefydliadau busnes bwyd yn cael eu cyflawni. Mae'r rhain yn ddyletswyddau difrifol iawn, ac am y rhesymau hynny yr ydym wedi cyflwyno'r gwelliannau hyn heddiw i dynnu'r amddiffyniad hwn o esgus rhesymol oddi ar wyneb y Bil.

I do understand, however, that for the purposes of a fair trial, individuals must have access to a defence, and that is why we have tabled amendment 27, which allows for a more appropriate system of defences and excusable circumstances to be prescribed in regulations—exceptional circumstances, rather than simply reasonable excuses. We all know that there can be times when windows can get smashed or people peel labels off people's doors, and it may take time for those to be replaced. We accept that those might be exceptional circumstances that should not merit a prosecution, but we do not feel that the words 'reasonable excuse', which are on the face of the Bill, are appropriate.

Rwy'n deall, foddy bynnag, at ddibenion prawf teg, bod rhaid i unigolion gael mynediad at amddiffyniad, a dyna pam yr ydym wedi cyflwyno gwelliant 27, sy'n caniatáu ar gyfer system fwy priodol o amddiffynfeydd ac amgylchiadau esgusodi i'w rhagnodi mewn rheoliadau-amgylchiadau eithriadol, yn hytrach nag esgus rhesymol. Rydym i gyd yn gwybod y gall fod adegau pan all ffenestri gael eu torri neu bydd pobl yn plicio labeli oddi ar ddrysau pobl, a gall gymryd amser i'r rheini gael eu rhoi'n ôl. Rydym yn derbyn y gallai'r rhain fod yn amgylchiadau eithriadol, na ddylent haeddu erlyniad, ond nid ydym yn teimlo bod y geiriau 'esgus rhesymol', sydd ar wyneb y Bil, yn briodol.

Kirsty Williams [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The Welsh Liberal Democrats cannot support these amendments put forward by Darren Millar this afternoon. While we understand his wanting to create certainty and clarity, the term that he refers to is a term that is used in legislation and it is not for politicians to second-guess what is a reasonable excuse. That is a matter for the professionals and, ultimately, the court. As Darren explained, there could be very legitimate reasons as to why a sticker is not being displayed, through no fault of the owner of the establishment. As he said, a window could be smashed, a sticker could be removed as a practical joke perhaps, which would be nothing to do with the owner, and it would be very unfair to prosecute such an individual if there were a hard-and-fast rule that said that, if the sticker is not displayed, you are breaking the law.

I appreciate that Darren has looked to put some flexibility into this system by adding an amendment that would allow for the Government to set out in regulations what may be considered to be exceptional circumstances, but I think, Darren, that it is impossible to cover in regulations every possible scenario whereby a sticker may not be present. Ultimately, it has to be a matter for the judgment of the professionals whom we trust to do this job on our behalf, and, if they feel that an offence has been committed, it is then a matter for the court to decide. Therefore, for very practical reasons, we will not support these amendments put forward by Darren Millar.

Lesley Griffiths [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I will oppose amendments 24, 26 and 27. Section 9 of the Bill currently provides that the operator of a food business will have committed a criminal offence in specified circumstances unless he has a reasonable excuse, and, as Kirsty Williams said, that is an accepted legislative term.

One example of an offence subject to the reasonable-excuse defence, as Members have said, would be the failure to display a valid food hygiene rating sticker in the location and manner prescribed at the operator's food business establishment. As is the case with many other pieces of legislation, the Bill does not provide a definition of what constitutes a reasonable excuse. A food operator wishing to rely on this defence would have to raise it with the food authority so that the authority could take it into account when deciding whether to issue a fixed-penalty notice or bring a prosecution. The food authority would need to consider a number of factors when assessing whether an excuse offered by an alleged offender is reasonable. For example, the authority would need to consider whether the evidence supported an innocent explanation and what reasonable precautions were taken by the operator to prevent the offence from taking place in the first place. It would also weigh up the likelihood of the court accepting the excuse in the light of the evidence as a whole.

Ni all Democratiaid Rhyddfrydol Cymru gefnogi'r gwelliannau hyn a gyflwynwyd gan Darren Millar y prynhawn yma. Er ein bod yn deall ei ddymuniad i greu sicrwydd ac eglurder, mae'r term y mae'n cyfeirio ato yn derm a ddefnyddir mewn deddfwriaeth ac nid mater i wleidyddion yw rhagweld beth sy'n esgus rhesymol. Mae hynny'n fater i'r gweithwyr proffesiynol ac, yn y pen draw, i'r llys. Fel yr esboniodd Darren, gallai fod rhesymau dilys iawn pam nad yw sticer yn cael ei arddangos, heb fod unrhyw fai ar berchennog y sefydliad. Fel y dywedodd ef, gallai ffenestr fod wedi ei thorri, gallai sticer fod wedi cael ei dynnu fel joc effalai, na fyddai â wnelo dim â'r perchennog, a byddai'n annheg iawn i erlyn unigolyn o'r fath pe byddai rheol gaeth sy'n dweud, os nad yw sticer yn cael ei arddangos, rydych yn torri'r gyfraith.

Rwy'n gwerthfawrogi bod Darren wedi edrych i roi rhywfaint o hyblygrwydd i mewn i'r system drwy ychwanegu gwelliant a fyddai'n caniatáu i'r Llywodraeth bennu mewn rheoliadau beth y gellir ei ystyried i fod yn amgylchiadau eithriadol, ond rwy'n meddwl, Darren, ei bod yn amhosibl cynnwys mewn rheoliadau pob sefyllfa bosibl lle na all sticer fod yn bresennol. Yn y pen draw, mae'n rhaid iddo fod yn fater i farn y gweithwyr proffesiynol yr ydym yn ymddiried ynddynt i wneud y gwaith hwn ar ein rhan, ac, os ydynt yn teimlo bod trosedd wedi'i chyflawni, wedyn mae'n fater i'r llys i'w benderfynu. Felly, am resymau ymarferol iawn, ni fyddwn yn cefnogi'r gwelliannau hyn a gyflwynwyd gan Darren Millar.

Byddaf yn gwrrthwynebu gwelliannau 24, 26 a 27. Mae Adran 9 o'r Bil ar hyn o bryd yn darparu y bydd y gweithredydd busnes bwyd wedi cyflawni trosedd o dan amgylchiadau penodedig oni bai fod ganddo esgus rhesymol, ac, fel y dywedodd Kirsty Williams, mae hwnnw'n derm deddfwriaethol a dderbynir.

Un enghraifft o drosedd fyddai'n ddarostyngedig i'r amddiffyniad esgus rhesymol fel y mae Aelodau wedi dweud, fyddai methiant i arddangos sticer sgôr hylendid bwyd dilys yn y lleoliad ac mewn modd a bennir yn sefydliad busnes bwyd y gweithredwr. Fel sy'n wir gyda nifer o ddarnau eraill o ddeddfwriaeth, nid yw'r Bil yn darparu diffiniad o beth yw esgus rhesymol. Byddai gweithredydd bwyd sy'n dymuno dibynnu ar yr amddiffyniad hwn yn gorfol ei godi gyda'r awdurdod bwyd fel y gallai'r awdurdod ystyried wrth benderfynu a ddylid rhoi hysbysiad cosb benodedig neu erlyn. Byddai angen i'r awdurdod bwyd ystyried nifer o ffactorau wrth asesu a yw esgus a gynigir gan droseddwr honedig yn rhesymol. Er enghraifft, byddai angen i'r awdurdod ystyried a yw'r dystiolaeth yn cefnogi esboniad diniwed a pha ragofalon rhesymol a gymerwyd gan y gweithredwr i atal y drosedd rhag digwydd yn y lle cyntaf. Byddai hefyd yn ystyried y tebygolwydd y byddai'r llys yn derbyn yr esgus yng ngoleuni'r dystiolaeth gyfan.

It would be wrong to leave out the reasonable excuse defence, as suggested by amendments 24 and 26, and replace it with a list of circumstances in which offences would not apply. To prescribe a comprehensive list of such circumstances in regulations would be totally impractical as it would be impossible to predict every situation where the defence should apply. In reality, it could never be an exhaustive list of all of the circumstances and would have the effect of unduly fettering the discretion of a food authority or a court when considering the circumstances of an alleged offence. I also think that it could have the undesirable effect of providing an offender with a ready-made list of excuses that they could call upon when explaining how an alleged offence occurred.

If amendments 24, 26 and 27 were successful, they would have the effect of giving Welsh Ministers broad discretion by negative procedure regulations to disapply offences under section 9 of the Bill as they see fit. I do not feel that this would be either desirable or appropriate. Therefore, I ask Members not to support amendments 24, 26 and 27 for the reasons I have outlined.

Byddai'n anghywir i beidio â chynnwys yr amddiffyniad esgus rhesymol, fel yr awgrymwyd gan welliannau 24 a 26, a'i ddisodli gyda rhestr o amgylchiadau lle na fyddai troseddau yn berthnasol. Byddai rhagnodi rhestr gynhwysfawr o amgylchiadau o'r fath mewn rheoliadau yn gwbl anymarferol gan y byddai'n amhosibl rhagweld pob sefyllfa lle dylai'r amddiffyniad fod yn berthnasol. Mewn gwirionedd, ni allai fod yn rhestr gynhwysfawr o'r holl amgylchiadau a fyddai'n cael yr effaith o lyffetheirio disgrifiwn yr awdurdod bwyd neu lys yn ormodol wrth ystyried amgylchiadau'r drosedd honedig. Rwyf hefyd yn credu y gallai gael yr effaith annymunol o ddarparu troseddwr gyda rhestr barod o esgusodion y gallent gyfeirio ati wrth egluro sut y digwyddodd trosedd honedig.

Pe bai gwelliannau 24, 26 a 27 yn llwyddiannus, byddent yn cael yr effaith o roi i Weinidogion Cymru ddisgresiwn eang drwy reoliadau gweithdrefn negyddol i ddatgymhwysyo tramgyddau o dan adran 9 y Bil fel y gwelant yn dda. Nid wyf yn teimlo y byddai hyn naill ai'n ddymunol nac yn briodol. Felly, gofynnaf i Aelodau beidio â chefnogi gwelliannau 24, 26 a 27 am y rhesymau yr wyf wedi'u hamlinellu.

17:01

Darren Millar [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I am very grateful for the opportunity to respond to this particular part of the debate. I am disappointed that the Liberal Democrats and the Government will not be supporting these amendments. I do not accept that the Minister could not, by regulations, specify a list of exceptional circumstances and also more general circumstances by which prosecution may not arise in order to give people the opportunity to defend themselves in the event of an exceptional situation arising. I do not think that it would necessarily have to be a completely exhaustive list of the circumstances by which an operator would not comply. However, having the words 'reasonable excuse' on the face of the Bill undermines the important message that we want to get across to food business operators about the importance of their not being lazy or careless in their approach to fulfilling their duties as required in the Food Hygiene Rating (Wales) Bill that we have before us. That is why I would have preferred to see a different approach being taken in terms of the legislation.

With regard to the suggestion that 'reasonable excuse' is an appropriate term, this has, of course, been used on the face of other pieces of legislation that have been undertaken at a UK-wide level, particularly in relation to the submission of returns to Companies House or to Her Majesty's Revenue and Customs, but I do not think that, in terms of this sort of legislation, the term 'reasonable excuse' is an appropriate way to go forward. Therefore, I will still be moving these particular amendments and putting them to the vote.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Rwy'n ddiolchgar am y cyfre i ymateb i'r rhan benodol hon o'r ddadl. Rwy'n siomedig na fydd y Democraidaid Rhyddfrydol a'r Llywodraeth yn cefnogi'r gwelliannau hyn. Nid wyf yn derbyn na allai'r Gweinidog, drwy reoliadau, bennu rhestr o amgylchiadau eithriadol ac amgylchiadau mwy cyffredinol hefyd lle na all erlyniad ddigwydd er mwyn rhoi cyfre i bobl amddiffyn eu hunain mewn achos pan fydd sefyllfa eithriadol yn codi. Nid wyf yn meddwl y byddai'n rhaid iddi fod yn rhestr gwbl gynhwysfawr o'r amgylchiadau a olygai na fyddai gweithredwr yn cydymffurfio. Fodd bynnag, mae cael y geiriau 'esgus rhesymol' ar wyneb y Bil yn tanseilio'r neges bwysig yr ydym yn awyddus i'w chyflwyno i weithredwyr busnesau bwyd am bwysigrwydd iddynt beidio â bod yn ddiog neu'n ddiofal yn eu hagwedd at gyflawni eu dyletswyddau fel sy'n ofynnol yn y Bil Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru) sydd gennym ger ein bron. Dyna pam y byddwn wedi hoffi gweld dull gwahanol yn cael ei gymryd o ran y ddeddfwriaeth.

O ran yr awgrym bod 'esgus rhesymol' yn derm priodol, mae hwn, wrth gwrs, wedi cael ei ddefnyddio ar wyneb darnau eraill o ddeddfwriaeth sydd wedi cael eu cynnal ar lefel y DU-eang, yn arbennig mewn perthynas â chyflwyno ffurflen i Dŵr Cwmniau neu i Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi, ond nid wyf yn credu, o ran y math hwn o ddeddfwriaeth, bod y term 'esgus rhesymol' yn ffordd briodol o fynd ymlaen. Felly, byddaf yn dal i gynnig y diwygiadau penodol a'u rhoi i bleidlais.

17:03

Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The question is that amendment 24 be agreed to. Does any Member object? I see that there is objection. Therefore, we will proceed to an electronic vote.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

[Canlyniad y bleidlais ar welliant 24](#)

[Result of the vote on amendment 24](#)

Gwrthodwyd y gwelliant: O blaid 21, Yn erbyn 31, Ymatal 0.

Amendment not agreed: For 21, Against 31, Abstain 0.

Methodd gwelliant 11.

Amendment 11 fell.

Methodd gwelliant 25.

Amendment 25 fell.

- 17:04 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
I now invite Darren Millar to move amendment 26.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Rwy'n awr yn gwahodd Darren Millar i gynnig gwelliant 26.

- 17:04 **Darren Millar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
I move amendment 26 in my name.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Cynigiaf welliant 26 yn fy enw.

- 17:04 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
The question is that amendment 26 be agreed to. Does any Member object? I see that there is objection. Therefore, we will move to an electronic vote.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 26. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Gwelaf fod gwrthwynebiad. Felly, byddwn yn symud i bleidlais electronig.

[Canlyniad y bleidlais ar welliant 26](#)

[Result of the vote on amendment 26](#)

Gwrthodwyd y cynnig: O blaid 21, Yn erbyn 31, Ymatal 0.

Amendment not agreed: For 21, Against 31, Abstain 0.

- 17:04 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
I invite Darren Millar to move amendment 27.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Rwy'n gwahodd Darren Millar i gynnig gwelliant 27.

- 17:04 **Darren Millar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
I move amendment 27 in my name.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Cynigiaf welliant 27 yn fy enw.

- 17:04 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
The question is that amendment 27 be agreed to. Are there any objections? I see that there is objection. Therefore, we will move to an electronic vote.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 27. A oes gwrthwynebiad? Gwelaf fod gwrthwynebiad. Felly, byddwn yn symud i bleidlais electronig.

[Canlyniad y bleidlais ar welliant 27](#)

[Result of the vote on amendment 27](#)

Gwrthodwyd y cynnig: O blaid 21, Yn erbyn 31, Ymatal 0.

Motion not agreed: For 21, Against 31, Abstain 0.

- 17:05 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
We now move to dispose of amendment 5. I invite the Minister for Health and Social Services to move the amendment.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Symudwn yn awr i waredu gwelliant 5. Rwy'n gwahodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i gynnig y gwelliant.

- 17:05 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
I move amendment 5 in my name.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Cynigiaf welliant 5 yn fy enw.

- 17:05 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
The question is that amendment 5 be agreed to. Does any Member object? I see that there are objections. We will move to an electronic vote.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 5. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Gwelaf fod gwrthwynebiadau. Byddwn yn symud i bleidlais electronig.

[Canlyniad y bleidlais ar welliant 5](#)

[Result of the vote on amendment 5](#)

Derbyniwyd y gwelliant: O blaid 52, Yn erbyn 0, Ymatal 0.

Amendment agreed: For 52, Against 0, Abstain 0.

**Grŵp 5: Dyletswyddau yr Asiantaeth
Safonau Bwyd (Gwelliannau 15, 16, 17, 18 ac
19)**

**Group 5: Duties of Food Standards Agency
(Amendments 15, 16, 17, 18 and 19)**

17:05 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The lead amendment in this group is amendment 15. I call Darren Millar to move amendment 15 and to speak to the other amendments in the group.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

17:05 **Darren Millar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I move amendment 15 in my name.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I want to speak to amendments 15, 16, 17, 18 and 19 in this group. Amendment 15 amends the timescale by which the implementation and operation of the food hygiene rating scheme must be reviewed. After the first year, in its current form, the scheme must be reviewed every three years. We feel that this period is far too long to review this important scheme and we feel that it could lead to problems that could crop up and remain untackled for a significant period of time. Therefore, we want to reduce this period to review the scheme on an annual basis, in order to bring it in line with the review of the operation of the appeals system, which is provided for on an annual basis.

Rwyf am siarad am welliannau 15, 16, 17, 18 a 19 yn y grŵp hwn. Mae gwelliant 15 yn diwygio'r amserlen erbyn pryd y mae'n rhaid adolygu gweithredu a gweithrediaid y cynllun sgôr hylendid bwyd. Ar ôl y flwyddyn gyntaf, yn ei ffurf bresennol, rhaid i'r cynllun cael ei adolygu bob tair blynedd. Rydym yn teimlo bod y cyfnod hwn yn llawer rhy hir i adolygu'r cynllun pwysig hwn ac rydym yn teimlo y gallai arwain at broblemau a allai godi a dal i fod heb dderbyn sylw am gyfnod sylweddol o amser. Felly, rydym eisiau lleihau'r cyfnod hwn i adolygu'r cynllun yn flynyddol, er mwyn sicrhau ei fod yn unol â'r adolygiad o weithrediad y system apeliadau, y darperir ar ei chyfer yn flynyddol.

The remaining amendments in this group—16, 17, 18 and 19—require the FSA to lay its reports on the appeals system and the operation of the scheme as a whole before the National Assembly for Wales. The Bill as it stands requires these reports simply to be submitted to Welsh Ministers. That is all very well, but for the importance of scrutiny, and given the level of public interest in these particular issues, it is important that the National Assembly for Wales has the opportunity to scrutinise those reports. We have tabled these amendments in the interest of transparency, so that we can see whether the scheme is being successfully operated. They are not complicated amendments and they are not controversial, therefore I hope that all sides of the Chamber will be able to support them.

Mae'r diwygiadau sy'n weddill yn y grŵp hwn-16, 17, 18 a 19-yn ei gwneud yn ofynnol i'r ASB osod ei hadroddiadau ar y system apeliadau a gweithrediaid y cynllun yn ei gyfanrwydd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Mae'r Bil fel y mae yn ei gwneud yn ofynnol i'r adroddiadau hyn gael eu cyflwyno i Weinidogion Cymru. Popeth yn iawn, ond o ran pwysigrwydd craffu, ac o ystyried lefel y budd i'r cyhoedd o ran y materion penodol hyn, mae'n bwysig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn cael y cyfreith i graffu ar yr adroddiadau hynny. Rydym wedi cyflwyno'r gwelliannau hyn er budd tryloywder, fel y gallwn weld a yw'r cynllun yn cael ei weithredu'n llwyddiannus. Nid ydynt yn newidiadau cymhleth ac nid ydynt yn ddadleuol, felly rwy'n gobeithio y bydd pob ochr i'r Siambra yn gallu eu cefnogi.

17:07 **Kirsty Williams** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

For the record, the Welsh Liberal Democrats will support the amendments put forward this afternoon by Darren Millar, for the reasons that he has outlined, to ensure that there is oversight and that, when we pass regulations and laws in the Assembly, there is a timely review as to whether they are effective and that they are putting into effect the stated intention of the Assembly when we pass them.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Er mwyn i bawb gael gwybod, bydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru yn cefnogi'r gwelliannau a gyflwynwyd y prynhawn yma gan Darren Millar, am y rhesymau y mae wedi eu hamlinellu, er mwyn sicrhau bod goruchwyliaeth a, pan fyddwn yn pasio rheoliadau a deddfau yn y Cynulliad, bod adolygiad amserol ynghylch a ydynt yn effeithiol a'u bod yn cyflawni bwriad datganedig y Cynulliad pan fyddwn yn eu pasio.

Lesley Griffiths [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The Bill currently requires the Food Standards Agency to undertake a review of the implementation and operation of the scheme at the end of the period of one year after the scheme commences and each subsequent period of three years. As currently drafted, the Bill requires these reports to be sent to the Welsh Ministers. The initial review carried out 12 months after the Act comes into effect will identify any settling-in problems. Subsequent reviews at three-year periods will allow sufficient time for less-apparent problems to be identified and resolved. I considered this to be a balanced and proportionate approach to reviewing the operation of the scheme.

Amendment 15 would require the Food Standards Agency to undertake a full review of the operation of the scheme every 12 months. I consider that it would be better for the FSA to focus initially on the consistent implementation and application of the scheme. The FSA can then focus its resources on any changes found necessary as a result of the initial 12-month review, rather than be required to carry out further full reviews in such a time-constrained manner. However, I recognise the intention behind this amendment and I will write to the chairman of the FSA to request that a statement is included on the implementation of the food hygiene rating scheme in Wales in the FSA's existing annual report of activities and performance, which is laid before the National Assembly for Wales.

Amendments 16, 17, 18 and 19 will require FSA reports to be laid before the National Assembly for Wales. I can see the merit of these amendments and appreciate that Members will have a high level of interest in the implementation and operation of the food hygiene rating scheme. The Government will, therefore, be supporting amendments 16, 17, 18 and 19 in this group.

On the basis of my commitment to write to Lord Rooker, the chairman of the FSA, I ask Members not to support amendment 15, and encourage Members to support amendments 16, 17, 18 and 19 to enable the reports to be laid before the Assembly.

Darren Millar [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I am pleased to hear that the Minister supports the principles behind these amendments and that the Welsh Government will be supporting amendments 16, 17, 18 and 19.

Having heard the explanation why the Welsh Government will not be supporting amendment 15 and that, instead, the Minister has indicated that she will write to the chair of the FSA asking for a statement to be made available in its existing annual reporting cycle, which is laid before the Assembly, I am happy to withdraw amendment 15 in my name.

Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you. Amendment 15 is withdrawn.

Tynnwyd gwelliant 15 yn ôl gyda chaniatâd y Cynulliad.

Mae'r Bil ar hyn o bryd yn gofyn i'r Asiantaeth Safonau Bwyd gynnal adolygiad o weithredu a gweithrediad y cynllun ar ddiwedd y cyfnod o un flwyddyn ar ôl i'r cynllun ddechrau a phob cyfnod dilynol o dair blynedd. Fel y'i drafftiwyd ar hyn o bryd, mae'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i'r adroddiadau hyn gael eu hanfon at Weinidogion Cymru. Bydd yr adolygiad cychwynnol a gynhalwyd 12 mis ar ôl i'r Ddeddf ddod i rym yn nodi unrhyw broblemau ymsefydlu. Bydd adolygiadau dilynol bob tair blynedd yn caniatâu digon o amser i broblemau llai amlwg gael eu nodi a'u datrys. Rwyf o'r farn bod hwn yn ddull cytbwys a chymesur o adolygu gweithrediad y cynllun.

Byddai Gwelliant 15 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Asiantaeth Safonau Bwyd gynnal adolygiad llawn o weithrediad y cynllun bob 12 mis. Rwyf o'r farn y byddai'n well i'r ASB ganolbwytio i ddechrau ar weithredu a defnydd cyson y cynllun. Gall yr ASB wedyn ganolbwytio ei hadnoddau ar unrhyw newidiadau a welwyd oedd yn angenrheidiol o ganlyniad i'r adolygiad 12 mis cychwynnol, yn hytrach na'i bod yn ofynnol iddi gynnal adolygiadau pellach llawn mewn modd cyfyng o ran amser. Fodd bynnag, rwy'n cydnabod y bwriad wrth wraidd y gwelliant, a byddaf yn ysgrifennu at gadeirydd yr ASB i ofyn bod datganiad yn cael ei gynnwys ar weithrediad y cynllun sgôr hylendid bwyd yng Nghymru yn adroddiad blynnyddol presennol yr ASB o weithgareddau a pherfformiad, a osodir gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Bydd Gwelliannau 16, 17, 18 a 19 yn mynnu bod adroddiadau ASB yn cael eu gosod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Gallaf weld rhinwedd y diwygiadau hyn ac rwy'n gwerthfawrogi y bydd Aelodau yn cael lefel uchel o ddiddordeb yng ngweithredu a gweithrediad y cynllun sgôr hylendid bwyd. Bydd y Llywodraeth, felly, yn cefnogi gwelliannau 16, 17, 18 a 19 yn y grŵp hwn.

Ar sail fy ymrwymiad i ysgrifennu at yr Arglwydd Rooker, cadeirydd yr ASB, gofynnaf i'r Aelodau beidio â chefnogi gwelliant 15, ac rwy'n annog Aelodau i gefnogi gwelliannau 16, 17, 18 a 19 i alluogi'r adroddiadau i gael eu gosod gerbron y Cynulliad .

Rwy'n falch o glywed bod y Gweinidog yn cefnogi'r egwyddorion y tu ôl i'r newidiadau ac y bydd Llywodraeth Cymru yn cefnogi gwelliannau 16, 17, 18 a 19.

Ar ôl clywed yr esboniad pam na fydd Llywodraeth Cymru'n cefnogi gwelliant 15 ac yn lle hynny, mae'r Gweinidog wedi dweud y bydd yn ysgrifennu at gadeirydd yr ASB yn gofyn i ddatganiad fod ar gael yn ei chylch adrodd blynnyddol presennol, a osodir gerbron y Cynulliad, rwy'n hapus i dynnu gwelliant 15 yn fy enw i yn ôl.

Diolch. Mae gwelliant 15 yn cael ei dynnu'n ôl.

Amendment 15 withdrawn by leave of the Assembly.

17:10	Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography	I invite Darren Millar to move amendment 16.	Rwy'n gwahodd Darren Millar i gynnig gwelliant 16.	Senedd.tv Fideo Video
17:10	Darren Millar Bywgraffiad Biography	I move amendment 16 in my name.	Cynigiaf welliant 16 yn fy enw.	Senedd.tv Fideo Video
17:10	Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography	The question is that amendment 16 be agreed to. Does any Member object? I see that there is no objection. Therefore, amendment 16 is agreed in accordance with Standing Order No. 12.36.	Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 16. A oes unrhyw Aelod yn gwrrhwynebu? Gwelaf nad oes gwrrhwynebiad. Felly, caiff gwelliant 16 ei dderbyn yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 12.36.	Senedd.tv Fideo Video
		<i>Derbyniwyd gwelliant 16.</i>	<i>Amendment 16 agreed.</i>	
	Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography	I invite Darren Millar to move amendment 17.	Rwy'n gwahodd Darren Millar i gynnig gwelliant 17.	
17:10	Darren Millar Bywgraffiad Biography	I move amendment 17 in my name.	Cynigiaf welliant 17 yn fy enw.	Senedd.tv Fideo Video
17:10	Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography	The question is that amendment 17 be agreed to. Does any Member object? I see that there is no objection. Therefore, amendment 17 is agreed in accordance with Standing Order No. 12.36.	Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 17. A oes unrhyw Aelod yn gwrrhwynebu? Gwelaf nad oes gwrrhwynebiad. Felly, caiff gwelliant 17 ei dderbyn yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.	Senedd.tv Fideo Video
		<i>Derbyniwyd gwelliant 17.</i>	<i>Amendment 17 agreed.</i>	
	Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography	I invite Darren Millar to move amendment 18.	Rwy'n gwahodd Darren Millar i gynnig gwelliant 18.	
17:11	Darren Millar Bywgraffiad Biography	I move amendment 18 in my name.	Cynigiaf welliant 18 yn fy enw.	Senedd.tv Fideo Video
17:11	Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography	The question is that amendment 18 be agreed to. Does any Member object? I see that there is no objection. Therefore, amendment 18 is agreed in accordance with Standing Order No. 12.36.	Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 18. A oes unrhyw Aelod yn gwrrhwynebu? Gwelaf nad oes gwrrhwynebiad. Felly, caiff gwelliant 18 ei dderbyn yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 12.36.	Senedd.tv Fideo Video
		<i>Derbyniwyd gwelliant 18.</i>	<i>Amendment 18 agreed.</i>	
17:11	Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography	I invite Darren Millar to move amendment 19.	Rwy'n gwahodd Darren Millar i gynnig gwelliant 19.	Senedd.tv Fideo Video
17:11	Darren Millar Bywgraffiad Biography	I move amendment 19 in my name.	Cynigiaf welliant 19 yn fy enw.	Senedd.tv Fideo Video
17:11	Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography	The question is that amendment 19 be agreed to. Does any Member object? I see that there is no objection. Therefore, amendment 19 is agreed in accordance with Standing Order No. 12.36.	Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 19. A oes unrhyw Aelod yn gwrrhwynebu? Gwelaf nad oes gwrrhwynebiad. Felly, caiff gwelliant 19 ei dderbyn, yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 12.36.	Senedd.tv Fideo Video

Derbyniwyd gwelliant 19.

Amendment 19 agreed.

Grŵp 6: Y Defnydd o Dderbyniadau Cosb Benodedig (Gwelliant 6)

Group 6: Use of Fixed Penalty Receipts (Amendment 6)

17:11

Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The lead and only amendment in this group is amendment 6. I call on the Minister for Health and Social Services to move and speak to amendment 6.

Y prif welliant a'r unig un yn y grŵp hwn yw gwelliant 6. Galwaf ar y Gweinidog lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i gynnig a siarad am welliant 6.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

17:11

Lesley Griffiths [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I move amendment 6 in my name.

Cynigiaf welliant 6 yn fy enw.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

It is my intention to use the receipts received from fixed penalties for the purpose of improving food hygiene in Wales. Section 21(2) of the Bill as currently drafted requires receipts to be paid directly to Welsh Ministers for the purpose of improving food hygiene in Wales. However, I have been advised that this procedure would be outside the Assembly's normal financial processes. Therefore, amendment 6 is required on a procedural basis. It removes the sub-section and will require receipts to be paid to the Welsh consolidated fund. This money can then be recycled and used to improve food hygiene in Wales. I ask you to support this amendment.

Fy mwriad yw defnyddio'r arian a geir o gosbau penodedig er mwyn gwella hylendid bwyd yng Nghymru. Mae Adran 21 (2) y Bil fel y'i drafftiwyd ar hyn o bryd yn ei gwneud yn ofynnol i dderbynebau gael eu talu'n uniongyrchol i Weinidogion Cymru i'r diben o wella hylendid bwyd yng Nghymru. Fodd bynnag, rwyf wedi cael fy nghyngħori y byddai'r weithdrefn hon y tu allan i brosesau ariannol arferol y Cynulliad. Felly, mae gwelliant 6 yn ofynnol ar sail trefniadol. Mae'n dileu'r is-adran a bydd yn mynnu bod derbynebau yn cael eu talu i gronfa gyfunol Cymru. Gellir wedyn ailgylchu a defnyddio'r arian hwn i wella hylendid bwyd yng Nghymru. Rwy'n gofyn i chi gefnogi'r gwelliant hwn.

17:12

Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I see that there are no other Members who wish to speak. Minister, you do not therefore need to reply to the debate.

Gwelaf nad oes yr un Aelod arall sy'n dymuno siarad. Weinidog, nid oes angen felly i ymateb i'r ddadl.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

The question is that amendment 6 be agreed to. Does any Member object? I see that there is no objection. Therefore, amendment 6 is agreed in accordance with Standing Order No. 12.36.

Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 6. A oes unrhyw Aelod yn gwrrthwynebu? Gwelaf nad oes gwrrthwynebiad. Felly, caiff gwelliant 6 ei dderbyn yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 12.36.

Derbyniwyd gwelliant 6.

Amendment 6 agreed.

Grŵp 7: Diwygio Cyfnodau i Gydymffurfio â Dyletswyddau (Gwelliant 20)

Group 7: Amending Periods for Complying with Duties (Amendment 20)

17:12

Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The lead and only amendment in this group is amendment 20. I call on Darren Millar to move and speak to that amendment.

Y prif welliant a'r unig un yn y grŵp hwn yw gwelliant 20. Galwaf ar Darren Millar i gynnig a siarad am y gwelliant hwnnw.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

17:13

Darren Millar [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I move amendment 20 in my name.

Cynigiaf welliant 20 yn fy enw.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

The current drafting on the Bill means that Welsh Ministers can amend the timescales for complying with duties in the Bill to a 'different period'. This could potentially allow Ministers to extend time periods for compliance, which would, in practice, relax the duties contained within the Bill on food business establishments and on the FSA or Ministers.

The duties that we are creating today are being created for a reason; that is to improve food hygiene and to ensure that customers get the information about the food business establishment that they might consider using. I do not agree with giving Ministers the powers to simply relax these duties at some point in the future, as I think that it would weaken the effect of the legislation. It is our opinion on these benches that the timescales that have been set in the drafting of the Bill as it stands should be the maximum permitted and that Ministers should only have the power to make the timescales shorter. That would, in effect, tighten the duties contained in the Bill.

In addition, the Bill in its current form allows Ministers to change the timescales for compliance a number of times through regulations. This could, of course, be confusing to food business establishments that could find themselves outside the law, simply due to a timescale change, which may not have been easily communicated to them. Therefore, changes to the timescales should not happen on a regular basis for a very good reason. However, our amendment makes it clear that timescales could only ever be made shorter and the enforcement of duties should only ever be tightened.

I urge all Members in the Chamber today to consider how these changes could be implemented in the future and to support our amendment, which would send a clear message that the measures on the face of this Bill are here to stay and not to be relaxed at any point in the future.

17:15

Kirsty Williams [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Again, Presiding Officer, we get to the thorny question of what is appropriate to put on the face of the Bill and what is appropriate to leave to regulation. Given the importance of this legislation, on balance, the Welsh Liberal Democrats believe that it is appropriate that there should be some certainty around this. Despite the assurances given by this Minister, we are making legislation not just for this Minister, but for years to come, and other Ministers might not have the same intentions as the current one, or, indeed, other Governments might not. We believe that this is of such importance that it should be necessary to bring forward amending legislation, and not simply regulations, to change these timetables. On balance, we believe that we should support the amendment put forward today.

Mae'r gwaith drafftio presennol ar y Bil yn golygu y gall Gweinidogion Cymru ddiwygio'r amserlenni ar gyfer cydymffurfio â dyletswyddau yn y Bil i 'gyfnod gwahanol'. Gallai hyn o bosibl ganiatâu i Weinidogion ymestyn cyfnodau amser ar gyfer cydymffurfio, a fyddai, yn ymarferol, yn ymlacio'r dyletswyddau sydd yn y Bil ar sefydliadau busnes bwyd ac ar yr ASB neu Weinidogion.

Mae'r dyletswyddau yr ydym yn eu creu heddiw yn cael eu creu am reswm, hynny yw gwella hyllendid bwyd a sicrhau bod cwsmeriaid yn cael y wybodaeth am y sefydliad busnes bwyd y gallent ystyried ei ddefnyddio effalai. Nid wyf yn cytuno â rhoi pwerau i Weinidogion i wneud dim ond ymlacio'r dyletswyddau hyn ar ryw adeg yn y dyfodol, gan y credaf y byddai'n gwanhau effaith y ddeddfwriaeth. Ein barn ni ar y meinciau hyn yw mai'r amserlenni sydd wedi eu gosod yn y gwaith o ddrafftio'r Bil fel y mae yw'r hiraf a ganiateir ac mai dim ond per i wneud yr amserlenni'n fyrrach ddylai fod gan Weinidogion. Byddai hynny, mewn gwirionedd, yn tynhau'r dyletswyddau a geir yn y Bil.

Yn ogystal, mae'r Bil yn ei ffurf bresennol yn caniatâu i Weinidogion newid yr amserlenni ar gyfer cydymffurfio nifer o weithiau drwy reoliadau. Gallai hyn, wrth gwrs, fod yn ddrlyslyd i sefydliadau busnes bwyd a allai eu cael eu hunain y tu allan i'r gyfraith, yn syml oherwydd newid amserlen, nad yw wedi ei gyfleo'n rhwydd iddynt effalai. Felly, ni ddylai newidiadau i'r amserlenni ddigwydd yn rheolaidd am reswm da iawn. Fodd bynnag, mae ein gwelliant yn ei gwneud yn glir na ellir ond gwneud amserlenni yn fyrrach ac mai dim ond tynhau gorfodi dyletswyddau ddylid ei wneud byth.

Rwy'n annog yr holl Aelodau yn y Siambwr heddiw i ystyried sut y gallai'r newidiadau hyn gael eu gweithredu yn y dyfodol ac i gefnogi ein gwelliant, a fyddai'n anfon neges glir bod y mesurau ar wyneb y Bil hwn yma i aros ac nad ydynt i gael eu llacio ar unrhyw adeg yn y dyfodol.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Unwaith eto, Lywydd, rydym yn dod at y cwestiwn dyrys o beth sy'n briodol i'w roi ar y wyneb y Bil a beth sy'n briodol i'w adael i reoleiddio. O ystyried pwysigrwydd y ddeddfwriaeth hon, ar y cyfan, mae Democratiaid Rhyddfrydol Cymru yn credu ei bod yn briodol y dylai fod rhywfaint o sicrwydd yngylch hyn. Er gwaethaf y sicrwydd a roddwyd gan y Gweinidog hwn, rydym yn gwneud ddeddfwriaeth nid yn unig ar gyfer y Gweinidog hwn, ond am flynyddoedd i ddod, ac effalai na fydd Gweinidogion eraill â bwriadau'r un fath â'r un presennol, neu, yn wir, effalai na fydd Llywodraethau eraill â'r un bwriadau. Rydym yn credu bod hyn mor bwysig fel y dylai fod yn angenrheidiol i gyflwyno ddeddfwriaeth ddiwygio, ac nid dim ond rheoliadau, i newid yr amserlenni. Ar y cyfan, credwn y dylem gefnogi'r gwelliant a gyflwynwyd heddiw.

17:16

Lesley Griffiths [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I consider amendment 20 to be unduly restrictive. Section 23 futureproofs the Bill by giving Welsh Ministers the power to change the period within which something must be done under the Bill. It is impossible to know in advance all of the circumstances in which Welsh Ministers may seek to use this power. If all goes well with the operation of the new statutory scheme, the power may well be used more frequently to shorten timescales. However, it is vital to retain the flexibility currently provided by section 23, so that timescales can also be extended if there is a good reason for doing so. For example, regulations are likely to be introduced under section 6(3) to require the publication of food hygiene inspection reports alongside the food hygiene ratings. The Bill currently requires that these would have to be published by the FSA within seven days of their receipt. Members may recall that, as originally drafted, the Bill provided the agency with 28 days to publish the rating alone. That was shortened, with the agreement of the agency, to seven days at Stage 2. If, in the light of operational experience, it became apparent that the additional burden of publishing large numbers of inspection reports prevented the agency from reasonably achieving this timescale, I would like Welsh Ministers to have the discretion to amend the time allowed, if they saw fit to do so.

If this amendment were agreed, the only way that a timescale specified on the face of the Bill could be extended would be by means of an amending Bill. It is also important to bear in mind that section 25(4) of the Bill ensures that any regulations that Welsh Ministers wish to make under section 23 will be subject to the affirmative procedure. I wish for Welsh Ministers to retain this flexibility and ask you not to support this amendment for the reasons that I have given.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

Rwy'n ystyried diwygiad 20 i fod yn rhy gyfyngol. Mae adran 23 yn diogelu'r Bil i'r dyfodol drwy roi i Weinidogion Cymru y pŵer i newid y cyfnod y mae'n rhaid gwneud rhywbeth o dan y Bil. Mae'n amhosibl gwybod ymlaen llaw yr holl amgylchiadau lle y gall Gweinidogion Cymru geisio defnyddio'r pŵer hwn. Os bydd popeth yn mynd yn dda gyda gweithrediad y cynllun statudol newydd, efallai y bydd y pŵer yn cael ei ddefnyddio'n fwy aml i gwtogi amserlenni. Fodd bynnag, mae'n hanfodol cadw'r hyblygrwydd a ddarperir ar hyn o bryd gan adran 23, fel y gall amserlenni hefyd gael eu hymestyn os oes rheswm da dros wneud hynny. Er enghraift, mae rheoliadau yn debygol o gael eu cyflwyno o dan adran 6 (3) i'w gwneud yn ofynnol cyhoeddi adroddiadau arolygu hylendid bwyd ochr yn ochr â'r sgoriau hylendid bwyd. Mae'r Bil ar hyn o bryd yn ei gwneud yn ofynnol y byddai'n rhaid i'r rhain gael eu cyhoeddi gan yr ASB o fewn saith diwrnod i'w derbyn. Efallai y bydd aelodau'n cofio, fel y'i drafftwyd yn wreiddiol, bod y Bil yn rhoi 28 diwrnod i'r asiantaeth i gyhoeddi'r sgôr yn unig. Cafodd hynny ei gwtogi, gyda chytundeb yr asiantaeth, i saith diwrnod yng Nghyfnod 2. Os, yng ngoleuni profiad gweithredol, y byddai'n dod yn amlwg bod y baich ychwanegol o gyhoeddi nifer fawr o adroddiadau arolygu yn atal yr asiantaeth rhag cyflawni'r amserlen hon yn rhesymol, hoffwn i Weinidogion Cymru gael y disgrifiwn i newid yr amser a ganiateir, os ydynt yn gweld yn dda i wneud hynny.

Os caiff y gwelliant hwn ei dderbyn, yr unig ffordd y gellid ymestyn amserlen a bennwyd ar wyneb y Bil fyddai trwy gyfrwng Bil diwygio. Mae hefyd yn bwysig cadw mewn cof bod adran 25 (4) y Bil yn sicrhau y bydd unrhyw reoliadau y mae Gweinidogion Cymru yn dymuno eu gwneud o dan adran 23 yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol. Rwy'n dymuno i Weinidogion Cymru gadw'r hyblygrwydd hwn ac rwy'n gofyn i chi beidio â chefnogi'r gwelliant hwn am y rhesymau yr wyf wedi'u rhoi.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

17:17

Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I call Darren Millar to reply.

Rwy'n galw ar Darren Millar i ymateb.

17:17

Darren Millar [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I am disappointed that the Government will not support this amendment. While I completely accept that the Minister does not have any intention to extend the timescales within which those organisations and individuals set out on the face of the Bill would be expected to comply with their duties, it sends absolutely the wrong message to food business establishments, the FSA and others to tell them or offer them the possibility that, if they are struggling at some point in the future, there is always the possibility that the timescales will be watered down. That is absolutely the wrong message for the National Assembly to send today and, therefore, we will move this amendment to a vote. I encourage every single Member in the Chamber to reflect on the message that it would send if the opportunity to extend the timescales were left in the Bill.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

Rwy'n siomedig na fydd y Llywodraeth yn cefnogi'r gwelliant hwn. Er fy mod yn derbyn yn llwyr nad oes gan y Gweinidog unrhyw fwriad i ymestyn y terfynau amser lle byddai disgwyl i'r sefydliadau a'r unigolion a nodir ar wyneb y Bil gydymffurfio â'u dyletswyddau, mae'n anfon y neges hollol anghywir i sefydliadau busnes bwyd, yr ASB ac eraill i ddweud wrthyn nhw neu gynnig iddynt y posibilrwydd, os ydynt yn cael trafferth ar ryw adeg yn y dyfodol, bod posibilrwydd bob amser y bydd yr amserlen yn cael ei gwanhau. Dyna'r neges hollol anghywir i'r Cynulliad Cenedlaethol ei hanfon heddiw ac, felly, byddwn yn cynnig y gwelliant hwn i bleidlais. Rwy'n annog pob Aelod yn y Siambri i fyfyrion ar y neges y byddai'n ei hanfon os yw'r cyfreith i ymestyn yr amserlenni yn cael ei adael yn y Bil.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

17:18

Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

We already have objections to amendment 20, so we will move straight to an electronic vote.

Mae gennym eisoes wrthwynebiad i welliant 20, felly symudwn yn syth i bleidlais electronig.

[Canlyniad y bleidlais ar welliant 20](#)

Gwrthodwyd gwelliant 20: O blaid 26, Yn erbyn 26, Ymatal 0.

Gan fod nifer y pleidleisiau yn gyfartal, defnyddiodd y Llywydd ei phleidlais fwrw yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 6.20(ii).

[Result of the vote on amendment 20](#)

Amendment 20 not agreed: For 26, Against 26, Abstain 0.

As there was an equality of votes, the Presiding Officer used her casting vote in accordance with Standing Order No. 6.20(ii).

17:19

Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

We now move to dispose of amendments 7 and 8. I invite the Minister for Health and Social Services to move amendment 7.

Symudwn yn awr at waredu gwelliannau 7 ac 8. Ryw'n gwahodd y Gweinidog lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i gynnig gwelliant 7.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

17:20

Lesley Griffiths [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I move amendment 7 in my name.

Cynigiaf welliant 7 yn fy enw.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

17:20

Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The question is that amendment 7 be agreed to. Does any Member object? I see that there are no objections. Therefore, amendment 7 is agreed to, in accordance with Standing Order No. 12.36.

Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 7. A oes unrhyw Aelod yn gwrrhwynebu? Gwelaf nad oes unrhyw wrthwynebiad. Felly, caiff gwelliant 7 ei dderbyn, yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 12.36.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

Derbyniwyd gwelliant 7.

Amendment 7 agreed.

17:20

Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I invite the Minister to move amendment 8.

Rwy'n gwahodd y Gweinidog i gynnig gwelliant 8.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

17:20

Lesley Griffiths [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I move amendment 8 in my name.

Cynigiaf welliant 8 yn fy enw.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

17:20

Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The question is that amendment 8 be agreed to. Does any Member object? I see that there are no objections. Therefore, amendment 8 is agreed to, in accordance with Standing Order No. 12.36.

Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 8. A oes unrhyw Aelod yn gwrrhwynebu? Gwelaf nad oes unrhyw wrthwynebiad. Felly, caiff gwelliant 8 ei dderbyn, yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 12.36.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

Derbyniwyd gwelliant 8.

Amendment 8 agreed.

17:20

Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

We have now reached the end of Stage 3 consideration of the Food Hygiene Rating (Wales) Bill. I declare that all sections and Schedules of the Bill are deemed agreed. That concludes Stage 3 proceedings.

Rydym bellach wedi cyrraedd diwedd ystyriaeth Cyfnod 3 o Fil Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru). Rwy'n datgan bod pob adran ac Atodlen o'r Bil wedi cael eu derbyn. Dyna ddiwedd trafodion Cyfnod 3.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

Cynnig Cyfnod 4 o dan Reol Sefydlog Rhif 26.47 i Gymeradwyo'r Bil Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru)

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 26.47, yn cymeradwyo'r Bil Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru) (Cymru).

Stage 4 Standing Order No. 26.47 Motion to Approve the Food Hygiene Rating (Wales) Bill

Cynnig
Motion

The National Assembly for Wales, in accordance with Standing Order No. 26.47, approves the Food Hygiene Rating (Wales) Bill.

17:20

Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I call the Minister for Health and Social Services to move the motion.

Galwaf ar y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i gynnig y cynnig.

17:20

Lesley Griffiths [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol / The Minister for Health and Social Services

I move the motion.
Cynigiaf y cynnig.

Throughout its passage, the Bill has been subject to thorough scrutiny, particularly during committee stage and again here today, during Plenary. I thank everyone who has contributed to the development of this Bill: the Food Standards Agency and local government in Wales, whose support has been so valuable in progressing this important Bill, and members of the Health and Social Care Committee and the Constitutional and Legislative Affairs Committee, for their careful consideration and scrutiny of the Bill. I am also grateful to those who provided evidence during Stage 1 committee sessions. This has contributed to the shaping of a Bill that I believe will benefit consumers and will contribute to the improvement of food hygiene standards across Wales. I also thank my team of officials and the senior responsible officer for their work and support. At each stage, I have listened and given full consideration to the recommendations and suggestions made by each of the committees and by individual Members. As a result, I brought forward a number of amendments to improve and refine the Bill. The intention of the Bill has always been to ensure that consumers are provided with information on the food hygiene standards of food businesses in Wales. This will enable consumers to make better-informed choices about where they eat or shop for food, and it will drive up the food hygiene standards of individual food businesses across Wales. It has been a great privilege for me to steer this, the first Bill in my portfolio, through the Assembly. I look forward to the next steps, particularly bringing forward the relevant commencement Orders, regulations and statutory guidance. I thank Members for their support, and I ask them to approve the Bill.

Drwy gydol ei daith, mae'r Bil wedi bod yn destun craffu trylwyr, yn enwedig yn ystod cyfnod pwylgor ac unwaith eto yma heddiw, yn ystod y Cyfarfod Llawn. Diolch i bawb sydd wedi cyfrannu at ddatblygiad y Bil: Asiantaeth Safonau Bwyd a llywodraeth leol yng Nghymru, y mae eu cefnogaeth wedi bod mor werthfawr wrth fwrw ymlaen â'r Bil pwysig, ac aelodau o'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol a'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, am eu hystyriaeth ofalus a'u craffu ar y Bil. Rwyf hefyd yn ddiolchgar i'r rheini a roddodd dystiolaeth yn ystod sesiynau pwylgor Cyfnod 1. Mae hyn wedi cyfrannu at lunio Bil yr wyf yn credu fydd o fudd i ddefnyddwyr ac a fydd yn cyfrannu at wella safonau hylendid bwyd ar draws Cymru. Diolchaf hefyd i fy nhîm o swyddogion a'r uwch swyddog cyfrifol am eu gwaith a'u cefnogaeth. Ar bob cam, rwyf wedi gwrandu ac wedi rhoi hystyriaeth lawn i'r argymhellion a'r awgrymiadau a wnaed gan bob un o'r pwylgorau ac Aelodau unigol. O ganlyniad, dygywyd ymlaen gennyl nifer o ddiwygiadau i wella a mireinio'r Bil. Bwriad y Bil bob amser oedd sicrhau bod defnyddwyr yn cael gwybodaeth am safonau hylendid bwyd busnesau bwyd yng Nghymru. Bydd hyn yn galluogi defnyddwyr i wneud gwell dewisiadau gwybodus am ble maent yn bwytu neu'n siopa am fwyd, a bydd yn gwella safonau hylendid bwyd busnesau bwyd unigol ledled Cymru. Mae wedi bod yn faint fawr i mi i lywio hwn, y Bil cyntaf yn fy mhorthffolio, drwy'r Cynulliad. Rwy'n edrych ymlaen at y camau nesaf, yn arbennig cyflwyno'r Gorchmynion cychwyn, y rheoliadau a'r canllawiau statudol perthnasol. Diolch i'r Aelodau am eu cefnogaeth, a gofynnaf iddynt gymeradwyo'r Bil.

Darren Millar [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

This is an important day for food hygiene in Wales. We have to remember where we have come from as a National Assembly. A number of years ago—people have alluded to this fact already—we had a significant outbreak in south Wales, in 2005, with over 150 people affected. There was the tragic loss of a life—that of Mason Jones. We owe it to him today to ensure that we improve food hygiene standards here in Wales and ensure that individuals who are consuming food and purchasing from food business establishments have the opportunity to compare and contrast the ratings of one food establishment with another. I also pay tribute to the work of Consumer Focus Wales, which has been very much at the forefront of the campaign for this ‘scores on the doors’ system to become mandatory in Wales. I am delighted that this legislation has received all-party support in moving forward. The Minister will recall that it was back in 2009 that the then health spokesperson for the Welsh Conservatives, Andrew R.T. Davies, called for a mandatory system. We are very pleased to work with the Government to deliver just that. Finally, there is one other person to whom we should put our thanks on the record today, and that is Professor Hugh Pennington. He undertook an inquiry into the 2005 outbreak and made some very specific recommendations. He has also championed the need for a mandatory ‘scores on the doors’ system. With that, despite a number of our amendments failing to be agreed today, we support this legislation wholeheartedly, and we hope to see it through to its implementation on the ground.

Mae hwn yn ddiwrnod pwysig i hylendid bwyd yng Nghymru. Mae'n rhaid i ni gofio o lle'r ydym wedi dod fel Cynulliad Cenedlaethol. Nifer o flynyddoedd yn ôl-mae pobl wedi cyfeirio at y ffraith hon yn barod-cawsom achosion sylweddol yn ne Cymru, yn 2005, gyda dros 150 o bobl wedi eu heffeithio. Roedd colled bywyd trasig-sef Mason Jones. Er ei fwyn ef heddiw mae'n rheidrwydd arnom i sicrhau ein bod yn gwella safonau hylendid bwyd yma yng Nghymru a sicrhau bod unigolion sydd yn bwyta bwyd a phrynu o sefydliadau busnes bwyd yn cael y cyfle i gymharu a chyferbynnau sgoriau un sefydliad bwyd ag un arall. Talaf deyrnsged hefyd i waith Llais Defnyddwyr Cymru, sydd wedi bod ar flaen y gad yn yr ymgyrch i'r system 'sgoriau ar y drysau' i ddod yn orfodol yng Nghymru. Rwyf wrth fy modd bod y ddeddfwriaeth wedi derbyn cefnogaeth pob plaid wrth symud ymlaen. Bydd y Gweinidog yn cofio yn ôl yn 2009 fod y llefarydd iechyd bryd hynny ar gyfer y Ceidwadwyr Cymreig, Andrew R.T. Davies, wedi galw am system orfodol. Rydym yn falch iawn i weithio gyda'r Llywodraeth i gyflwyno hynny. Yn olaf, mae un person arall y dylem roi ein diolch ar goedd iddo heddiw, sef yr Athro Hugh Pennington. Cynhaliodd ymchwiliad i'r achosion yn 2005 a gwnaeth rai argymhellion penodol iawn. Mae hefyd wedi hyrwyddo'r angen am system orfodol 'sgoriau ar y drysau'. Gyda hynny, er gwaethaf nifer o'n gwelliannau yn methu â chael eu derbyn heddiw, rydym yn cefnogi'r ddeddfwriaeth hon yn llwyr, ac rydym yn gobeithio ei gweld yn cael ei gweithredu ar lawr gwlaid.

Elin Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Rwyf hefyd yn falch o gefnogi'r ddeddfwriaeth hon y prynhawn yma, fel bod pob sgôr hylendid bwyd ar gael i'w gweld gan y cyhoedd. Ni fydd pasio'r ddeddfwriaeth hon yn gosod byrdwn ychwanegol mawr ar fusnesau. Dim ond arddangos sticer neu ateb cais dros y ffôn am y sgôr hylendid a fydd yn rhaid iddynt ei wneud.

I am pleased to support this legislation this afternoon, so that every food hygiene score is available to be viewed by the public. Passing this legislation this afternoon will not place a huge additional burden on business. They will only have to display a sticker or respond to a request over the phone for the hygiene score.

Fodd bynnag, bydd yn dipyn o sioc i'r system—sioc i'r cyhoedd a sioc i rai busnesau o bosibl hefyd, gan fod canran weddol uchel o fusnesau nad ydynt yn arddangos eu sgôr o hyd. Dyna pam rydym yn pasio'r ddeddfwriaeth hon, wrth gwrs. Bydd yn newid eithaf sylweddol i weld y sticer hyn yn ymddangos ym mhob busnes bwyd. Rwyf wedi cyfeirio, er enghraifft, at y gwaith ymchwil a wnaethpwyd gan fyrfyrwr yn Aberystwyth i fi dros yr haf diwethaf. Nad oedd 60% o'r 80 o fusnesau yno yn arddangos sticer, gan gynnwys nifer oedd â sgôr eithaf uchel. Felly, rwyf yn gobeithio bydd y newid hwn yn annog busnesau i wella eu safonau hylendid bwyd yn eu ceginau ac i gynyddu eu sgôr maes o law. Mae'r Gweinidog wedi'i ddweud wrth y pwyllogor nad oes rheswm pam na all pob busnes bwyd gyrraedd sgôr o 5, felly dyna'r nod i'r Llywodraeth ac i ni yng Nghymru yn y dyfodol: gweld pob sefydliad bwyd yn arddangos sgôr o 5.

However, it will be quite a shock to the system—a shock for the public and possibly for some businesses too, because a relatively high percentage of businesses still do not display their food hygiene scores. That is why we are passing this legislation, of course. It will be quite a considerable change to see these stickers appearing in all food businesses. I have referred, for example, to the research work carried out on my behalf by a student in Aberystwyth last summer. Sixty per cent of the 80 businesses there did not display a sticker, including a number that had quite a high score. Therefore, I hope that this change will encourage businesses to improve food hygiene standards in their kitchens and to increase their score as a result. The Minister has informed the committee that there is no reason why every food establishment could not achieve a score of 5; therefore that is the aim for the Government and for us in Wales in future: to see every food establishment displaying a score of 5.

Kirsty Williams [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

This is an important piece of legislation and I congratulate the Minister for health on bringing it forward and on the work undertaken to date. While we, as opposition parties, have not all had our own way in amending the legislation, the process through which the Bill has been, both in committee and at Stage 3, means that we have been able to improve the original legislation and add to it. We will now be looking very carefully at the consultation on the regulations that will start in March to ensure that the regulations and the important powers that the Assembly will place in the hands of Welsh Ministers are used to best effect.

There are three very important aspects to this legislation. First is the principle at the forefront, which is that the public will be able to see very easily the hygiene ratings of establishments that they frequent and buy food from. They will no longer have to make a special effort to find them out. It will be easily available in front of them, whether in the shop itself or, hopefully, as a result of regulations, via a website or via a promotional piece of literature.

Secondly, it rewards businesses that have been doing the right thing by their customers. I was approached by a constituent, the now famous Mrs Lally of the Watergate Fish Bar—other very reputable fish and chip shops are available in the Brecon area—and Mrs Lally was very proud of her rating of 5 and she felt very cross that establishments not a million miles away had not scored as well and were keeping that fact from their customers. She was doing the right thing; she was making an effort and doing the right thing by her customers, and was very proud to display that sticker, but felt that her business was being put at a disadvantage because others were not being forced to do the same. If she can get it right, there is no excuse for anyone else not to be able to get it right either.

Thirdly, there is the issue of resources. We know that local authorities can find it difficult to carry out enforcement issues and licensing regimes because of a lack of resources. This Bill contains the important principle that local authorities will be able to re-charge businesses for going back and undertaking a repeat visit if the business wants to improve its rating. That should not fall to council tax payers and local taxpayers, but, quite rightly, to those businesses. It is a very important principle that has been set out in this Bill in that regard.

As I said, this is an important piece of legislation, and the Welsh Liberal Democrats are very happy to support it.

Mae hwn yn ddarn pwysig o ddeddfwriaeth a hoffwn longyfarch y Gweinidog iechyd am ei gyflwyno ac ar y gwaith a wnaed hyd yma. Er nad ydym ni, fel gwrtbleidiau, wedi cael ein ffordd ei hunain i gyd wrth ddiwygio'r ddeddfwriaeth, mae'r broses y mae'r Bil wedi bod drwyddi, yn y pwyllgor ac yng Nghyfnod 3, yn golygu ein bod wedi gallu gwella'r ddeddfwriaeth wreiddiol ac ychwanegu ati. Byddwn yn awr yn edrych yn ofalus iawn ar yr ymgyngoriad ar y rheoliadau a fydd yn dechrau ym mis Mawrth i sicrhau bod y rheoliadau a'r pwerau pwysig y bydd y Cynulliad yn eu rhoi yn nwylo Gweinidogion Cymru yn cael eu defnyddio yn y ffordd orau.

Mae tair agwedd bwysig iawn i'r ddeddfwriaeth hon. Yn gyntaf mae'r egwyddor yn y blaen, sef y bydd y cyhoedd yn gallu gweld yn hawdd iawn sgoriau hylendid sefydliadau bwyd y maent yn mynd iddynt a phrynu ohonynt. Ni fyddant bellach yn gorfol gwneud ymdrech arbennig i ddod o hyd iddynt. Bydd ar gael yn hawdd o'u blaenau, boed hynny yn y siop ei hun neu, gobeithio, o ganlyniad i reoliadau, trwy wefan neu drwy ddarn o lenyddiaeth hyrwyddo.

Yn ail, mae'n gwobrwyd busnesau sydd wedi bod yn gwneud y peth iawn i'w cwsmeriaid. Cysylltodd etholwr â fi, Mrs Lally, sydd bellach yn enwog, o'r Watergate Fish Bar—mae siopau pysgod a sglodion eraill ag enw da iawn ar gael yn ardal Aberhonddu-ac roedd Mrs Lally yn falch iawn o'i sgôr 5 ac roedd yn teimlo'n flin iawn bod sefydliadau heb fod yn bell iawn i ffwrdd nad oeddent wedi sgorio yn dda ac yn cadw'r ffaith honno rhag eu cwsmeriaid. Roedd hi'n gwneud y peth iawn; roedd hi'n gwneud ymdrech a gwneud y peth iawn i'w chwsmeriaid, ac yn falch iawn i arddangos y sticer, ond roedd yn teimlo bod ei busnes yn cael ei roi dan anfantais oherwydd nad oedd eraill yn cael eu gorfodi i wneud yr un fath. Os gall hi ei gael yn iawn, does dim esgus i unrhyw un arall fethu â'i gael yn iawn chwaith.

Yn drydydd, ceir mater adnoddau. Rydym yn gwybod y gall awdurdodau lleol ei chael yn anodd cyflawni materion gorfodi a threfniadau trwyddedu oherwydd diffyg adnoddau. Mae'r Bil yn cynnwys yr egwyddor bwysig y bydd awdurdodau lleol yn gallu ail godi tâl ar fusnesau am fynd yn ôl a chynnal ail ymweliad os yw'r busnes am wella ei sgôr. Ni ddylai hynny ddisgyn ar dalwyr y dreth gyngor a threthdalwyr lleol, ond, yn gwbl briodol, ar y busnesau hynny. Mae'n egwyddor bwysig iawn sydd wedi cael ei gosod yn y Bil hwn yn hynny o beth.

Fel y dywedais, mae hwn yn ddarn pwysig o ddeddfwriaeth, ac mae Democratiaid Rhyddfrydol Cymru yn hapus iawn i'w gefnogi.

Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I call the Minister to reply to the debate.

Galwaf ar y Gweinidog i ymateb i'r ddadl.

17:29

Lesley Griffiths [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol / The Minister for Health and Social Services

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I thank everyone for contributing to this debate. I would have been extremely disappointed if Kirsty Williams had not mentioned the famous Mrs Lally. I am grateful to everyone for the support that they have shown towards the Bill. It is an important piece of legislation that will protect the public health of the people of Wales. Again, I urge every Member to approve this Bill. Thank you.

Diolch i bawb am gyfrannu at y ddadl hon. Byddwn wedi bod yn hynod o siomedig pe na bai Kirsty Williams wedi sôn am y Mrs Lally enwog. Ryw'n ddiochgar i bawb am y gefnogaeth y maent wedi ei dangos i'r Bil. Mae'n ddarn pwysig o ddeddfwriaeth a fydd yn diogelu iechyd cyhoeddus pobl Cymru. Unwaith eto, anogaf bob Aelod i gymeradwyo'r Bil hwn. Diolch.

17:29

Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The question is that the Food Hygiene Rating (Wales) Bill be passed. Does any Member object? I see that there are no objections. Therefore, the Bill is passed in accordance with Standing Order No. 12.36. Congratulations, Minister.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Derbyniwyd y cynnig.

Daeth y Dirprwy Lywydd i'r Gadair am 5.30 p.m.

Motion agreed.

The Deputy Presiding Officer took the Chair at 5.30 p.m.

Adroddiad Blynnyddol y Comisiynydd Pobl Hŷn

Detholwyd y gwelliannau canlynol: gwelliannau 1, 2 a 3 yn enw Aled Roberts.

Cynnig NDM5141 Jane Hutt

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi adroddiad y Comisiynydd Pobl Hŷn ar gyfer 2011-12, y gosodwyd copi ohono yn y Swyddfa Gyflwyno ar 10 Ionawr 2013.

The Commissioner for Older People Annual Report

*The following amendments have been selected:
amendments 1, 2 and 3 in the name of Aled Roberts.*

Motion NDM5141 Jane Hutt

To propose that the National Assembly for Wales:

Notes the report of the Commissioner for Older People for 2011-12, a copy of which was laid in Table Office on 10th January 2013.

17:30

Gwenda Thomas [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Dirprwy Weinidog Plant a Gwasanaethau Cymdeithasol / The Deputy Minister for Children and Social Services

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Cynigiaf y cynnig.

I move the motion.

Pleser yw cael agor y ddadl hon ar bumed adroddiad blynnyddol Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru, ar gyfer 2011-12. Fe ddechreuodd y comisiynydd newydd, Sarah Rochira, ar ei swydd ym mis Mehefin 2012. Roedd y broses benodi yn un agored a thryloyw, gyda phobl hŷn yn rhan o'r broses o'r dechrau. Ryw'n falch o weld bod y comisiynydd wedi dechrau cynnal cyfres o gyfarfodydd teithiol er mwyn meithrin cysylltiad â mwy a mwy o bobl hŷn ym mhob rhan o'n cymdeithas ac ym mhob rhan o Gymru.

It is a pleasure to open this debate on the fifth annual report by the Commissioner for Older People in Wales, for 2011-12. The new commissioner, Sarah Rochira, started in post in June 2012. The appointment process was an open and transparent one, with older people being part of the process from the outset. I am pleased to see that the commissioner has started to hold a series of peripatetic meetings in order to nurture links with more and more older people in all parts of our society and in all parts of Wales.

Mae'r comisiynydd newydd wedi dechrau creu cysylltiadau positif â'r NHS, yr awdurdodau lleol, a darparwyr gwasanaethau eraill drwy Gymru, i sicrhau bod pobl hŷn yn cael y gwasanaethau a'r driniaeth y maent yn eu haeddu.

The new commissioner has started to make positive links with the NHS, the local authorities, and other service providers throughout Wales, in order to ensure that older people get the services and the treatment that they deserve.

I would continue by thanking public bodies and the independent and voluntary sectors whose staff have been exemplary in supporting older people during the recent adverse weather conditions in Wales.

Byddwn yn parhau drwy ddiolch i gyrrff cyhoeddus a'r sectorau annibynnol a gwirfoddol y mae eu staff wedi bod yn rhagorol wrth gefnogi pobl hŷn yn ystod y twydd garw diweddar yng Nghymru.

I was heartened to find that the commissioner's report, 'My Home, My Care, My Voice', found that 83% of older people were happy with the care that they received. I ask you to applaud our social care workforce for this. However, we must not forget the 17% who were not satisfied with their care. I am confident that our reform of social services will help to address this.

In 2011, the then commissioner published her report 'Dignified Care?', setting out recommendations to ensure that older people are treated with dignity and respect in hospital. The new commissioner published her formal assessment report 'Dignified Care: One Year On' and is continuing to work with the NHS to deliver the recommendations. The commissioner is also scrutinising health board reconfiguration plans to ensure that they reflect the needs of our ageing society.

Following research on whistleblowing, she has established a new strategic partnership board to enable those who work in health and social care to raise concerns. She has issued guidance to local authorities, asking them to ensure that older people have a strong voice in any proposed closure of residential care services, and she is actively scrutinising a number of potential closures. The commissioner is also chairing a group that will advise the Welsh Government on the development of updated and enhanced guidance on this.

The commissioner is working with us in considering the potential benefits and parameters of a Welsh declaration of the rights of older people. This will further our ambition to enhance and protect older people's rights. I reflect on a short debate led by Darren Millar AM, and I would very much like to work across party boundaries in taking this forward.

The draft social services and wellbeing (Wales) Bill will cover social care services for children, adults, older people and their carers. It will also, with some exceptions, put carers on a similar legal footing as the people they care for. The Bill is currently with the Presiding Officer for her determination. Subject to approval, it is due to be introduced at the end of this month and a scrutiny process will follow. The Bill is expected to have completed its passage through the National Assembly by the end of this year.

I will now move on to the amendments proposed to today's motion. I am happy to accept Aled Roberts' first amendment as closer working with the commissioner on phase 3 of the strategy for older people is already under way. As I set out in my recent written statement, the commissioner's five-year Ageing Well in Wales programme will underpin the implementation of phase 3 of the strategy and provide a basis for bidding for European resources. My officials are working closely with the commissioner on shaping the strategy and how it will be complemented by Ageing Well officials and members of the Ageing Well board.

Cefais fy nghalonogi o weld bod adroddiad y comisiynydd, 'Fy Nghanolfan, Ffynhonnell a Gofal i Gymru', wedi canfod fod 83% o bobl hŷn yn fodlon â'r gofal a gawsant. Rwy'n gofyn i chi i gymeradwyo ein gweithlu gofal cymdeithasol am hyn. Fodd bynnag, rhaid inni beidio ag anghofio'r 17% nad oeddent yn fodlon â'u gofal. Rwy'n hyderus y bydd ein diwygio gwasanaethau cymdeithasol yn helpu i fynd i'r afael â hyn.

Yn 2011, cyhoeddodd y comisiynydd bryd hynny ei hadroddiad, 'Gofal gydag Urddas?', yn nodi argymhellion i sicrhau bod pobl hŷn yn cael eu trin gydag urddas a pharch yn yr ysbty. Cyhoeddodd y comisiynydd newydd ei hadroddiad asesu ffurfiol 'Gofal Urddasol: Blwyddyn yn Ddiweddarach' ac mae'n parhau i weithio gyda'r GIG i gyflawni'r argymhellion. Mae'r comisiynydd hefyd yn craffu ar gynlluniau ad-drefnu byrddau iechyd i sicrhau eu bod yn adlewyrchu anghenion ein cymdeithas sy'n heneiddio.

Yn dilyn ymchwil ar chwythu'r chwiban, mae hi wedi sefydlu bwrdd partneriaeth strategol newydd i alluogi'r rhai sy'n gweithio ym maes iechyd a gofal cymdeithasol i godi pryderon. Mae hi wedi cyhoeddi canllawiau i awdurdodau lleol, gan ofyn iddynt sicrhau bod gan bobl hŷn lais cryf mewn unrhyw fwriad i gau gwasanaethau gofal preswyl, ac mae'n mynd ati i archwilio nifer o enghreifftiau o gau gwasanaethau posibl. Mae'r comisiynydd hefyd yn cadeirio grŵp a fydd yn cynghori Llywodraeth Cymru ar ddatblygu canllawiau wedi'u diweddu a'u gwella ar hyn.

Mae'r comisiynydd yn gweithio gyda ni wrth ystyried manteision a pharamedrau posibl datganiad Cymru o hawliau pobl hŷn. Bydd hyn yn hybu ein huchelgais i wella a diogelu hawliau pobl hŷn. Rwy'n myfyrio ar ddadl fer dan arweiniad Darren Millar AC, a byddwn yn hoffi gweithio'n fawr iawn ar draws ffiniau pleidiau wrth ddatblygu hyn.

Bydd y Bil gwasanaethau cymdeithasol a lles (Cymru) drafft yn cynnwys gwasanaethau gofal cymdeithasol ar gyfer plant, oedolion, pobl hŷn a'u gofalywyr. Bydd hefyd, gyda rhai eithriadau, yn rhoi gofalywyr ar sail gyfreithiol debyg i un y bobl y maent yn gofalu amdanyst. Mae'r Bil ar hyn o bryd gyda'r Llywydd am ei phenderfyniad. Yn amodol ar gymeradwyaeth, mae'n cael ei gyflwyno ar ddiweddu y mis hwn a bydd proses graffu'n dilyn. Disgwylir y bydd y Bil wedi cwblhau ei daith drwy'r Cynulliad Cenedlaethol erbyn diwedd y flwyddyn hon.

Byddaf yn awr yn symud ymlaen at y gwelliannau arfaethedig i'r cynnig heddiw. Rwy'n hapus i dderbyn gwelliant cyntaf Aled Roberts gan fod gweithio'n agosach gyda'r comisiynydd ar gam 3 o'r strategaeth ar gyfer pobl hŷn eisoedd ar y gweill. Fel y nodais yn fy natganiad ysgrifenedig diweddar, bydd rhaglen bum mlynedd Heneiddio'n Dda y comisiynydd yng Nghymru yn ategu gweithredu cam 3 y strategaeth ac yn darparu sail ar gyfer gwneud cais am adnoddau Ewropeaidd. Mae fy swyddogion yn gweithio'n agos gyda'r comisiynydd ar lunio'r strategaeth a sut y bydd yn cael ei hategu gan swyddogion Heneiddio'n Dda ac aelodau'r bwrdd Heneiddio'n Dda.

I am happy to accept Aled Roberts' second amendment as I am pleased to report that we already have clear mechanisms in place to monitor the dignity and care of older people, not just through 'Doing Well, Doing Better—Standards for Health Services in Wales', but also the annual quality statement on compliance as required by the quality delivery framework. Our requirement is that all health boards and trusts gather and act on patient feedback. The Welsh Government has set out this expectation that all organisations will have at least monthly reporting to their boards on patient experience and satisfaction data.

I am also happy to support Aled Roberts' third amendment. I welcome the commissioner's report on advocacy for older people in care settings last year, and I will be responding to the recommendations relevant to the Welsh Government in due course. In our White Paper, 'Sustainable Social Services', I have already committed to producing a business case for an all-Wales advocacy service for older people. The social services and wellbeing (Wales) Bill will also provide a regulatory framework to extend the right to representation to those who may in future benefit from the services of an independent specialist advocate. The Bill will provide the legal framework to enable us to respond to the changing needs and circumstances for the future provision of advocacy. We cannot ignore the current financial pressures, and will need to move forward on this agenda as planned, with staged and prioritised development as resources become available.

Rwy'n hapus i dderbyn ail welliant Aled Roberts gan fy mod yn falch o adrodd bod gennym eisoes fecanweithiau clir ar waith i fonitro urddas a gofal pobl hŷn, nid yn unig drwy 'Gwneud yn Dda, Gwneud yn Well-Safonau ar gyfer Gwasanaethau lechyd yng Nghymru', ond hefyd y datganiad ansawdd blynnyddol ar gydymffurfiaeth fel sy'n ofynnol gan y fframwaith cyflenwi ansawdd. Ein gofyniad yw bod yr holl fyrddau iechyd ac ymddiriedolaethau yn casglu ac yn gweithredu ar adborth gan gleifion. Mae Llywodraeth Cymru wedi penu'r disgwyliad y bydd pob sefydliad yn adrodd bob mis o leiaf i'w byrddau ar brofiad cleifion a data boddhad.

Rwyf hefyd yn hapus i gefnogi trydydd gwelliant Aled Roberts. Rwy'n croesawu adroddiad y comisiynydd ar eiriolaeth ar gyfer pobl hŷn mewn lleoliadau gofal y llynedd, a byddaf yn ymateb i'r argymhellion perthnasol i Lywodraeth Cymru maes o law. Yn ein Papur Gwyn, 'Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy', rwyf eisoes wedi ymrwymo i gynhyrchu achos busnes ar gyfer gwasanaeth eiriolaeth Cymru gyfan ar gyfer pobl hŷn. Bydd y Bil gwasanaethau cymdeithasol a lles (Cymru) hefyd yn darparu fframwaith rheoleiddio i ymestyn yr hawl i gynrychiolaeth i'r rhai a llai gael budd yn y dyfodol o'r gwasanaethau eiriolwr annibynnol arbenigol. Bydd y Bil yn darparu'r fframwaith cyfreithiol er mwyn ein galluogi i ymateb i anghenion ac amgylchiadau sy'n newid ar gyfer y ddarpariaeth o eiriolaeth yn y dyfodol. Ni allwn anwybyddu'r pwysau ariannol presennol, a bydd angen symud ymlaen ar yr agenda fel y cynlluniwyd, gyda datblygu graddol ac wedi'i flaenorriaethu wrth i adnoddau ddod ar gael.

17:37

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Rwyf wedi dethol y tri gwelliant i'r cynnig. Galwaf ar Aled Roberts i gynnig gwelliannau 1 i 3 a gyflwynwyd yn ei enw.

I have selected the three amendments to the motion. I call on Aled Roberts to move amendments 1 to 3, tabled in his name.

Gwelliant 1—Aled Roberts

Amendment 1-Aled Roberts

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Add as new point at end of motion:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i weithio'n agosach gyda Chomisiynydd Pobl Hŷn Cymru i ddatblygu'r Strategaeth ar gyfer Pobl Hŷn yng Nghymru (Cam 3).

Calls on the Welsh Government to work more closely with the Older People's Commissioner for Wales in the development of the Strategy for Older People in Wales (Phase 3).

Gwelliant 2—Aled Roberts

Amendment 2-Aled Roberts

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Add as new point at end of motion:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i ddatblygu dulliau clir o fonitro urddas a gofal i bobl hŷn o ganlyniad i 'Gwneud yn Dda, Gwneud yn Well – Safonau ar gyfer Gwasanaethau lechyd Cymru'.

Calls on the Welsh Government to develop clear mechanisms to monitor the dignity and care of older people as a result of the 'Doing Well, Doing Better - Standards for Health Services in Wales'.

Gwelliant 3—Aled Roberts

Amendment 3-Aled Roberts

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Add as new point at end of motion:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i ymateb i'r argymhellion yn yr adroddiad 'Llais, Dewis a Rheolaeth' i ddatblygu gwasanaeth eirioli cadarn ac annibynnol ar gyfer pobl hŷn yng Nghymru.

Calls on the Welsh Government to respond to the recommendations within the 'Voice, Choice and Control' report to develop a strong, independent advocacy service for older people in Wales.

17:38

Aled Roberts [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Cynigiaf welliannau 1, 2 a 3 yn fy enw i.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Mae'n bleser gennyd gynnig gwelliannau 1, 2 a 3 ar ran Democraidaid Rhyddfrydol Cymru. Rwyf hefyd yn croesawu adroddiad y comisiynydd, fel dywedodd y Dirprwy Weinidog. Rwyf hefyd yn diolch i Sarah Rochira a'i staff am eu gwaith arbennig yn ystod y tywydd garw diweddar.

Mae'r adroddiad yn nodi arfer da. Mae'n nodi hefyd y meysydd sydd angen eu gwella ar sail tystiolaeth, a hefyd yn galw am graffu mwy effeithiol ar ein rhan ni fel Cynulliad. Fel dywedodd y Dirprwy Weinidog, mae'n glir bod profiadau pobl hŷn wedi eu defnyddio wrth baratoi'r adroddiad. Ond, mae'r adroddiad hefyd yn ein hatgoffa o'r dasg sydd gennym fel sefydliad i amddiffyn buddiannau ein pobl hŷn, sef bod dros 700,000 o bobl hŷn dros 60 oed yng Nghymru—tua chwarter o'r boblogaeth o fewn ein gwdlad. Er hynny, mae 110,000 o'n pensiynwyr yn byw mewn tlodi. Mae hanner ohonynt dros 65 ac mae afiechydon difrifol ar dwy ran o dair ohonynt sydd dros 85.

The commissioner's report tells us that we can do more to improve the lives of older people—not only those who come into regular contact with social services, but also those who are relatively healthy and want to maintain their independence in the future. One of the main themes running through the report is that we need a more outcome-based approach to the provision of services for older people. However, the community transport case study in the commissioner's report shows what can be achieved when the commissioner and the Government work together. Our amendment 1 has been tabled to reinforce the ethos of joint working and to ensure that issues affecting older people are fully discussed and considered before they are implemented or withdrawn.

There is no shortage of evidence showing that what older people think is important, from the recent discussions regarding the reorganisation of health services to other issues concerning housing, social care, transport, and, yes, also issues such as digital inclusion. Working together more closely can make sure that phase 3, referred to by the Deputy Minister, is developed as a robust action plan with the outcome-based approach that the commissioner recommends in her report.

I move amendments 1, 2 and 3 in my name.

It is a pleasure to move amendments 1, 2 and 3 on behalf of the Welsh Liberal Democrats. I also welcome the commissioner's report, as the Deputy Minister said. I also thank Sarah Rochira and her staff for the excellent work that they have carried out during the recent adverse weather.

The report notes good practice. It also notes areas for improvement on the basis of evidence, and calls for more effective scrutiny on our part as an Assembly. As the Deputy Minister said, it is clear that the experiences of older people were drawn on in preparing this report. However, the report also reminds us of the task that we as an establishment have in protecting the interest of our older people, namely that over 700,000 older people over the age of 60 live in Wales—about 25% of the population of our country. Despite that, 110,000 of our pensioners live in poverty. Half of them are over 65 and two thirds of those over 85 have serious illnesses.

Mae adroddiad y comisiynydd yn dweud wrthym y gallwn wneud mwy i wella bywydau pobl hŷn-nid dim ond y rhai sy'n dod i gysylltiad rheolaidd â gwasanaethau cymdeithasol, ond hefyd y rhai sydd yn gymharol iach ac yn awyddus i gynnal eu hannibyniaeth yn y dyfodol. Un o'r prif themâu sy'n rhedeg drwy'r adroddiad yw bod angen ymagwedd fwy seiliedig ar ganlyniadau i ddarparu gwasanaethau i bobl hŷn. Fodd bynnag, mae'r astudiaeth achos cludiant cymunedol yn adroddiad y comisiynydd yn dangos yr hyn y gellir ei gyflawni pan fydd y comisiynydd a'r Llywodraeth yn gweithio gyda'i gilydd. Mae ein gwelliant 1 wedi'i gyflwyno i atgyfnerthu ethos o weithio ar y cyd ac i sicrhau bod materion sy'n effeithio ar bobl hŷn yn cael eu trafod yn llawn a'u hystyried cyn iddynt gael eu gweithredu neu eu tynnu'n ôl.

Nid oes prinder tystiolaeth yn dangos bod yr hyn y mae pobl hŷn yn ei feddwl yn bwysig, o'r trafodaethau diweddar ynghylch ad-drefnu'r gwasanaethau iechyd i faterion eraill ynghylch tai, gofal cymdeithasol, trafnidiaeth, ac, ie, materion megis cynhwysiant digidol hefyd. Gall cydweithio agosach wneud yn siŵr bod cam 3, y cyfeiriwyd ato gan y Dirprwy Weinidog, yn cael ei ddatblygu fel cynllun gweithredu cadarn gyda'r dull sy'n seiliedig ar ganlyniadau y mae'r comisiynydd yn ei argymhell yn ei adroddiad.

I am pleased that the Government can support amendment 2. It is worth noting that, according to Age Cymru, Wales has the highest prevalence of elder abuse in the UK, with 6% of our elderly population suffering such incidents. That equates to 39,000 of our older people being abused in their own homes. On 1 April, the Welsh Government launched a revised set of standards for health services in Wales and I acknowledge that work is being done. As the Deputy Minister also stated, the updated framework of standards set out the requirements for what is expected of health services, in particular, in Wales.

In my region, Betsi Cadwaladr University Local Health Board was among the first to sign up to a dignity pledge. Yet, only last week I heard of a very worrying incident in one of the hospitals in north Wales that has been referred to the concern unit in Betsi Cadwaladr, which clearly shows that, on the ground, those messages are still not getting through. Crucially, standards in the health service are based on self-assessment. I am pleased that the Deputy Minister and others in the Chamber appear to agree that they should be extended.

Our amendment 3 calls on the Government to respond to the recommendations in 'Voice, Choice and Control', and work with the commissioner to develop an independent advocacy service for Wales. Over a quarter of the issues dealt with by the commissioner's office last year related to care—26.3%. As the commissioner points out in her report, care homes are also people's homes.

In conclusion, the Deputy Minister herself said last year that Ministers are quite rightly accountable for the way in which we move forward. Placing protection in statute has to be the way forward. We have to move in that direction. I agree that the social services Bill will give us important legislative support for many of the issues that we have talked about this afternoon, but the Bill itself cannot be considered as the panacea. Many over-60s need the help of social services, but, as the report points out, many require very little support.

We should not forget the importance of social activities, friendship, community engagement and a whole host of intangible factors that contribute to an older person's wellbeing. Is it clear that many older people can live better, brighter lives if we all work together to support the commissioner's work.

Rwy'n falch y gall y Llywodraeth gefnogi gwelliant 2. Mae'n werth nodi, yn ôl Age Cymru, mai yng Nghymru y mae camdriniaeth yr henoed fwyaf cyffredin yn y DU, gyda 6% o'n poblogaeth oedrannus yn dioddef digwyddiadau o'r fath. Mae hynny'n cyfateb i 39,000 o'n pobl hŷn yn cael eu cam-drin yn eu cartrefi eu hunain. Ar 1 Ebrill, lansiodd Llywodraeth Cymru set ddiwygiedig o safonau ar gyfer gwasanaethau iechyd yng Nghymru ac rwy'n cydnabod bod gwaith yn cael ei wneud. Fel y dywedodd y Dirprwy Weinidog hefyd, mae'r fframwaith wedi'i ddiweddu o safonau yn nodi'r gofynion ar gyfer yr hyn a ddisgwylir gan wasanaethau iechyd, yn arbennig, yng Nghymru.

Yn fy rhanbarth i, roedd Bwrdd lechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr ymhli y cyntaf i gytuno i addewid urddas. Eto i gyd, dim ond wythnos yn ôl clywais am ddigwyddiad sy'n peri gofid mawr yn un o'r ysbytai yng ngogledd Cymru sydd wedi ei gyfeirio at yr uned pryder yn Betsi Cadwaladr, sy'n dangos yn glir, ar lawr gwlad, nad yw'r negeseuon hynny'n cael eu deall o hyd. Yn hanfodol, mae safonau yn y gwasanaethau iechyd yn seiliedig ar hunan-asesu. Rwy'n falch ei bod yn ymddangos bod y Dirprwy Weinidog ac eraill yn y Siambra yn cytuno y dylid eu hymestyn.

Mae ein gwelliant 3 yn galw ar y Llywodraeth i ymateb i'r argymhellion yn 'Llaïs, Dewis a Rheolaeth', ac yn gweithio gyda'r comisiynydd i ddatblygu gwasanaeth eiriolaeth annibynnol i Gymru. Roedd dros chwarter y materion yr ymdriniwyd â hwy gan swyddfa'r comisiynydd y llynedd yn ymwneud â gofal-26.3%. Fel y dywed y comisiynydd yn ei hadroddiad, mae cartrefi gofal hefyd yn gartrefi pobl.

I gloi, dywedodd y Dirprwy Weinidog ei hun y llynedd bod Gweinidogion yn hollol deg, yn atebol am y ffordd yr ydym yn symud ymlaen. Mae'n rhaid mai rhoi amddiffyniad mewn statud yw'r ffordd ymlaen. Mae'n rhaid i ni symud i'r cyfeiriad hwnnw. Rwy'n cytuno y bydd y Bil gwasanaethau cymdeithasol yn rhoi cefnogaeth ddeddfwriaethol bwysig i lawer o'r materion yr ydym wedi sôn amdanyst y prynhawn yma, ond ni ellir ystyried y Bil ei hun fel yr ateb. Mae llawer o bobl dros 60 oed angen cymorth y gwasanaethau cymdeithasol, ond, fel y mae'r adroddiad yn nodi, mae llawer nad oes angen fawr iawn o gymorth arnynt.

Ni ddylem anghofio pwysigrwydd gweithgareddau cymdeithasol, cyfeillgarwch, ymgysylltu â'r gymuned a llu o ffactorau anirweddol sy'n cyfrannu at les person hŷn. A yw'n glir y gall llawer o bobl hŷn fyw bywydau gwell, mwy disgrair os byddwn i gyd yn gweithio gyda'n gilydd i gefnogi gwaith y comisiynydd.

17:43

Darren Millar [Bywgraffiad Biography](#)

It is a pleasure to stand here today having this important debate on the same day that I have been named as shadow Minister for older people on behalf of the Welsh Conservatives. I welcome Aled Roberts and Lindsay Whittle to their new posts as spokespeople for their respective parties. It shows the importance that all the parties in the Assembly attach to the needs of older people and ensuring that they are properly represented in this Chamber.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Mae'n bleser i sefyll yma heddiw yn cael y ddadl bwysig hon ar yr un diwrnod ac yr wyf wedi cael fy enwi fel Gweinidog yr Wrthblaid ar gyfer pobl hŷn ar ran y Ceidwadwyr Cymreig. Rwy'n croesawu Aled Roberts a Lindsay Whittle i'w swyddi newydd fel llefarwyr ar gyfer eu pleidiau eu hunain. Mae'n dangos y pwysigrwydd y mae'r holl bleidiau yn y Cynulliad yn ei roi i anghenion pobl hŷn a sicrhau eu bod yn cael eu cynrychioli'n briodol yn y Siambra hon.

I welcome the Deputy Minister's opening speech, in particular the insight she gave us into the future social services Bill, which we look forward to working with her on over the course of the coming weeks and months.

Turning to the specifics of the older people's commissioner's report, I find it astonishing that the post was created some five years ago. Each year, the reports get better and better in terms of the work that the commissioner and her office do on a day-to-day basis around Wales on behalf of older people. One very noticeable thing in the report is that there are large photographs of older people throughout it, but not a single photograph of the commissioner herself. It goes to show where the commissioner's priorities lie, and that is in representing the faces of older people wherever she goes around Wales, whether meeting with Government or stakeholders, ensuring that she is championing their cause.

All too often, we hear remarks that are made glibly—by some people in this Chamber even—about the burden of older people on our society. I do not see older people as a burden; they are something that we should celebrate, and I think that it is terrific, with the advances in healthcare et cetera, that we are seeing older people live much more fulfilled and independent lives into very healthy old age.

To refer to Ruth Marks for a moment, this particular report covers part of the year for which Ruth was still our commissioner. I pay tribute to her, particularly for her work on the 'Dignity in Care' report. She certainly made her mark as older people's commissioner. I am delighted with the appointment of Sarah Rochira; she has got off to a tremendous start in the first seven months of her tenure, and I believe that she is making a real difference to the lives of older people in Wales. It is great to see her enthusiasm and energy as she has been travelling across the country meeting with older people and different stakeholders to ensure that their interests are taken seriously.

I look forward, Deputy Minister, to working with you and the office of the older people's commissioner, particularly on advocacy. We know that the commissioner produced a very hard-hitting report, in many respects, about advocacy and the need to ensure that older people are given a proper voice and support to articulate that voice. We also know, Deputy Minister, that the social services Bill will give us an opportunity to address some of the shortcomings in access to independent advocacy, so I was pleased to hear you refer to that in your opening remarks.

Rwy'n croesawu arraith agoriadol y Dirprwy Weinidog, yn enwedig y mewnwelediad a roddodd i ni i'r Bil gwasanaethau cymdeithasol yn y dyfodol, rydym yn edrych ymlaen at weithio gyda hi yn ystod yr wythnosau a'r misoedd nesaf.

Gan droi at y manylion yn adroddiad y Comisiynydd Pobl Hŷn, rwy'n ei chael hi'n rhyfeddol fod y swydd wedi ei chreu rhwng bum mlynedd yn ôl. Bob blwyddyn, mae'r adroddiadau yn gwella ac yn gwella o ran y gwaith y mae'r comisiynydd a'i swyddfa yn ei wneud o ddydd-i-ddydd o amgylch Cymru ar ran pobl hŷn. Un peth amlwg iawn yn yr adroddiad yw bod ffotograffau mawr o bobl hŷn drwyddo, ond nid oes un llun o'r comisiynydd ei hun. Mae'n dangos lle mae blaenorhaethau'r comisiynydd, sef mewn cynrychioli wynebau pobl hŷn lle bynnag y mae hi'n mynd o amgylch Cymru, boed yn cyfarfod gyda Llywodraeth neu rhanddeiliaid, gan sicrhau ei bod yn hyrwyddo eu hachos.

Yn rhy aml, rydym yn clywed sylwadau sy'n cael eu gwneud yn ysgafn-gan rai pobl yn y Siambra hon, hyd yn oed am faich y bobl hŷn ar ein cymdeithas. Nid wyf yn gweld pobl hŷn yn faich, maent yn rhywbeth y dylem ei ddathlu, ac rwy'n meddwl ei fod yn wych, gyda'r datblygiadau mewn gofal iechyd ac ati, ein bod yn gweld pobl hŷn yn byw bywydau llawer mwy cyflawn ac annibynnol i henaint iach iawn.

I gyfeirio at Ruth Marks am eiliad, mae'r adroddiad arbennig yn cwmpasu rhan o'r flwyddyn pan mai Ruth oedd ein comisiynydd yn dal i fod. Rwy'n talu teyrnged iddi, yn enwedig am ei gwaith ar yr adroddiad 'Urddas mewn Gofal'. Mae hi'n sicr wedi gwneud ei marc fel comisiynydd pobl hŷn. Rwyf wrth fy modd gyda phenodiad Sarah Rochira, mae hi wedi cael cychwyn gwych yn saith mis cyntaf ei chyfnod, ac rwy'n credu ei bod yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i fywydau pobl hŷn yng Nghymru. Mae'n wych i weld ei brwd frydedd ac egni wrth iddi deithio ar draws y wlad yn cyfarfod â phobl hŷn a rhanddeiliaid gwahanol i sicrhau bod eu buddiannau yn cael eu cymryd o ddifrif.

Rwy'n edrych ymlaen, Ddirprwy Weinidog, i weithio gyda chi a swyddfa'r Comisiynydd Pobl Hŷn, yn enwedig ar eiriolaeth. Rydym yn gwylod bod y comisiynydd wedi cynhyrchu adroddiad digyfaddawd iawn, mewn sawl ystyr, am eiriolaeth a'r angen i sicrhau bod pobl hŷn yn cael llais a chefnogaeth briodol i fynegi'r llais hwnnw. Rydym hefyd yn gwylod, Ddirprwy Weinidog, y bydd y Bil gwasanaethau cymdeithasol yn rhoi cyfreith i ni fynd i'r afael â rhai o'r diffygion o ran mynediad at eiriolaeth annibynnol, felly roeddwn yn falch eich clywed yn cyfeirio at hynny yn eich sylwadau agoriadol.

I will briefly mention a couple of occasions when I have made use of the service provided by the older people's commissioner. Reference has already been made to the service changes that are going on. I do not want to touch on the health side of things at the moment, but, just in terms of my local constituency, Conwy County Borough Council was going to close a whole host of public conveniences across the county. A simple bit of contact with the older people's commissioner helped it to think through more carefully the consequences of those closures, and helped to persuade the council to see better sense in terms of what it was going to do. So, I was very grateful for the support of the older people's commissioner on that general issue, and also when I sometimes refer individual constituents to her for support and advice. That has been a really useful function of that office.

Deputy Minister, in closing, I want to make reference to the declaration of rights for older people. I was delighted with your statement at the tail end of last year that you had asked the older people's commissioner to look at developing a declaration on the rights of older people. As you know, it is a subject very dear to my heart, and that is why I brought the debate to this Chamber. I look forward to working with you on a cross-party basis to ensure that we see the fruits of that declaration brought to bear across all Government departments and the public sector as a whole in Wales, and I wonder whether you could outline the timescales by which you hope to implement a declaration on the rights of older people in your response to the debate today.

17:48

Jenny Rathbone [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I am delighted that the older people's commissioner has seen dementia as one of the priority work areas for this year, as this is an area where the older people's commissioner can really make a difference, in raising awareness with older people and their families about dementia, to try to break down the stigma attached to it, to try to increase the rate and speed of diagnosis, and, in her scrutiny of public bodies, particularly health bodies, and to look at the demands on memory clinics and the potential for waiting times to perhaps get out of control as people's awareness of dementia increases.

I would also like for her to look at the development of care pathways for dementia patients in Wales, as only 6% of hospitals have them at the moment, and 44% tell us that they are developing them. I hope that the older people's commissioner can ensure a stronger focus on preventative and supportive services in communities to prevent families from reaching crisis point. She has a particularly important role to play in ensuring that initiatives such as the mainstreaming of dementia services in Carmarthenshire are shared across local government, the voluntary sector and all those who have an interest in older people. This could help to reduce the cost of dementia, which has now reached £20 billion across the UK, and to help people with dementia to live good lives.

Soniaf yn fyr am un neu ddau o achlysuron pan yr wyf wedi gwneud defnydd o'r gwasanaeth a ddarperir gan y Comisiynydd Pobl Hŷn. Cyfeiriwyd eisoes at y newidiadau i'r gwasanaeth sydd yn mynd ymlaen. Nid wyf am sôn am ochr iechyd pethau ar hyn o bryd, ond, o ran fy etholaeth leol yn unig, roedd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn mynd i gau llu o gyfleusterau cyhoeddus ledled y sir. Gwnaeth ychydig o gyswilt syml gyda'r comisiynydd pobl hŷn ei helpu i feddwl yn fwy gofalus am ganlyniadau cau'r cyfleusterau hynny, a helpu i ddwyn perswâd ar y cyngor i weld synnwy'r gwell o ran yr hyn yr oedd yn mynd i'w wneud. Felly, rwy'n ddiolchgar iawn am gefnogaeth y comisiynydd pobl hŷn ar y mater cyffredinol hwnnw, a hefyd pan fyddaf weithiau yn cyfeirio etholwyr unigol ati am gymorth a chyngor. Mae hynny wedi bod yn swyddogaeth ddefnyddiol iawn y swydd honno.

Ddirprwy Weinidog, wrth gloi, rwyf am gyfeirio at y datganiad o hawliau i bobl hŷn. Roeddwn wrth fy modd gyda'ch datganiad ar ddiweddu y flwyddyn y llynedd eich bod wedi gofyn i'r comisiynydd pobl hŷn i edrych ar ddatblygu datganiad ar hawliau pobl h?n. Fel y gwyddoch, mae'n bwnc sy'n agos iawn at fy nghalon, a dyna pam y deuthum â'r ddadl i sylw'r Siambr hon. Edrychaf ymlaen at weithio gyda chi ar sail drawsbleidiol i sicrhau ein bod yn gweld ffrwyth y datganiad hwnnw yn cael ei ddefnyddio ar draws holl adrannau'r Llywodraeth a'r sector cyhoeddus yn gyffredinol yng Nghymru, ac rwy'n meddwl tybed a allech amlinellu'r amserleni pryd yr ydych yn gobeithio gweithredu datganiad ar hawliau pobl h?n yn eich ymateb i'r ddadl heddiw.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

Rwy'n falch iawn bod y comisiynydd pobl hŷn wedi gweld dementia fel un o'r meysydd gwaith blaenoriaeth ar gyfer eleni, gan fod hwn yn faes lle y gall y comisiynydd pobl hŷn wir wneud gwahaniaeth, i godi ymwybyddiaeth ymhlih pobl hŷn a'u teuluoedd am ddementia, i geisio lleihau'r stigma ynglwm wrtho, er mwyn ceisio cynyddu cyfradd a chyflymder diagnosis, ac, yn ei chraffu ar gyrrf cyhoeddus, yn enwedig cyrff iechyd, ac i edrych ar y galwadau ar glinigau cof a'r potensiwl i amseroedd aros effallai fynd allan o reolaeth wrth i ymwybyddiaeth pobl o ddementia gynyddu.

Hoffwn hefyd iddi edrych ar y gwaith o ddatblygu llwybrau gofal ar gyfer cleifion dementia yng Nghymru, gan mai dim ond mewn 6% o ysbtyai y maent i'w cael ar hyn o bryd, ac mae 44% yn dweud wrthym eu bod yn eu datblygu. Gobeithiaf y gall y comisiynydd pobl h?n sicrhau ffocws cryfach ar wasanaethau ataliol a chefnogol mewn cymunedau i atal teuluoedd rhag cyrraedd pwynnt argyfwng. Mae ganddi rôl arbennig o bwysig i'w chwarae o ran sicrhau bod mentrau fel prif-ffrydio gwasanaethau dementia yn Sir Gaerfyrddin yn cael eu rhannu ar draws llywodraeth leol, y sector gwirfoddol a phawb sydd â diddordeb mewn pobl h?n. Gallai hyn helpu i leihau cost dementia, sydd wedi cyrraedd £20 biliwn ledled y DU, ac i helpu pobl â dementia i fyw bywydau da.

I am particularly concerned about the way in which the housing crisis impacts on older people, as it makes it so difficult for people who think that they need to move home because of their changing needs. I recently visited an elderly gentleman who is now confined to his back bedroom because the stairs are too narrow for him to get safely downstairs, even with a chair lift. It is really difficult for him and his wife to think of alternatives that will not completely overturn all their links with the community in which they have lived for so long.

I would also like sheltered accommodation to have a much wider menu of options, because some of the sheltered accommodation I have visited has rooms no bigger than those of a small terraced house. Trying to put in a hoist in very small sheltered accommodation does not actually resolve the problems when people need additional support to enable them to mobilise or need a walk-in shower.

It is very important that when people go into sheltered accommodation or residential homes that they do not then get completely lost to the rest of the community. Things such as fruit and veg schemes or lunch clubs, such as in St Clement's Court in Pentwyn, are important to make sure that people retain contact with the rest of the community, even if they are unable to get out and about without a huge amount of hassle.

Nobody wants to die in hospital. Therefore, it is important that we have nursing and residential homes that can be a lifeline for frail, elderly people. I recently visited Penylan House, which is a Jewish nursing and residential home in my constituency. The flexibility with which it is able to deal with residents is good. A friend of mine who wanted to stay up late to watch a programme on Nye Bevan and not go to bed until 11.00 p.m. asked to do so, and they said, 'Absolutely no problem'. I know that would not always be the case in other nursing homes.

Therefore, the advocacy work to be done by the older people's commissioner is important, and it is important that we do not lose sight of the importance of giving a voice, choice and control to older people. That is quite challenging in the current context, when so many of our residential homes are now in the private sector. The home that I have just spoken about is in the voluntary sector. We need to make sure that these residential homes are part of the community and that they are properly scrutinised by people's relatives and the community at large.

Rwy'n arbennig o bryderus am y ffordd y mae'r argyfwng tai yn cael effaith ar bobl h?n, gan ei fod yn ei gwneud mor anodd i bobl sy'n meddwl bod angen iddynt symud cartref oherwydd eu hanghenion newidiol. Yn ddiweddar, ymwelais â g?r oedrannus sydd bellach wedi'i gyfyngu i'w ystafell wely gefn oherwydd bod y grisiau'n rhy gul iddo fynd i lawr y grisiau yn ddiogel, hyd yn oed gyda liffit cadair. Mae'n anodd iawn iddo ef a'i wraig i feddwl am ddewisiadau eraill na fyddant yn gwyrdroi'n llwyr eu holl gysylltiadau â'r gymuned y maent wedi byw ynddi am gyfnod mor hir.

Hoffwn hefyd weld lletyai gwarchod yn cael dewislen llawer ehangu o opsiynau, oherwydd bod rhai o'r lletyai gwarchod yr wyf wedi ymweld â nhw yn cynnwys ystafelloedd heb fod yn fwy na rhai tŷ teras bach. Nid yw ceisio rhoi teclyn codi mewn llety gwarchod bach iawn mewn gwirionedd yn datrys y problemau pan fydd pobl angen cymorth ychwanegol er mwyn eu galluogi i symud neu eu bod angen cawod y gellir cerdded i mewn iddi.

Mae'n bwysig iawn pan fydd pobl yn mynd i mewn i lety gwarchod neu gartrefi preswyl nad ydynt wedyn yn mynd ar goll yn gyfan gwbl i weddill y gymuned. Mae pethau fel cynlluniau ffrwythau a llyisiau neu glybiau cinio, megis yn Llys St Clement ym Mhentwyn, yn bwysig i wneud yn sir bod pobl yn cadw mewn cysylltiad â gweddill y gymuned, hyd yn oed os nad ydynt yn gallu mynd allan heb lawer iawn o drafferth.

Nid oes neb eisiau marw yn yr ysbyty. Felly, mae'n bwysig bod gennym gartrefi nysrio a phreswyl a all fod yn achubiaeth i bobl fregus, oedrannus. Yn ddiweddar, ymwelais â Penylan House, sy'n gartref nysrio a phreswyl Iddewig yn fy etholaeth. Mae'r hyblygrwydd sydd ganddo i ymdrin â phreswylwyr yn dda. Gofynnodd ffrind i mi oedd am aros i fyny yn hwyr i wyllo rhaglen ar Nye Bevan a pheidio â mynd i'r gwely tan 11.00 p.m. am gael gwneud hynny, a dywedasant, 'Dim problem o gwbl'. Rwy'n gwybod na fyddai hynny bob amser yn wir mewn cartrefi nysrio eraill.

Felly, mae'r gwaith eiriolaeth i gael ei wneud gan y Comisiynydd Pobl Hŷn yn bwysig, ac mae'n bwysig nad ydym yn colli golwg ar bwysigrwydd rhoi llais, dewis a rheolaeth i bobl hŷn. Mae hynny yn eithaf heriol yn y cyd-destun presennol, pan fo cynifer o'n cartrefi preswyl yn awr yn y sector preifat. Mae'r cartref yr wyf newydd sôn amdano yn y sector gwirfoddol. Mae angen i ni wneud yn si?r bod y cartrefi preswyl yn rhan o'r gymuned a'u bod craffu go iawn arnynt gan berthnasau pobl a'r gymuned yn gyffredinol.

I, too, am delighted to be announced as Plaid Cymru's older people's champion, especially as this is my bus-pass year. I welcome this report, and I congratulate the commissioner on the huge amount of work that she has carried out in the short space of time since she was appointed. Her dedication and commitment are to be commended. I do not think that she has taken a breath. I have no negative comments to make on the content, presentation or layout of this report. In fact, I love this report. There are no cartoons and no computer images; it contains real people. In fact, some of the people I have met, and some I know. For me, that humanises this report above all other reports, and that is to be applauded. I agree entirely with the priorities as set out, especially the call for older people to gain much better access to information and advice about the range of services that are available to enable them to live their lives as independently as possible. However, independence does not mean isolation. Isolation is one of the worst experiences that too many older people have to live with. As a society, our leaving people isolated can be seen as a form of abuse. It can happen in care homes and even in hospitals, not just in a person's own home. I believe, for example, that many care homes in Wales could do more to offer their residents the opportunity to remain involved in the community and not be shut off from it. The report mentions the abuse of elderly people, and we need to know what kind of abuse some people suffer so that we can attempt to tackle it. Are we talking mainly about physical abuse, mental abuse, emotional abuse, or even financial abuse? Do we have any idea whether the statistics that we have on abuse are just the tip of the iceberg?

Another important issue raised in this report is older people's access to information. In the cross party group on ageing, I know that discussions have taken place on older people and digital inclusion. Can the Welsh Government help to ensure that many more people over the age of 65 have the opportunity to use the internet, rather than relying on public sector organisations, such as local authorities and health boards, to contact them? Perhaps they could use some of the computers lying idle in Torfaen. Who knows?

It is one thing getting to know what help and support is available; gaining access to services is another. Many older people, especially those living in rural areas, have problems simply getting to a bus stop or even getting a bus. I am sure that the commissioner will look into the possible consequences when local community hospitals are closed and people will have to travel longer distances to receive their services. Add that to the fact that the ambulance service continues to fall short of its targets, and the prospects look bleak indeed.

Yr wyf fi, hefyd, wrth fy modd i gael fy nghyhoeddi yn hyrwyddwr bobl hŷn Plaid Cymru, yn enwedig gan mai hon yw blwyddyn fy nhocyn bws. Rwy'n croesawu'r adroddiad hwn, a llonygarchaf y comisiynydd ar y gwaith enfawr y mae wedi'i wneud yn y cyfnod byr o amser ers iddi gael ei phenodi. Mae ei hymroddiad a'i hymrwymiad i'w canmol. Nid wyf yn meddwl ei bod hi wedi cymryd anadl. Nid oes gennyl unrhyw sylwadau negyddol i'w gwneud ar gynnwys, cyflwyniad neu gynllun yr adroddiad hwn. Yn wir, rwyf wrth fy modd â'r adroddiad hwn. Nid oes unrhyw gartwnau a dim delweddu cyfrifiadurol; mae'n cynnwys pobl go iawn. Mewn gwirionedd, rhai o'r bobl yr wyf wedi cwrdd â nhw, a rhai yr wyf yn eu hadnabod. I mi, mae hynny'n dyneiddio'r adroddiad hwn uwchlaw adroddiadau eraill, ac mae hynny i'w gymeradwyo. Cytunaf yn llwyr â'r blaenoriaethau a nodir, yn enwedig y galw am i bobl hŷn gael mynediad llawer gwell at wybodaeth a chyngor am yr amrywiaeth o wasanaethau sydd ar gael i'w galluogi i fyw eu bywydau mor annibynnol ag y bo modd. Fodd bynnag, nid yw annibyniaeth yn golygu unigedd. Mae unigedd yn un o'r profiadau gwaethaf y mae gormod o bobl hŷn yn gorfol byw gydag ef. Fel cymdeithas, gellir ystyried y ffordd yr ydym yn gadael pobl yn unig fel ffurf ar gamdriniaeth. Gall ddigwydd mewn cartrefi gofal a hyd yn oed mewn ysbytai, nid dim ond yng nghartref y person ei hun. Rwy'n credu, er enghraifft, y gallai llawer o gartrefi gofal yng Nghymru wneud mwy i gynnig cyfle i'w preswylywr i barhau i gymryd rhan yn y gymuned ac nid cael eu cau oddi wrthi. Mae'r adroddiad yn sôn am gam-drin pobl oedrannus, ac mae angen i ni wybod pa fath o gamdriniaeth y mae rhai pobl yn ei ddioddef fel y gallwn geisio mynd i'r afael â hynny. A ydym ni'n sôn yn bennaf am gamdriniaeth gorfforol, camdriniaeth feddyliol, camdriniaeth emosional, neu hyd yn oed gamdriniaeth ariannol? A oes gennym unrhyw syniad ai crafu'r wyneb yn unig y mae'r ystadegau sydd gennym ar gamdriniaeth?

Mater pwysig arall a godwyd yn yr adroddiad hwn yw mynediad pobl hŷn at wybodaeth. Yn y grp trawsbleidiol ar heneiddio, rwy'n gwybod bod trafodaethau wedi digwydd ar bobl hŷn a chynhwysiant digidol. A all Llywodraeth Cymru helpu i sicrhau bod llawer mwy o bobl dros 65 oed yn cael y cyfle i ddefnyddio'r rhyngrywd, yn hytrach na dibynnu ar sefydliadau sector cyhoeddus, megis awdurdodau lleol a byrddau iechyd, i gysylltu â nhw? Efallai y gallent ddefnyddio rhai o'r cyfrifiaduron sy'n gorwedd yn segur yn Nhoraen. Pwy aŵyr?

Un peth yw dod i wybod pa gymorth a chefnogaeth sydd ar gael; mae cael mynediad at wasanaethau yn fater arall. Mae llawer o bobl hŷn, yn enwedig y rhai sy'n byw mewn ardaloedd gwledig, yn cael problemau mynd i safle bws neu hyd yn oed i gael bws. Rwy'n siŵr y bydd y comisiynydd yn edrych ar y canlyniadau posibl pan fydd ysbytai cymuned lleol yn cael eu cau a bydd yn rhaid i bobl deithio ymhellach i dderbyn eu gwasanaethau. Ychwanegwch at hynny y ffaith bod y gwasanaeth ambiwlans yn parhau i fethu â chyrraedd ei dargedau, ac mae'r rhagolygon yn edrych yn llwm yn wir.

I want to draw attention quickly to two other matters. The report occasionally refers to best practice. It would be helpful in future to receive some examples of good practice from the commissioner, particularly in the public sector, so that we can use these to show what can be done to improve services that are not up to scratch. The other matter relates to a point made in the report about whistleblowers. This is something that I raised some time ago in the Assembly regarding the Welsh Government's policy on whistleblowers revealing important facts about poor, or even appalling, standards of care in hospitals and care homes. Unfortunately, the response that I received related only to the policy as it applied to Welsh Government staff. Therefore, I would now like to make it clear that the Welsh Government needs to issue a statement that it would take very seriously indeed any information from staff that exposes neglect, abuse, or even disrespect from colleagues towards older people in their care.

I make one small plea, really, and it is this: please do not patronise older people. Treat them with the respect that you would expect and treat them with the respect that they deserve.

17:57

Janet Finch-Saunders [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I would like to say how pleasant it is to take part in a debate where everyone has spoken so articulately but with sensitivity about the issue of how we support our older people. It is nice to see that across all political parties in the Chamber.

In my constituency of Aberconwy, roughly one third of all residents are over the age of 60, which is around 37,000 people. It is expected that the number of people over the age of 60 in Aberconwy will rise by 30% by 2025. I know that those demographic changes do not apply only to Aberconwy; there is a similar situation across the whole of Wales.

Mention has been made of Sarah Rochira as the new commissioner. I have to say, in the short time that she has been in the role, what a dynamic ambassador she has been for that role. One thing that I like about her report is that it is clear, concise and it states what needs to be done, what can be done and what will be done about it. Another thing that I also like, and I have raised it many times in the Chamber, is transparency, and there is a lot of mention of transparency of process, which I think is a big plus.

I would like to congratulate Darren Millar and our leader, Andrew Davies, on recognising the need for an older person's champion. I congratulate the other older people's champions and shadow Ministers for older people, because, unless we have these posts in place, we are not being serious in what we say.

Rwyf am dynnu sylw yn gyflym at ddau fater arall. Mae'r adroddiad yn achlysuol yn cyfeirio at arferion gorau. Byddai'n ddefnyddiol yn y dyfodol i dderbyn rhai enghreifftiau o arfer da gan y comisiynydd, yn enwedig yn y sector cyhoeddus, fel y gallwn ddefnyddio'r rhain i ddangos beth ellir ei wneud i wella gwasanaethau nad ydynt yn cyrraedd y safon. Mae'r mater arall yn ymwnaed â phwynt a wnaed yn yr adroddiad am chwythwyr chwiban. Mae hwn yn rhywbeth a godais beth amser yn ôl yn y Cynulliad ynglŷn â pholisi Llywodraeth Cymru ar chwythwyr chwiban yn datgelu ffeithiau pwysig am safonau gofal gwael, neu echrydus hyd yn oed, mewn ysbytai a chartrefi gofal. Yn anffodus, roedd yr ymateb a gefais yn ymwnaed yn unig â'r polisi fel y mae'n berthnasol i staff Llywodraeth Cymru. Felly, byddwn yn awr yn hoffi ei gwneud yn glir bod rhaid i Lywodraeth Cymru gyhoeddi datganiad y byddai'n cymryd o ddifrif yn wir, unrhyw wybodaeth gan staff sy'n datgelu esgeulustod, camdriniaeth, neu hyd yn oed amharchu gan gydweithwyr tuag at bobl hŷn yn eu gofal.

Gwnaf un ple bach, mewn gwirionedd, sef hyn: peidiwch â thrin pobl hŷn yn nawddoglyd. Ymdriniwch â nhw gyda'r parch y byddech chi'n ei ddisgwyl ac ymdriniwch â nhw gyda'r parch y maent yn ei haeddu.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Hoffwn ddweud pa mor ddymunol yw hi i gymryd rhan mewn dadl lle mae pawb wedi siarad mor groyw, ond gyda sensitifrwydd am y mater o sut yr ydym yn cefnogi ein pobl hŷn. Mae'n braf gweld hynny ar draws yr holl bleidau gwleidyddol yn y Siambwr.

Yn fy etholaeth Aberconwy, mae rhwng draean o'r holl drigolion dros 60 oed, sydd tua 37,000 o bobl. Disgwylir y bydd nifer y bobl dros 60 oed yn Aberconwy yn codi gan 30% erbyn 2025. Rwy'n gwybod nad yw'r newidiadau demograffig yn berthnasol i Aberconwy yn unig; mae sefyllfa debyg ar draws Cymru gyfan.

Soniwyd am Sarah Rochira fel y comisiynydd newydd. Rhaid i mi ddweud, yn yr amser byr y mae hi wedi bod yn y swyddogaeth, ei bod wedi bod yn llysgennad deinamig ar gyfer y rôl honno. Un peth yr wyf yn ei hoffi am ei hadroddiad yw ei fod yn glir, yn gryno ac mae'n nodi beth sydd angen ei wneud, beth ellir ei wneud a beth fydd yn cael ei wneud yn ei gylch. Peth arall yr wyf hefyd yn ei hoffi, ac yr wyf wedi ei godi droeon yn y Siambwr, yw tryloywder, ac mae llawer o sôn am dryloywder y broses, yr wyf yn meddwl sy'n fantais fawr.

Hoffwn longyfarch Darren Millar a'n harweinydd, Andrew Davies, ar gydnabod yr angen am hyrwyddwr person hŷn. Rwy'n llonyfarch yr hyrwyddwr pobl hŷn eraill a Gweinidogion pobl hŷn yr wrthblaid, oherwydd, oni bai ein bod yn cael y swyddi hyn ar waith, nid ydym yn bod yn ddifrifol yn yr hyn a ddywedwn.

Matters of concern in my constituency, and those of other Members, include rural transport, because sometimes this is the only connection that older people have to go out and socialise. I have been quite saddened that, in the Chamber, we have heard that the Minister wants to cut back on community transport. As has been proven today, when one is looking to find money for policy, then certainly this is one policy on which I would not like to see cutbacks.

On the digital inclusion of older people, we have had some good funding from the UK Government for broadband. It is vital that we ensure that this benefits our older people, because we are using the internet more and more in public services for things such as paying bills, as well as using it as a medium for giving information and advice. I have a group of Silver Surfers—that is their name—in the Deganwy ward in Aberconwy, and I am going to see them quite soon. It is a thriving and ever-increasing group and I know, from talking to some of the members there, the richness that being able to communicate globally brings to their lives.

The report reads well. It is down to all of us to try to ensure that we have more joined-up services. That is part of the battle now for the commissioner and her staff as we go forward. I am pleased that the Deputy Minister is working on the draft Bill, which will put carers on a safe and sure footing by the end of this year.

I am also pleased that the report has highlighted the right of older people to be cared for with dignity by NHS Wales and other public authorities across Wales. We have all been shocked by some of the examples that the commissioner has had to use about poor treatment and a lack of dignity in our hospitals, as well as the results of the 'Dignified Care?' review, which stated that 31% of respondents were not confident that older people would be treated with dignity and respect in hospital and that 21% either received or knew someone who had received a negative experience in hospital. We need to confine those kinds of experiences to the past.

I am glad that the commissioner is looking at accounts by whistleblowers—this has already been mentioned—as well as the report on health and social care complaints by Cardiff University, to support those who want to raise cases of elder abuse. I note that the commissioner is also asking that the social services Bill includes stronger adult protection. We need to be reassured that cases of elder abuse will be reported quickly and effectively and that older people and their families can feel that they have a strong voice against such abuse.

Mae'r materion sy'n peri pryer yn fy etholaeth i, a rhai Aelodau eraill, yn cynnwys trafnidiaeth wledig, oherwydd weithiau dyma'r unig gysylltiad sydd gan bobl hŷn i fynd allan a chymdeithas. Rwyf wedi fy nhristáu, yn y Siambwr, ein bod wedi clywed bod y Gweinidog yn awyddus i dorri yn ôl ar drafnidiaeth gymunedol. Fel y profwyd heddiw, pan fydd rhywun yn edrych i ddod o hyd i arian ar gyfer polisi, yna yn sicr mae hwn yn bolisi na fyddwn yn hoffi gweld toriadau arno.

O ran cynhwysiant digidol pobl hŷn, rydym wedi cael rhywfaint o arian da gan Lywodraeth y DU ar gyfer band eang. Mae'n hanfodol ein bod yn sicrhau bod hyn o fudd i'n pobl hŷn, oherwydd ein bod yn defnyddio'r rhyngrwyd yn fwy a mwy mewn gwasanaethau cyhoeddus ar gyfer pethau megis talu biliau, yn ogystal â'i ddefnyddio fel cyfrwng ar gyfer rhoi gwybodaeth a chyngor. Mae gen i grŵp o Silver Surfers—dyna yw eu henw—yn ward Deganwy yn Aberconwy, ac rwy'n mynd i'w gweld nhw yn weddol fuan. Mae'n grŵp sy'n ffynnu ac sy'n cynyddu'n barhaus, ac rwy'n gwybod, o siarad â rhai o'r aelodau yno, am y cyfoeth a ddaw i'w bywydau drwy allu cyfathrebu'n fyd-eang.

Mae'r adroddiad yn darllen yn dda. Mae'n rhaid i bob un ohonom geisio sicrhau bod gennym fwy o wasanaethau cydgysylltiedig. Mae hynny'n rhan o'r frwydr yn awr ar gyfer y comisiynydd a'i staff wrth inni symud ymlaen. Rwy'n falch bod y Dirprwy Weinidog yn gweithio ar y Bil drafft, a fydd yn rhoi gofalwyr ar sail ddiogel a sicr erbyn diwedd y flwyddyn hon.

Rwyf hefyd yn falch bod yr adroddiad wedi tynnu sylw at hawl pobl hŷn i gael gofal gydag urddas gan GIG Cymru ac awdurdodau cyhoeddus eraill ledled Cymru. Rydym oll wedi synnu gan rai o'r enghreifftiau y mae'r comisiynydd wedi gorfod eu defnyddio am driniaeth wael a diffyg urddas yn ein hysbytai, yn ogystal â chanlyniadau'r adolygiad 'Gofal gydag Urddas?', a oedd yn datgan nad oedd 31% o'r ymatebwyr yn hyderus y byddai pobl hŷn yn cael eu trin gydag urddas a pharch yn yr ysbyty a bod 21% naill ai wedi cael neu yn adnabod rhywun a oedd wedi cael profiad negyddol yn yr ysbyty. Mae angen i ni gyfyngu'r mathau hynny o brofiadau i'r gorffennol.

Rwy'n falch bod y comisiynydd yn edrych ar hanesion gan chwythwyr chwiban—mae hyn eisoes wedi cael ei grybwylly—yn ogystal ag adroddiad ar iechyd a chwynion gofal cymdeithasol gan Brifysgol Caerdydd, i gefnogi'r rhai sydd am godi achosion o gam-drin yr henoed. Nodaf fod y comisiynydd hefyd yn gofyn bod y Bil gwasanaethau cymdeithasol yn cynnwys amddiffyn oedolion cryfach. Mae angen i ni gael sicrwydd yr adroddir am achosion o gamdriniaeth yn gyflym ac yn effeithiol ac y gall pobl hŷn a'u teuluoedd deimlo bod ganddynt lais cryf yn erbyn camdriniaeth o'r fath.

I am pleased too that the UK Government has implemented a full ban on age discrimination in the provision of goods and services from 2012, and we look forward to that ban coming into play. All too often, age discrimination can bring about poorer services and treatment for older people, especially in the context of healthcare and social care. A ban will help to stamp that out in those public bodies that have no acceptable justification.

Rwy'n falch hefyd bod Llywodraeth y DU wedi gweithredu gwaharddiad llawn ar wahaniaethu ar sail oedran wrth ddarparu nwyddau a gwasanaethau o 2012 ymlaen, ac rydym yn edrych ymlaen at weld y gwaharddiad yn dod i rym. Yn rhy aml, gall gwahaniaethu ar sail oed arwain at wasanaethau a thriniaeth gwaeth ar gyfer pobl hŷn, yn enwedig yng nghyd-destun gofal iechyd a gofal cymdeithasol. Bydd gwaharddiad yn helpu i gael gwared ar hynny yn y cyrff cyhoeddus sydd heb gyflawnhad derbynol.

18:03 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

You must conclude now, please.

Mae'n rhaid i chi ddod i ben yn awr, os gwelwch yn dda.

18:03 **Janet Finch-Saunders** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I welcome the report and I look forward to the cross-party working on the social services Bill as it comes forward this year.

Rwy'n croesawu'r adroddiad, ac rwy'n edrych ymlaen at y gwaith trawsbleidiol ar y Bil gwasanaethau cymdeithasol wrth iddo gael ei gyflwyno eleni.

18:03 **Mark Drakeford** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Mae'r Cynulliad yn ystyried adroddiad blynnyddol y comisiynydd heddiw, a bu modd i'r Pwyllgor lechyd a Gofal Cymdeithasol gynnal ein cyfarfod craffu blynnyddol gyda hi yn gynharach yn yr hydref. Dros y flwyddyn ddiwethaf, daeth nifer o gysylltiadau i'r amlwg rhwng ein gwaith ni fel pwyllgor a gwaith swyddfa'r comisiynydd. Nid yw'n fawr o syndod bod materion iechyd a gofal cymdeithasol yn parhau i fod ar frig y rhestr o broblemau y bydd pobl hŷn yn eu codi gyda'r comisiynydd. Felly'r oedd hi yn ystod y cyfnod pan oedd Ruth Marks yn ymgymryd â dyletswyddau'r comisiynydd, a dyma, o hyd, yw'r maes mwyaf arwyddocaol yng ngwaith y comisiynydd presennol, Sarah Rochira. Rwy'n cytuno'n llwyr gyda phopeth a ddywedodd Darren Millar am waith Ruth Marks ac am ei chyfraniad pwysig i fywydau pobl hŷn yng Nghymru.

The Assembly considers the commissioner's annual report today, and the Health and Social Care Committee was also able to hold our annual scrutiny meeting with her earlier in the autumn. Over the past year, a number of links have emerged between our work as a committee and that of the commissioner's office. It is no great surprise that health and social care issues continue to be high on the list of issues raised with the commissioner by older people in Wales. That was the case during the period in which Ruth Marks undertook the commissioner's duties, and this continues to be the single most significant strand in the work of the current commissioner, Sarah Rochira. I agree entirely with everything that Darren Millar had to say about the work of Ruth Marks and her important contribution to the lives of older people in Wales.

Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae'r pwyllgor wedi ymgymryd â nifer o ddarnau o waith sy'n berthnasol i'r comisiynydd. Y mwyaf amlwg, wrth gwrs, oedd yr ymchwiliad i ofal preswyll i bobl hŷn yng Nghymru. Y comisiynydd oedd y dystynt ymchwiliad i roi dystiolaeth i'r ymchwiliad. I ni, roedd hyn yn fan cychwyn amlwg. Rydym yn edrych ymlaen at weithio'n agos gyda hi i sicrhau bod yr argymhellion yn ein hadroddiad yn cael eu derbyn a'u rhoi ar waith cyn gynted â phosibl.

Over the past year, the committee has undertaken a number of pieces of work that are relevant to the commissioner. The most obvious, of course, has been the inquiry into residential care for older people in Wales. The commissioner was the first witness to give evidence to the inquiry. That was an obvious starting point for us. We look forward to closely collaboration with her to ensure that the recommendations made in our report are accepted and implemented as soon as possible.

Mae adroddiad blynnyddol y comisiynydd yn cyfeirio at yr angen i ddiogelu pobl hŷn sy'n agored i niwed ac sydd wedi cael eu cam-drin. Rydym wedi clywed yr hyn a ddywedodd y Dirprwy Weinidog y prynhawn yma, a disgwyliwn y bydd y Bil gwasanaethau cymdeithasol newydd yn cynnwys trefniadau mwy pendant yn ymwneud ag amddiffyn oedolion. Edrychwn ymlaen at ystyried y mesurau hyn pan gaiff y Bil ei gyflwyno.

The commissioner's annual report refers to the need to protect vulnerable older people who have been victims of abuse. We have heard the Deputy Minister's comments this afternoon, and we expect the new social services Bill to include strengthened arrangements around adult protection. We look forward to considering these measures once the Bill is introduced.

Wrth edrych ymlaen, bydd dau fater a gododd yn ystod ein sesiwn gyda'r comisiynydd yn berthnasol i wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol dros y blynnyddoedd nesaf. Y cyntaf yw'r cynlluniau i ad-drefnu gwasanaethau iechyd yng Nghymru. Tanlinelloedd y comisiynydd ei phenderfyniad i gymryd camau pendant i sicrhau bod gan bobl hŷn lais yn y broses hon ac y bydd y newidiadau sydd ar y gweill yn diwallu eu hanghenion. Yr ail fater yw'r angen parhaus i fynd i'r afael â'r problemau o ran talu am ofal. Mae'r modd rydym yn talu am ofal yn allweddol i'n gallu i ddarparu gwasanaethau o safon i'n pobl hŷn. Rydym yn croesawu ymrwymiad parhaus y comisiynydd i sicrhau y bydd y mater hwn yn parhau i gael sylw a lle blaenllaw yn y ddadl gyhoeddus.

Yn ystod y ddadl y llynedd, awgrymais mai'r ddolen gyswilt yng ngwaith y comisiynydd yw'rffaith ei bod yn mynd i'r afael â materion anghyfforddus: y materion hynny a all, fel arall, gael eu hesgeuluso gan y rhai sydd â'r grym yn ein cymdeithas. Gall y rhain gynnwys y prif sefydliadau yn y sector cyhoeddus, sef y byrddau iechyd lleol, cwmniau corfforaethol rhwngwladol mawr sy'n darparu gofal preswyl, neu'r Gweinidogion yma ac yn Whitehall. Ar sail y dystiolaeth a roddodd i'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, credaf y gallwn fod yn hyderus fod hon yn her y mae'r comisiynydd newydd yn gwbl benderfynol o'i hwynnebu tra bydd yn ei swydd. Edrychwn ymlaen at weithio'n agos gyda hi i fynd i'r afael â'r mater hwn yn ystod y flwyddyn nesaf.

In looking ahead, two matters that arose during our sessions with the commissioner will be crucial in the delivery of health and social care services over the years ahead. The first is the proposed reconfiguration of health services in Wales. The commissioner emphasises her determination to take an active role in ensuring that the voices of older people are heard as part of this process and that the changes that are under way will meet their needs. The second matter is the continuing need to address the problems of paying for care. The question of how we pay for care is key to our ability to deliver high-quality services deserved by our older people. We welcome the commissioner's continued commitment in ensuring that this issue is high on the agenda and is at the forefront of the public debate.

During last year's debate, I suggested that the unifying thread in the work of the commissioner is that she takes on the uncomfortable issues: those issues that might otherwise be neglected by those who occupy positions of power in our society. Those can include major public sector organisations, such as local health boards, large multinational corporations that provide residential care, or Ministers here and in Whitehall. On the basis of the evidence that she gave to the Health and Social Care Committee, I think that we can be confident that this is a challenge that the new commissioner is fully determined to meet during her term in office. We look forward to working closely with her on this agenda over the coming year.

18:08

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Galwaf ar y Dirprwy Weinidog i ymateb i'r ddadl.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I call on the Deputy Minister to respond to the debate.

18:08

Gwenda Thomas [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Diolchaf i bob Aelod sydd wedi cymryd rhan yn y ddadl hon. Fe ddechreuauf gyda chyfraniad Aled Roberts, ac rwy'n rwy'n falch ein bod wedi gallu derbyn ei welliannau.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I thank every Member who has contributed to today's debate. I will start with the contribution of Aled Roberts, and I am pleased that we have been able to accept his amendments.

Aled Roberts has reiterated the need to work together with the commissioner and I am totally supportive of that. A few Members have mentioned elder abuse. On 18 October 2010, I made quite a clear statement about how I saw the way forward with that. I think that the time has come to legislate for protection and safeguarding. We will do that through the Bill. We need that strength of legislation to move that agenda forward.

Mae Aled Roberts wedi aildrodd yr angen i gydweithio gyda'r comisiynydd ac rwy'n gwbl gefnogol i hynny. Mae ychydig Aelodau wedi sôn am gam-drin yr henoed. Ar 18 Hydref 2010, gwneuthum ddatganiad cwbl glir am sut yr wyf yn gweld y ffodd ymlaen gyda hynny. Credaf fod yr amser wedi dod i ddeddfu ar gyfer amddiffyn a diogelu. Byddwn yn gwneud hynny drwy'r Bil. Mae angen y cryfder deddfwriaeth hwnnw arnom i symud yr agenda yn ei blaen.

I welcome Darren Millar's positive remarks about the report and, again, a commitment to work together on the Bill. I endorse the comments that you made about the report. It is right to reflect on the achievements of Ruth Marks and the foundation stones that she laid in building the role of the commissioner. I welcome what you said about independent advocacy. I made it clear in my opening remarks how I see the way forward. It will be a question of resources, but we are absolutely committed to that business plan and we will deliver that, through legislation, with the introduction of the Bill.

Rwy'n croesawu sylwadau cadarnhaol Darren Millar am yr adroddiad ac, unwaith eto, ymrwymiad i weithio gyda'n gilydd ar y Bil. Cymeradwyaf y sylwadau a wnaethoch am yr adroddiad. Mae'n iawn i fyfyrion ar yr hyn a gyflawnodd Ruth Marks a'r cerrig sylfaen a osododd wrth adeiladu rôl y comisiynydd. Croesawaf yr hyn a ddywedasoch am eiriolaeth annibynnol. Fe'i gwneuthum yn glir yn fy sylwadau agoriadol sut yr wyf yn gweld y ffodd ymlaen. Bydd yn gwestiwn o adnoddau, ond rydym yn gwbl ymrwymedig i'r cynllun busnes a byddwn yn cyflawni hynny, drwy ddeddfwriaeth, gyda chyflwyniad y Bil.

I would like to comment on the declaration of rights before I move on. Although we know that this will not have a base in law, we will push for it with other countries. It will send out a positive message, and a message that we need to send out from here. Therefore, I am glad to support that. I cannot be specific about the timeline at the moment, but I hope to be able to do so soon and to come back on that.

Jenny Rathbone talked about dementia and care pathways. There is room to look at innovative ways to deliver the service. The Minister for health and I are working on this, thinking about a possible team in terms of a family approach to dementia. I cannot see why that could not work. I would like to tell Members about my visit last Thursday to Clydach Court residential care home, run by Rhondda Cynon Taf Borough County Council, in Treleaw. If you can go there to see it, please do so, because it runs on the butterfly principle. I have not seen anything quite like it in the delivery of dementia services. The staff there have thrown away their uniforms, everybody was on a par with one another, every resident was dealt with as an individual, with respect and dignity, and you got to know a bit about the residents as you walked along the corridors. I know that I have only about seven minutes, but I could take up all that time talking to you about the provision there. It is the kind of exemplary provision that we need to roll out, and I was glad to see it and to launch the Care and Social Services Inspectorate Wales report in that home.

Lindsay Whittle gave an impassioned welcome to the report. I really liked what you said, and perhaps it was the most important thing to say today, namely that it is about real people. You put that across very well. You also mentioned abuse, but I think that I have covered my response on that. Digital inclusion and respect are absolutely on the top of the agenda.

Janet Finch-Saunders was complimentary again about Sarah Rochira's report and mentioned older people's champions across parties, with one for each of us. Why not? That is a positive way forward. We are all getting older—I am today, actually [Laughter.]—but, nevertheless, it is a privilege to age and to be able to contribute to society. There are excellent examples of that.

Hoffwn wneud sylwadau ar y datganiad o hawliau cyn i mi symud ymlaen. Er ein bod yn gwybod na fydd hyn yn cael sylfaen yn y gyfraith, byddwn yn pwysio amdanu gyda gwledydd eraill. Bydd yn anfon neges gadarnhaol, a neges y mae angen i ni ei hanfon allan oddi yma. Felly, rwy'n falch i gefnogi hynny. Ni allaf fod yn benodol ynghylch y llinell amser ar hyn o bryd, ond rwy'n gobethio gallu gwneud hynny cyn bo hir ac i ddod yn ôl ar hynny.

Soniodd Jenny Rathbone am dementia a llwybrau gofal. Mae lle i edrych ar ffyrdd arloesol o ddarparu'r gwasanaeth. Mae'r Gweinidog iechyd a minnau yn gweithio ar hyn, yn meddwl am dim posibl o ran ymagwedd deulu at dementia. Ni allaf weld pam na allai hynny weithio. Hoffwn ddweud wrth yr Aelodau am fy ymweliad ddydd lau diwethaf â Chlydach Court, cartref gofal preswyl, sy'n cael ei redeg gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, yn Nhrealaw. Os allwch chi fynd yno i'w weld, gwnewch hynny, oherwydd y mae'n rhedeg ar yr egwyddor glöyn byw. Nid wyf wedi gweld dim byd holol debyg iddo o ran darparu gwasanaethau dementia. Mae'r staff yno wedi cael gwared ar eu hiwniiform, roedd pawb yn gydradd â'i gilydd, roedd pob preswylydd yn cael ei drin fel unigolyn, gyda pharch ac urddas, ac roeddech yn dod i wybod ychydig am y trigolion wrth i chi gerdded ar hyd y coridorau. Gwn mai dim ond tua saith munud, sydd gennyl ond gallwn gymryd yr holl amser yn siarad â chi am y ddarpariaeth yno. Dyma'r math o ddarpariaeth ragorol y mae angen i ni ei chyflwyno, ac roeddwn yn falch o weld hynny ac i lansio adroddiad Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru yn y cartref hwnnw.

Rhoddodd Lindsay Whittle groeso angerddol i'r adroddiad. Roeddwn yn hoffi'r hyn a ddywedasoch yn fawr, ac efallai mai dyna oedd y peth pwysicaf a ddywedwyd heddiw, sef ei fod yn ymneud â phobl go iawn. Roeddech yn mynegi hynny'n dda iawn. Soniasoch hefyd am gamdriniaeth, ond rwy'n meddwl fy mod wedi rhoi sylw i fy ymateb ar hynny. Mae cynhwysiant digidol a pharch ar frig yr agenda yn holol.

Roedd Janet Finch-Saunders eto'n canmol adroddiad Sarah Rochira a soniodd am hyrwyddwyr pobl hŷn ar draws y pleidiau, gydag un ar gyfer bob un ohonom. Pam lai? Mae hynny'n ffordd gadarnhaol ymlaen. Rydym i gyd yn mynd yn hŷn—rwyf i heddiw, mewn gwirionedd [Chwerthin.]—Ond, serch hynny, mae'n faint i fynd yn hŷn a gallu cyfrannu at gymdeithas. Mae enghreifftiau gwych o hynny.

16:13

Nick Ramsay [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I am grateful to you for giving way—I feel that I am getting older too. Do you agree that, with an ageing population, each and every one of us should aim to be an older people's champion, because although legislation is a good thing, with an ageing population, unless we are all vigilant and keep an eye on older people living in our streets and towns, we will not get to where we want to with this?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Rwy'n ddiolchgar ichi am ildio—rwy'n teimlo fy mod yn mynd yn hŷn hefyd. A ydych yn cytuno, gyda phoblogaeth sy'n heneiddio, y dylai pob un ohonom anelu i fod yn hyrwyddwr pobl hŷn, oherwydd er bod deddfwriaeth yn beth da, gyda phoblogaeth sy'n heneiddio, oni bai ein bod yn wyliadwrus i gyd ac yn cadw llygad ar bobl hŷn sy'n byw yn ein strydoedd a'n trefi, ni fyddwn yn cyrraedd lle'r ydym am fod o ran hyn?

18:13

Gwenda Thomas [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I absolutely agree with that. We see children and grandchildren being older people's champions; often, perhaps they are the best champions. However, I endorse and take on board that comment.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Rwy'n cytuno'n llwyr â hynny. Rydym yn gweld plant ac wyrion yn bod yn hyrwyddwyr pobl hŷn; yn aml, efallai am mai nhw yw'r pencampwyr gorau. Fodd bynnag, rwy'n cymeradwyo ac yn cytuno â'r sylw hwnnw.

Janet Finch-Saunders made reference to carers. We have legislated for the carers' strategies, and Wales is leading on this with the involvement of carers in policy development and in individual plans. I have now had seven strategies with which I am happy; there are three more to go. I will update Members on the strategies that have come to hand.

Mark Drakeford, roeddech yn sôn am y gwasanaeth iechyd a'r gwasanaethau cymdeithasol a'r angen iddynt weithio ar y cyd. Mae hynny'n hollbwysig i'r agenda sydd o'n blaen, fel mae ystyried bod y gwasanaethau hyn ar y brig, fel y dywedoch. Maent yn bwysig i bobl sy'n heneiddio, ond maent yn bwysig i'r bobl sy'n dod ar ein hôl hefyd, oherwydd bydd hwn yn fater teuluol ac unigol i bob un ohonom. Roeddech yn sôn am waith y pwylgor a'i ymchwiliad i ofal preswyl, sydd yn waith y gallwn i gyd elwa ohono. Byddaf yn ymateb i'r adroddiad hwnnw gan y pwylgor.

Rydych yn sôn am ddiogelu pobl hŷn. Fel y dywedais, mae angen sêl deddfwriaeth ar yr agenda honno, a byddwn yn gwneud ein gorau i ddiogelu ac amddiffyn pobl hŷn yn well drwy'r Bil. Wrth gwrs, mae'r Bil hefyd er lles pobl hŷn. Ar y mater o dalu am ofal, mae hwn yn fater y mae'n rhaid inni symud ymlaen arno. Rydym wedi cael adroddiad Dilnot, ac rwyf yn aros am gyfarfod gyda Norman Lamb AS. Rydym hefyd yn aros am adroddiad ar waith y pwylgor arbennig a sefydlwyd yn y Cynulliad, er mwyn i mi gael cyflwyno adroddiad i Aelodau ar y mater hwnnw.

I am very grateful to Members for the support that they have given to the commissioner since she came into post, and for the interesting debate that we have had today. The commissioner's commitment to engaging with as many older people as possible is clear. Her role as an independent champion of older people's rights and interests is crucial in our changing society, especially in view of the austerity that we all know that we face. Therefore, I commend the commissioner's report and thank her and her team for their work. I also thank all Members once again for what I think has been a positive debate.

Cyfeiriodd Janet Finch-Saunders at ofalwyr. Rydym wedi deddfu ar strategaethau gofalfywyr, ac mae Cymru'n arwain ar hyn gyda chyfranogiad gofalfywyr wrth ddatblygu polisi ac mewn cynlluniau unigol. Erbyn hyn rwyf wedi cael saith strategaeth yr wyf yn hapus â nhw; mae tri arall ar ôl. Byddaf yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i Aelodau ar y strategaethau sydd wedi dod i law.

Mark Drakeford, you talked about health and social services and the need for them to collaborate. That is crucial to the agenda that is ahead of us, as is considering that these services are top-class, as you said. They are important for people who are ageing, but they are important for the people who come after us as well, because this will be a family matter as well as an individual matter for us all. You referred to the work of the committee and its inquiry into residential care, which is work from which we can all benefit. I will respond to that report from the committee.

You mentioned safeguarding older people. As I have said, we need the seal of legislation on this agenda, and we will do our utmost to safeguard and protect older people through the Bill. Of course, this Bill will be for the benefit of older people. On the issue of paying for care, this is a matter that we need to progress. We have the Dilnot report and I am awaiting a meeting with Norman Lamb MP. We are also waiting for the report of the special committee established in the Assembly, so that I can then report back to the Assembly on the matter.

Rwy'n ddiochgar i'r Aelodau am y gefnogaeth y maent wedi'i rhoi i'r comisiynydd ers iddi ddechrau ar ei swydd, ac am y ddadl ddiddorol yr ydym wedi'i chael heddiw. Mae ymrwymiad y comisiynydd i ymgysylltu â chymaint o bobl hŷn â phosibl yn glir. Mae ei rôl fel hyrwyddwr annibynnol ar hawliau a buddiannau pobl hŷn yn hanfodol yn ein cymdeithas sy'n newid, yn enwedig o ystyried y llymder yr ydym i gyd yn gwybod ein bod yn ei wynebu. Felly, cymeradwyaf adroddiad y comisiynydd ac rwy'n diolch iddi hi a'i thîm am eu gwaith. Hoffwn ddioch hefyd i'r holl Aelodau unwaith eto am yr hyn y credaf sydd wedi bod yn dadl gadarnhaol.

18:16

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 1. A oes unrhyw wrthwnebiad? Gwelaf nad oes. Felly, derbynwyd gwelliant 1, yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

The question is that amendment 1 be agreed. Are there any objections? I see that there are none, therefore amendment 1 is agreed in accordance with Standing Order No. 12.36.

Derbynwyd y gwelliant.

Amendment agreed.

18:16

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 2. A oes unrhyw wrthwnebiad? Gwelaf nad oes. Felly, derbynwyd gwelliant 2, yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 12.36.

The question is that amendment 2 be agreed. Are there any objections? I see that there are none, therefore amendment 2 is agreed in accordance with Standing Order No. 12.36.

Derbynwyd y gwelliant.

Amendment agreed.

18:16

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 3. A oes unrhyw wrthwynebiad? Gwelaf nad oes. Felly, derbyniwyd gwelliant 3, yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

The question is that amendment 3 be agreed. Are there any objections? I see that there are none, therefore amendment 3 is agreed in accordance with Standing Order No. 12.36.

Derbyniwyd y gwelliant.

Amendment agreed.

Cynnig NDM5141 fel y'i diwygiwyd:

Motion NDM5141 as amended:

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

To propose that the National Assembly for Wales:

Yn nodi adroddiad y Comisiynydd Pobl Hŷn ar gyfer 2011-12, y gosodwyd copi ohono yn y Swyddfa Gyflwyno ar 10 Ionawr 2013.

Notes the report of the Commissioner for Older People for 2011/12, a copy of which was laid in Table Office on 10 January 2013.

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i weithio'n agosach gyda Chomisiynydd Pobl Hŷn Cymru i ddatblygu'r Strategaeth ar gyfer Pobl Hŷn yng Nghymru (Cam 3).

Calls on the Welsh Government to work more closely with the Older People's Commissioner for Wales in the development of the Strategy for Older People in Wales (Phase 3).

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i ddatblygu dulliau clir o fonitro urddas a gofal i bobl hŷn o ganlyniad i 'Gwneud yn Dda, Gwneud yn Well – Safonau ar gyfer Gwasanaethau lechyd Cymru'.

Calls on the Welsh Government to develop clear mechanisms to monitor the dignity and care of older people as a result of the 'Doing Well, Doing Better – Standards for Health Services in Wales'.

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i ymateb i'r argymhellion yn yr adroddiad 'Llais, Dewis a Rheolaeth' i ddatblygu gwasanaeth eirioli cadarn ac annibynnol ar gyfer pobl hŷn yng Nghymru.

Calls on the Welsh Government to respond to the recommendations within the 'Voice, Choice and Control' report to develop a strong, independent advocacy service for older people in Wales.

18:07

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Y cwestiwn yw, a ddylid derbyn y cynnig fel y'i diwygiwyd. A oes unrhyw wrthwynebiad? Gwelaf nad oes. Felly, derbyniwyd y cynnig fel y'i diwygiwyd, yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

The question is that the motion as amended be agreed. Are there any objections? I see that there are none, therefore the motion as amended is agreed in accordance with Standing Order No. 12.36.

Derbyniwyd cynnig NDM5141 fel y'i diwygiwyd.

Motion NDM5141 as amended agreed.

18:17

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

That concludes today's business.

Dyna ddiwedd ein trafodion heddiw.

Daeth y cyfarfod i ben am 6.17 p.m.

The meeting ended at 6.17 p.m.